OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2018 Rhif 1064 (Cy. 223)

# IECHYD PLANHIGION, CYMRU

## Gorchymyn Iechyd Planhigion (Cymru) 2018

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *9 Hydref 2018* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -* | *11 Hydref 2018* |
| *Yn dod i rym - -* | *2 Tachwedd 2018* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn hwn drwy arfer—

(a) y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 2 a 3 o Ddeddf Iechyd Planhigion 1967(**1**), ac i'r Gweinidog Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd gan adran 4(1) o'r Ddeddf honno, a freinir bellach ynddynt hwy(**2**); a

(b) y pwerau a roddir gan baragraff 1A o Atodlen 2 i Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972(**3**).

Mae'r Gorchymyn hwn yn gwneud darpariaeth at ddiben a grybwyllir yn adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972(**4**). Ymddengys i Weinidogion Cymru ei bod yn hwylus i'r cyfeiriadau at offerynnau'r Undeb Ewropeaidd y cyfeirir atynt yn erthygl 2(5) gael eu dehongli fel cyfeiriadau at yr offerynnau hynny fel y'u diwygir o bryd i'w gilydd.

(**1**) 1967 p. 8; diwygiwyd adran 2 gan baragraff 8(2)(a) o Atodlen 4 i Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972 (p. 68), Rhan 1 o'r tabl ym mharagraff 12 o Atodlen 4 i Ddeddf Rheoli Tollau Tramor a Chartref 1979 (p. 2), O.S. 1990/2371 ac O.S. 2011/1043. Diwygiwyd adran 3(1) gan baragraff 8(2)(a) a (b) o Atodlen 4 i Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972 ac O.S. 2011/1043. Amnewidiwyd adran 3(4) gan adran 42 o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 1982 (p. 48) ac fe'i diwygiwyd gan Ran 14 o Atodlen 1 i Ddeddf Cyfraith Statud (Diddymiadau) 1993 (p. 50). Diwygiwyd adran 4(1) gan baragraff 8(3) o Atodlen 4 i Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972. Mae'r pwerau a roddir gan adrannau 2 a 3 yn cael eu rhoi i "competent authority" ("awdurdod cymwys") a ddiffinnir yn adran 1(2). Diwygiwyd adran 1(2) gan baragraff 43 o Atodlen 2 i O.S. 2013/755 (Cy. 90). Mae adran 1(2), fel y'i diwygiwyd, yn darparu mai'r awdurdod cymwys ar gyfer Cymru yw Gweinidogion Cymru.

(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Gweinidog Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd o dan Ddeddf Iechyd Planhigion 1967, i'r graddau yr oeddent yn arferadwy o ran Cymru, i'r Ysgrifennydd Gwladol gan erthygl 2 o Orchymyn Trosglwyddo Swyddogaethau (Cymru) (Rhif 1) 1978 (O.S. 1978/272) ac Atodlen 1 iddo. Trosglwyddwyd y swyddogaethau hynny o'r Ysgrifennydd Gwladol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac Atodlen 1 iddo. Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Weinidogion Cymru gan adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi.

(**3**) 1972 p. 68. Mewnosodwyd paragraff 1A o Atodlen 2 gan adran 28 o Ddeddf Diwygio Deddfwriaethol a Rheoleiddiol 2006 (p. 51).

(**4**) Diwygiwyd adran 2(2) gan adran 27(1)(a) o Ddeddf Diwygio Deddfwriaethol a Rheoleiddiol 2006 a Rhan 1 o'r Atodlen i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Diwygio) 2008 (p. 7).

# RHAN 1

## Cyffredinol

### Enwi, cychwyn a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Iechyd Planhigion (Cymru) 2018.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru a daw i rym ar 2 Tachwedd 2018.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** Ergl. 1 mewn grym ar 2.11.2018, gweler **ergl. 1(2)**

### Dehongli cyffredinol

**2.**—(1) Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "ardal Ewrop a Môr y Canoldir" ("*Euro-Mediterranean area*") yw'r ardal ddaearyddol sy'n cynnwys Ewrop, Algeria, yr Aifft, Israel, Gwlad yr Iorddonen, Libanus, Libya, Moroco, Syria, Tunisia a'r ardal o Dwrci i'r dwyrain o Gulfor Bosphorus o'r enw Anatolia;

ystyr "arolygydd" ("*inspector*") yw unrhyw berson sydd wedi ei awdurdodi gan Weinidogion Cymru i fod yn arolygydd at ddibenion y Gorchymyn hwn;

ystyr "Atodiad II Rhan B" ("*Annex II Part B*") yw Rhan B o Atodiad II i Gyfarwyddeb 2000/29/EC;

ystyr "Atodiad IV Rhan A" ("*Annex IV Part A*") yw Rhan A o Atodiad IV i Gyfarwyddeb 2000/29/EC;

ystyr "Atodiad IV Rhan B" ("*Annex IV Part B*") yw Rhan B o Atodiad IV i Gyfarwyddeb 2000/29/EC;

ystyr "Clefyd y ddafaden tatws" ("*Potato wart disease*") yw naill ai'r clefyd tatws a achosir gan y ffwng *Synchytrium endobioticum* (Schilbersky) Percival neu'r ffwng hwnnw, fel y bo'r cyd-destun yn mynnu;

ystyr "cofrestr" ("*register*") yw'r gofrestr o fasnachwyr planhigion a gedwir o dan erthygl 25(1);

ystyr "cofrestredig" ("*registered*") mewn perthynas â masnachwr planhigion, yw masnachwr y mae ei fanylion wedi eu rhestru yn y gofrestr, ac mae "cofrestru" ("*registration*") i'w ddehongli yn unol â hynny:

ystyr "corff swyddogol cyfrifol" ("*responsible official body*") yw naill ai'r corff a ddisgrifir ym mharagraff (i) neu gorff a ddisgrifir ym mharagraff (ii) o Erthygl 2(1)(g) o Gyfarwyddeb 2000/29/EC;

ystyr "CRhWP" ("*IPPC*") yw Confensiwn Rhyngwladol ar Warchod Planhigion 1951(**5**);

ystyr "Cyfarwyddeb 93/85/EEC" ("*Directive 93/85/EEC*") yw Cyfarwyddeb y Cyngor 93/85/EEC ynglŷn â rheoli pydredd cylch tatws(**6**);

ystyr "Cyfarwyddeb 98/57/EC" ("*Directive 98/57/EC*") yw Cyfarwyddeb y Cyngor 98/57/EC ynglŷn â rheoli *Ralstonia solanacearum* (Smith) Yabuuchi *et al*.(**7**);

(**5**) Mabwysiadwyd ym 1951 (Cyfres Cytuniadau Rhif 16 (1954), Cmd 9077) ac fe'i diwygiwyd ddiwethaf ym 1997 (Cyfres Amrywiol Rhif 15 (2003), Cmd 5945).
(**6**) OJ Rhif L 259, 18.10.1993, t. 1, fel y'i diwygiwyd gan Gyfarwyddeb y Comisiwn 2006/56/EC (OJ Rhif L 182, 4.7.2006, t. 1).
(**7**) OJ Rhif L 235, 21.8.1998, t. 1, fel y'i diwygiwyd gan Gyfarwyddeb y Comisiwn 2006/63/CE (OJ Rhif L 206, 27.7.2006, t. 36).

ystyr "Cyfarwyddeb 2000/29/EC" ("*Directive 2000/29/EC*") yw Cyfarwyddeb y Cyngor 2000/29/EC ar fesurau gwarchod yn erbyn cyflwyno organeddau sy'n niweidiol i blanhigion neu gynhyrchion planhigion i'r Gymuned ac yn erbyn eu lledaenu o fewn y Gymuned(**8**);

ystyr "Cyfarwyddeb 2007/33/EC" ("*Directive 2007/33/EC*") yw Cyfarwyddeb y Cyngor 2007/33/EC ar reoli llyngyr tatws ac sy'n diddymu Cyfarwyddeb 69/465/EEC(**9**);

ystyr "Cyfarwyddeb 2008/61/EC" ("*Directive 2008/61/EC*") yw Cyfarwyddeb y Comisiwn 2008/61/EC sy'n pennu'r amodau lle caniateir i organeddau niweidiol, planhigion, cynhyrchion planhigion a gwrthrychau eraill penodol a restrir yn Atodiadau I i V i Gyfarwyddeb y Cyngor 2000/29/EC gael eu cyflwyno i'r Gymuned neu eu symud o fewn y Gymuned neu barthau gwarchod penodol ohoni, at ddibenion treialu neu ddibenion gwyddonol ac ar gyfer gwaith ar ddetholiadau amrywogaethol(**10**);

ystyr "cynhyrchydd" ("*producer*"), mewn perthynas â deunydd perthnasol, yw person sy'n tyfu neu'n gwneud y deunydd wrth fasnachu neu redeg busnes;

mae i "cynnyrch planhigion" yr un ystyr ag a roddir i "plant product" yn Erthygl 2(1)(b) o Gyfarwyddeb 2000/29/EC;

ystyr "cytundeb tramwy UE" ("*EU transit agreement*") yw cytundeb o fewn ystyr erthygl 12(4) neu (5);

ystyr "datganiad swyddogol" ("*official statement*") yw datganiad a ddyroddir gan swyddog awdurdodedig neu ddatganiad a gynhwysir mewn pasbort planhigion;

ystyr "De America" ("*South America*") yw'r ardal ddaearyddol sy'n cynnwys Ariannin, Bolivia, Brasil, Chile, Colombia, Ecuador, Guyana Ffrengig, Guyana, Paraguay, Periw, Suriname, Uruguay a Venezuela;

ystyr "deunydd perthnasol" ("*relevant material*") yw unrhyw blanhigyn, unrhyw gynnyrch planhigyn, unrhyw bridd neu unrhyw gyfrwng tyfu;

ystyr "dogfen symud iechyd planhigion" ("*plant health movement document*") yw dogfen sy'n bodloni'r gofynion yn Atodlen 12;

ystyr "dogfennaeth swyddogol" ("*official documentation*") yw dogfennaeth a ddyroddir gan gorff swyddogol cyfrifol yr Aelod-wladwriaeth y dyroddir y ddogfennaeth ynddi, neu gyda'i awdurdod;

ystyr "y Ddeddf Dollau" ("*the Customs Act*") yw Deddf Rheoli Tollau Tramor a Chartref 1979(**11**);

mae "Ewrop" ("*Europe*") yn cynnwys Belarus, yr Ynysoedd Dedwydd, Georgia, Kazakhstan (ac eithrio'r ardal i'r dwyrain o afon Ural), Rwsia (ac eithrio rhanbarthau Tyumen, Chelyabinsk, Irkutsk, Kemerovo, Kurgan, Novossibirsk, Omsk, Sverdlovsk, Tomsk, Chita, Kamchatka, Magadan, Amur a Skhalin, tiriogaethau Krasnoyarsk, Altay, Khabarovsk a Primarie, a gweriniaethau Sakha, Tuva a Buryatia), Ukrain a Thwrci (ac eithrio'r ardal i'r dwyrain o Gulfor Bosphorus o'r enw Anatolia);

ystyr "ffrwythau" ("*fruit*") yw ffrwythau yn yr ystyr botanegol ond nid yw'n cynnwys ffrwythau wedi eu sychu, eu dadhydradu, eu lacro neu eu dwys-rewi;

ystyr "ffrwythau sitrws ar gyfer eu prosesu" ("*citrus fruits for processing*") yw ffrwythau *Citrus* L., *Fortunella* Swingle, *Poncirus* Raf., *Microcitrus* Swingle, *Naringi* Adans., neu

(**8**) OJ Rhif L 169, 10.7.2000, t. 1, fel y'i diwygiwyd gan Gyfarwyddeb Gweithredu'r Comisiwn (EU) 2017/1279 (OJ Rhif L 184, 15.7.2017, t. 33).
(**9**) OJ Rhif L 156, 16.6.2007, t. 12.
(**10**) OJ Rhif L 158, 18.6.2008, t. 41.
(**11**) 1979 p. 2, fel y'i diwygiwyd gan Rannau 1 a 2 o Atodlen 4 i Ddeddf Cyllid 1984 (p. 43); mae diwygiadau eraill ond nid oes yr un ohonynt yn berthnasol.

*Swinglea* Merr., sy'n tarddu o drydedd wlad ac sydd wedi eu bwriadu ar gyfer eu prosesu'n ddiwydiannol yn sudd yn yr Undeb Ewropeaidd;

ystyr "Gogledd America" ("*North America*") yw'r ardal ddaearyddol sy'n cynnwys Canada, Mecsico ac UDA;

ystyr "gwiriad iechyd planhigion" ("*plant health check*") yw archwiliad a gynhelir o dan erthygl 12(2);

ystyr "hadau" ("*seed*") yw hadau yn yr ystyr botanegol ac eithrio hadau nas bwriedir ar gyfer eu plannu;

ystyr "label swyddogol" ("*official label*") yw label sy'n bodloni'r gofynion perthnasol a nodir yn Rhan A neu B o Atodlen 9, a ddyroddir gan gorff swyddogol cyfrifol yr Aelod-wladwriaeth y dyroddir y label swyddogol ynddi, neu gyda'i awdurdod;

mae i "llwyth" yr un ystyr ag a roddir i "consignment" yn Erthygl 2(1)(p) o Gyfarwyddeb 2000/29/EC pan fo'r term hwnnw'n cael ei ddefnyddio yn Rhan 2 neu mewn perthynas ag unrhyw ddeunydd perthnasol y cyfeirir ato yn y Rhan honno;

ystyr "Llyngyr tatws" ("*Potato cyst nematode*") yw unrhyw lyngyr sy'n ffurfio systiau o'r rhywogaeth *Globodera pallida* (Stone) Behrens neu *Globodera rostochiensis* (Wollenweber) Behrens sy'n heigio ac yn lluosogi ar datws ac unrhyw fathau neu bathofathau o lyngyr o'r fath;

ystyr "man cynhyrchu" ("*place of production*") yw unrhyw fangre, a weithredir fel uned fel rheol, ynghyd ag unrhyw dir cyffiniol o dan yr un berchnogaeth neu feddiannaeth â'r fangre honno;

mae "mangre" ("*premises*") yn cynnwys unrhyw dir, adeilad, cerbyd, llestr, awyren, hofranfad, cynhwysydd llwyth neu wagen reilffordd;

ystyr "masnachwr planhigion" ("*plant trader*") yw—

(a) mewnforiwr deunydd perthnasol;

(b) cynhyrchydd deunydd perthnasol;

(c) person sydd â gofal am fangre a ddefnyddir i storio, i gasglu ynghyd neu i anfon allan lwythi o ddeunydd perthnasol; neu

(d) person sydd, wrth fasnachu neu redeg busnes, yn rhannu neu'n cyfuno llwythi o ddeunydd perthnasol;

ystyr "meithrinfa" ("*nursery*") yw mangre a ddefnyddir yn gyfan gwbl neu'n rhannol i dyfu neu i gadw planhigion at ddiben eu trawsblannu neu eu symud i fangre arall;

mae "mewnforiwr" ("*importer*"), mewn perthynas ag unrhyw bla planhigion neu ddeunydd perthnasol ar unrhyw adeg rhwng ei lanio o drydedd wlad a'r adeg y caiff ei ollwng gan arolygydd o dan y Gorchymyn hwn, yn cynnwys unrhyw berchennog neu berson arall sydd am y tro yn meddu ar y pla planhigion neu'r deunydd perthnasol neu sydd â buddiant llesiannol ynddo;

ystyr "nwyddau tramwy yr UE" ("*EU transit goods*") yw unrhyw ddeunydd perthnasol y deuir ag ef i Gymru o drydedd wlad drwy ran arall o'r Undeb Ewropeaidd;

ystyr "parth gwarchod" ("*protected zone*") yw Aelod-wladwriaeth neu ardal o fewn Aelod-wladwriaeth a gydnabyddir fel parth gwarchod sy'n agored i risgiau iechyd planhigion neilltuol at ddibenion Cyfarwyddeb 2000/29/EC, fel y'i rhestrir yn Atodiad I i Reoliad (EC) Rhif 690/2008;

ystyr "pasbort planhigion" ("*plant passport*") yw label a, phan fo hynny'n briodol, ddogfen sy'n mynd gydag ef, sy'n bodloni'r gofynion perthnasol a nodir yn Rhan A neu B o Atodlen 9, a ddyroddir gan gorff swyddogol cyfrifol yr Aelod-wladwriaeth y dyroddir y pasbort planhigion ynddi, neu gyda'i awdurdod, ac mae'n cynnwys pasbort planhigion amnewid;

ystyr "pasbort planhigion y Swistir" ("*Swiss plant passport*") yw label a, phan fo hynny'n briodol, ddogfen sy'n mynd gydag ef, a ddyroddir yn y Swistir yn unol â deddfwriaeth y Swistir ac sydd—

(a) yn cynnwys gwybodaeth sy'n rhoi tystiolaeth y cydymffurfiwyd â deddfwriaeth yn y Swistir sy'n ymwneud â safonau iechyd planhigion a gofynion arbennig ar gyfer deunydd perthnasol sy'n symud i'r Swistir ac o fewn y Swistir; a

(b) yn ymwneud â deunydd perthnasol a restrir yn Rhan A o Atodlen 8;

ystyr "Penderfyniad 2002/757/EC" ("*Decision 2002/757/EC*") yw Penderfyniad y Comisiwn 2002/757/EC ar fesurau ffytoiechydol brys dros dro i atal cyflwyno i'r Gymuned a lledaenu o fewn y Gymuned *Phytophthora ramorum* Werres, De Cock a Man in't Veld sp. nov(**12**);

ystyr "Penderfyniad 2004/416/EC" ("*Decision 2004/416/EC*") yw Penderfyniad y Comisiwn 2004/416/EC ar fesurau brys dros dro mewn cysylltiad â ffrwythau sitrws penodol sy'n tarddu o Ariannin neu Frasil(**13**);

ystyr "Penderfyniad 2006/473/EC" ("*Decision 2006/473/EC*") yw Penderfyniad y Comisiwn 2006/473/EC sy'n cydnabod bod trydydd gwledydd penodol ac ardaloedd penodol o drydydd gwledydd yn rhydd rhag *Xanthomonas campestris* (pob math sy'n bathogenig i Sitrws), *Cercospora angolensis* Carv et Mendes a *Guignardia citricarpa* Kiely (pob math sy'n bathogenig i Sitrws)(**14**);

ystyr "Penderfyniad 2007/365/EC" ("*Decision 2007/365/EC*") yw Penderfyniad y Comisiwn 2007/365/EC ar fesurau brys i atal cyflwyno i'r Gymuned a lledaenu o fewn y Gymuned *Rhynchophorus ferrugineus* (Olivier)(**15**);

ystyr "Penderfyniad 2007/433/EC" ("*Decision 2007/433/EC*") yw Penderfyniad y Comisiwn 2007/433/EC ar fesurau brys dros dro i atal cyflwyno i'r Gymuned a lledaenu o fewn y Gymuned *Gibberella circinata* Nirenberg ac O'Donnell(**16**);

ystyr "Penderfyniad 2012/138/EU" ("*Decision 2012/138/EU*") yw Penderfyniad Gweithredu'r Comisiwn 2012/138/EU o ran mesurau brys i atal cyflwyno i'r Undeb a lledaenu o fewn yr Undeb *Anoplophora chinensis* (Forster)(**17**);

ystyr "Penderfyniad 2012/270/EU" ("*Decision 2012/270/EU*") yw Penderfyniad Gweithredu'r Comisiwn 2012/270/EU o ran mesurau brys i atal cyflwyno i'r Undeb a lledaenu o fewn yr Undeb *Epitrix cucumeris* (Harris), *Epitrix papa* sp.n, *Epitrix subcrinita* (Lec.) ac *Epitrix tuberis* (Gentner)(**18**);

ystyr "Penderfyniad 2012/697/EU" ("*Decision 2012/697/EU*") yw Penderfyniad Gweithredu'r Comisiwn 2012/697/EU o ran mesurau i atal cyflwyno i'r Undeb a lledaenu o fewn yr Undeb y genws *Pomacea* (Perry)(**19**);

ystyr "Penderfyniad 2014/422/EU" ("*Decision 2014/422/EU*") yw Penderfyniad Gweithredu'r Comisiwn 2014/422/EU sy'n nodi mesurau mewn cysylltiad â ffrwythau sitrws penodol sy'n

(**12**) OJ Rhif L 252, 20.9.2002, t. 37, fel y'i diwygiwyd gan Benderfyniad Gweithredu'r Comisiwn 2013/782/EU (OJ Rhif L 346, 20.12.2013, t. 69).
(**13**) OJ Rhif L 151, 30.4.2004, t. 76, fel y'i diwygiwyd gan Benderfyniad Gweithredu'r Comisiwn 2013/67/EU (OJ Rhif L 31, 31.1.2013, t. 75).
(**14**) OJ Rhif L 187, 8.7.2006, t. 35, fel y'i diwygiwyd gan Benderfyniad Gweithredu'r Comisiwn (EU) 2015/1175 (OJ Rhif L 189, 17.7.2015, t. 39).
(**15**) OJ Rhif L 139, 31.5.2007, t. 24, fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Benderfyniad y Comisiwn 2010/467/EU (OJ Rhif L 226, 28.8.2010, t. 42).
(**16**) OJ Rhif L 161, 22.6.2007, t. 66.
(**17**) OJ Rhif L 64, 3.3.2012, t. 38, fel y'i diwygiwyd gan Benderfyniad Gweithredu'r Comisiwn 2014/356/EU (OJ Rhif L 175, 14.6.2014, t. 38).
(**18**) OJ Rhif L 132, 23.5.2012, t. 18, fel y'i diwygiwyd gan Benderfyniad Gweithredu'r Comisiwn 2014/679/EU (OJ Rhif L 283, 27.9.2014, t. 61).
(**19**) OJ Rhif L 311, 10.11.2012, t. 14.

tarddu o Dde Affrica i atal cyflwyno i'r Undeb a lledaenu o fewn yr Undeb *Phyllosticta citricarpa* (McAlpine) Van der Aa(**20**);

ystyr "Penderfyniad (EU) 2015/789" ("*Decision (EU) 2015/789*") yw Penderfyniad Gweithredu'r Comisiwn (EU) 2015/789 o ran mesurau i atal cyflwyno i'r Undeb a lledaenu o fewn yr Undeb *Xylella fastidiosa* (Wells et al.)(**21**);

ystyr "Penderfyniad (EU) 2015/893" ("*Decision (EU) 2015/893*") yw Penderfyniad Gweithredu'r Comisiwn (EU) 2015/893 o ran mesurau i atal cyflwyno i'r Undeb a lledaenu o fewn yr Undeb *Anoplophora glabripennis* (Motschulsky)(**22**);

ystyr "Penderfyniad (EU) 2016/715" ("*Decision (EU) 2016/715*") yw Penderfyniad Gweithredu'r Comisiwn (EU) 2016/715 sy'n nodi mesurau o ran ffrwythau penodol sy'n tarddu o drydydd gwledydd penodol i atal cyflwyno i'r Undeb a lledaenu o fewn yr Undeb yr organedd niweidiol *Phyllosticta citricarpa* (McAlpine) Van der Aa(**23**);

ystyr "Penderfyniad (EU) 2017/198" ("*Decision (EU) 2017/198*") yw Penderfyniad Gweithredu'r Comisiwn (EU) 2017/198 o ran mesurau i atal cyflwyno i'r Undeb a lledaenu o fewn yr Undeb *Pseudomonas syringae* pv. a*ctinidiae* Takikawa, Serizawa, Ichikawa, Tsuyumu a Goto(**24**);

ystyr "pla planhigion" ("*plant pest*") yw unrhyw organedd byw, ac eithrio anifail ag asgwrn cefn, mewn unrhyw gam o'i fodolaeth, sy'n niweidiol neu'n debygol o fod yn niweidiol i unrhyw blanhigyn neu gynnyrch planhigion;

ystyr "planhigyn" ("*plant*") yw planhigyn byw (gan gynnwys ffwng neu lwyn) neu ran fyw o blanhigyn (gan gynnwys rhan fyw o ffwng neu lwyn), ar unrhyw gam o'i dwf, ond heb gynnwys coed na llwyni coedwigoedd; ac mae rhannau byw o blanhigyn yn cynnwys—

(a) ffrwythau;

(b) hadau;

(c) llysiau, ac eithrio'r rhai a gedwir drwy eu dwys-rewi;

(d) cloron, cormau, bylbiau neu risomau;

(e) blodau wedi eu torri;

(f) canghennau gyda deiliant neu heb ddeiliant;

(g) planhigyn neu lwyn sydd wedi ei dorri ac sydd ag unrhyw ddeiliant arno;

(h) dail neu ddeiliant;

(i) planhigyn neu lwyn mewn meithriniad meinwe;

(j) paill byw;

(k) pren blagur;

(l) toriadau; ac

(m) impynnau;

ystyr "planhigyn neu lwyn mewn meithriniad meinwe" (*"plant or shrub in tissue culture*") yw planhigyn neu lwyn sy'n tyfu mewn cyfrwng meithrin aseptigol hylifol clir neu solet clir mewn cynhwysydd tryloyw caeedig;

(**20**) OJ Rhif L 196, 3.7.2014, t. 21.
(**21**) OJ Rhif L 125, 21.5.2015, t. 36, fel y'i diwygiwyd gan Benderfyniad Gweithredu'r Comisiwn (EU) 2016/764 (OJ Rhif L 126, 14.5.2016, t. 77).
(**22**) OJ Rhif L 146, 11.6.2015, t. 16.
(**23**) OJ Rhif L 125, 13.5.2016, t. 16, fel y'i diwygiwyd gan Benderfyniad Gweithredu'r Comisiwn (EU) 2017/801 (OJ Rhif L 120, 11.5.2017, t. 26).
(**24**) OJ Rhif L 31, 4.2.2017, t. 29.

mae i "plannu" yr un ystyr ag a roddir i "planting" yn Erthygl 2(1)(c) o Gyfarwyddeb 2000/29/EC;

ystyr "Pydredd coch tatws" ("*Potato brown rot*") yw naill ai'r clefyd tatws a achosir gan *Ralstonia solanacearum* (Smith) Yabuuchi *et al.* neu'r bacteriwm hwnnw, fel y bo'r cyd-destun yn mynnu;

ystyr "Pydredd cylch tatws" ("*Potato ring rot*") yw naill ai'r clefyd tatws a achosir gan y bacteriwm *Clavibacter michiganensis* (Smith) Davis *et al*. spp. *Sependonicus* (Spieckermann a Kotthoff) Davis *et al.* neu'r bacteriwm hwnnw, fel y bo'r cyd-destun yn mynnu;

ystyr "Rheoliad (EC) Rhif 690/2008" ("*Regulation (EC) No 690/2008*") yw Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 690/2008 sy'n cydnabod parthau gwarchod sy'n agored i beryglon iechyd planhigion neilltuol yn y Gymuned(**25**);

ystyr "Rheoliadau Tatws Hadyd" ("*Seed Potatoes Regulations*") yw Rheoliadau Tatws Hadyd (Cymru) 2016(**26**);

ystyr "sefydliad gwarchod planhigion cenedlaethol" ("*national plant protection organisation*") yw'r gwasanaeth a sefydlwyd gan lywodraeth trydedd wlad i gyflawni'r swyddogaethau a bennir yn Erthygl IV(1)(a) o'r CRhWP, y mae manylion amdano wedi eu rhoi—

(a) yn achos partïon contractiol i'r CRhWP, i Gyfarwyddwr Sefydliad Bwyd ac Amaethyddiaeth y Cenhedloedd Unedig; ac

(b) ym mhob achos arall, i'r Comisiwn Ewropeaidd;

ystyr "SRFFf Rhif 4" ("*ISPM No. 4*") yw Safon Ryngwladol ar Fesurau Ffytoiechydol Rhif 4 dyddiedig mis Tachwedd 1995 ar y gofynion i sefydlu ardaloedd rhydd rhag plâu, a luniwyd gan Ysgrifenyddiaeth y CRhWP a sefydlwyd gan Sefydliad Bwyd ac Amaethyddiaeth y Cenhedloedd Unedig(**27**);

ystyr "SRFFf Rhif 10" ("*ISPM No. 10*") yw Safon Ryngwladol ar Fesurau Ffytoiechydol Rhif 10 dyddiedig mis Hydref 1999 ar y gofynion i sefydlu mannau chynhyrchu rhydd rhag plâu a safleoedd cynhyrchu rhydd rhag plâu, a luniwyd gan Ysgrifenyddiaeth y CRhWP a sefydlwyd gan Sefydliad Bwyd ac Amaethyddiaeth y Cenhedloedd Unedig(**28**);

ystyr "SRFFf Rhif 31" ("*ISPM No. 31*") yw Safon Ryngwladol ar Fesurau Ffytoiechydol Rhif 31 dyddiedig mis Ebrill 2008 ar fethodolegau ar gyfer samplu llwythi, a luniwyd gan Ysgrifenyddiaeth y CRhWP a sefydlwyd gan Sefydliad Bwyd ac Amaethyddiaeth y Cenhedloedd Unedig(**29**);

ystyr "swyddog awdurdodedig" ("*authorised officer*"), fel y bo'r cyd-destun yn mynnu, yw—

(a) cynrychiolydd awdurdodedig o gorff swyddogol cyfrifol y wlad lle caiff pasbort planhigion ei ddyroddi, gwas cyhoeddus sy'n gweithio o dan awdurdod cynrychiolydd o'r fath neu asiant cymwysedig a gyflogir gan y corff swyddogol cyfrifol, y mae'n rhaid iddo fod â'r cymwysterau priodol ym mhob achos; neu

(b) cynrychiolydd awdurdodedig o gorff swyddogol cyfrifol neu sefydliad gwarchod planhigion cenedlaethol y wlad y dyroddir ynddi dystysgrif ffytoiechydol neu dystysgrif ffytoiechydol ar gyfer ailallforio neu gyfieithiad o dystysgrif ffytoiechydol neu dystysgrif ffytoiechydol ar gyfer ailallforio, neu swyddog cyhoeddus sy'n gweithredu o dan awdurdod cynrychiolydd o'r fath;

(**25**) OJ Rhif L 193, 22.7.2008, t. 1, fel y'i diwygiwyd gan Reoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) Rhif 707/2014 (OJ Rhif L 186, 26.6.2014, t. 56).

(**26**) O.S. 2016/106 (Cy. 52), a ddiwygiwyd gan O.S. 2017/596 (Cy. 139).

(**27**) Ar gael oddi wrth Ysgrifenyddiaeth y CRhWP, Sefydliad Bwyd ac Amaethyddiaeth y Cenhedloedd Unedig, AGDI, Viale delle Terme di Caracalla, 00153, Rhufain, yr Eidal ac yn https://www.ippc.int/en/core-activities/standards-setting/ispms/.

(**28**) Ar gael oddi wrth Ysgrifenyddiaeth y CRhWP, Sefydliad Bwyd ac Amaethyddiaeth y Cenhedloedd Unedig, AGDI, Viale delle Terme di Caracalla, 00153, Rhufain, yr Eidal ac yn https://www.ippc.int/en/core-activities/standards-setting/ispms/.

(**29**) Ar gael oddi wrth Ysgrifenyddiaeth y CRhWP, Sefydliad Bwyd ac Amaethyddiaeth y Cenhedloedd Unedig, AGDI, Viale delle Terme di Caracalla, 00153, Rhufain, yr Eidal ac yn https://www.ippc.int/en/core-activities/standards-setting/ispms/.

ystyr "swyddogol" ("*official*" ac "*officially*") mewn perthynas ag unrhyw brofi neu weithdrefn arall y mae'n ofynnol ei gynnal neu ei chynnal o dan y Gorchymyn hwn mewn cysylltiad ag unrhyw ddeunydd perthnasol, yw wedi ei gynnal neu ei chynnal gan gorff swyddogol cyfrifol neu sefydliad gwarchod planhigion cenedlaethol y wlad y cynhelir y profi neu'r weithdrefn arall ynddi, neu o dan ei wyliadwriaeth;

ystyr "taten" ("*potato*") yw unrhyw gloronen neu hadau gwirioneddol o *Solanum tuberosum* L. neu unrhyw blanhigyn arall ohono neu unrhyw rywogaeth arall o'r genws *Solanum* L. sy'n ffurfio cloron;

ystyr "tatws cynnar" ("*early potatoes*") yw tatws sy'n cael eu cynaeafu cyn iddynt aeddfedu'n llwyr, sy'n cael eu marchnata yn union ar ôl iddynt gael eu cynaeafu ac y gellir tynnu eu crwyn yn hawdd heb eu plicio;

ystyr "trydedd wlad" ("*third country*") yw gwlad neu diriogaeth heblaw un o fewn yr Undeb Ewropeaidd;

ystyr "tystysgrif ffytoiechydol" ("*phytosanitary certificate*") yw tystysgrif ar y ffurf a nodir yn Rhan A o Atodlen 10, sy'n cydymffurfio â'r gofynion yn erthygl 15(1) a (2);

ystyr "tystysgrif ffytoiechydol ar gyfer ailallforio" ("*phytosanitary certificate for re-export*") yw tystysgrif ar y ffurf a nodir yn Rhan B o Atodlen 10, sy'n cydymffurfio â'r gofynion yn erthygl 15(1) a (2);

ystyr "UDA" ("*the USA*") yw Unol Daleithiau America ac eithrio Hawaii;

ystyr "yr Undeb Ewropeaidd" ("*European Union*") yw tiriogaethau'r Aelod-wladwriaethau gan gynnwys Ynys Manaw ac Ynysoedd y Sianel ond heb gynnwys yr Ynysoedd Dedwydd, Ceuta, Melilla na'r Gweinyddiaethau Tramor Ffrengig; ac

ystyr "wedi ei lanio" ("*landed*") yw wedi ei gyflwyno i Gymru drwy unrhyw fodd, gan gynnwys drwy'r post, ac mae "glanio" ("*land*" a "*landing*") i'w ddehongli yn unol â hynny.

(2) Oni ddarperir yn benodol fel arall, mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at genws neu rywogaeth i'w ddehongli fel cyfeiriad at y genws hwnnw neu'r rhywogaeth honno neu at unrhyw un neu ragor o'i gymysgrywiau neu ei chymysgrywiau.

(3) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at yr Undeb Ewropeaidd, at Aelod-wladwriaeth neu at drydedd wlad yn cynnwys cyfeiriad at dalaith, gwlad, tywysogaeth, ardalaeth neu ranbarth o fewn yr Undeb Ewropeaidd, yr Aelod-wladwriaeth neu'r drydedd wlad, yn ôl y digwydd.

(4) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl â rhif neu Atodlen â rhif heb unrhyw gyfeiriad cyfatebol at offeryn penodol i'w ddehongli fel cyfeiriad at yr erthygl neu'r Atodlen sydd â'r rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

(5) Mae cyfeiriadau at yr offerynnau a ganlyn gan yr Undeb Ewropeaidd i'w dehongli fel cyfeiriadau at yr offerynnau hynny fel y'u diwygir o bryd i'w gilydd—

(a) Penderfyniad 2002/757/EC;

(b) Penderfyniad 2004/416/EC;

(c) Penderfyniad 2006/473/EC;

(d) Penderfyniad 2007/365/EC;

(e) Penderfyniad 2007/433/EC;

(f) Cyfarwyddeb 2008/61/EC;

(g) Rheoliad (EC) Rhif 690/2008;

(h) Penderfyniad 2012/138/EU;

(i) Penderfyniad 2012/270/EU;

(j) Penderfyniad 2012/697/EU;

(k) Penderfyniad 2014/422/EU;

(l) Penderfyniad (EU) 2015/789;

(m) Penderfyniad (EU) 2015/893;

(n) Penderfyniad (EU) 2016/715;

(o) Penderfyniad (EU) 2017/198.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I2** Ergl. 2 mewn grym ar 2.11.2018, gweler **ergl. 1(2)**

# RHAN 2

## Mewnforion o drydydd gwledydd

### Dehongli Rhan 2

**3.** Yn y Rhan hon—

ystyr "ardal rheolaeth iechyd planhigion" ("*area of plant health control*"), mewn perthynas â deunydd perthnasol hysbysadwy sydd wedi ei lanio, yw—

(a) ei fan cyrraedd; neu

(b) pan fo'r deunydd wedi ei symud o dan weithdrefnau tollau priodol i ardal rheolaeth iechyd planhigion ddynodedig neu fan arolygu cymeradwy, yr ardal rheolaeth iechyd planhigion ddynodedig neu'r man arolygu cymeradwy;

ystyr "ardal rheolaeth iechyd planhigion ddynodedig" ("*designated area of plant health control*") yw man sy'n agos at fan cyrraedd sydd wedi ei ddynodi'n ardal rheolaeth iechyd planhigion gan Weinidogion Cymru a Chomisiynwyr Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi;

ystyr "y Cod Tollau" ("*the Customs Code*") yw Rheoliad (EU) Rhif 952/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n gosod Cod Tollau'r Undeb(**30**);

mae i "corff swyddogol y gyrchfan" yr un ystyr ag a roddir i "official body of destination" yn Erthygl 2(1)(l) o Gyfarwyddeb 2000/29/EC;

ystyr "deunydd perthnasol hysbysadwy" ("*notifiable relevant material*") yw unrhyw ddeunydd perthnasol—

(a) o ddisgrifiad a bennir yn Rhan A o Atodlen 5; neu

(b) o ddisgrifiad a bennir yn Rhan B o Atodlen 5; ac—

(i) a bennir yng ngholofn 2 o Ran C o Atodlen 4;

(ii) a restrir yn ail golofn Atodiad II Rhan B ac sydd wrthi'n cael ei draddodi i barth gwarchod a gydnabyddir fel parth gwarchod ar gyfer y plâu planhigion a bennir mewn cysylltiad â'r deunydd perthnasol hwnnw yng ngholofn gyntaf Atodiad II Rhan B; neu

(iii) a restrir yng ngholofn gyntaf Atodiad IV Rhan B ac sydd wrthi'n cael ei draddodi i barth gwarchod a gydnabyddir fel parth gwarchod ar gyfer y plâu planhigion a bennir mewn cysylltiad â'r deunydd perthnasol hwnnw yn Atodiad IV Rhan B;

(**30**) OJ Rhif L 269, 10.10.2013, t. 1, fel y'i diwygiwyd gan Reoliad (EU) 2016/2339 Senedd Ewrop a'r Cyngor (OJ Rhif L 354, 23.12.2016, t. 32).

ystyr "diwrnod gwaith" ("*working day*"), mewn perthynas â'r gofynion hysbysu yn erthyglau 6(2)(c)(ii) ac 16(3) a'r cyfnod y caniateir cadw deunydd amdano o dan erthygl 14(1), yw cyfnod o bedair awr ar hugain nad yw'n ddydd Sadwrn, yn ddydd Sul, yn Ddydd Nadolig, yn Ddydd Gwener y Groglith nac yn ŵyl y banc yng Nghymru o dan Ddeddf Bancio a Thrafodion Ariannol 1971(**31**);

ystyr "man arolygu cymeradwy" ("*approved place of inspection*") yw man sydd wedi ei gymeradwyo gan Weinidogion Cymru o dan erthygl 17;

ystyr "man cyrraedd" ("*point of entry*") yw—

(a) yn achos deunydd perthnasol sy'n cyrraedd drwy hedfan, y maes awyr lle mae'r deunydd yn cyrraedd gyntaf;

(b) yn achos deunydd perthnasol sy'n cyrraedd ar drafnidiaeth forol neu afonol, y porthladd lle mae'r deunydd yn cyrraedd gyntaf; neu

(c) yn achos deunydd perthnasol sy'n cyrraedd ar y rheilffordd, y derfynfa llwyth rheilffordd lle mae'r deunydd yn cyrraedd gyntaf.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I3** Ergl. 3 mewn grym ar 2.11.2018, gweler **ergl. 1(2)**

### Cymhwyso Rhan 2

**4.** Mae'r Rhan hon—

(a) yn gymwys i blâu planhigion a deunydd perthnasol a gyflwynir i Gymru o drydedd wlad, naill ai'n uniongyrchol neu drwy ran arall o'r Undeb Ewropeaidd; a

(b) yn gymwys yn unig i nwyddau tramwy yr UE y mae Gweinidogion Cymru yn gyfrifol am faterion penodol mewn cysylltiad â hwy yn rhinwedd cytundeb tramwy UE.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I4** Ergl. 4 mewn grym ar 2.11.2018, gweler **ergl. 1(2)**

### Gwaharddiadau a chyfyngiadau ar lanio plâu planhigion a deunydd perthnasol

**5.**—(1) Ni chaiff unrhyw berson lanio—

(a) unrhyw bla planhigion o ddisgrifiad a bennir yn Atodlen 1;

(b) unrhyw ddeunydd perthnasol o ddisgrifiad a bennir yng ngholofn 2 o Atodlen 2 sy'n cario neu wedi ei heintio â phla planhigion o ddisgrifiad a bennir mewn unrhyw gofnod mewn cysylltiad â'r disgrifiad hwnnw o ddeunydd perthnasol yng ngholofn 3 o Atodlen 2;

(c) unrhyw bla planhigion, er nad yw wedi ei bennu yn Atodlen 1 nac yng ngholofn 3 o Atodlen 2, nad yw'n bresennol ym Mhrydain Fawr fel arfer ac sy'n debygol o fod yn niweidiol i blanhigion ym Mhrydain Fawr;

(d) unrhyw ddeunydd perthnasol o ddisgrifiad a bennir yng ngholofn 2 o Atodlen 3 sy'n tarddu o drydedd wlad a bennir yn y cofnod mewn cysylltiad â'r disgrifiad hwnnw o ddeunydd perthnasol yng ngholofn 3 o Atodlen 3;

(**31**) 1971 p. 80, y mae iddi ddiwygiadau nad ydynt yn berthnasol i'r Gorchymyn hwn.

(e) unrhyw ddeunydd perthnasol o ddisgrifiad a bennir yng ngholofn 2 o Ran A o Atodlen 4, oni chydymffurfir â'r gofynion a bennir yn y cofnodion mewn cysylltiad â'r disgrifiad hwnnw o ddeunydd perthnasol yng ngholofn 3 o Ran A o Atodlen 4; neu

(f) unrhyw ddeunydd perthnasol o ddisgrifiad a bennir yng ngholofn 2 o Ran C o Atodlen 4, oni chydymffurfir â'r gofynion a bennir yn y cofnodion mewn cysylltiad â'r disgrifiad hwnnw o ddeunydd perthnasol yng ngholofn 3 o Ran C o Atodlen 4.

(2) Nid yw'r gwaharddiad ym mharagraff (1)(d) yn gymwys i unrhyw ddeunydd perthnasol—

(a) sydd wrthi'n cael ei draddodi rhwng dwy drydedd wlad o dan weithdrefnau tollau priodol a heb unrhyw newid mewn statws tollau; a

(b) sy'n cael ei gludo mewn modd sy'n atal plâu planhigion rhag dianc yn ddamweiniol.

(3) Nid yw paragraff (1)(e) yn gymwys i unrhyw ddeunydd perthnasol a waherddir rhag ei lanio o dan baragraff (1)(d).

(4) Mae paragraff (1)(e) ac (f) yn ddarostyngedig i erthygl 8(1).

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I5** Ergl. 5 mewn grym ar 2.11.2018, gweler **ergl. 1(2)**

**Hysbysu ymlaen llaw ynglŷn â glanio**

**6.**—(1) Ni chaiff unrhyw berson lanio unrhyw ddeunydd perthnasol hysbysadwy, pan fo Cymru yn fan cyrraedd yr Undeb Ewropeaidd iddo, oni bai y rhoddir hysbysiad yn unol â'r erthygl hon.

(2) Rhaid i hysbysiad—

(a) bod yn unol â gofynion Atodlen 11;

(b) cael ei roi i Weinidogion Cymru yn y cyfeiriad penodedig; ac

(c) cael ei roi mewn pryd er mwyn cyrraedd y cyfeiriad penodedig—

(i) yn achos unrhyw ddeunydd perthnasol y deuir ag ef drwy hedfan, o leiaf bedair awr waith cyn i'r deunydd perthnasol gael ei lanio; a

(ii) mewn unrhyw achos arall, o leiaf dri diwrnod gwaith cyn i'r deunydd perthnasol gael ei lanio.

(3) Yn achos ffrwythau sitrws ar gyfer eu prosesu, rhaid cynnwys enwau, cyfeiriadau a lleoliadau'r mangreoedd y mae'r ffrwythau i'w prosesu ynddynt o dan eitem 13 o'r hysbysiad a nodir yn Atodlen 11.

(4) Os gall person ddangos yn rhesymol nad oedd yn bosibl rhoi hysbysiad yn unol â pharagraff (2)(c) am nad oedd y person yn ymwybodol bod y deunydd wedi ei draddodi, caiff y person roi hysbysiad cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol.

(5) Mae paragraff (1) yn ddarostyngedig i erthyglau 8(1), 16 a 30(3).

(6) Yn yr erthygl hon—

(a) ystyr "cyfeiriad penodedig" ("*specified address*") yw'r cyfeiriad a roddir gan Weinidogion Cymru o bryd i'w gilydd at ddibenion yr erthygl hon;

(b) ystyr "awr waith" ("*working hour*") yw cyfnod o un awr yn ystod diwrnod gwaith.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I6** Ergl. 6 mewn grym ar 2.11.2018, gweler **ergl. 1(2)**

### Gofynion am dystysgrifau

**7.**—(1) Ni chaiff unrhyw berson lanio unrhyw ddeunydd perthnasol hysbysadwy oni bai bod tystysgrif ffytoiechydol neu dystysgrif ffytoiechydol ar gyfer ailallforio yn mynd gyda'r deunydd, fel a bennir ym mharagraffau (2) i (5).

(2) Yn achos deunydd tramwy sydd wedi ei rannu, ei gyfuno â llwythi eraill neu ei ailbecynnu, rhaid i dystysgrif ffytoiechydol ar gyfer ailallforio a ddyroddwyd yn y wlad dramwy fynd gyda'r deunydd perthnasol.

(3) Yn achos deunydd tramwy sydd, neu y gallai fod, wedi bod yn agored i'w heintio neu i'w halogi gan unrhyw bla planhigion, nad yw'r un deunydd ag a oedd yn y llwyth gwreiddiol neu sydd wedi ei brosesu er mwyn newid ei natur, rhaid i dystysgrif ffytoiechydol a ddyroddwyd yn y wlad dramwy fynd gyda'r deunydd perthnasol.

(4) Yn achos deunydd perthnasol o ddisgrifiad a restrir yng ngholofn gyntaf Atodiad IV Rhan B, pan na ellir ond bodloni'r gofyniad neu'r gofynion a bennir mewn cofnod mewn cysylltiad â'r disgrifiad hwnnw o ddeunydd perthnasol yn ail golofn Atodiad IV Rhan B yn y wlad y mae'r deunydd perthnasol yn tarddu ohoni, rhaid i dystysgrif ffytoiechydol a ddyroddwyd yn y wlad y mae'n tarddu ohoni fynd gyda'r deunydd perthnasol.

(5) Mewn unrhyw achos arall, rhaid i dystysgrif ffytoiechydol a ddyroddwyd yn y wlad y mae'r deunydd perthnasol yn tarddu ohoni neu y cafodd ei draddodi ohoni fynd gyda'r deunydd hwnnw.

(6) Rhaid i'r dystysgrif ffytoiechydol fod y dystysgrif wreiddiol a rhaid i'r dystysgrif ffytoiechydol ar gyfer ailallforio fod y dystysgrif wreiddiol neu gopi o'r dystysgrif wreiddiol a ardystiwyd gan swyddog awdurdodedig.

(7) Nid yw paragraff (1) yn gymwys i unrhyw ddeunydd perthnasol—

(a) sydd wrthi'n cael ei draddodi rhwng dwy drydedd wlad o dan weithdrefnau tollau priodol neu sydd wedi ei draddodi i Gymru o ran arall o'r Undeb Ewropeaidd drwy drydedd wlad;

(b) nad oes unrhyw newid yn dod i'w ran o ran statws tollau; ac

(c) sy'n cael ei gludo mewn modd sy'n atal plâu planhigion rhag dianc yn ddamweiniol.

(8) Mae paragraff (1) yn ddarostyngedig i erthyglau 8(1) a 30(1) a (2).

(9) Ym mharagraffau (2) a (3), ystyr "deunydd tramwy" ("*transit material*") yw deunydd perthnasol a draddodir i Gymru drwy drydedd wlad ar ffurf tramwyad.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I7** Ergl. 7 mewn grym ar 2.11.2018, gweler **ergl. 1(2)**

### Eithriadau rhag gwaharddiadau a gofynion penodol

**8.**—(1) Nid yw'r darpariaethau a ganlyn yn gymwys i unrhyw eitemau esempt a gyflwynir i Gymru ym mhaciau teithiwr neu dramwywr arall os yw'r eitemau'n bodloni'r amodau ym mharagraff (2)—

(a) erthygl 5(1)(e) ac (f);

(b) erthygl 6(1);

(c) erthygl 7(1);

(d) erthygl 10(1).

(2) Yr amodau yw—

(a) nad yw'r eitemau esempt yn arddangos unrhyw arwyddion bod pla planhigion yn bresennol;

(b) na fwriedir i'r eitemau esempt gael eu defnyddio wrth fasnachu neu redeg busnes; ac

(c) y bwriedir yr eitemau esempt at ddefnydd aelwydydd.

(3) Yn yr erthygl hon—

(a) ystyr "eitemau esempt" ("*exempt items*") yw—

(i) ffrwythau a llysiau amrwd (ac eithrio tatws), nad yw cyfanswm eu pwysau yn fwy na dau kg;

(ii) un tusw o flodau wedi eu torri (a gaiff gynnwys rhannau o blanhigion);

(iii) pecynnau o hadau, ac eithrio hadau tatws neu *Fraxinus* L., nad yw eu cyfanswm yn fwy na phum paced;

(iv) bylbiau, cormau, cloron, ac eithrio tatws, a risomau, a dyfwyd yn ardal Ewrop a Môr y Canoldir ac a draddodwyd ohoni, ac nad yw cyfanswm eu pwysau yn fwy na dau kg; neu

(v) planhigion ar gyfer eu plannu, ac eithrio bylbiau, cormau, cloron neu risomau neu blanhigion *Fraxinus* L. a fwriedir ar gyfer eu plannu, a dyfwyd yn ardal Ewrop a Môr y Canoldir ac a draddodwyd ohoni ac nad yw eu cyfanswm yn fwy na phump;

(b) ystyr "pecyn o hadau" (*"packet of seeds*") yw pecyn o hadau o fath a werthir i'r defnyddiwr fel arfer ac eithrio i'w ddefnyddio wrth fasnachu neu redeg busnes neu becyn o hadau o faint tebyg.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I8** Ergl. 8 mewn grym ar 2.11.2018, gweler **ergl. 1(2)**

### Cyflwyno ac arddangos dogfennau

**9.**—(1) Rhaid i'r mewnforiwr ddarparu i arolygydd, o fewn tri diwrnod i lwyth gael ei lanio, unrhyw dystysgrif ffytoiechydol neu dystysgrif ffytoiechydol ar gyfer ailallforio y mae'n ofynnol o dan erthygl 7 iddi fynd gyda llwyth o ddeunydd perthnasol hysbysadwy.

(2) Rhaid i fewnforiwr llwyth o ddeunydd perthnasol hysbysadwy gynnwys mewn dogfen dollau sy'n ymwneud â'r llwyth—

(a) datganiad sy'n dweud "this consignment contains produce of phytosanitary relevance";

(b) cyfeirnod y dystysgrif ffytoiechydol neu'r dystysgrif ffytoiechydol ar gyfer ailallforio y mae'n ofynnol iddi fynd gyda'r llwyth o dan erthygl 7; ac

(c) rhif cofrestru'r mewnforiwr.

(3) Yn achos llwyth sy'n cynnwys deunydd perthnasol hysbysadwy ac sy'n cael ei fewnforio i Gymru drwy'r post, rhaid i'r mewnforiwr sicrhau bod unrhyw dystysgrif ffytoiechydol neu dystysgrif ffytoiechydol ar gyfer ailallforio y mae'n ofynnol iddi fynd gyda'r llwyth o dan erthygl 7 ynghlwm i du allan y pecyn o'r deunydd perthnasol.

(4) Ond os oes mwy nag un pecyn o ddeunydd perthnasol hysbysadwy yn y llwyth, rhaid i'r mewnforiwr sicrhau bod y dystysgrif ynghlwm i du allan un o'r pecynnau o ddeunydd perthnasol hysbysadwy a bod copïau o'r dystysgrif ynghlwm i du allan pob un o'r pecynnau o ddeunydd perthnasol hysbysadwy sy'n weddill yn y llwyth.

(5) Ym mharagraff (2), ystyr "dogfen dollau" ("*customs document*") yw dogfen sy'n ofynnol gan Gomisiynwyr Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi ar gyfer gosod deunydd perthnasol o dan un o'r gweithdrefnau a bennir yn Erthygl 5(16)(a) a (b) o'r Cod Tollau.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I9** Ergl. 9 mewn grym ar 2.11.2018, gweler **ergl. 1(2)**

### Gwaharddiad ar symud deunydd perthnasol o'i ardal rheolaeth iechyd planhigion

**10.**—(1) Ni chaiff unrhyw berson symud unrhyw ddeunydd perthnasol hysbysadwy na pheri i unrhyw ddeunydd perthnasol hysbysadwy gael ei symud o'i ardal rheolaeth iechyd planhigion oni bai bod arolygydd wedi gollwng y deunydd o dan erthygl 12 neu y caniateir symud y deunydd o dan Ran 6.

(2) Rhaid i'r mewnforiwr storio unrhyw ddeunydd perthnasol hysbysadwy sy'n cael ei ddal mewn man cyrraedd neu ardal rheolaeth iechyd planhigion ddynodedig o dan baragraff (1), o dan oruchwyliaeth arolygydd ac yn unol â'i gyfarwyddiadau.

(3) Mae'r mewnforiwr yn atebol am gostau storio'r deunydd perthnasol hysbysadwy cyn iddo gael ei ryddhau.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I10** Ergl. 10 mewn grym ar 2.11.2018, gweler **ergl. 1(2)**

### Eithriadau rhag y gwaharddiad ar symud deunydd perthnasol o'i ardal rheolaeth iechyd planhigion

**11.** Nid yw erthygl 10(1) yn gymwys i—

(a) unrhyw ddeunydd perthnasol sydd wrthi'n cael ei draddodi rhwng dwy drydedd wlad o dan weithdrefnau tollau priodol heb unrhyw newid mewn statws tollau ac sy'n cael ei gludo mewn modd sy'n atal plâu planhigion rhag dianc yn ddamweiniol;

(b) unrhyw ddeunydd perthnasol sy'n cael ei draddodi i Gymru o ran arall o'r Undeb Ewropeaidd drwy drydedd wlad heb unrhyw newid mewn statws tollau ac sy'n cael ei gludo mewn modd sy'n atal plâu planhigion rhag dianc yn ddamweiniol;

(c) unrhyw ddeunydd perthnasol sy'n ddarostyngedig i erthygl 8(1);

(d) unrhyw ddeunydd perthnasol sy'n ddarostyngedig i erthygl 30(3).

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I11** Ergl. 11 mewn grym ar 2.11.2018, gweler **ergl. 1(2)**

### Gollyngiad iechyd planhigion

**12.**—(1) Caiff arolygydd ollwng deunydd perthnasol hysbysadwy o'i ardal rheolaeth iechyd planhigion os yw'r arolygydd wedi ei fodloni—

(a) bod y deunydd perthnasol yn rhydd rhag unrhyw bla planhigion o ddisgrifiad a bennir yn Atodlen 1;

(b) yn achos deunydd perthnasol sydd wrthi'n cael ei draddodi i barth gwarchod, fod y deunydd perthnasol yn rhydd rhag unrhyw bla planhigion a restrir mewn cysylltiad â'r parth gwarchod hwnnw yng ngholofn gyntaf Atodiad I i Reoliad (EC) Rhif 690/2008;

(c) yn achos deunydd perthnasol o ddisgrifiad a bennir yng ngholofn 2 o Atodlen 2, nad yw'r deunydd perthnasol yn cario neu wedi ei heintio â phla planhigion o ddisgrifiad a bennir mewn unrhyw gofnod mewn cysylltiad â'r disgrifiad hwnnw o ddeunydd perthnasol yng ngholofn 3 o Atodlen 2;

(d) yn achos deunydd perthnasol a restrir yn ail golofn Atodiad II Rhan B ac sydd wrthi'n cael ei draddodi i barth gwarchod a gydnabyddir fel parth gwarchod ar gyfer y plâu planhigion a restrir mewn cysylltiad â'r deunydd perthnasol hwnnw yng ngholofn gyntaf Atodiad II Rhan B, nad yw'r deunydd perthnasol yn cario neu wedi ei heintio â'r plâu planhigion;

(e) yn achos deunydd perthnasol a restrir yn Atodiad III Rhan B i Gyfarwyddeb 2000/29/EC, nad yw'r deunydd perthnasol yn cael ei draddodi i barth gwarchod ar gyfer *Erwinia amylovora* (Burr) Winsl *et al*.;

(f) yn achos deunydd perthnasol o ddisgrifiad a bennir yng ngholofn 2 o Ran A neu C o Atodlen 4, fod y deunydd perthnasol yn cydymffurfio â'r gofynion a bennir yn y cofnodion mewn cysylltiad â'r disgrifiad hwnnw o ddeunydd perthnasol yng ngholofn 3 o Ran A neu C o Atodlen 4 a, phan fo un neu ragor o ofynion eraill mewn unrhyw gofnod o'r fath, y gofyniad a ddatgenir yn y dystysgrif ffytoiechydol neu'r dystysgrif ffytoiechydol ar gyfer ailallforio;

(g) yn achos deunydd perthnasol a restrir yng ngholofn gyntaf Atodiad IV Rhan B ac sydd wrthi'n cael ei draddodi i barth gwarchod a gydnabyddir fel parth gwarchod ar gyfer y plâu planhigion a bennir yn y cofnodion mewn cysylltiad â'r deunydd perthnasol hwnnw yn ail golofn Atodiad IV Rhan B, fod y deunydd perthnasol yn cydymffurfio â'r gofynion a restrir mewn cysylltiad â'r cofnodion hynny a, phan fo un neu ragor o ofynion eraill mewn unrhyw gofnod o'r fath, y gofyniad a ddatgenir yn y dystysgrif ffytoiechydol neu'r dystysgrif ffytoiechydol ar gyfer ailallforio;

(h) bod y deunydd perthnasol yn cyfateb i'r disgrifiad a roddir iddo yn y dystysgrif ffytoiechydol neu'r dystysgrif ffytoiechydol ar gyfer ailallforio; ac

(i) bod y dystysgrif ffytoiechydol neu'r dystysgrif ffytoiechydol ar gyfer ailallforio sy'n ofynnol o dan erthygl 7 a, phan fo hynny'n briodol, ddogfen symud iechyd planhigion, yn mynd gyda'r deunydd perthnasol.

(2) Caiff arolygydd, at ddiben cael ei fodloni ynglŷn â'r materion y cyfeirir atynt ym mharagraff (1)(a) i (g), gynnal archwiliad o lwyth o ddeunydd perthnasol a'i ddeunydd pecynnu a, phan fo hynny'n angenrheidiol, y cerbyd sy'n cludo'r llwyth.

(3) Caiff arolygydd, at ddiben cael ei fodloni ynglŷn â'r materion y cyfeirir atynt ym mharagraff (1)(h), gynnal archwiliad o lwyth o ddeunydd perthnasol er mwyn penderfynu a yw'n cyfateb i'r disgrifiad ohono yn y dogfennau sy'n mynd gydag ef.

(4) Yn achos deunydd perthnasol hysbysadwy sydd wrthi'n cael ei draddodi i ran arall o'r Undeb Ewropeaidd ac sy'n ddarostyngedig i gytundeb rhwng Gweinidogion Cymru a chorff swyddogol y gyrchfan mewn perthynas â'i draddodi i'w gyrchfan derfynol, nid oes ond angen i'r arolygydd fod wedi ei fodloni ynglŷn â'r materion y cyfeirir atynt ym mharagraff (1)(i) ac unrhyw faterion eraill y cyfeirir atynt ym mharagraff (1)(a) i (h) y mae Gweinidogion Cymru yn gyfrifol amdanynt o dan y cytundeb.

(5) Yn achos nwyddau tramwy yr UE sy'n ddarostyngedig i gytundeb rhwng Gweinidogion Cymru a chorff swyddogol y man cyrraedd ar gyfer y nwyddau hynny, nid oes ond angen i'r arolygydd fod wedi ei fodloni ynglŷn â'r materion hynny y cyfeirir atynt ym mharagraff (1)(a) i (h) y mae Gweinidogion Cymru yn gyfrifol amdanynt o dan y cytundeb.

(6) Pan fo'r arolygydd wedi ei fodloni y caniateir gollwng y deunydd perthnasol o'i ardal rheolaeth iechyd planhigion, rhaid i'r arolygydd—

(a) stampio'r dystysgrif ffytoiechydol neu'r dystysgrif ffytoiechydol ar gyfer ailallforio sy'n ymwneud â'r deunydd perthnasol â stamp swyddogol Gweinidogion Cymru a'r dyddiad y darparwyd y dystysgrif yn unol ag erthygl 9(1); a

(b) pan fo hynny'n gymwys, lenwi penawdau perthnasol y ddogfen symud iechyd planhigion.

(7) Caiff arolygydd, at ddiben cynnal gwiriad iechyd planhigion, ei gwneud yn ofynnol i'r meddiannydd, neu berson arall sydd â gofal am y fangre y mae'r gwiriad i'w gynnal ynddi, ddarparu—

(a) pan fo hynny'n briodol, ardaloedd arolygu addas;

(b) goleuo digonol; ac

(c) byrddau arolygu.

(8) Yn yr erthygl hon—

(a) ystyr "archwilio" ("*examination*"), mewn perthynas â llwyth o ddeunydd perthnasol, yw archwilio'r llwyth yn ei gyfanrwydd neu ar sail un neu ragor o samplau cynrychioliadol o'r llwyth neu o bob lot sy'n ffurfio rhan o'r llwyth;

(b) mae i "lot" yr un ystyr ag a roddir i "lot" yn Erthygl 2(1)(o) o Gyfarwyddeb 2000/29/EC.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I12** Ergl. 12 mewn grym ar 2.11.2018, gweler **ergl. 1(2)**

### Gofyn i un o swyddogion Cyllid a Thollau i ddeunydd gael ei gadw

**13.**—(1) Pan fo gan arolygydd sail resymol dros amau bod risg y gallai pla planhigion ledaenu o unrhyw ddeunydd perthnasol, caiff yr arolygydd ofyn i un o swyddogion Cyllid a Thollau arfer y pŵer yn erthygl 14(1) at ddiben galluogi'r arolygydd i orfodi unrhyw ddarpariaeth yn y Gorchymyn hwn.

(2) Mewn perthynas â chais o dan erthygl 13(1)—

(a) caiff adnabod y deunydd perthnasol mewn unrhyw ffordd; a

(b) rhaid iddo gael ei wneud yn ysgrifenedig neu gael ei wneud ar lafar a'i gadarnhau yn ysgrifenedig.

(3) Pan fo arolygydd yn dyroddi hysbysiad neu'n cymryd unrhyw gam arall o dan y Gorchymyn hwn mewn cysylltiad â deunydd perthnasol a gedwir gan un o swyddogion Cyllid a Thollau o dan erthygl 14(1), rhaid i'r arolygydd hysbysu'r swyddog am yr hysbysiad neu'r cam.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I13** Ergl. 13 mewn grym ar 2.11.2018, gweler **ergl. 1(2)**

### Pŵer un o swyddogion Cyllid a Thollau

**14.**—(1) Caiff un o swyddogion Cyllid a Thollau, pan fo arolygydd yn gofyn iddo wneud hynny yn unol ag erthygl 13(1), gadw am ddim mwy na dau ddiwrnod gwaith unrhyw ddeunydd perthnasol neu unrhyw gynhwysydd, unrhyw becyn neu unrhyw gargo o unrhyw fath sydd wedi bod mewn cysylltiad â'r deunydd hwnnw neu y gallai fod wedi bod mewn cysylltiad â'r deunydd hwnnw ac y cyfeirir ato yn y cais hwnnw, os yw'r deunydd, y cynhwysydd, y pecyn neu'r cargo o dan oruchwyliaeth tollau yn unol ag Erthygl 134 o'r Cod Tollau.

(2) Caiff Comisiynwyr Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi roi cyfarwyddydau ynglŷn â sut i ymdrin ag unrhyw ddeunydd perthnasol a gedwir o dan baragraff (1) yn ystod y cyfnod pan gaiff ei gadw.

(3) Mewnforiwr unrhyw ddeunydd perthnasol a gedwir o dan baragraff (1) sy'n gyfrifol am gostau storio'r deunydd yn ystod y cyfnod pan gaiff ei gadw.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I14** Ergl. 14 mewn grym ar 2.11.2018, gweler **ergl. 1(2)**

**Darpariaethau cyffredinol sy'n ymwneud â thystysgrifau**

**15.**—(1) Mewn perthynas â thystysgrif ffytoiechydol neu dystysgrif ffytoiechydol ar gyfer ailallforio sy'n mynd gyda deunydd perthnasol hysbysadwy o dan erthygl 7—

(a) rhaid ei bod wedi ei llenwi ddim mwy na 14 o ddiwrnodau cyn dyddiad anfon y llwyth o ddeunydd perthnasol y mae'n mynd gydag ef;

(b) rhaid ei bod wedi ei dyroddi gan gorff swyddogol cyfrifol neu sefydliad gwarchod planhigion cenedlaethol y wlad yr allforir neu yr ailallforir ohoni yn unol â darpariaethau Erthygl V(1) o'r CRhWP;

(c) rhaid ei bod wedi ei llenwi gan swyddog awdurdodedig;

(d) rhaid ei bod wedi ei dyroddi yn un o ieithoedd swyddogol yr Undeb Ewropeaidd;

(e) pan fo wedi ei dyroddi mewn iaith ac eithrio Saesneg, rhaid iddi ymgorffori cyfieithiad i'r Saesneg, neu rhaid i gyfieithiad i'r Saesneg fynd gyda hi ac, os yw'r cyfieithiad yn ddogfen ar wahân i'r dystysgrif, rhaid ei bod wedi ei llenwi a'i llofnodi gan swyddog awdurdodedig;

(f) rhaid ei bod wedi ei chyfeirio at y "Plant Protection Organisations of the Member States of the European Union"; ac

(g) rhaid iddi gael ei llenwi mewn teipysgrif neu briflythrennau.

(2) Pan fo, mewn perthynas ag unrhyw ddeunydd perthnasol o ddisgrifiad a bennir yng ngholofn 2 o Ran A neu C o Atodlen 4, un neu ragor o ofynion eraill wedi eu pennu mewn cofnod mewn cysylltiad â'r disgrifiad hwnnw o ddeunydd perthnasol yng ngholofn 3 o Ran A neu C o'r Atodlen honno, rhaid i'r dystysgrif ffytoiechydol neu'r dystysgrif ffytoiechydol ar gyfer ailallforio a ddyroddir mewn cysylltiad ag unrhyw ddeunydd perthnasol o'r disgrifiad hwnnw bennu, o dan y pennawd "Additional declaration", ba ofyniad penodol y cydymffurfiwyd ag ef gan gyfeirio at y lleoliad perthnasol yn Adran I o Atodiad IV Rhan A neu Atodiad IV Rhan B.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I15** Ergl. 15 mewn grym ar 2.11.2018, gweler **ergl. 1(2)**

**Gofynion sydd i'w bodloni gan nwyddau tramwy yr UE neu ddeunydd perthnasol sydd wedi ei fwriadu ar gyfer man arolygu cymeradwy**

**16.**—(1) Mae'r erthygl hon yn gymwys i ddeunydd perthnasol hysbysadwy—

(a) sy'n ddarostyngedig i gytundeb y cyfeirir ato yn erthygl 12(4);

(b) sy'n ddarostyngedig i gytundeb y cyfeirir ato yn erthygl 12(5) ac nad yw wedi ei ollwng na'i ryddhau o'i ardal rheolaeth iechyd planhigion o dan erthygl 10(1); neu

(c) sydd wedi ei fwriadu ar gyfer man arolygu cymeradwy.

(2) Ni chaniateir symud unrhyw ddeunydd perthnasol y mae'r erthygl hon yn gymwys iddo o fewn Cymru neu, pan fo hynny'n gymwys, o Gymru i unrhyw fan arall o fewn yr Undeb Ewropeaidd, oni bai—

(a) bod ei ddeunydd pecynnu a'r cerbyd y mae'n cael ei gludo ynddo wedi eu selio yn y fath fodd fel nad oes unrhyw risg y gallai'r deunydd perthnasol achosi heigiad, heintiad neu halogiad neu fod newid yn digwydd o ran beth yw'r deunydd; neu

(b) bod Gweinidogion Cymru wedi awdurdodi ei symud.

(3) Rhaid i fewnforiwr unrhyw ddeunydd perthnasol y mae'r erthygl hon yn gymwys iddo, ac eithrio deunydd perthnasol y mae ei gyrchfan yn rhywle arall yn yr Undeb Ewropeaidd, hysbysu Gweinidogion Cymru am y manylion a ganlyn yn ddim hwyrach na phum diwrnod gwaith cyn i'r deunydd gael ei lanio—

(a) enw, cyfeiriad a lleoliad y man arolygu cymeradwy neu'r ardal rheolaeth iechyd planhigion ddynodedig a fydd yn gyrchfan i'r deunydd perthnasol neu, os nad man arolygu cymeradwy nac ardal rheolaeth iechyd planhigion ddynodedig yw'r gyrchfan, y man y bwriedir iddo gyrraedd Cymru;

(b) y dyddiad a'r amser y disgwylir y bydd y deunydd perthnasol yn cyrraedd y man y cyfeirir ato yn is-baragraff (a);

(c) os yw ar gael, rif cyfresol unigol unrhyw ddogfen symud iechyd planhigion sy'n ofynnol gan erthygl 17(6)(a);

(d) os ydynt ar gael, y dyddiad a'r man y lluniwyd y ddogfen symud iechyd planhigion;

(e) enw, cyfeiriad a rhif cofrestru'r mewnforiwr; ac

(f) cyfeirnod y dystysgrif ffytoiechydol neu'r dystysgrif ffytoiechydol ar gyfer ailallforio y mae'n ofynnol iddi fynd gyda'r deunydd perthnasol o dan erthygl 7.

(4) Rhaid i'r mewnforiwr hysbysu Gweinidogion Cymru ar unwaith am unrhyw newidiadau i'r manylion y mae'r mewnforiwr wedi eu rhoi o dan baragraff (3).

(5) Rhaid rhoi'r hysbysiad i Weinidogion Cymru yn y cyfeiriad a roddir gan Weinidogion Cymru o bryd i'w gilydd at ddibenion yr erthygl hon.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I16** Ergl. 16 mewn grym ar 2.11.2018, gweler **ergl. 1(2)**

## Mannau arolygu cymeradwy a gofynion ar gyfer dogfennau symud iechyd planhigion

*Mannau arolygu cymeradwy*

**17.**—(1) Caiff Gweinidogion Cymru gymeradwyo man a all fod yn gyrchfan i ddeunydd perthnasol hysbysadwy fel man lle caiff arolygydd gynnal gwiriadau iechyd planhigion a gwiriadau adnabod mewn cysylltiad â'r deunydd hwnnw.

(2) Caiff mewnforiwr neu berson arall sy'n gyfrifol am y man hwnnw wneud cais i Weinidogion Cymru am gymeradwyaeth o dan baragraff (1) ar y ffurf ac yn cynnwys yr wybodaeth a bennir gan Weinidogion Cymru.

(3) Caniateir i gymeradwyaeth gael ei rhoi yn ddarostyngedig i amodau, gan gynnwys amodau sy'n ymwneud â storio'r deunydd perthnasol neu â nwyddau tramwy yr UE, a chaniateir ei thynnu yn ôl ar unrhyw adeg os nad yw Gweinidogion Cymru yn ystyried bellach bod y man y mae'r gymeradwyaeth yn ymwneud ag ef yn addas at y diben y rhoddwyd y gymeradwyaeth.

(4) Ni chaiff Gweinidogion Cymru gymeradwyo man fel man arolygu cymeradwy onid yw Comisiynwyr Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi wedi cymeradwyo'r man i'w ddefnyddio fel cyfleuster storio dros dro.

(5) Yn yr erthygl hon—

(a) ystyr "cyfleuster storio dros dro" yw cyfleuster storio dros dro o fewn yr ystyr a roddir i "temporary storage facility" yn Erthygl 148 o'r Cod Tollau;

(b) ystyr "gwiriad adnabod" ("*identity check*") yw archwiliad a gynhelir o dan erthygl 12(3).

*Gofynion ar gyfer dogfennau symud iechyd planhigion*

(6) Ni chaiff unrhyw berson symud dim o'r deunydd perthnasol hysbysadwy a ganlyn oni bai bod dogfen symud iechyd planhigion yn mynd gydag ef—

(a) deunydd perthnasol hysbysadwy sy'n ddarostyngedig i gytundeb tramwy UE ac sy'n cael ei symud i'w ardal rheolaeth iechyd planhigion yng Nghymru;

(b) deunydd perthnasol hysbysadwy sy'n ddarostyngedig i gytundeb y cyfeirir ato yn erthygl 12(4) ac sy'n cael ei symud o fewn Cymru neu o Gymru i unrhyw fan arall o fewn yr Undeb Ewropeaidd.

**Gwybodaeth Cychwyn**
**I17** Ergl. 17 mewn grym ar 2.11.2018, gweler **ergl. 1(2)**

**Gwybodaeth Cychwyn**
**I17** Ergl. 17 mewn grym ar 2.11.2018, gweler **ergl. 1(2)**

**Gwybodaeth Cychwyn**
**I17** Ergl. 17 mewn grym ar 2.11.2018, gweler **ergl. 1(2)**

# RHAN 3

## Rheolaethau mewnol yr UE ar symud

### Gwaharddiadau ar gyflwyno plâu planhigion a deunydd perthnasol o'r Undeb Ewropeaidd

**18.**—(1) Ni chaiff unrhyw berson gyflwyno dim o'r plâu planhigion a'r deunydd perthnasol a ganlyn i Gymru o ran arall o'r Undeb Ewropeaidd—

(a) unrhyw bla planhigion o ddisgrifiad a bennir yn Atodlen 1;

(b) unrhyw ddeunydd perthnasol o ddisgrifiad a bennir yng ngholofn 2 o Atodlen 2 sy'n cario neu wedi ei heintio â phla planhigion o ddisgrifiad a bennir mewn unrhyw gofnod mewn cysylltiad â'r disgrifiad hwnnw o ddeunydd perthnasol yng ngholofn 3 o Atodlen 2;

(c) unrhyw bla planhigion, er nad yw wedi ei bennu yn Atodlen 1 nac yng ngholofn 3 o Atodlen 2, nad yw'n bresennol ym Mhrydain Fawr fel arfer ac sy'n debygol o fod yn niweidiol i blanhigion ym Mhrydain Fawr;

(d) unrhyw ddeunydd perthnasol o ddisgrifiad a bennir yng ngholofn 2 o Atodlen 3 sy'n tarddu o drydedd wlad a bennir yn y cofnod mewn cysylltiad â'r disgrifiad hwnnw o ddeunydd perthnasol yng ngholofn 3 o Atodlen 3;

(e) unrhyw ddeunydd perthnasol o ddisgrifiad a bennir yng ngholofn 2 o Ran A o Atodlen 4, oni bai y cydymffurfir â'r gofynion a bennir yn y cofnodion mewn cysylltiad â'r disgrifiad hwnnw o ddeunydd perthnasol yng ngholofn 3 o Ran A o Atodlen 4;

(f) unrhyw ddeunydd perthnasol o ddisgrifiad a bennir yng ngholofn 2 o Ran B o Atodlen 4, oni bai y cydymffurfir â'r gofynion a bennir yn y cofnodion mewn cysylltiad â'r disgrifiad hwnnw o ddeunydd perthnasol yng ngholofn 3 o Ran B o Atodlen 4;

(g) unrhyw ddeunydd perthnasol o ddisgrifiad a bennir yng ngholofn 2 o Ran C o Atodlen 4, oni bai y cydymffurfir â'r gofynion a bennir yn y cofnodion mewn cysylltiad â'r disgrifiad hwnnw o ddeunydd perthnasol yng ngholofn 3 o Ran C o Atodlen 4.

(2) Mae paragraff (1) yn gymwys i'r plâu planhigion a'r deunydd perthnasol penodedig pa un a ydynt yn tarddu o ran arall o'r Undeb Ewropeaidd neu o drydedd wlad.

(3) Ond nid yw paragraff (1) yn gymwys i unrhyw ddeunydd perthnasol o ddisgrifiad a bennir yng ngholofn 2 o Ran A neu C o Atodlen 4 y mae Rhan 2 yn gymwys iddi.

(4) Nid yw paragraff (1)(e) ac (f) yn gymwys i unrhyw ddeunydd perthnasol a waherddir rhag cael ei gyflwyno i Gymru o dan baragraff (1)(d).

(5) Ni chaiff unrhyw berson ddod â dim o'r tatws a ganlyn i Gymru oni bai y darperir hysbysiad ysgrifenedig am y materion y cyfeirir atynt ym mharagraff (6) i arolygydd o leiaf ddau ddiwrnod cyn y dyddiad y bwriedir iddynt gyrraedd—

(a) tatws hadyd a dyfwyd neu yr amheuir eu bod wedi eu tyfu mewn Aelod-wladwriaeth arall neu yn y Swistir; neu

(b) tatws, ac eithrio tatws hadyd, a dyfwyd neu yr amheuir eu bod wedi eu tyfu yng Ngwlad Pwyl, Portiwgal, Rwmania neu unrhyw ran o Sbaen sydd o fewn yr Undeb Ewropeaidd.

(6) Y materion yw—

(a) yr amser a'r dyddiad y bwriedir iddynt gyrraedd;

(b) y defnydd arfaethedig ohonynt;

(c) eu cyrchfan arfaethedig;

(d) eu hamrywogaeth a'u nifer; ac

(e) rhif adnabod cynhyrchydd y tatws.

(7) Yn achos ffrwythau sitrws hysbysadwy, rhaid i'r person sy'n cyflwyno'r ffrwythau i'r Undeb Ewropeaidd drwy fan cyrraedd mewn rhan arall o'r Undeb Ewropeaidd ddarparu hysbysiad ysgrifenedig i Weinidogion Cymru yn y cyfeiriad penodedig, cyn iddynt gyrraedd y man cyrraedd hwnnw, am—

(a) y dyddiad y disgwylir iddynt gael eu cyflwyno i'r Undeb Ewropeaidd;

(b) eu man cyrraedd yn yr Undeb Ewropeaidd;

(c) eu cyfaint;

(d) rhifau adnabod eu cynwysyddion;

(e) enwau, cyfeiriadau a lleoliadau'r mangreoedd yng Nghymru y maent i'w prosesu ynddynt.

(8) Mae paragraffau (1)(e), (f) ac (g) a (5) yn ddarostyngedig i erthygl 22.

(9) Yn yr erthygl hon—

ystyr "cyfeiriad penodedig" ("*specified address*") yw'r cyfeiriad a roddir gan Weinidogion Cymru o bryd i'w gilydd at ddibenion paragraff (7);

ystyr "ffrwythau sitrws hysbysadwy" ("*notifiable citrus fruits*") yw ffrwythau sitrws i'w prosesu sydd i'w cyflwyno i'r Undeb Ewropeaidd drwy fan cyrraedd mewn Aelod-wladwriaeth arall a'u prosesu'n sudd yng Nghymru.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I18** Ergl. 18 mewn grym ar 2.11.2018, gweler **ergl. 1(2)**

**Hysbysu am lanio planhigion penodol ar gyfer eu plannu**

**19.**—(1) Rhaid i berson sy'n dod â'r planhigion a ganlyn i Gymru hysbysu arolygydd yn ysgrifenedig am y materion y cyfeirir atynt ym mharagraff (2) cyn y dyddiad y maent yn cyrraedd Cymru, neu'n ddim hwyrach na phedwar diwrnod ar ôl hynny—

(a) planhigion *Castanea* Mill., *Fraxinus* L., **[**[F1]*Olea europaea* L.,**]***Pinus* L., *Platanus* L., *Prunus* L., *Quercus* L. neu *Ulmus* L., a fwriedir ar gyfer eu plannu, a dyfwyd neu yr amheuir eu bod wedi eu tyfu mewn Aelod-wladwriaeth arall; neu

(b) planhigion *Castanea* Mill., *Fraxinus* L., **[**[F2]*Olea europaea* L.,**]** *Pinus* L., *Platanus* L., *Prunus* L., *Quercus* L. neu *Ulmus* L., a fwriedir ar gyfer eu plannu, a dyfwyd neu yr amheuir eu bod wedi eu tyfu yn y Swistir ac nad yw gofynion erthygl 6 yn gymwys iddynt.

(2) Y materion yw—

(a) y dyddiad y bwriedir iddynt gyrraedd neu, os ydynt wedi cyrraedd Cymru, y dyddiad y gwnaethant gyrraedd Cymru gyntaf;

(b) eu cyrchfan arfaethedig, neu os ydynt wedi cyrraedd eu cyrchfan arfaethedig yng Nghymru, eu lleoliad presennol;

(c) eu genws, eu rhywogaeth a'u nifer;

(d) rhif adnabod cyflenwr y planhigion; ac

(e) y wlad y maent wedi eu traddodi ohoni, neu y maent i'w traddodi iddi.

(3) Mae paragraff (1) yn ddarostyngedig i erthygl 22.

**Diwygiadau Testunol**

**F1** Geiriau yn ergl. 19(1)(a) wedi eu mewnosod (6.3.2019) gan Gorchymyn Iechyd Planhigion (Cymru) (Diwygio) 2019 (O.S. 2019/132), erglau. 1(2), **3**

**F2** Geiriau yn ergl. 19(1)(b) wedi eu mewnosod (6.3.2019) gan Gorchymyn Iechyd Planhigion (Cymru) (Diwygio) 2019 (O.S. 2019/132), erglau. 1(2), **3**

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I19** Ergl. 19 mewn grym ar 2.11.2018, gweler **ergl. 1(2)**

**Atal plâu planhigion rhag lledaenu**

**20.**—(1) Ni chaiff unrhyw berson gadw, storio, plannu, gwerthu na symud y canlynol yn fwriadol, na pheri na chaniatáu yn fwriadol i'r canlynol gael eu cadw, eu storio, eu plannu, eu gwerthu na'u symud—

(a) unrhyw bla planhigion o ddisgrifiad a bennir yn Atodlen 1;

(b) unrhyw ddeunydd perthnasol o ddisgrifiad a bennir yng ngholofn 2 o Atodlen 2 sy'n cario neu wedi ei heintio â phla planhigion o ddisgrifiad a bennir mewn unrhyw gofnod mewn cysylltiad â'r disgrifiad hwnnw o ddeunydd perthnasol yng ngholofn 3 o Atodlen 2;

(c) unrhyw bla planhigion, er nad yw wedi ei bennu yn Atodlen 1 nac yng ngholofn 3 o Atodlen 2, nad yw'n bresennol ym Mhrydain Fawr fel arfer ac sy'n debygol o fod yn niweidiol i blanhigion ym Mhrydain Fawr;

(d) unrhyw ddeunydd perthnasol a gyflwynwyd i Gymru gan dorri erthygl 5(1)(d), (e) neu (f) neu erthygl 18(1)(d), (e), (f) neu (g);

(e) unrhyw ddeunydd perthnasol o ddisgrifiad a bennir yng ngholofn 2 o Ran B o Atodlen 4 sy'n tarddu o Brydain Fawr, oni bai y cydymffurfir â'r gofynion a bennir yn y cofnodion mewn cysylltiad â'r disgrifiad hwnnw o ddeunydd perthnasol yng ngholofn 3 o Ran B o Atodlen 4;

(f) unrhyw ddeunydd perthnasol o ddisgrifiad a bennir yng ngholofn 2 o Ran C o Atodlen 4 sy'n tarddu o Brydain Fawr, oni bai y cydymffurfir â'r gofynion a bennir yn y cofnodion mewn cysylltiad â'r disgrifiad hwnnw o ddeunydd perthnasol yng ngholofn 3 o Ran C o Atodlen 4;

(g) unrhyw ddeunydd perthnasol a gyflwynwyd i Gymru o Loegr neu o'r Alban a fyddai, pe bai wedi ei gyflwyno o drydedd wlad neu o ran arall o'r Undeb Ewropeaidd, wedi torri erthygl 5(1)(d), (e) neu (f) neu erthygl 18(1)(d), (e), (f) neu (g).

(2) Nid yw'r gwaharddiadau ym mharagraff (1) yn gymwys i unrhyw bla planhigion neu ddeunydd perthnasol y mae'n ofynnol ei gadw, ei storio neu ei symud gan gydymffurfio â gofyniad a osodir gan arolygydd o dan Ran 6 neu 7.

(3) Mae paragraff (1)(e) ac (f) yn ddarostyngedig i erthygl 22.

(4) Yn yr erthygl hon, mae "symud" ("*move*" a "*moved*") yn golygu symud neu waredu fel arall.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I20** Ergl. 20 mewn grym ar 2.11.2018, gweler **ergl. 1(2)**

**Y gofynion am basbortau planhigion**

**21.**—(1) Ni chaiff unrhyw berson gyflwyno i Gymru, na symud o fewn Cymru, unrhyw ddeunydd perthnasol o ddisgrifiad a bennir yn Rhan A o Atodlen 6 pan fo'n nwyddau tramwy yr UE neu'n tarddu o Gymru neu o rywle arall yn yr Undeb Ewropeaidd, oni bai bod pasbort planhigion yn mynd gyda'r deunydd perthnasol ac, os yw'n tarddu o Gymru, ei fod wedi bod yn destun arolygiad boddhaol yn y man cynhyrchu.

(2) Ni chaiff unrhyw berson gyflwyno i Gymru, na symud o fewn Cymru, unrhyw ddeunydd perthnasol o ddisgrifiad a bennir yn Rhan B o Atodlen 6 pan fo'n nwyddau tramwy yr UE neu'n tarddu o Gymru neu o rywle arall yn yr Undeb Ewropeaidd, oni bai bod pasbort planhigion sy'n ddilys ar gyfer Cymru fel parth gwarchod yn mynd gyda'r deunydd perthnasol ac, os yw'n tarddu o Gymru, ei fod wedi bod yn destun arolygiad boddhaol yn y man cynhyrchu.

(3) Ni chaiff unrhyw berson symud o fewn Cymru unrhyw ddeunydd perthnasol sydd wedi ei ollwng o dan erthygl 12 ac sydd o ddisgrifiad a bennir yn Rhan A o Atodlen 6, oni bai bod pasbort planhigion yn mynd gydag ef.

(4) Ni chaiff unrhyw berson symud o fewn Cymru unrhyw ddeunydd perthnasol sydd wedi ei ollwng o dan erthygl 12 ac sydd o ddisgrifiad a bennir yn Rhan B o Atodlen 6, oni bai bod pasbort planhigion sy'n ddilys ar gyfer Cymru fel parth gwarchod yn mynd gydag ef.

(5) Ni chaiff unrhyw berson draddodi o Gymru i ran arall o'r Undeb Ewropeaidd unrhyw ddeunydd perthnasol o ddisgrifiad a bennir yn Rhan A o Atodlen 7, oni bai bod pasbort planhigion yn mynd gyda'r deunydd perthnasol.

(6) Ni chaiff unrhyw berson draddodi o Gymru i barth gwarchod mewn rhan arall o'r Undeb Ewropeaidd unrhyw ddeunydd perthnasol o ddisgrifiad a bennir yn Rhan B o Atodlen 7, oni bai bod pasbort planhigion sy'n ddilys ar gyfer y parth gwarchod hwnnw yn mynd gyda'r deunydd perthnasol.

(7) Ni chaiff unrhyw berson symud o fewn Cymru na thraddodi o Gymru i barth gwarchod mewn rhan arall o'r Undeb Ewropeaidd a gydnabyddir fel parth gwarchod mewn perthynas â *Thaumetopoea processionea* L., unrhyw blanhigion, ac eithrio hadau, *Quercus* spp., ac eithrio *Quercus suber*, a fwriedir ar gyfer eu plannu, oni bai bod dogfennaeth swyddogol sy'n cadarnhau eu bod yn rhydd rhag *Thaumetopoea processionea* L. yn mynd gyda hwy.

(8) Nid yw'r gofynion ym mharagraffau (1) a (2) yn gymwys mewn perthynas â chyflwyno i Gymru ddeunydd perthnasol y mae Gweinidogion Cymru wedi cytuno, o dan gytundeb tramwy UE, i gynnal gwiriad iechyd planhigion mewn cysylltiad ag ef.

(9) Mae paragraffau (1), (2), (5) a (6) yn ddarostyngedig i erthygl 22.

(10) Mae paragraffau (2) a (4) yn ddarostyngedig i erthygl 23.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I21** Ergl. 21 mewn grym ar 2.11.2018, gweler **ergl. 1(2)**

**Eithriadau rhag gwaharddiadau a gofynion penodol**

**22.**—(1) Nid yw'r darpariaethau a ganlyn yn gymwys i symiau bach o ddeunydd perthnasol, ac eithrio deunydd eithriedig, os yw'r deunydd perthnasol yn bodloni'r amodau ym mharagraff (2)—

(a) erthygl 18(1)(e), (f) ac (g) a (5);

(b) erthygl 19(1);

(c) erthygl 20(1)(e) ac (f); a

(d) erthygl 21(1), (2), (5) a (6).

(2) Yr amodau yw—

(a) nad yw'r deunydd perthnasol yn dangos unrhyw arwyddion bod pla planhigion yn bresennol;

(b) na fwriedir i'r deunydd perthnasol gael ei ddefnyddio wrth fasnachu neu redeg busnes; ac

(c) y bwriedir y deunydd perthnasol at ddefnydd aelwydydd.

(3) Nid yw'r gofynion yn erthygl 21(1) yn gymwys i blanhigion a fwriedir ar gyfer eu plannu, ac eithrio hadau, na allant ond tyfu mewn dŵr neu bridd sydd wedi ei drwytho â dŵr yn barhaol, sy'n tarddu o ardal a sefydlwyd yn unol ag Erthygl 5 o Benderfyniad 2012/697/EU ac nad ydynt ond yn cael eu symud o fewn yr ardal honno.

(4) Mae'r gofynion yn erthygl 21(1) a (5) a fyddai'n gymwys yn rhinwedd paragraffau 16 a 17 o Ran A o Atodlenni 6 a 7 i blanhigion cynhaliol *Xylella* o fewn ystyr Erthygl 1(b) o Benderfyniad (EU) 2015/789 ac i blanhigion tarddiol cyn-sylfaenol a deunydd cyn-sylfaenol y cyfeirir atynt yn Erthygl 9(9) o'r Penderfyniad hwnnw yn anghymwys pan fo'r planhigion yn cael eu symud gan berson sy'n gweithredu at ddibenion y tu allan i fasnach, busnes neu broffesiwn y person, a'r person yn eu caffael at ddefnydd personol.

(5) Caiff Gweinidogion Cymru eithrio symud deunydd perthnasol sy'n tarddu o Brydain Fawr o'r gwaharddiad ar symud yn erthygl 21(1) neu (2) os yw Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni—

(a) bod y symudiad yn cael ei wneud yn lleol gan gynhyrchwyr neu broseswyr bach y bwriedir y broses gyfan o gynhyrchu a gwerthu deunydd o'r fath ar gyfer defnyddio'r deunydd yn y pen draw gan bersonau yn y farchnad leol nad ydynt yn ymwneud yn broffesiynol â chynhyrchu planhigion; a

(b) nad oes unrhyw risg y bydd y plâu planhigion yn lledaenu neu'n cael eu lledaenu o ganlyniad i'r symudiad hwnnw.

(6) Ym mharagraff (1), ystyr "deunydd eithriedig" ("*excluded material*") yw unrhyw un neu ragor o'r deunydd a ganlyn—

(a) planhigion *Castanea* Mill. a fwriedir ar gyfer eu plannu;

(b) planhigion *Fraxinus* L. a fwriedir ar gyfer eu plannu;

(c) planhigion, ac eithrio hadau, *Platanus* L, a fwriedir ar gyfer eu plannu.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I22** Ergl. 22 mewn grym ar 2.11.2018, gweler **ergl. 1(2)**

**Dilysrwydd pasbortau planhigion ar gyfer Cymru**

**23.**—(1) Mae'r erthygl hon yn gymwys i ddeunydd perthnasol o ddisgrifiad a bennir yn Rhan B o Atodlen 6 a symudir o fan yng Nghymru, neu drwy Gymru, i leoliad y tu allan i Gymru.

(2) Nid yw'r gofynion yn erthygl 21(2) a (4) yn gymwys os yw—

(a) y deunydd perthnasol yn tarddu o Brydain Fawr; neu

(b) dogfen o fath a ddefnyddir fel arfer at ddibenion masnach, sy'n ardystio bod y deunydd yn tarddu y tu allan i Gymru a'i fod yn tramwyo i gyrchfan derfynol y tu allan i Gymru a bod yr amodau ym mharagraff (3) wedi eu bodloni, yn mynd gyda'r deunydd perthnasol wrth iddo dramwyo drwy Gymru.

(3) Yr amodau yw—

(a) bod y deunydd pecynnu y caiff y deunydd perthnasol ei gludo ynddo ac unrhyw gerbyd a ddefnyddir i gludo'r deunydd yn rhydd rhag pridd a malurion planhigion ac unrhyw bla planhigion perthnasol y mae Cymru yn barth gwarchod mewn perthynas ag ef;

(b) y cafodd y deunydd ei selio yn union ar ôl ei becynnu neu, pan fo hynny'n briodol, ar ôl ei lwytho, a'i fod yn parhau i fod wedi ei selio wrth i'r deunydd dramwyo drwy Gymru; ac

(c) bod natur neu wneuthuriad y deunydd pecynnu y caiff y deunydd ei gludo ynddo ac unrhyw gerbyd a ddefnyddir i gludo'r deunydd yn ddigonol i sicrhau nad oes unrhyw risg bod unrhyw bla planhigion perthnasol a allai fod yn bresennol yn y deunydd perthnasol neu arno yn dianc.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I23** Ergl. 23 mewn grym ar 2.11.2018, gweler **ergl. 1(2)**

**Darpariaethau cyffredinol sy'n ymwneud â phasbortau planhigion**

**24.**—(1) Mae unrhyw newid neu ddilead mewn pasbort planhigion yn gwneud y pasbort planhigion yn annilys yn awtomatig, oni bai bod y newid neu'r dilead yn cael ei ardystio gan swyddog awdurdodedig neu'r masnachwr planhigion a awdurdodwyd o dan erthygl 29 i ddyroddi'r pasbort planhigion, yn y naill achos a'r llall drwy roi ei flaenlythrennau â llaw wrth y newid neu'r dilead.

(2) Nid yw pasbort planhigion sy'n ymwneud ag unrhyw ddeunydd perthnasol ond i'w drin fel ei fod yn mynd gyda'r deunydd perthnasol os yw swyddog awdurdodedig, y masnachwr planhigion a awdurdodwyd i'w ddyroddi neu arolygydd yn rhoi'r pasbort planhigion ynghlwm wrth y deunydd perthnasol.

(3) Pan fo pasbort planhigion ar ffurf label swyddogol a bod y masnachwr planhigion sydd wedi ei awdurdodi i ddyroddi'r pasbort planhigion i'w roi ynghlwm, rhaid i'r masnachwr planhigion ei roi ynghlwm mewn modd sy'n golygu na ellir ei ailddefnyddio.

(4) Ni chaiff person ond dyroddi pasbort planhigion amnewid yn lle pasbort planhigion a ddyroddwyd mewn cysylltiad â llwyth os yw—

(a) y llwyth wedi ei rannu, y llwyth neu ran o'r llwyth wedi ei gyfuno â llwyth arall neu statws iechyd planhigion y llwyth wedi ei newid; a

(b) y person wedi ei fodloni y gellir adnabod y deunydd perthnasol y bydd y pasbort planhigion amnewid yn ymwneud ag ef a'i fod yn rhydd rhag unrhyw risg o heigiad gan bla planhigion o ddisgrifiad a bennir yn Atodlen 1 neu yng ngholofn 3 o Atodlen 2.

(5) Rhaid i basbort planhigion neu ddogfen swyddogol sy'n mynd gydag unrhyw ddeunydd perthnasol yn unol ag erthygl 21 gael ei gadw neu ei chadw gan y person sy'n ddefnyddiwr terfynol i'r deunydd perthnasol neu sy'n defnyddio'r deunydd perthnasol wrth fasnachu neu gynnal busnes.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I24** Ergl. 24 mewn grym ar 2.11.2018, gweler **ergl. 1(2)**

# RHAN 4

## Cofrestru masnachwyr planhigion ac awdurdod i ddyroddi pasbortau planhigion

### Cofrestr o fasnachwyr planhigion

**25.**—(1) Rhaid i Weinidogion Cymru gynnal cofrestr sy'n rhestru'r manylion a ganlyn mewn perthynas â phob masnachwr planhigion sy'n bodloni gofynion y Rhan hon—

(a) enw'r masnachwr planhigion;

(b) enw unrhyw berson arall sy'n gyfrifol am wneud y cais ar gyfer y masnachwr planhigion o dan erthygl 27;

(c) enw masnachu'r masnachwr planhigion, os yw'n wahanol i enw'r masnachwr planhigion;

(d) manylion y gweithgareddau y mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys iddynt ac y mae'r masnachwr planhigion yn ymgymryd â hwy neu'n bwriadu ymgymryd â hwy;

(e) cyfeiriad pob mangre y mae'r masnachwr planhigion yn ymgymryd â'r gweithgareddau hynny ynddi neu'n bwriadu ymgymryd â'r gweithgareddau hynny ynddi; ac

(f) rhif cofrestru unigryw i'r masnachwr planhigion.

(2) Rhaid i'r gofrestr fod yn agored i'w harolygu gan y Comisiwn Ewropeaidd.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I25** Ergl. 25 mewn grym ar 2.11.2018, gweler **ergl. 1(2)**

### Rhwymedigaeth i gofrestru

**26.**—(1) Ni chaiff unrhyw fasnachwr planhigion ymgymryd ag unrhyw weithgaredd y mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys iddo mewn unrhyw fangre oni bai bod y masnachwr planhigion wedi ei gofrestru mewn cysylltiad â'r gweithgaredd yn y fangre honno.

(2) Ond nid oes angen i fasnachwr planhigion fod yn gofrestredig mewn cysylltiad ag unrhyw weithgaredd y mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys iddo os yw—

(a) y masnachwr planhigion yn gynhyrchydd; a

(b) y cyfan o'r deunydd perthnasol y mae'r masnachwr planhigion yn ei gynhyrchu a'i werthu wedi ei fwriadu i'w ddefnyddio yn y pen draw gan bersonau yn y farchnad leol nad ydynt yn ymwneud â chynhyrchu planhigion wrth fasnachu neu gynnal busnes.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I26** Ergl. 26 mewn grym ar 2.11.2018, gweler **ergl. 1(2)**

### Gofynion cofrestru

**27.**—(1) Rhaid i gais am gofrestriad—

(a) cael ei wneud yn ysgrifenedig i Weinidogion Cymru; a

(b) bod ar ffurf a chynnwys yr wybodaeth y caiff Gweinidogion Cymru eu gwneud yn rhesymol ofynnol at ddiben ystyried y cais.

(2) Rhaid i fasnachwr planhigion hysbysu Gweinidogion Cymru yn ysgrifenedig ar unwaith os ceir—

(a) cyn bod y masnachwr planhigion wedi ei gofrestru, unrhyw newid yn amgylchiadau'r masnachwr planhigion a gofnodir yng nghais y masnachwr planhigion am gofrestriad; neu

(b) unrhyw newid yn y manylion a restrir yn y gofrestr mewn perthynas â'r masnachwr planhigion.

(3) Ni chaiff Gweinidogion Cymru ond cofrestru masnachwr planhigion mewn cysylltiad â gweithgaredd neu fangre os yw Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni bod y masnachwr planhigion yn gallu cydymffurfio â'r amodau yn erthygl 28(1) ac yn fodlon gwneud hynny.

(4) Rhaid i Weinidogion Cymru hysbysu masnachwr planhigion pan fydd y masnachwr planhigion wedi ei gofrestru.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I27** Ergl. 27 mewn grym ar 2.11.2018, gweler **ergl. 1(2)**

### Amodau ar gyfer parhau i fod yn gofrestredig fel masnachwr planhigion ac amodau eraill sy'n gysylltiedig â masnach

**28.**—(1) Rhaid i fasnachwr planhigion cofrestredig—

(a) cadw cynllun cywir o bob un o fangreoedd cofrestredig y masnachwr planhigion;

(b) cadw cofnod o'r holl ddeunydd perthnasol—

(i) a brynir gan y masnachwr planhigion;

(ii) a ddygir i unrhyw un neu ragor o fangreoedd cofrestredig y masnachwr planhigion at ddiben storio, plannu neu gynhyrchu'r deunydd yn y fangre honno; neu

(iii) a gynhyrchir yn unrhyw un neu ragor o fangreoedd cofrestredig y masnachwr planhigion, neu a anfonir ohonynt;

(c) cadw pob dogfen y mae'r masnachwr planhigion wedi ei chreu neu wedi ei chael ac sy'n ymwneud â'r cofnodion y cyfeirir atynt yn is-baragraff (b) am o leiaf un flwyddyn o'r dyddiad y creodd neu y cafodd y masnachwr planhigion hi;

(d) dynodi unigolyn (pa un ai'r masnachwr planhigion neu berson arall) sy'n dechnegol brofiadol mewn perthynas â'r gweithgareddau cofrestredig a'r materion iechyd planhigion cysylltiedig sy'n effeithio ar y fangre gofrestredig ac sydd ar gael i gydgysylltu â Gweinidogion Cymru mewn perthynas â materion sy'n codi o dan y Gorchymyn hwn;

(e) archwilio pob un o'r mangreoedd cofrestredig a'r deunydd perthnasol yn y mangreoedd hynny ar yr adegau ac yn y modd a bennir mewn unrhyw ganllawiau a ddyroddir gan Weinidogion Cymru o bryd i'w gilydd;

(f) gwneud datganiad bod y masnachwr planhigion yn gallu cydymffurfio â'r amodau a bennir yn is-baragraffau (a) i (e) ar unrhyw adeg ac ar unrhyw ffurf sy'n ofynnol gan Weinidogion Cymru ac yn fodlon gwneud hynny; ac

(g) cydymffurfio ag unrhyw amodau eraill a bennir gan Weinidogion Cymru y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried eu bod yn angenrheidiol at ddiben asesu presenoldeb neu ledaeniad unrhyw bla planhigion yn unrhyw un neu ragor o fangreoedd cofrestredig y masnachwr planhigion oherwydd cyflwr y fangre honno neu'r mangreoedd hynny.

(2) Os yw Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni bod masnachwr planhigion cofrestredig wedi methu â chydymffurfio ag unrhyw un neu ragor o'r amodau a bennir ym mharagraff (1), caiff Gweinidogion Cymru atal cofrestriad y masnachwr planhigion dros dro hyd nes y bydd Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni bod y masnachwr planhigion yn gallu cydymffurfio â'r amodau hynny ac yn fodlon gwneud hynny.

(3) Rhaid i weithredwr proffesiynol sy'n cyflenwi planhigion penodedig *Xylella,* neu y'u cyflenwir hwy iddo—

(a) cadw cofnod o bob lot o'r planhigion a gyflenwyd gan y gweithredwr proffesiynol ac enw'r gweithredwr proffesiynol y cyflenwyd y lot iddo am dair blynedd o'r dyddiad y'i cyflenwyd;

(b) cadw cofnod o bob lot o'r planhigion a gafwyd gan y gweithredwr proffesiynol ac enw'r gweithredwr proffesiynol a gyflenwodd y lot am dair blynedd o'r dyddiad y'i cafwyd; ac

(c) yn union ar ôl anfon neu gael unrhyw lot o'r fath, hysbysu Gweinidogion Cymru yn ysgrifenedig am y manylion a bennir yn Erthygl 10(4) o Benderfyniad (EU) 2015/789 mewn cysylltiad â'r lot honno.

(4) Ym mharagraff (3)—

(a) mae i "gweithredwr proffesiynol" yr ystyr a roddir i "professional operator" yn Erthygl 1(d) o Benderfyniad (EU) 2015/789;

(b) ystyr "planhigion penodedig *Xylella"* ("*Xylella specified plants*") yw—

(i) planhigion penodedig o fewn ystyr Erthygl 1(b) o Benderfyniad (EU) 2015/789 sydd wedi eu tyfu am o leiaf ran o'u bywyd mewn ardal a sefydlwyd yn unol ag Erthygl 4 o'r Penderfyniad hwnnw, neu wedi eu symud drwy ardal o'r fath;

(ii) planhigion, ac eithrio hadau, *Coffea*, *Lavandula dentata* L., *Nerium oleander* L., *Olea europaea* L., *Polygala myrtifolia* L. neu *Prunus dulcis* (Mill.) D.A. Webb, a fwriedir ar gyfer eu plannu, nad ydynt erioed wedi eu tyfu mewn ardal a sefydlwyd yn unol ag Erthygl 4 o Benderfyniad (EU) 2015/789.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I28** Ergl. 28 mewn grym ar 2.11.2018, gweler **ergl. 1(2)**

### Awdurdod i ddyroddi pasbortau planhigion

**29.**—(1) Rhaid i fasnachwr planhigion cofrestredig sy'n dymuno dyroddi pasbortau planhigion mewn perthynas â deunydd perthnasol sydd i'w symud o unrhyw fangre yng Nghymru wneud cais ysgrifenedig i Weinidogion Cymru am yr awdurdod i wneud hynny.

(2) Rhaid i'r ceisydd ddarparu i Weinidogion Cymru unrhyw fanylion sy'n rhesymol ofynnol gan Weinidogion Cymru ynglŷn â'r deunydd perthnasol.

(3) Caiff Gweinidogion Cymru gynnal unrhyw archwiliad o'r deunydd perthnasol a'r fangre y mae'r deunydd i'w symud ohoni y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried ei fod yn angenrheidiol mewn perthynas â'r cais.

(4) Ni chaiff Gweinidogion Cymru ond rhoi awdurdodiad i ddyroddi pasbortau planhigion os yw Gweinidogion Cymru, ar ôl rhoi sylw i unrhyw archwiliad o'r deunydd perthnasol a'r fangre sy'n destun y cais, wedi eu bodloni—

(a) bod y fangre a'r deunydd perthnasol yn rhydd rhag unrhyw blâu planhigion perthnasol; a

(b) pan bennir unrhyw ofynion o dan y Gorchymyn hwn mewn perthynas â'r deunydd perthnasol, y cydymffurfiwyd â'r gofynion hynny.

(5) Rhaid i awdurdodiad i ddyroddi pasbortau planhigion a roddir gan Weinidogion Cymru gael ei roi yn ysgrifenedig a chaniateir ei roi yn ddarostyngedig i unrhyw amodau y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried eu bod yn briodol er mwyn sicrhau y cydymffurfir ag unrhyw ofynion perthnasol o dan y Gorchymyn hwn mewn perthynas â'r deunydd perthnasol, gan gynnwys y tiriogaethau y bydd y pasbortau planhigion sydd i'w dyroddi yn ddilys ar eu cyfer.

(6) Caiff Gweinidogion Cymru atal dros dro weithredu awdurdodiad i ddyroddi pasbortau planhigion yn gyfan gwbl neu mewn perthynas â mangre benodedig neu ddeunydd perthnasol penodedig os nad yw Gweinidogion Cymru, ar ôl rhoi sylw i unrhyw archwiliad o fangre'r masnachwr planhigion cofrestredig ac unrhyw ddeunydd perthnasol yno, wedi eu bodloni—

(a) bod y fangre neu'r deunydd perthnasol yn rhydd rhag unrhyw blâu planhigion perthnasol; a

(b) pan bennir unrhyw ofynion o dan y Gorchymyn hwn mewn perthynas â'r deunydd perthnasol, y cydymffurfiwyd â'r gofynion hynny.

(7) Caiff Gweinidogion Cymru atal dros dro weithredu awdurdodiad i ddyroddi pasbort planhigion, neu amrywio awdurdodiad, i'r graddau y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried bod hynny'n angenrheidiol, os ydynt wedi eu bodloni bod y masnachwr planhigion cofrestredig wedi methu ag—

(a) hysbysu Gweinidogion Cymru yn unol ag erthygl 27(2) am unrhyw newid yn y manylion a gofrestrwyd mewn perthynas â'r masnachwr planhigion;

(b) cydymffurfio ag unrhyw un neu ragor o'r amodau a bennir yn erthygl 28(1);

(c) cydymffurfio ag unrhyw amodau yn yr awdurdodiad a roddwyd o dan baragraff (5); neu

(d) cydymffurfio â gofyniad mewn hysbysiad a gyflwynwyd i'r masnachwr planhigion o dan erthygl 32.

(8) Yn yr erthygl hon ystyr "pla planhigion perthnasol" ("*relevant plant pest*") yw—

(a) pla planhigion o ddisgrifiad a bennir yn Atodlen 1; neu

(b) mewn perthynas ag unrhyw ddeunydd perthnasol o ddisgrifiad a bennir yng ngholofn 2 o Atodlen 2, pla planhigion o ddisgrifiad a bennir mewn unrhyw gofnod mewn cysylltiad â'r

disgrifiad hwnnw o ddeunydd perthnasol yng ngholofn 3 o'r Atodlen honno sy'n bresennol ar y deunydd perthnasol.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I29** Ergl. 29 mewn grym ar 2.11.2018, gweler **ergl. 1(2)**

# RHAN 5

## Masnach â'r Swistir a phasbortau planhigion y Swistir

### Eithriadau i'r gofynion yn erthyglau 6, 7 a 10

**30.**—(1) Nid yw'r gofynion yn erthygl 7 i dystysgrif ffytoiechydol fynd gyda deunydd perthnasol penodol yn gymwys i unrhyw ddeunydd perthnasol sydd o ddisgrifiad a bennir yn Rhan B, ond nid Rhan A, o Atodlen 8 ac a gyflwynir i Gymru o'r Swistir.

(2) Yn achos unrhyw ddeunydd perthnasol sydd o ddisgrifiad a bennir yn Rhan A o Atodlen 8 ac sy'n cael ei draddodi'n uniongyrchol o'r Swistir i Gymru, mae unrhyw ofynion yn erthygl 7 fod tystysgrif ffytoiechydol yn mynd gyda'r deunydd perthnasol wedi eu bodloni os yw pasbort planhigion y Swistir yn mynd gyda'r deunydd.

(3) Nid yw'r gofynion yn erthyglau 6 a 10 yn gymwys i unrhyw ddeunydd perthnasol—

(a) sydd o ddisgrifiad a bennir yn Rhan B, ond nid yn Rhan A, o Atodlen 8 ac a gyflwynir i Gymru o'r Swistir; neu

(b) y mae pasbort planhigion y Swistir yn mynd gydag ef yn unol â pharagraff (2).

(4) Yn achos unrhyw ddeunydd perthnasol sydd o ddisgrifiad a bennir yn Rhan A o Atodlen 8 ac sy'n cael ei gyflwyno i Gymru o'r Swistir drwy ran arall o'r Undeb Ewropeaidd, mae unrhyw ofyniad yn Rhan 3 fod pasbort planhigion yn mynd gyda'r deunydd perthnasol wedi ei fodloni os yw pasbort planhigion y Swistir yn mynd gyda'r deunydd.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I30** Ergl. 30 mewn grym ar 2.11.2018, gweler **ergl. 1(2)**

# RHAN 6

## Mesurau i reoli glanio deunydd perthnasol ac atal plâu planhigion rhag lledaenu

### Archwilio, cymryd samplau a marcio

**31.**—(1) Caiff arolygydd fynd i unrhyw fangre ar bob adeg resymol at ddiben—

(a) canfod presenoldeb neu ddosbarthiad pla planhigion yn y fangre;

(b) gwirio a gydymffurfiwyd ag unrhyw ddarpariaeth yn y Gorchymyn hwn;

(c) cynnal archwiliad o fangre masnachwr planhigion (gan gynnwys deunydd perthnasol, dogfennau neu gofnodion yn y fangre) mewn cysylltiad ag awdurdodiad neu gais am awdurdodiad y masnachwr planhigion i ddyroddi pasbortau planhigion o dan erthygl 29;

(d) gorfodi darpariaethau'r Gorchymyn hwn fel arall.

(2) Rhaid i arolygydd sy'n gweithredu o dan baragraff (1) ddangos tystiolaeth o'i awdurdod i weithredu, os gofynnir iddo wneud hynny.

(3) Nid yw paragraff (1) yn gymwys mewn perthynas ag unrhyw fangre a ddefnyddir yn llwyr neu'n bennaf fel annedd breifat, oni bai bod rhybudd o 24 awr wedi ei roi i'r meddiannydd.

(4) Nid yw paragraff (1) yn effeithio ar unrhyw hawl mynediad a roddir drwy warant a ddyroddir gan ynad heddwch.

(5) Caiff arolygydd sy'n mynd i fangre at ddiben a bennir ym mharagraff (1) neu o dan warant a ddyroddir gan ynad heddwch—

(a) archwilio, marcio neu dynnu ffotograff o unrhyw ran o'r fangre neu unrhyw wrthrych yn y fangre;

(b) cymryd samplau o unrhyw bla planhigion neu ddeunydd perthnasol, neu o unrhyw gynhwysydd neu becyn, neu o unrhyw ddeunydd sydd wedi bod, neu y gallai fod wedi bod, mewn cysylltiad â phla planhigion neu ddeunydd perthnasol;

(c) arolygu neu wneud copïau o unrhyw ddogfennau neu gofnodion (ar ba ffurf bynnag y cânt eu dal) sy'n ymwneud â chynhyrchu neu fasnachu unrhyw ddeunydd perthnasol.

(6) Caiff arolygydd, at ddiben arfer pŵer a roddir o dan baragraff (5), agor, neu awdurdodi unrhyw berson i agor ar ran yr arolygydd, unrhyw gynhwysydd neu becyn neu ei gwneud yn ofynnol i'r perchennog neu unrhyw berson sydd â gofal am unrhyw gynhwysydd neu becyn ei agor yn y modd a bennir gan yr arolygydd.

(7) Caiff arolygydd wahardd symud, trin neu ddifa unrhyw bla planhigion, deunydd perthnasol, cynhwysydd neu becyn neu unrhyw ddeunydd a allai fod wedi bod mewn cysylltiad â phla planhigion neu ddeunydd perthnasol pan fo hynny'n angenrheidiol er mwyn galluogi'r arolygydd i arfer y pwerau a roddir gan baragraff (5).

(8) Pan gedwir unrhyw ddogfen y cyfeirir ati neu unrhyw gofnod y cyfeirir ato ym mharagraff (5)(c) ar gyfrifiadur, caiff arolygydd—

(a) mynd at unrhyw gyfrifiadur ac unrhyw gyfarpar neu ddeunydd cysylltiedig a ddefnyddir neu a ddefnyddiwyd mewn cysylltiad â'r cofnod neu'r ddogfen, a'u harolygu a gwirio eu gweithrediad;

(b) ei gwneud yn ofynnol i unrhyw berson sydd â gofal am y cyfrifiadur, y cyfarpar neu'r deunydd, neu sydd fel arall yn ymwneud â'i weithredu, roi i'r arolygydd unrhyw gymorth y bo'n rhesymol i'r arolygydd ei gwneud yn ofynnol.

(9) Caiff arolygydd ddifa neu waredu fel arall unrhyw sampl a gymerir o dan baragraff (5)(b) pan na fo angen y sampl ar yr arolygydd mwyach o dan y Gorchymyn hwn.

(10) Caiff arolygydd ddod ag unrhyw bersonau eraill, gan gynnwys cynrychiolwyr y Comisiwn Ewropeaidd, gydag ef, a chaiff ddod ag unrhyw gyfarpar a cherbydau i'r fangre, y mae'r arolygydd yn ystyried eu bod yn angenrheidiol.

(11) Caiff person sy'n dod gydag arolygydd o dan baragraff (10)—

(a) aros yn y fangre ac o bryd i'w gilydd fynd i'r fangre eto heb yr arolygydd;

(b) dod ag unrhyw gyfarpar neu gerbyd i'r fangre y mae'r person yn ystyried ei fod yn angenrheidiol;

(c) cyflawni gwaith yn y fangre yn y modd y'i cyfarwyddir gan arolygydd.

(12) Rhaid i berson sy'n dod gydag arolygydd o dan baragraff (10), os gofynnir iddo wneud hynny, ddangos tystiolaeth o'i awdurdod a roddwyd yn y cyswllt hwnnw gan Weinidogion Cymru.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I31** Ergl. 31 mewn grym ar 2.11.2018, gweler **ergl. 1(2)**

### Camau y caiff arolygydd eu gwneud yn ofynnol

**32.**—(1) Os oes gan arolygydd sail resymol dros amau bod unrhyw bla planhigion neu ddeunydd perthnasol yn debygol o gael ei gyflwyno i Gymru, neu ei fod wedi ei gyflwyno i Gymru, yn groes i'r Gorchymyn hwn, caiff yr arolygydd gyflwyno hysbysiad i berson priodol.

(2) Person priodol yw—

(a) masnachwr planhigion neu berson arall sy'n meddu ar y pla planhigion neu'r deunydd perthnasol neu sydd â'r hawl mewn unrhyw fodd i fod ag ef o dan ei ofal neu ei reolaeth; neu

(b) unrhyw berson sydd â gofal am y fangre y cedwir y pla planhigion neu'r deunydd perthnasol ynddi, neu y mae'n debygol o gael ei gadw ynddi, ar ôl cael ei lanio.

(3) Caiff hysbysiad o dan baragraff (1)—

(a) gwahardd glanio unrhyw bla planhigion neu ddeunydd perthnasol;

(b) pennu ym mha fodd y mae unrhyw bla planhigion neu ddeunydd perthnasol i'w lanio a'r rhagofalon sydd i'w cymryd wrth lanio ac ar ôl hynny;

(c) ei gwneud yn ofynnol i unrhyw bla planhigion neu ddeunydd perthnasol gael ei drin, ei ailallforio, ei ddifa neu ei waredu fel arall;

(d) gwahardd symud unrhyw bla planhigion neu ddeunydd perthnasol o'r fangre am y cyfnod a bennir yn yr hysbysiad a, phan fo hynny'n briodol, gosod unrhyw waharddiadau eraill y mae'r arolygydd yn ystyried eu bod yn angenrheidiol er mwyn atal cyflwyno neu ledaenu unrhyw bla planhigion;

(e) ei gwneud yn ofynnol symud unrhyw bla planhigion neu ddeunydd perthnasol o'r fangre a bennir yn yr hysbysiad;

(f) ei gwneud yn ofynnol cymryd unrhyw gamau eraill, fel a bennir yn yr hysbysiad, y mae'r arolygydd yn ystyried eu bod yn angenrheidiol er mwyn atal cyflwyno neu ledaenu unrhyw bla planhigion.

(4) Os oes gan arolygydd sail resymol dros amau bod unrhyw bla planhigion a reolir neu ddeunydd gwaharddedig yn bresennol neu'n debygol o fod yn bresennol mewn unrhyw fangre, caiff yr arolygydd gyflwyno hysbysiad i'r meddiannydd neu unrhyw berson arall â gofal am y fangre neu'r pla planhigion neu'r deunydd perthnasol.

(5) Caiff hysbysiad o dan baragraff (4)—

(a) ei gwneud yn ofynnol i unrhyw bla planhigion a reolir neu ddeunydd gwaharddedig gael ei drin, ei ailallforio, ei ddifa neu ei waredu fel arall;

(b) gwahardd symud unrhyw bla planhigion a reolir neu ddeunydd gwaharddedig o'r fangre am y cyfnod a bennir yn yr hysbysiad a, phan fo hynny'n briodol, gosod unrhyw waharddiadau eraill y mae'r arolygydd yn ystyried eu bod yn angenrheidiol er mwyn atal cyflwyno neu ledaenu unrhyw bla planhigion a reolir;

(c) ei gwneud yn ofynnol symud unrhyw bla planhigion a reolir neu ddeunydd gwaharddedig o'r fangre a bennir yn yr hysbysiad;

(d) ei gwneud yn ofynnol cymryd unrhyw gamau eraill, fel a bennir yn yr hysbysiad, y mae'r arolygydd yn ystyried eu bod yn angenrheidiol er mwyn atal cyflwyno neu ledaenu unrhyw bla planhigion a reolir.

(6) Os oes gan arolygydd sail resymol dros gredu bod hynny'n angenrheidiol at ddiben atal unrhyw bla planhigion a reolir rhag lledaenu o'r fangre a grybwyllir ym mharagraff (4), neu sicrhau ei fod yn cael ei ddileu o'r fangre, caiff yr arolygydd gyflwyno hysbysiad i'r meddiannydd neu i berson sydd â gofal am unrhyw fangre arall, yn gosod unrhyw waharddiad neu'n ei gwneud yn ofynnol cymryd unrhyw gam rhesymol at y diben hwnnw.

(7) Yn yr erthygl hon—

(a) ystyr "pla planhigion a reolir" ("*controlled plant pest*") yw—

(i) pla planhigion o ddisgrifiad a bennir yn Atodlen 1 neu yng ngholofn 3 o Atodlen 2;

(ii) pla planhigion nad yw'n bresennol ym Mhrydain Fawr fel arfer, ond y mae'r arolygydd yn ystyried, mewn cysylltiad ag ef, fod perygl ar ddyfod bod y pla planhigion yn lledaenu neu'n cael ei ledaenu ym Mhrydain Fawr; neu

(iii) pla planhigion nad yw'n bresennol mewn rhan arall o'r Undeb Ewropeaidd fel arfer, ond y mae'r arolygydd yn ystyried, mewn cysylltiad ag ef, fod perygl ar ddyfod bod y pla planhigion yn lledaenu neu'n cael ei ledaenu i ran arall o'r Undeb Ewropeaidd;

(b) ystyr "deunydd gwaharddedig" ("*prohibited material*") yw—

(i) deunydd perthnasol sy'n cario neu wedi ei heintio â phla planhigion a reolir, neu a allai fod yn cario neu fod wedi ei heintio â phla planhigion a reolir; neu

(ii) deunydd perthnasol y gwaherddir ei lanio o dan erthygl 5 neu 18 neu y gwaherddir ei symud yng Nghymru o dan erthygl 20.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I32** Ergl. 32 mewn grym ar 2.11.2018, gweler **ergl. 1(2)**

### Camau y caiff arolygydd eu cymryd

**33.**—(1) Os oes gan arolygydd sail resymol dros amau bod unrhyw bla planhigion a reolir neu ddeunydd heintiedig yn bresennol neu'n debygol o fod yn bresennol mewn unrhyw fangre, caiff yr arolygydd, ar ôl rhoi rhybudd rhesymol, fynd i'r fangre a chymryd camau yn y fangre neu yn rhywle arall i—

(a) difa unrhyw bla planhigion a reolir;

(b) atal unrhyw bla planhigion a reolir rhag lledaenu;

(c) difa unrhyw ddeunydd heintiedig; neu

(d) trin unrhyw ddeunydd heintiedig.

(2) Rhaid i arolygydd sy'n gweithredu o dan baragraff (1) ddangos tystiolaeth o'i awdurdod i weithredu, os gofynnir iddo wneud hynny.

(3) Nid yw paragraff (1) yn gymwys mewn perthynas ag unrhyw fangre a ddefnyddir yn llwyr neu'n bennaf fel annedd breifat, oni bai bod rhybudd o 24 awr wedi ei roi i'r meddiannydd.

(4) Nid yw paragraff (1) yn effeithio ar unrhyw hawl mynediad a roddir drwy warant a ddyroddir gan ynad heddwch.

(5) Caiff arolygydd ddod ag unrhyw bersonau eraill, gan gynnwys cynrychiolwyr y Comisiwn Ewropeaidd, gydag ef, a chaiff ddod ag unrhyw gyfarpar a cherbydau i'r fangre, y mae'r arolygydd yn ystyried eu bod yn angenrheidiol.

(6) Caiff person sy'n dod gydag arolygydd o dan baragraff (5)—

(a) aros yn y fangre ac o bryd i'w gilydd fynd i'r fangre eto heb yr arolygydd;

(b) dod ag unrhyw gyfarpar neu gerbyd i'r fangre y mae'r person yn ystyried ei fod yn angenrheidiol;

(c) cyflawni gwaith yn y fangre yn y modd y'i cyfarwyddir gan arolygydd.

(7) Rhaid i berson sy'n dod gydag arolygydd o dan baragraff (5), os gofynnir iddo wneud hynny, ddangos tystiolaeth o'i awdurdod a roddwyd yn y cyswllt hwnnw gan Weinidogion Cymru.

(8) Yn yr erthygl hon—

(a) ystyr "pla planhigion a reolir" ("*controlled plant pest*") yw—

(i) pla planhigion o ddisgrifiad a bennir yn Atodlen 1 neu yng ngholofn 3 o Atodlen 2; neu

(ii) pla planhigion nad yw'n bresennol ym Mhrydain Fawr fel arfer, ond y mae'r arolygydd yn ystyried, mewn cysylltiad ag ef, fod perygl ar ddyfod bod y pla planhigion yn lledaenu neu'n cael ei ledaenu ym Mhrydain Fawr;

(b) ystyr "deunydd heintiedig" ("*infected material*") yw—

(i) deunydd perthnasol sy'n cario neu wedi ei heintio â phla planhigion a reolir, neu a allai fod yn cario neu fod wedi ei heintio â phla planhigion a reolir; neu

(ii) deunydd perthnasol nad yw'n cario nac wedi ei heintio â phla planhigion, ond y mae'r arolygydd yn ystyried, mewn cysylltiad ag ef, fod perygl ar ddyfod bod y pla planhigion yn lledaenu neu'n cael ei ledaenu.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I33** Ergl. 33 mewn grym ar 2.11.2018, gweler **ergl. 1(2)**

**Darpariaethau amrywiol ynglŷn â hysbysiadau**

**34.**—(1) Caiff hysbysiad a gyflwynir o dan baragraff (1) neu (4) o erthygl 32 bennu un gofyniad neu ragor, neu ofynion eraill.

(2) Rhaid i unrhyw ofyniad a bennir mewn hysbysiad o dan baragraff (1), (4) neu (6) o erthygl 32 gael ei gyflawni yn y modd ac o fewn unrhyw gyfnod rhesymol a bennir gan yr arolygydd yn yr hysbysiad.

(3) Rhaid i unrhyw driniaeth, ailallforio, difa neu waredu sy'n ofynnol gan hysbysiad a gyflwynir o dan erthygl 32 gael ei gynnal gan y person y cyflwynwyd yr hysbysiad iddo, neu rhaid i'r person hwnnw drefnu iddo gael ei gynnal, er boddhad arolygydd, o'r man neu yn y man a bennir yn yr hysbysiad.

(4) Ni chaniateir i unrhyw bla planhigion neu ddeunydd perthnasol y mae'n ofynnol gan hysbysiad a gyflwynir o dan erthygl 32 iddo gael ei symud i fan a bennir yn yr hysbysiad gael ei symud i'r man dynodedig ac eithrio yn y modd a bennir yn yr hysbysiad.

(5) Caiff arolygydd ddiwygio neu dynnu yn ôl hysbysiad a gyflwynwyd gan arolygydd o dan y Gorchymyn hwn drwy hysbysiad pellach.

(6) Caiff hysbysiad o dan baragraff (5) fod yn ddarostyngedig i unrhyw amodau y mae'r arolygydd yn ystyried eu bod yn angenrheidiol er mwyn atal cyflwyno neu ledaenu unrhyw bla planhigion neu ailheintio neu ailheigio gan y pla planhigion y mae'r hysbysiad gwreiddiol yn ymwneud ag ef.

(7) Caiff unrhyw hysbysiad a gyflwynir o dan y Rhan hon ddiffinio drwy gyfeirio at fap neu gynllun neu fel arall hyd a lled y fangre y cyfeirir ati yn yr hysbysiad.

(8) Caiff arolygydd, drwy hysbysiad, ei gwneud yn ofynnol i'r perchennog neu unrhyw berson arall yr ymddengys ei fod â gofal am y fangre y mae hysbysiad a gyflwynir o dan erthygl 32 yn ymwneud â hi—

(a) hysbysu Gweinidogion Cymru am unrhyw newid ym meddiannaeth y fangre, a dyddiad y newid ac enw'r meddiannydd newydd; a

(b) rhoi gwybod i feddiannydd newydd y fangre am gynnwys yr hysbysiad.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I34** Ergl. 34 mewn grym ar 2.11.2018, gweler **ergl. 1(2)**

**Cyflwyno hysbysiadau**

**35.**—(1) Rhaid i hysbysiad o dan y Gorchymyn hwn sydd i'w gyflwyno i fasnachwr planhigion cofrestredig gael ei gyflwyno drwy—

(a) ei ddanfon yn bersonol; neu

(b) ei adael ar gyfer y masnachwr, neu ei anfon ato drwy'r post, yng nghyfeiriad mangre gofrestredig y masnachwr neu, os oes gan y masnachwr fwy nag un cyfeiriad yn y gofrestr, ym mhrif gyfeiriad y masnachwr yn y gofrestr.

(2) Caniateir i hysbysiad o dan y Gorchymyn hwn sydd i'w gyflwyno i unrhyw berson arall gael ei gyflwyno drwy—

(a) ei ddanfon yn bersonol; neu

(b) ei adael ar ei gyfer, neu ei anfon ato drwy'r post, yn ei gartref neu ei fan gwaith hysbys diwethaf.

(3) Os yw hysbysiad o dan y Gorchymyn hwn i'w gyflwyno i'r meddiannydd neu i berson arall sydd â gofal am y fangre, ac na ellir dod o hyd i gartref neu gyfeiriad hysbys diwethaf y person hwnnw ar ôl gwneud ymholiadau rhesymol, caniateir cyflwyno'r hysbysiad i'r person hwnnw drwy ei gyfeirio at "y meddiannydd" a'i adael wedi ei osod yn weladwy ar wrthrych yn y fangre am gyfnod o saith niwrnod.

(4) Caniateir cyflwyno hysbysiad o dan y Gorchymyn hwn—

(a) yn achos corff corfforaethol (ac eithrio partneriaeth atebolrwydd cyfyngedig), i ysgrifennydd neu glerc y corff hwnnw yng nghyfeiriad swyddfa gofrestredig neu brif swyddfa'r corff hwnnw;

(b) yn achos partneriaeth (ac eithrio partneriaeth atebolrwydd cyfyngedig, ond gan gynnwys partneriaeth Albanaidd), i bartner neu berson sy'n llywio neu'n rheoli busnes y bartneriaeth yng nghyfeiriad prif swyddfa'r bartneriaeth; neu

(c) yn achos partneriaeth atebolrwydd cyfyngedig, i aelod o'r bartneriaeth yng nghyfeiriad swyddfa gofrestredig neu brif swyddfa'r bartneriaeth.

(5) At ddibenion paragraff (4), prif swyddfa cwmni sy'n gofrestredig y tu allan i'r Deyrnas Unedig neu bartneriaeth sy'n cyflawni busnes y tu allan i'r Deyrnas Unedig yw ei brif swyddfa neu ei phrif swyddfa yn y Deyrnas Unedig.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I35** Ergl. 35 mewn grym ar 2.11.2018, gweler **ergl. 1(2)**

### Gwybodaeth ynglŷn â chydymffurfio â hysbysiadau

**36.** Caiff hysbysiad a gyflwynir o dan y Gorchymyn hwn ei gwneud yn ofynnol i'r person y cyflwynir yr hysbysiad iddo roi gwybod i'r arolygydd ar unwaith a gydymffurfiwyd â gofynion yr hysbysiad ac, os gwnaed hynny, ddarparu manylion y camau a gymerwyd i gydymffurfio â'r gofynion hynny i'r arolygydd.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I36** Ergl. 36 mewn grym ar 2.11.2018, gweler **ergl. 1(2)**

### Methu â chydymffurfio â hysbysiad

**37.**—(1) Os yw person yn methu â chydymffurfio â hysbysiad a gyflwynir i'r person hwnnw o dan y Gorchymyn hwn, caiff arolygydd fynd i unrhyw fangre yr effeithir arni ar bob adeg resymol i gymryd unrhyw gamau, neu i beri cymryd unrhyw gamau, y mae'r arolygydd yn ystyried eu bod yn angenrheidiol er mwyn sicrhau y cydymffurfir â'r hysbysiad neu i unioni canlyniadau'r methiant i'w cyflawni.

(2) Rhaid i arolygydd sy'n gweithredu o dan baragraff (1) ddangos tystiolaeth o'i awdurdod i weithredu, os gofynnir iddo wneud hynny.

(3) Nid yw paragraff (1) yn gymwys mewn perthynas ag unrhyw fangre a ddefnyddir yn llwyr neu'n bennaf fel annedd breifat, oni bai bod rhybudd o 24 awr o'r bwriad i fynd i'r fangre wedi ei roi i'r meddiannydd.

(4) Nid yw paragraff (1) yn effeithio ar unrhyw hawl mynediad a roddir drwy warant a ddyroddir gan ynad heddwch.

(5) Caiff arolygydd sy'n gweithredu o dan baragraff (1) ddod ag unrhyw bersonau eraill, gan gynnwys cynrychiolwyr y Comisiwn Ewropeaidd, gydag ef, a chaiff ddod ag unrhyw gyfarpar a cherbydau i'r fangre y mae'r arolygydd yn ystyried eu bod yn angenrheidiol.

(6) Caiff person sy'n dod gydag arolygydd o dan baragraff (5)—

(a) aros yn y fangre ac o bryd i'w gilydd fynd i'r fangre eto heb yr arolygydd;

(b) dod ag unrhyw gyfarpar neu gerbyd i'r fangre y mae'r person yn ystyried ei fod yn angenrheidiol;

(c) cyflawni gwaith yn y fangre yn y modd y'i cyfarwyddir gan yr arolygydd.

(7) Rhaid i berson sy'n dod gydag arolygydd o dan baragraff (5), os gofynnir iddo wneud hynny, ddangos tystiolaeth o'i awdurdod a roddwyd yn y cyswllt hwnnw gan Weinidogion Cymru.

(8) Pan fo arolygydd yn cymryd unrhyw gamau o dan baragraff (1), caiff Gweinidogion Cymru adennill, fel dyled gan y person y cyflwynwyd yr hysbysiad iddo, yr holl gostau rhesymol yr aed iddynt wrth gymryd y camau hynny.

(9) Yn yr erthygl hon, ystyr "mangre yr effeithir arni" ("*affected premises*") yw unrhyw fangre y gall unrhyw bla planhigion neu ddeunydd perthnasol y mae'r hysbysiad yn ymwneud ag ef fod yn bresennol ynddi neu arni.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I37** Ergl. 37 mewn grym ar 2.11.2018, gweler **ergl. 1(2)**

### Hawl mynediad a roddir drwy warant a ddyroddir gan ynad heddwch

**38.**—(1) Caiff ynad heddwch, drwy warant wedi ei llofnodi, ganiatáu i arolygydd fynd i fangre o dan erthygl 31, 33 neu 37, gan ddefnyddio grym rhesymol os oes angen, os yw'r ynad wedi ei fodloni ar sail gwybodaeth ysgrifenedig a roddir ar lw—

(a) bod sail resymol dros fynd i'r fangre honno; a

(b) y bodlonir unrhyw un neu ragor o'r amodau ym mharagraff (2).

(2) Yr amodau yw—

(a) bod mynediad i'r fangre wedi ei wrthod, neu'n debygol o gael ei wrthod, a bod hysbysiad o'r bwriad i wneud cais am warant wedi ei roi i'r meddiannydd;

(b) y byddai gofyn am gael mynediad i'r fangre, neu roi hysbysiad o'r bwriad i wneud cais am warant, yn mynd yn groes i'r amcan o fynd i'r fangre;

(c) bod angen mynd i'r fangre ar fyrder;

(d) bod y fangre heb ei meddiannu neu'r meddiannydd yn absennol dros dro.

(3) Mae gwarant yn ddilys am un mis.

(4) Rhaid i arolygydd sy'n mynd i unrhyw fangre nad yw wedi ei meddiannu ei gadael wedi ei diogelu yr un mor effeithiol rhag mynediad heb awdurdod ag yr ydoedd cyn iddo fynd iddi.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I38** Ergl. 38 mewn grym ar 2.11.2018, gweler **ergl. 1(2)**

# RHAN 7

## Rhywogaethau mochlysaidd penodol: plannu a rheoli plâu planhigion perthnasol

### Darpariaethau amrywiol ar gyfer rhywogaethau mochlysaidd penodol

**39.**—(1) Ni chaiff unrhyw berson blannu yn fwriadol unrhyw datws neu unrhyw datws a gynhyrchir o'r tatws hynny, sydd wedi eu tyfu mewn trydedd wlad, ac eithrio'r Swistir, na pheri neu ganiatáu yn fwriadol iddynt gael eu plannu.

(2) Ni chaiff unrhyw berson blannu unrhyw datws yn fwriadol na pheri neu ganiatáu yn fwriadol iddynt gael eu plannu oni bai—

(a) eu bod yn tarddu mewn llinell uniongyrchol o ddeunydd tatws sydd wedi ei gael o dan raglen a gymeradwywyd yn swyddogol yn yr Undeb Ewropeaidd neu'r Swistir;

(b) y canfuwyd eu bod yn rhydd rhag Pydredd coch tatws mewn profion swyddogol gan ddefnyddio'r dulliau a nodir yn Atodiad II i Gyfarwyddeb 98/57/EC; ac

(c) y canfuwyd eu bod yn rhydd rhag Pydredd cylch tatws mewn profion swyddogol gan ddefnyddio'r dulliau a nodir yn Atodiad I i Gyfarwyddeb 93/85/EEC.

(3) Mae'r canlynol yn cael effaith mewn perthynas â rheoli plâu planhigion penodol—

(a) Atodlen 13 (mesurau arbennig ar gyfer rheoli Clefyd y ddafaden tatws);

(b) Atodlen 14 (mesurau arbennig ar gyfer rheoli Llyngyr tatws);

(c) Atodlen 15 (mesurau arbennig ar gyfer rheoli Pydredd cylch tatws); a

(d) Atodlen 16 (mesurau arbennig ar gyfer rheoli Pydredd coch tatws).

(4) Pan gadarnheir bod Pydredd coch tatws yn bresennol ar sampl a gymerwyd yn unol ag Erthyglau 2 a 5 o Gyfarwyddeb 98/57/EC, caiff arolygydd ddarnodi parth yn unol ag Erthygl 5(1)(a)(iv) neu 5(1)(c)(iii) o'r Gyfarwyddeb honno er mwyn atal y pla planhigion hwnnw rhag lledaenu.

**Gwybodaeth Cychwyn**
**I39** Ergl. 39 mewn grym ar 2.11.2018, gweler **ergl. 1(2)**

# RHAN 8

## Trwyddedau

### Trwyddedau i gyflawni gweithgareddau a waherddir gan y Gorchymyn hwn

**40.**—(1) Er gwaethaf unrhyw ddarpariaeth arall yn y Gorchymyn hwn, caniateir cyflwyno unrhyw bla planhigion neu ddeunydd perthnasol i Gymru, neu ei gadw, ei storio, ei blannu, ei symud neu ei waredu fel arall yng Nghymru, a chaniateir gwneud unrhyw beth arall a waherddir gan y Gorchymyn hwn o dan awdurdod trwydded a roddir gan Weinidogion Cymru—

(a) drwy arfer unrhyw randdirymiad a ganiateir gan Gyfarwyddeb 2000/29/EC; neu

(b) at ddibenion treialu neu ddibenion gwyddonol neu ar gyfer gwaith ar ddetholiadau amrywogaethol, mewn perthynas â phla planhigion cwarantin domestig.

(2) Rhaid i drwydded a roddir o dan baragraff (1)(b) fod yn ysgrifenedig a chaniateir iddi gael ei rhoi—

(a) yn ddarostyngedig i amodau;

(b) am gyfnod amhenodol neu am gyfnod penodedig.

(3) Yn yr erthygl hon, ystyr "pla planhigion cwarantin domestig" ("*domestic quarantine plant pest*") yw pla planhigion nad yw o ddisgrifiad a restrir yn Atodiad I neu II i Gyfarwyddeb 2000/29/EC, nad yw'n bresennol ym Mhrydain Fawr fel arfer ac sy'n debygol o fod yn niweidiol i blanhigion ym Mhrydain Fawr.

**Gwybodaeth Cychwyn**
**I40** Ergl. 40 mewn grym ar 2.11.2018, gweler **ergl. 1(2)**

### Trwyddedau at ddibenion treialu neu ddibenion gwyddonol neu ar gyfer gwaith ar ddetholiadau amrywogaethol a ganiateir gan Gyfarwyddeb 2008/61/EC

**41.**—(1) Rhaid i Weinidogion Cymru, drwy drwydded, awdurdodi cyflwyno, symud neu gadw unrhyw bla planhigion neu ddeunydd perthnasol ar gyfer unrhyw weithgaredd at ddibenion treialu neu ddibenion gwyddonol ac ar gyfer gwaith ar ddetholiadau amrywogaethol, pan fyddai cyflwyno, symud neu gadw'r pla planhigion neu'r deunydd perthnasol at unrhyw ddiben o'r fath wedi ei wahardd gan y Gorchymyn hwn fel arall, os yw Gweinidogion Cymru—

(a) wedi cael cais am drwydded sy'n cynnwys yr wybodaeth a nodir yn Erthygl 1(2) o Gyfarwyddeb 2008/61/EC; a

(b) wedi eu bodloni bod yr amodau cyffredinol a nodir yn Atodiad I i'r Gyfarwyddeb honno yn cael eu bodloni mewn perthynas â'r cais.

(2) Rhaid i drwydded a roddir o dan baragraff (1) fod yn ysgrifenedig a rhaid iddi gynnwys—

(a) unrhyw amodau a osodir yn Erthygl 2(2) o Gyfarwyddeb 2008/61/EC sy'n berthnasol i unrhyw bla planhigion neu ddeunydd perthnasol sy'n destun y gweithgareddau y mae'r drwydded yn ymwneud â hwy; a

(b) unrhyw amodau eraill sy'n pennu mesurau cwarantin o dan baragraff 2(a) o Atodiad I i'r Gyfarwyddeb honno neu fesurau cwarantin pellach o dan baragraff 2(b) o Atodiad I i'r Gyfarwyddeb honno a bennir gan Weinidogion Cymru.

(3) Rhaid i Weinidogion Cymru ddirymu trwydded a roddir o dan baragraff (1) pan ganfyddir, er boddhad Gweinidogion Cymru, nad yw'r trwyddedai wedi bodloni neu gydymffurfio ag unrhyw un neu ragor o amodau'r drwydded a osodir o dan baragraff (2)(b).

(4) Ar ôl i unrhyw weithgareddau y mae'r drwydded a roddir o dan baragraff (1) yn ymwneud â hwy ddod i ben, rhaid i'r trwyddedai, oni bai bod Gweinidogion Cymru wedi ei awdurdodi fel arall o dan baragraff (5)—

(a) difa neu sterileiddio unrhyw bla planhigion neu ddeunydd perthnasol a oedd yn destun y gweithgareddau ac unrhyw ddeunydd perthnasol arall sydd wedi dod i gysylltiad ag unrhyw bla planhigion neu ddeunydd perthnasol o'r fath, neu a allai fod wedi ei halogi ganddo; a

(b) sterileiddio neu lanhau mewn unrhyw fodd a bennir gan Weinidogion Cymru, y fangre a'r cyfleusterau y cyflawnwyd y gweithgareddau ynddynt.

(5) Caiff Gweinidogion Cymru awdurdodi'r trwyddedai i ymatal rhag difa unrhyw ddeunydd perthnasol o dan baragraff (4)(a) os yw Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni ei fod wedi bod yn destun mesurau cwarantin priodol ac y canfuwyd, mewn unrhyw fodd a bennir gan Weinidogion Cymru, ei fod yn rhydd rhag y plâu planhigion a bennir yn Atodlen 1 ac yng ngholofn 3 o Atodlen 2 a rhag plâu planhigion eraill y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried eu bod yn peri risg.

(6) At ddiben paragraff (2), mae cyfeiriadau at y "responsible official body" yn Erthygl 2(2) o Gyfarwyddeb 2008/61/EC, ac Atodiad I iddi, i'w cymryd fel pe baent yn cyfeirio at Weinidogion Cymru.

(7) Yn yr erthygl hon, ystyr "mesurau cwarantin priodol" ("*appropriate quarantine measures*") yw—

(a) yn achos deunydd perthnasol y mae mesurau cwarantin wedi eu pennu ar ei gyfer yn Rhan A o Atodiad III i Gyfarwyddeb 2008/61/EC, y mesurau hynny; a

(b) yn achos unrhyw ddeunydd perthnasol arall, unrhyw fesurau cwarantin, gan gynnwys profi, a bennir gan Weinidogion Cymru.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I41** Ergl. 41 mewn grym ar 2.11.2018, gweler **ergl. 1(2)**

# RHAN 9

## Hysbysiadau, darparu a chyfnewid gwybodaeth

### Hysbysu am bresenoldeb, neu achos o amau presenoldeb, plâu planhigion penodol

**42.**—(1) Rhaid i'r meddiannydd neu berson arall sydd â gofal am fangre sy'n dod yn ymwybodol neu'n amau bod unrhyw bla planhigion hysbysadwy yn bresennol yn y fangre, neu unrhyw berson arall sydd, wrth gyflawni ei ddyletswyddau neu ei fusnes, yn dod yn ymwybodol neu'n amau bod pla planhigion hysbysadwy yn bresennol mewn unrhyw fangre, hysbysu Gweinidogion Cymru neu arolygydd ar unwaith ei fod yn bresennol neu yr amheuir ei fod yn bresennol.

(2) Caniateir i hysbysiad o dan baragraff (1) gael ei roi ar lafar yn gyntaf, ond rhaid iddo gael ei gadarnhau yn ysgrifenedig cyn gynted ag y bo hynny'n rhesymol ymarferol.

(3) Yn yr erthygl hon, ystyr "pla planhigion hysbysadwy" ("*notifiable plant pest*") yw—

(a) pla planhigion, ac eithrio pla planhigion o ddisgrifiad a bennir yn Atodlen 17—

(i) sydd o ddisgrifiad a bennir yn Atodlen 1;

(ii) sydd o ddisgrifiad a bennir yng ngholofn 3 o Ran A o Atodlen 2;

(iii) sydd o ddisgrifiad a bennir yng ngholofn 3 o Ran B o Atodlen 2 ac sy'n bresennol ar ddeunydd perthnasol o ddisgrifiad a bennir yn y cofnod mewn cysylltiad â'r pla planhigion hwnnw yng ngholofn 2 o Ran B o Atodlen 2, neu yr ymddengys i arolygydd ei fod wedi bod mewn cysylltiad â deunydd perthnasol o'r fath; neu

(iv) er nad yw o ddisgrifiad a bennir yn Atodlen 1 na 2, nad yw'n bresennol ym Mhrydain Fawr fel arfer ac sy'n debygol o fod yn niweidiol i blanhigion ym Mhrydain Fawr;

(b) pla planhigion o ddisgrifiad a bennir yn Atodlen 17—

(i) sy'n isrywogaeth neu'n fath sy'n bresennol ym Mhrydain Fawr fel arfer ac a ganfuwyd ym mangre masnachwr planhigion cofrestredig;

(ii) sy'n isrywogaeth neu'n fath nad yw'n bresennol ym Mhrydain Fawr fel arfer ac a ganfuwyd mewn unrhyw fangre; neu

(iii) a bennir hefyd yng ngholofn 3 o Ran A o Atodlen 2 ac sy'n bresennol ar ddeunydd perthnasol o ddisgrifiad a bennir yn y cofnod mewn cysylltiad â'r pla planhigion hwnnw yng ngholofn 2 o Ran A o Atodlen 2, neu yr ymddengys i arolygydd ei fod wedi bod mewn cysylltiad â deunydd perthnasol o'r fath.

(4) Os yw Gweinidogion Cymru yn dod yn ymwybodol o bresenoldeb *Xylella fastidiosa* (Wells et al.) neu o amheuaeth ei fod yn bresennol, mewn unrhyw fan neu ardal yng Nghymru, rhaid i Weinidogion Cymru sicrhau bod unrhyw berson sydd â phlanhigion a allai fod wedi eu heintio â *Xylella fastidiosa* (Wells et al.) o dan ei reolaeth yn cael ei hysbysu ar unwaith—

(a) ei fod yn bresennol neu yr amheuir ei fod yn bresennol;

(b) am y canlyniadau posibl sy'n codi o'i bresenoldeb neu'r amheuaeth ei fod yn bresennol; ac

(c) am y mesurau sydd i'w cymryd o ganlyniad i hynny.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I42** Ergl. 42 mewn grym ar 2.11.2018, gweler **ergl. 1(2)**

**Hysbysu am y tebygolrwydd y bydd plâu planhigion neu ddeunydd perthnasol yn mynd i barth rhydd, neu eu bod yn bresennol yno**

**43.**—(1) Rhaid i'r awdurdod cyfrifol am barth rhydd yng Nghymru hysbysu Gweinidogion Cymru ar unwaith am unrhyw eitem hysbysadwy y mae'n gwybod neu'n amau—

(a) ei fod yn debygol o fynd i'r parth rhydd; neu

(b) ei fod yn bresennol yn y parth rhydd ac nad yw wedi ei glirio o ofal o dan y Ddeddf Dollau.

(2) Caniateir i hysbysiad o dan baragraff (1) gael ei roi ar lafar yn gyntaf, ond rhaid iddo gael ei gadarnhau yn ysgrifenedig cyn gynted ag y bo hynny'n rhesymol ymarferol.

(3) Yn yr erthygl hon—

(a) mae i "parth rhydd" yr un ystyr ag a roddir i "free zone" yn y Ddeddf Dollau;

(b) ystyr "eitem hysbysadwy" ("*notifiable item*") yw—

(i) pla planhigion sydd o ddisgrifiad a bennir yn Atodlen 1 neu yng ngholofn 3 o Atodlen 2;

(ii) pla planhigion, er nad yw wedi ei bennu yn Atodlen 1 na 2, nad yw'n bresennol ym Mhrydain Fawr fel arfer ac sy'n debygol o fod yn niweidiol i blanhigion ym Mhrydain Fawr; neu

(iii) deunydd perthnasol o ddisgrifiad a bennir yng ngholofn 2 o Atodlen 3 sy'n tarddu o wlad a bennir yn y cofnod mewn cysylltiad â'r disgrifiad hwnnw o ddeunydd perthnasol yng ngholofn 3 o'r Atodlen honno;

(c) mae i "yr awdurdod cyfrifol" yr un ystyr ag a roddir i "the responsible authority" yn y Ddeddf Dollau.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I43** Ergl. 43 mewn grym ar 2.11.2018, gweler **ergl. 1(2)**

### Yr wybodaeth sydd i'w rhoi

**44.**—(1) Caiff arolygydd neu unrhyw un arall o swyddogion Gweinidogion Cymru, drwy hysbysiad ysgrifenedig, ei gwneud yn ofynnol i berson priodol roi i'r arolygydd neu'r swyddog, o fewn yr amser a bennir yn yr hysbysiad, unrhyw wybodaeth y gall y person feddu arni o ran—

(a) y planhigion a dyfwyd neu'r cynhyrchion a gafodd eu storio ar unrhyw adeg yn y fangre y mae hysbysiad wedi ei gyflwyno mewn cysylltiad â hi o dan y Gorchymyn hwn;

(b) unrhyw bla planhigion neu ddeunydd perthnasol y cyfeirir ato ym mharagraff (4)(b); ac

(c) y personau sydd wedi bod, neu'n debygol o fod wedi bod, â'r pla planhigion neu'r deunydd perthnasol y cyfeirir ato ym mharagraff (4)(b) yn eu meddiant neu o dan eu gofal.

(2) Rhaid i'r amser y mae'n ofynnol i'r wybodaeth gael ei rhoi i'r arolygydd neu'r swyddog arall o'i fewn fod yn rhesymol.

(3) Rhaid i berson priodol gyflwyno unrhyw drwydded, datganiad swyddogol, tystysgrif, pasbort planhigion, cofnod, anfoneb neu ddogfen arall sy'n ymwneud â phla planhigion neu unrhyw ddeunydd perthnasol a bennir yn yr hysbysiad i'w archwilio gan yr arolygydd neu'r swyddog arall.

(4) Yn yr erthygl hon, ystyr "person priodol" ("*appropriate person*") yw—

(a) person sy'n berchen ar y fangre, meddiannydd y fangre neu berson arall sydd â gofal am y fangre y mae hysbysiad wedi ei gyflwyno mewn cysylltiad â hi o dan y Gorchymyn hwn;

(b) person sydd, neu sydd wedi bod, neu y mae gan yr arolygydd neu'r swyddog amheuaeth resymol ei fod, neu ei fod wedi bod, yn meddu ar y canlynol neu â gofal am y canlynol—

(i) pla planhigion o ddisgrifiad a bennir yn Atodlen 1 neu yng ngholofn 3 o Atodlen 2;

(ii) pla planhigion, er nad yw wedi ei bennu yn Atodlen 1 na 2, nad yw'n bresennol ym Mhrydain Fawr fel arfer ac sy'n debygol o fod yn niweidiol i blanhigion ym Mhrydain Fawr;

(iii) unrhyw ddeunydd perthnasol sy'n cario pla planhigion y cyfeirir ato ym mharagraff (i) neu (ii), neu sydd wedi ei heintio ag ef; neu

(iv) unrhyw ddeunydd perthnasol y mae'r arolygydd neu'r swyddog yn gwybod neu'n amau ei fod wedi ei lanio yng Nghymru neu ei allforio o Gymru; neu

(c) person sydd, fel arwerthwr, gwerthwr neu fel arall, wedi gwerthu, wedi cynnig ar gyfer ei werthu neu wedi gwaredu fel arall bla planhigion y cyfeirir ato yn is-baragraff (b)(i) neu (ii).

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I44** Ergl. 44 mewn grym ar 2.11.2018, gweler **ergl. 1(2)**

**Pŵer i rannu gwybodaeth at ddibenion y Gorchymyn**

**45.**—(1) Caiff Comisiynwyr Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi ddatgelu unrhyw wybodaeth y maent yn meddu arni i Weinidogion Cymru at ddibenion y Gorchymyn hwn.

(2) Nid yw paragraff (1) yn rhagfarnu unrhyw bŵer arall sydd gan y Comisiynwyr i ddatgelu gwybodaeth.

(3) Ni chaiff unrhyw berson, gan gynnwys un o weision y Goron, ddatgelu unrhyw wybodaeth a gafwyd gan y Comisiynwyr o dan baragraff (1)—

(a) os yw'r wybodaeth yn ymwneud â pherson y mae ei fanylion adnabod wedi eu pennu yn y datgeliad, neu y gellir eu casglu o'r datgeliad;

(b) os yw'r datgeliad at ddiben heblaw'r un a bennir ym mharagraff (1); ac

(c) os nad yw'r Comisiynwyr wedi rhoi eu cydsyniad i'r datgeliad ymlaen llaw.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I45** Ergl. 45 mewn grym ar 2.11.2018, gweler **ergl. 1(2)**

# RHAN 10

## Troseddau

**Troseddau**

**46.**—(1) Mae person yn cyflawni trosedd os ydyw, heb esgus rhesymol, y mae'n rhaid i'r person ei brofi—

(a) yn torri neu'n methu â chydymffurfio ag—

(i) erthygl 6(1);

(ii) erthygl 9;

(iii) erthygl 10(1) neu (2);

(iv) erthygl 16(2), (3) neu (4);

(v) erthygl 17(6);

(vi) erthygl 19(1);

(vii) erthygl 20;

(viii) erthygl 21;

(ix) erthygl 24(3) neu (4);

(x) erthygl 26;

(xi) erthygl 27(2);

(xii) erthygl 28(1) neu (3);

(xiii) erthygl 39(1) neu (2);

(xiv) erthygl 41(4);

(xv) erthygl 42(1);

(xvi) erthygl 43(1);

(xvii) erthygl 45(3); neu

(xviii) paragraffau 5, 8, 9 neu 11 o Atodlen 14;

(b) yn torri neu'n methu â chydymffurfio â darpariaeth neu amod mewn hysbysiad a gyflwynir i'r person, neu mewn trwydded neu unrhyw gyfarwyddyd a roddir, o dan y Gorchymyn hwn; neu

(c) yn fwriadol yn rhwystro arolygydd neu unrhyw berson a awdurdodir gan arolygydd wrth iddo arfer y pwerau a roddir i'r arolygydd gan y Gorchymyn hwn neu oddi tano.

(2) Mae person yn cyflawni trosedd os yw'r person, at ddiben sicrhau y dyroddir pasbort planhigion, pasbort planhigion amnewid, tystysgrif ffytoiechydol, tystysgrif ffytoiechydol ar gyfer ailallforio neu drwydded o dan y Gorchymyn hwn—

(a) yn gwneud datganiad ffug yn fwriadol neu'n ddi-hid o ran manylyn perthnasol; neu

(b) yn fwriadol yn methu â datgelu unrhyw wybodaeth berthnasol.

(3) Mae person yn cyflawni trosedd os yw'r person—

(a) yn dyroddi pasbort planhigion mewn modd anonest;

(b) yn newid pasbort planhigion mewn modd anonest; neu

(c) yn ailddefnyddio pasbort planhigion mewn modd anonest.

(4) Mae'n amddiffyniad i berson a gyhuddir o drosedd o dan baragraff (1)(a)(xvii) brofi bod y person yn credu'n rhesymol—

(a) bod y datgeliad yn gyfreithlon; neu

(b) bod yr wybodaeth ar gael i'r cyhoedd eisoes a hynny mewn modd cyfreithlon.

(5) Os profir bod trosedd o dan y Gorchymyn hwn wedi ei chyflawni gyda chydsyniad neu ymoddefiad, neu ei bod wedi ei phriodoli i unrhyw esgeulustod ar ran—

(a) unrhyw gyfarwyddwr, rheolwr neu ysgrifennydd neu swyddog arall tebyg yn y corff corfforaethol; neu

(b) unrhyw berson a oedd yn honni ei fod yn gweithredu yn rhinwedd unrhyw swydd o'r fath,

bydd y person, yn ogystal â'r corff corfforaethol, yn euog o'r drosedd a bydd yn agored i gael ei erlyn a'i gosbi yn unol â hynny.

(6) At ddibenion paragraff (5), mae "cyfarwyddwr" ("*director*"), mewn perthynas â chorff corfforaethol y mae ei faterion yn cael eu rheoli gan ei aelodau, yn cynnwys aelod o'r corff corfforaethol.

(7) Pan fo trosedd o dan y Gorchymyn hwn yn cael ei chyflawni gan bartneriaeth Albanaidd ac y profir ei bod wedi ei chyflawni gyda chydsyniad neu ymoddefiad partner, neu ei bod wedi ei phriodoli i unrhyw esgeulustod ar ran partner, mae'r partner, yn ogystal â'r bartneriaeth, yn euog o'r drosedd ac yn agored i gael ei erlyn a'i gosbi yn unol â hynny.

(8) Pan fo unrhyw berson yn cyflawni trosedd o dan y Gorchymyn hwn o ganlyniad i weithred neu anwaith rhyw berson arall, caniateir i'r person arall hwnnw gael ei gyhuddo a'i euogfarnu o'r drosedd honno yn rhinwedd y paragraff hwn pa un a ddygir achos am y drosedd yn erbyn y person a grybwyllir gyntaf ai peidio.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I46** Ergl. 46 mewn grym ar 2.11.2018, gweler **ergl. 1(2)**

**Cosbau**

**47.**—(1) Mae person sy'n euog o drosedd o dan y Gorchymyn hwn (ac eithrio trosedd o dan erthygl 46(1)(a)(xvii)) yn agored o'i euogfarnu'n ddiannod i ddirwy nad yw'n uwch na lefel 5 ar y raddfa safonol.

(2) Mae person sy'n euog o drosedd o dan erthygl 46(1)(a)(xvii) yn agored—

(a) o'i euogfarnu ar dditiad, i gyfnod o garchar nad yw'n hwy na dwy flynedd, i ddirwy neu i'r ddau;

(b) o'i euogfarnu'n ddiannod, i gyfnod o garchar nad yw'n hwy na thri mis, i ddirwy nad yw'n uwch na'r uchafswm statudol neu i'r ddau.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I47** Ergl. 47 mewn grym ar 2.11.2018, gweler **ergl. 1(2)**

# RHAN 11

## Amrywiol

**Y Ddeddf Dollau**

**48.** Mae darpariaethau'r Gorchymyn hwn yn gymwys heb ragfarnu'r Ddeddf Dollau.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I48** Ergl. 48 mewn grym ar 2.11.2018, gweler **ergl. 1(2)**

**Dirymu a darpariaethau trosiannol**

**49.**—(1) Mae Gorchymyn Iechyd Planhigion (Cymru) 2006(**32**) a'r Gorchmynion a bennir yn Atodlen 18 wedi eu dirymu.

(2) Bydd unrhyw hysbysiad a ddyroddwyd, neu unrhyw drwydded, awdurdodiad neu gymeradwyaeth arall a roddwyd o dan Orchymyn Iechyd Planhigion (Cymru) 2006 ac sy'n cael effaith pan ddaw'r Gorchymyn hwn i rym yn parhau mewn grym fel pe bai wedi ei ddyroddi neu ei rhoi neu ei roi o dan y Gorchymyn hwn.

(3) Mae cofnodion sydd ar y gofrestr a gedwir o dan erthygl 25(1) o Orchymyn Iechyd Planhigion (Cymru) 2006 yn union cyn i'r Gorchymyn hwn ddod i rym i'w trin fel pe baent wedi eu cofnodi ar y gofrestr o dan erthygl 25(1) o'r Gorchymyn hwn.

(**32**) O.S. 2006/1643 (Cy. 158), fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2007/2716 (Cy. 229), 2007/3305 (Cy. 292), 2008/2781 (Cy. 248), 2008/2913 (Cy. 257), 2009/1376 (Cy. 137), 2010/1795 (Cy. 171), 2010/2976 (Cy. 247), 2012/3143 (Cy. 315), 2013/888 (Cy. 100), 2013/2939 (Cy. 287), 2014/521 (Cy. 62), 2014/1186 (Cy. 115), 2014/1463 (Cy. 144) a 2014/2368 (Cy. 231).

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I49** Ergl. 49 mewn grym ar 2.11.2018, gweler **ergl. 1(2)**

*Hannah Blythyn*
Gweinidog yr Amgylchedd o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig, un o Weinidogion Cymru

9 Hydref 2018

ATODLEN 1

Erthyglau 5(1), 12(1) 18(1), 20(1), 24(4), 29(8), 32(7) 33(8),42(3), 43(3) a 44(4)

Plâu planhigion na chaniateir dod â hwy i Gymru na'u lledaenu o fewn Cymru

# RHAN A

## Plâu planhigion na wyddys eu bod yn bresennol yn unrhyw ran o'r Undeb Ewropeaidd

**Addasiadau (ddim yn newid testun)**

**C1** Atod. 1 Rhn. A mewn grym ar 2.11.2018, gweler **ergl. 1(2)**

**Pryfed, gwiddon a nematodau**

**1.** *Acleris* spp. (heb fod yn rhai Ewropeaidd)

**2.** Agrilus anxius Gory

**3.** Agrilus planipennis Fairmaire

**4.** Amauromyza maculosa (Malloch)

**5.** Anomala orientalis Waterhouse

**6.** Anoplophora chinensis (Forster)

**7.** Anoplophora glabripennis (Motschulsky)

**8.** Anthonomus eugenii Cano

**9.** Arrhenodes minutus Drury

**10.** Bactericera cockerelli (Sulc.)

**11.** *Bemisia tabaci* Genn. (poblogaethau heb fod yn rhai Ewropeaidd), fector firysau megis: Firws amryliw euraidd ffa, Firws brychni ysgafn pys y fuwch, Firws heintus melyn letys, Firws tigré ysgafn pupur, Firws deildro sgwosh, Firws amryliw fflamgoed neu Firws tomatos Fflorida

**12.** Cicadellidae (heb fod yn rhai Ewropeaidd) y gwyddys eu bod yn fectorau clefyd Pierce (a achosir gan *Xylella fastidiosa*), megis: *Carneocephala fulgida* Nottingham, *Draeculacephala minerva* Ball neu *Graphocephala atropunctata* (Signoret)

**13.** *Choristoneura* spp. (heb fod yn rhai Ewropeaidd)

**14.** Conotrachelus nenuphar (Herbst)

**15.** Dendrolimus sibiricus Tschetverikov

**16.** *Diabrotica barberi* Smith a Lawrence

**17.** Diabrotica undecimpunctata howardi Barber

**18.** Diabrotica undecimpunctata undecimpunctata Mannerheim

**19.** Diabrotica virgifera zeae Krysan a Smith

**20.** Diaphorina citri Kuway

**21.** Epitrix cucumeris (Harris), Epitrix papa. sp.n**,** Epitrix subcrinita (Lec.) neu Epitrix tuberis (Gentner)

**22.** Heliothis zea (Boddie)

**23.** *Hirschmanniella* spp., ac eithrio **Hirschmanniella gracilis** (de Man) Luc a Goodey

**24.** Keiferia lycopersicella (Walsingam)

**25.** Liriomyza sativae Blanchard

**26.** Longidorus diadecturus Eveleigh ac Allen

**27.** *Monochamus* spp. (heb fod yn rhai Ewropeaidd)

**28.** Myndus crudus Van Duzee

**29.** *Nacobbus aberrans* (Thorne) Thorne ac Allen

**30.** Naupactus leucoloma Boheman

**31.** *Premnotrypes* spp. (heb fod yn rhai Ewropeaidd)

**32.** Pseudopityophthorus minutissimus (Zimmermann)

**33.** Pseudopityophthorus pruinosus (Eichhoff)

**34.** Rhynchophorus ferrugineus (Olivier)

**35.** Rhynchophorus palmarum (L.)

**36.** Saperda candida Fabricius

**37.** Scaphoideus luteolus Van Duzee

**38.** Spodoptera eridania (Cramer)

**39.** Spodoptera frugiperda (J.E. Smith)

**40.** Spodoptera litura (Fabricus)

**41.** Thrips palmi Karny

**42.** Tephritidae (heb fod yn rhai Ewropeaidd) megis: Anastrepha fraterculus (Wiedemann), Anastrepha ludens (Loew), Anastrepha obliqua Macquart, Anastrepha suspensa (Loew), Dacus ciliatus Loew, Dacus curcurbitae Coquillet, Dacus dorsalis Hendel, Dacus tryoni (Froggatt), Dacus tsuneonis Miyake, Dacus zonatus Saund., Epochra canadensis (Loew), Pardalaspis cyanescens Bezzi, Pardalaspis quinaria Bezzi, Pterandrus rosa (Karsch), Rhacochlaena japonica Ito, Rhagoletis cingulata (Loew), Rhagoletis completa Cresson, Rhagoletis fausta (Osten-Sacken), Rhagoletis indifferens Curran, Rhagoletis mendax Curran, Rhagoletis pomonella Walsh, Rhagoletis ribicola Doane neu Rhagoletis suavis (Loew)

**43.** Thaumatotibia leucotreta (Meyrick)

**44.** *Xiphinema americanum* Cobb **sensu lato** (poblogaethau heb fod yn rhai Ewropeaidd)

**45.** *Xiphinema californicum* Lamberti a Bleve-Zacheo

**Bacteria**

**1.** *Candidatus* Liberibacter spp., cyfrwng achosol clefyd Huanglongbing ffrwythau sitrws/ gwyrddu ffrwythau sitrws

**2.** *Pseudomonas syringae* pv. *actinidiae* Takikawa, Serizawa, Ichikawa, Tsuyumu a Goto

**3.** Xanthomonas citri pv. aurantifolii

**4.** Xanthomonas citri pv. citri

**Ffyngau**

**1.** Ceratocystis fagacearum (Bretz) Hunt

**2.** Chrysomyxa arctostaphyli Dietel

**3.** *Cronartium* spp. (heb fod yn rhai Ewropeaidd)

**4.** *Endocronartium* spp. (heb fod yn rhai Ewropeaidd)

**5.** *Gibberella circinata* Nirenberg ac O'Donnell

**6.** Guignardia laricina (Saw.) Yamamoto ac Ito

**7.** *Gymnosporangium* spp. (heb fod yn rhai Ewropeaidd)

**8.** *Inonotus weirii* (Murril) Kotlaba a Pouzar

**9.** Melampsora farlowii (Arthur) Davis

**10.** Mycosphaerella larici-leptolepsis Ito et al.

**11.** Mycosphaerella populorum G.E. Thompson

**12.** Phoma andina Turkensteen

**13.** *Phyllosticta citricarpa* (McAlpine) Van der Aa

**14.** Phyllosticta solitaria Ellis ac Everhart.

**15.** *Phytophthora ramorum* Werres, De Cock a Man in't Veld sp. nov.

**16.** *Septoria lycopersici* Speg. var **malagutii** Ciccarone a Boerema

**17.** Thecaphora solani Barrus

**18.** Tilletia indica Mitra

**19.** Trechispora brinkmannii (Bresad.) Rogers

**Firysau ac organeddau sy'n debyg i firysau**

**1.** Firysau tatws neu organeddau sy'n debyg i firysau megis: Firws cudd tatws Andeaidd, Firws brychni tatws Andeaidd, Firws Arracacha B math oca, Firws crwn du tatws, Firws tatws T neu arunigion heb fod yn rhai Ewropeaidd firysau tatws A, M, S, V, X ac Y (gan gynnwys Yo, Yn ac Yc) a firws crychni dail tatws

**2.** Firws crwn tybaco

**3.** Firws crwn tomatos

**4.** Firysau neu organeddau sy'n debyg i firysau *Cydonia* Mill., *Fragaria* L., *Malus* Mill., *Prunus* L., *Pyrus* L., *Ribes* L., *Rubus* L. neu *Vitis* L., megis: Firws brychni dail llus America, Firws rhathellddail ceirios (Americanaidd), Firws amryliw eirin gwlanog (Americanaidd), Rickettsia ffug eirin gwlanog, Firws roséd amryliw eirin gwlanog, Mycoplasm roséd eirin gwlanog, Mycoplasm clefyd-X eirin gwlanog, Mycoplasm melynu eirin gwlanog, Firws patrwm llinellog eirin (Americanaidd), Firws deildro mafon (Americanaidd), Firws "C" cudd mefus, Firws bandio gwythiennau mefus, Mycoplasm ysgub y gwrachod mefus neu firysau heb fod yn rhai Ewropeaidd neu organeddau sy'n debyg i firysau heb fod yn rhai Ewropeaidd *Cydonia* Mill., *Fragaria* L., *Malus* Mill., *Prunus* L., *Pyrus* L., *Ribes* L., *Rubus* L. neu *Vitis* L.

**5.** Firysau a drosglwyddir gan *Bemisia tabaci* Genn., megis: Firws amryliw euraidd ffa, Firws brychni ysgafn pys y fuwch, Firws heintus melyn letys, Firws tigré ysgafn pupur, Firws deildro sgwosh, Firws amryliw fflamgoed neu Firws tomatos Fflorida

**Planhigion parasitig**

**1.** *Arceuthobium* spp. (heb fod yn rhai Ewropeaidd)

**Molysgiaid**

**1.** Pomacea Perry

# RHAN B

## Plâu planhigion y gwyddys eu bod yn bresennol yn yr Undeb Ewropeaidd

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I50** Atod. 1 Rhn. B mewn grym ar 2.11.2018, gweler **ergl. 1(2)**

**Pryfed, gwiddon a nematodau**

**1.** *Bemisia tabaci* Genn. (poblogaethau Ewropeaidd)

**2.** Bursaphelenchus xylophilus (Steiner a Bührer) Nickle et al.

**3.** Dryocosmus kuriphilus Yasumatsu

**4.** *Globodera pallida* (Stone) Behrens

**5.** *Globodera rostochiensis* (Wollenweber) Behrens

**6.** Leptinotarsa decemlineata Say

**7.** Meloidogyne chitwoodi Golden et al. (pob poblogaeth)

**8.** Meloidogyne fallax Karssen

**9.** Opogona sacchari (Bojer)

**10.** Popillia japonica Newman

**11.** Rhizoecus hibisci Kawai a Takagi

**12.** Spodoptera littoralis (Boisduval)

**13.** Thaumetopoea processionea L

**14.** Trioza erytreae Del Guercio

**Bacteria**

**1.** *Clavibacter michiganensis* (Smith) Davis *et al*. ssp. *sepedonicus* (Spieckermann a Kotthoff) Davis *et al*.

**2.** Ralstonia solanacearum (Smith) Yabuuchi et al.

**3.** Xylella fastidiosa (Wells et al.)

**Ffyngau**

1. Chalara fraxinea T. Kowalski, gan gynnwys ei deleomorff Hymenoscyphus pseudoalbidus
2. Melampsora medusae Thümen
3. *Synchytrium endobioticum* (Schilbersky) Percival

**Firysau ac organeddau sy'n debyg i firysau**

1. Mycoplasm ymlediad afalau
2. Mycoplasma crychni'r dail clorotig bricyll
3. *Candidatus* Phytoplasma ulmi
4. Mycoplasm dirywiad gellyg

ATODLEN 2

Erthyglau 5(1), 12(1), 18(1), 20(1), 24(4), 29(8), 32(7) 33(8), 42(3), 43(3) a 44(4)

Deunydd perthnasol na chaniateir dod ag ef i Gymru na'i symud o fewn Cymru os yw'r deunydd hwnnw'n cario plâu planhigion neu wedi ei heintio â phlâu planhigion

# RHAN A

## Plâu planhigion na wyddys eu bod yn bresennol yn yr Undeb Ewropeaidd

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I51** Atod. 2 Rhn. A mewn grym ar 2.11.2018, gweler **ergl. 1(2)**

**Pryfed, gwiddon a nematodau**

| *(1)* *Eitem* | *(2)* *Disgrifiad o'r deunydd perthnasol* | *(3)* *Pla planhigion* |
|---|---|---|
| 1. | Planhigion, ac eithrio hadau, *Fuchsia* L., a fwriedir ar gyfer eu plannu | *Aculops fuchsiae* Keifer |
| 2. | Planhigion, ac eithrio ffrwythau neu hadau, *Citrus* L., *Fortunella* Swingle neu Poncirus Raf. | *Aleurocanthus* spp. |
| 3. | Planhigion, ac eithrio hadau, *Fragaria* L., a fwriedir ar gyfer eu plannu | *Anthonomus bisignifer* (Schenkling) |
| 4. | Planhigion, ac eithrio hadau, *Fragaria* L., a fwriedir ar gyfer eu plannu | *Anthonomus signatus* (Say) |
| 5. | Planhigion, ac eithrio ffrwythau neu hadau, *Citrus* L., *Fortunella* Swingle neu Poncirus Raf. | *Aonidiella citrina* Coquillett |

| *(1)*<br><br>*Eitem* | *(2)*<br><br>*Disgrifiad o'r deunydd perthnasol* | *(3)*<br><br>*Pla planhigion* |
|---|---|---|
| 6. | Hadau *Oryza* spp. | *Aphelenchoides besseyi* Christie |
| 7. | Planhigion, ac eithrio ffrwythau neu hadau, *Juniperus* L., sy'n tarddu o unrhyw wlad y tu allan i Ewrop | *Aschistonyx eppoi* Inouye |
| 8. | Planhigion, ac eithrio hadau, *Cydonia* Mill., *Malus* Mill., *Prunus* L. neu *Pyrus* L., sy'n tarddu o unrhyw wlad y tu allan i Ewrop | *Carposina niponensis* Walsingham |
| 9. | Planhigion, ac eithrio hadau, *Cydonia* Mill., *Malus* Mill., *Prunus* L. neu *Rosa* L., sy'n tarddu o unrhyw wlad y tu allan i Ewrop | *Enarmonia packardi* (Zeller) |
| 10. | Planhigion, ac eithrio hadau, *Crataegus* L., *Malus* Mill., *Photinia* LdL., *Prunus* L. neu *Rosa* L., neu ffrwythau *Malus* Mill. neu *Prunus* L., sy'n tarddu o unrhyw wlad y tu allan i Ewrop | *Enarmonia prunivora* Walsh |
| 11. | Planhigion, ac eithrio ffrwythau neu hadau, *Citrus* L., *Fortunella* Swingle neu *Poncirus* Raf. | *Eotetranychus lewisi* (McGregor) |
| 12. | Planhigion, ac eithrio hadau, *Cydonia* Mill., *Malus* Mill., *Prunus* L. neu *Pyrus* L., sy'n tarddu o unrhyw wlad y tu allan i Ewrop | *Grapholita inopinata* Heinrich |
| 13. | Planhigion, ac eithrio ffrwythau neu hadau, *Citrus* L., *Fortunella* Swingle neu *Poncirus* Raf. | *Hishomonus phycitis* (Distant) |
| 14. | Planhigion, ac eithrio ffrwythau neu hadau, *Citrus* L., *Fortunella* Swingle neu *Poncirus* Raf. | *Leucaspis japonica* Ckll. |
| 15. | Hadau Cruciferae, Gramineae neu *Trifolium* spp., sy'n tarddu o'r Ariannin, Awstralia, Bolifia, Chile, Seland Newydd neu Uruguay | *Listronotus bonariensis* (Kuschel) |
| 16. | Planhigion, ac eithrio ffrwythau neu hadau, *Vitis* L. | *Margarodes*, rhywogaethau heb fod yn rhai Ewropeaidd, megis:<br>(a) *Margarodes vitis* (Philippi)<br>(b) *Margarodes vredendalensis* de Klerk<br>(c) *Margarodes prieskaensis* Jakubski |
| 17. | Planhigion, ac eithrio hadau, Pyrus L., sy'n tarddu o unrhyw wlad y tu allan i Ewrop | *Numonia pyrivorella* (Matsumura) |

| *(1)* *Eitem* | *(2)* *Disgrifiad o'r deunydd perthnasol* | *(3)* *Pla planhigion* |
|---|---|---|
| 18. | Planhigion, ac eithrio ffrwythau neu hadau, *Juniperus* L., sy'n tarddu o unrhyw wlad y tu allan i Ewrop | *Oligonychus perditus* Pritchard a Baker |
| 19. | Planhigion, ac eithrio ffrwythau neu hadau, coed conwydd (Coniferales), sy'n tarddu o unrhyw wlad y tu allan i Ewrop | *Pissodes* spp. (heb fod yn rhai Ewropeaidd) |
| 20. | Planhigion, ac eithrio ffrwythau neu hadau, *Citrus* L., *Fortunella* Swingle neu *Poncirus* Raf.; neu blanhigion Araceae, Marantaceae, Musaceae, *Persea* spp. neu Strelitziaceae, yn unrhyw achos sydd â gwreiddiau neu sy'n gysylltiedig â chyfrwng tyfu neu yr ymddengys iddynt fod mewn cysylltiad â chyfrwng tyfu | *Radopholus citrophilus* Huettel Dickson a Kaplan |
| 21. | Planhigion, ac eithrio hadau, Citrus L., *Fortunella* Swingle neu *Poncirus* Raf. | *Scirtothrips aurantii* Faure |
| 22. | Planhigion, ac eithrio ffrwythau neu hadau, *Citrus* L., *Fortunella* Swingle neu *Poncirus* Raf. | *Scirtothrips dorsalis* Hood |
| 23. | Planhigion, ac eithrio hadau, *Citrus* L., *Fortunella* Swingle neu *Poncirus* Raf. | *Scirtothrips citri* (Moultex) |
| 24. | Cloron *Solanum tuberosum* L. | *Scrobipalpopsis solanivora* Povolny |
| 25. | Planhigion, ac eithrio hadau, *Cydonia* Mill., *Malus* Mill., *Prunus* L. neu *Pyrus* L., sy'n tarddu o unrhyw wlad y tu allan i Ewrop | *Tachypterellus quadrigibbus* Say |
| 26. | Planhigion, ac eithrio ffrwythau neu hadau, *Citrus* L., *Fortunella* Swingle neu *Poncirus* Raf. | *Toxoptera citricida* (Kirk.) |
| 27. | Planhigion, ac eithrio ffrwythau neu hadau, *Citrus* L., *Fortunella* Swingle neu *Poncirus* Raf. | *Unaspis citri* Comstock |

## Bacteria

| *(1)* *Eitem* | *(2)* *Disgrifiad o'r deunydd perthnasol* | *(3)* *Pla planhigion* |
|---|---|---|
| 1. | Planhigion, ac eithrio ffrwythau neu hadau, *Citrus* L., *Fortunella* Swingle neu *Poncirus* Raf. | Clorosis brith planhigion sitrws |
| 2. | Hadau *Zea* mays L. | *Erwinia stewartii* (Smith) Dye |

| *(1)* *Eitem* | *(2)* *Disgrifiad o'r deunydd perthnasol* | *(3)* *Pla planhigion* |
|---|---|---|
| 3. | Hadau *Oryza* spp. | *Xanthomonas campestris* pv. *Oryzae* (Ishiyama) Dye a pv. *oryzicola* (Fang. et al.) Dye |

**Ffyngau**

| *(1)* *Eitem* | *(2)* *Disgrifiad o'r deunydd perthnasol* | *(3)* *Pla planhigion* |
|---|---|---|
| 1. | Planhigion, ac eithrio hadau, *Cydonia* Mill., *Malus* Mill. neu *Pyrus* L., a fwriedir ar gyfer eu plannu, sy'n tarddu o unrhyw wlad y tu allan i Ewrop | *Alternaria alternata* (Fr.) Keissler (arunigion pathogenig heb fod yn rhai Ewropeaidd) |
| 2. | Planhigion, ac eithrio hadau, *Corylus* L., a fwriedir ar gyfer eu plannu, sy'n tarddu o Ganada neu UDA | *Anisogramma anomala* (Peck) E. Müller |
| 3. | Planhigion, ac eithrio hadau, *Prunus* L., a fwriedir ar gyfer eu plannu | *Apiosporina morbosa* (Schwein.) v. Arx |
| 4. | Planhigion, ac eithrio ffrwythau neu hadau, *Pinus* L., a fwriedir ar gyfer eu plannu | *Atropellis* spp. |
| 5. | Planhigion, ac eithrio ffrwythau neu hadau, *Acer saccharum* Marsh., sy'n tarddu o Ganada neu UDA | *Ceratocystis virescens* (Davidson) Moreau |
| 6. | Planhigion, ac eithrio ffrwythau neu hadau, *Pinus* L. | *Cercoseptoria pini-densiflorae* (Hori a Nambu) Deighton |
| 7. | Planhigion, ac eithrio hadau, *Citrus* L., *Fortunella* Swingle neu *Poncirus* Raf. | *Cercospora angolensis* Carv. a Mendes |
| 8. | Planhigion, ac eithrio hadau, *Vaccinium* spp., a fwriedir ar gyfer eu plannu | *Diaporthe vaccinii* Shaer |
| 9. | Planhigion, ac eithrio ffrwythau neu hadau, *Fortunella* Swingle neu *Poncirus* Raf.; neu blanhigion, ac eithrio ffrwythau neu hadau (ac eithrio ffrwythau *Citrus* reticulata Blanco a *Citrus* sinensis (L.) Osbeck) Citrus L., yn unrhyw achos, sy'n tarddu o unrhyw wlad yn Ne America | *Elsinoe* spp. Bitanc. a Jenk. Mendes |
| 10. | Planhigion, ac eithrio ffrwythau neu hadau, *Phoenix* spp. | *Fusarium oxysporum* f. sp. *Albedinis* (Kilian a Maire) Gordon |
| 11. | Planhigion, ac eithrio hadau, *Cydonia* Mill., *Malus* Mill., *Prunus* L. neu *Pyrus* L., sy'n tarddu o unrhyw wlad y tu allan i Ewrop | *Guignardia piricola* (Nosa) Yamamoto |

| *(1)* *Eitem* | *(2)* *Disgrifiad o'r deunydd perthnasol* | *(3)* *Pla planhigion* |
|---|---|---|
| 12. | Planhigion, ac eithrio ffrwythau neu hadau, Solanaceae | *Puccinia pittieriana* Hennings |
| 13. | Planhigion, ac eithrio ffrwythau neu hadau, *Pinus* L. | *Scirrhia acicola* (Dearn.) Siggers |
| 14. | Planhigion, ac eithrio hadau, *Ulmus* L. neu *Zelkova* L., a fwriedir ar gyfer eu plannu | *Stegophora ulmea* (Schweintz: Fries) Sydow a Sydow |
| 15. | Planhigion, ac eithrio hadau, *Pyrus* L., a fwriedir ar gyfer eu plannu, sy'n tarddu o unrhyw wlad y tu allan i Ewrop | *Venturia nashicola* Tanaka ac Yamamoto |

**Firysau ac organeddau sy'n debyg i firysau**

| *(1)* *Eitem* | *(2)* *Disgrifiad o'r deunydd perthnasol* | *(3)* *Pla planhigion* |
|---|---|---|
| 1. | Planhigion, ac eithrio hadau, *Beta vulgaris* L., a fwriedir ar gyfer eu plannu | Firws crych betys (arunigion heb fod yn rhai Ewropeaidd) |
| 2. | Planhigion *Rubus* L., a fwriedir ar gyfer eu plannu | Firws cudd mafon duon |
| 3. | Planhigion, ac eithrio ffrwythau neu hadau, *Citrus* L., *Fortunella* Swingle neu *Poncirus* Raf. | Malltod neu bla sy'n debyg i falltod |
| 4. | Planhigion, ac eithrio hadau, Palmae,<br><br>a fwriedir ar gyfer eu plannu, sy'n tarddu o unrhyw wlad y tu allan i Ewrop | Firoid Cadang-Cadang |
| 5. | Planhigion *Rubus* L., a fwriedir ar gyfer eu plannu | Firws crychni'r dail ceirios |
| 6. | Planhigion, ac eithrio hadau, *Dendranthema* (DC.) Des Moul. neu *Solanum lycopersicum* L., a fwriedir ar gyfer eu plannu | Firws necrosis coesynnau ffarwelau haf |
| 7. | Planhigion, ac eithrio ffrwythau neu hadau, *Citrus* L., *Fortunella* Swingle neu *Poncirus* Raf. | Firws amryliw sitrws |
| 8. | Planhigion, ac eithrio ffrwythau neu hadau, *Citrus* L., *Fortunella* Swingle neu *Poncirus* Raf. | Firws tristesa sitrws (arunigion heb fod yn rhai Ewropeaidd) |
| 9. | Planhigion, ac eithrio ffrwythau neu hadau, *Citrus* L., *Fortunella* Swingle neu *Poncirus* Raf. | Leprosis |

| *(1)* *Eitem* | *(2)* *Disgrifiad o'r deunydd perthnasol* | *(3)* *Pla planhigion* |
|---|---|---|
| 10. | Planhigion, ac eithrio hadau, *Prunus cerasus* L., *Prunus avium* L., *Prunus incisa* Thunb., *Prunus sargentii* Rehd., *Prunus serrula* Franch., *Prunus serrulata* Lindl., *Prunus speciosa* (Koidz.) Ingram, *Prunus subhirtella* Miq. neu *Prunus yedoensis* Matsum., neu eu cyltifarau, a fwriedir ar gyfer eu plannu | Pathogen ceirios bychain (arunigion heb fod yn rhai Ewropeaidd) |
| 11. | Planhigion, ac eithrio ffrwythau neu hadau, *Citrus* L., *Fortunella* Swingle neu *Poncirus* Raf. | Psorosis sy'n lledaenu'n naturiol |
| 12. | Planhigion, ac eithrio hadau, Palmae, a fwriedir ar gyfer eu plannu, sy'n tarddu o unrhyw wlad y tu allan i Ewrop | Mycoplasm melynu marwol palmwydd |
| 13. | Planhigion *Rubus* L., a fwriedir ar gyfer eu plannu | Firws crwn necrotig eirinwydd |
| 14. | Planhigion, ac eithrio ffrwythau neu hadau, *Citrus* L., *Fortunella* Swingle neu Poncirus Raf. | Firws corachaidd satsumas |
| 15. | Planhigion, ac eithrio ffrwythau neu hadau, *Citrus* L., *Fortunella* Swingle neu Poncirus Raf. | Firws dail carpiog |
| 16. | Planhigion, ac eithrio ffrwythau neu hadau, *Citrus* L., *Fortunella* Swingle neu *Poncirus* Raf. | Ysgub y gwrachod (MLO) |

# RHAN B

## Plâu planhigion y gwyddys eu bod yn bresennol yn yr Undeb Ewropeaidd

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I52** Atod. 2 Rhn. B mewn grym ar 2.11.2018, gweler **ergl. 1(2)**

### Pryfed, gwiddon a nematodau

| *(1)* *Eitem* | *(2)* *Disgrifiad o'r deunydd perthnasol* | *(3)* *Pla planhigion* |
|---|---|---|
| 1. | Planhigion, ac eithrio hadau, *Fragaria* L., a fwriedir ar gyfer eu plannu | *Aphelenchoides besseyi* Christie |
| 2. | Planhigion, ac eithrio ffrwythau neu hadau, *Vitis* L. | *Daktulosphaira vitifoliae* (Fitch) |

| *(1)* *Eitem* | *(2)* *Disgrifiad o'r deunydd perthnasol* | *(3)* *Pla planhigion* |
|---|---|---|
| 3. | Blodau, bylbiau neu gormau *Crocus* L., cyltifarau bychain y genws *Gladiolus* Tourn. ex. L. gan *gynnwys Gladiolus callianthus* Marais, *Gladiolus colvillei* Sweet, *Gladiolus nanus* hort., *Gladiolus ramosus* hort., *Gladiolus tubergenii* hort., *Hyacinthus* L., *Iris* L., *Trigridia* Juss. neu *Tulipa* L., a fwriedir ar gyfer eu plannu, neu gloron (*Solanum tuberosum* L.), a fwriedir ar gyfer eu plannu | *Ditylenchus destructor* Thorne |
| 4. | Hadau neu fylbiau *Allium ascalonicum* L., *Allium cepa* L. neu *Allium schoenoprasum* L., a fwriedir ar gyfer eu plannu; planhigion *Allium porrum* L., a fwriedir ar gyfer eu plannu; bylbiau neu gormau *Camassia* Lindl., *Chionodoxa* Boiss., *Crocus flavus* Weston "Golden Yellow", *Galanthus* L., *Galtonia candicans* (Baker) Decne, *Hyacinthus* L., *Ismene* Herbert, *Muscari* Miller, *Narcissus* L., *Ornithogalum* L., *Puschkinia* Adams, *Scilla* L. neu *Tulipa* L., a fwriedir ar gyfer eu plannu; neu hadau *Medicago sativa* L. | *Ditylenchus dipsaci* (Kühn) Filipjev |
| 5. | Planhigion, ac eithrio ffrwythau neu hadau, *Citrus* L., *Fortunella* Swingle neu *Poncirus* Raf. | *Circulifer haematoceps* (Mulsant a Rey) |
| 6. | Planhigion, ac eithrio ffrwythau neu hadau, *Citrus* L., *Fortunella* Swingle neu *Poncirus* Raf. | *Circulifer tenellus* (Baker) |
| 7. | Planhigion, ac eithrio ffrwythau neu hadau, *Citrus* L., *Fortunella* Swingle neu *Poncirus* Raf. | *Eutetranychus orientalis* Klein |
| 8. | Planhigion, ac eithrio hadau, *Dendranthema* (DC.) Des Moul., *Dianthus* L., *Pelargonium* L'Hérit ex Ait. neu'r teulu Solanaceae, a fwriedir ar gyfer eu plannu | *Helicoverpa armigera* (Hübner) |
| 9. | Planhigion, ac eithrio ffrwythau neu hadau, *Citrus* L., *Fortunella* Swingle neu *Poncirus* Raf. | *Parasaissetia nigra* (Nietner) |
| 10. | Planhigion *Palmae*, a fwriedir ar gyfer eu plannu, y mae diamedr bôn y coesyn yn fwy na 5cm ac sy'n perthyn i'r genera a ganlyn: *Brahea* Mart., *Butia* Becc., *Chamaerops* L., *Jubaea* Kunth., *Livistona* | *Paysandisia archon* (Burmeister) |

| *(1)* <br><br> *Eitem* | *(2)* <br><br> *Disgrifiad o'r deunydd perthnasol* | *(3)* <br><br> *Pla planhigion* |
|---|---|---|
| | R. Br., *Phoenix* L., *Sabal* Adans,. *Syagrus* Mart., *Trachycarpus* H. Wendl., *Trithrinax* Mart. neu *Washingtonia* Raf. | |
| 11. | Planhigion Araceae, Marantaceae, Musaceae, *Persea* spp., neu Strelitziaceae, sydd â gwreiddiau neu sy'n gysylltiedig â chyfrwng tyfu neu yr ymddengys iddynt fod mewn cysylltiad â chyfrwng tyfu | *Radopholus similis* (Cobb) Thorne |
| 12. | Planhigion *Palmae*, a fwriedir ar gyfer eu plannu, y mae diamedr bôn y coesyn yn fwy na 5cm ac sy'n perthyn i'r tacsonau a ganlyn: *Areca catechu* L., *Arenga pinnata* (Wurmb) Merr., *Bismarckia* Hildebr. a H. Wendle., *Borassus* flabellifer L., *Brahea armata* S. Watson, *Brahea edulis* H. Wendl., *Butia capitata* (Mart.) Becc., *Calamus merrillii* Becc., *Caryota maxima* Blume, *Caryota cumingii* Lodd. Ex Mart., *Chamaerops humilis* L., Cocos nucifera L., *Copernicia* Mart., *Corypha* utan Lam., *Elaeis guineenis* Jacq., *Howea forsteriana* Becc., *Jubaea chilensis* (Molina) Baill*., Livistona australis* C. Martius, *Livistona decora* (W. Bull) Dowe, *Livistona rotundifolia* (Lam.) Mart., *Metroxylon sagu* Rottb., *Phoenix canariensis* Chabaud, Phoenix dactylifera L., *Phoenix reclinata* Jacq., *Phoenix roebelenii* O'Brien, *Phoenix sylvestris* (L.) Roxb., *Phoenix theophrasti* Greuter, *Pritchardia* Seem. a H. Wendl., *Ravenea rivularis* Jum. a H. Perrier, *Roystonea regia* (Kunth) O.F. Cook, *Sabal palmetto* (Walter) Lodd. ex Schult. a Schult. f., *Syagrus roman-zoffiana* (Cham.) Glassman, *Trachycarpus fortunei* (Hook.) H. Wendl. neu *Washingtonia* Raf. | *Rhynchophorus ferrugineus* (Olivier) |
| 13. | Planhigion, ac eithrio ffrwythau neu hadau, *Pinus* L., a fwriedir ar gyfer eu plannu | *Thaumetopoea pityocampa* Denis a Schiffermüller |
| 14. | Blodau wedi eu torri neu lysiau deiliog *Apium graveolens* L. neu blanhigion rhywogaethau llysieuol, a fwriedir ar gyfer eu plannu, ac eithrio: <br> — bylbiau, <br> — cormau, <br> — planhigion o'r teulu Gramineae, | *Liriomyza huidobrensis* (Blanchard) |

| *(1)* *Eitem* | *(2)* *Disgrifiad o'r deunydd perthnasol* | *(3)* *Pla planhigion* |
|---|---|---|
| | — rhisomau, neu<br>— hadau | |
| 15. | Blodau wedi eu torri neu lysiau deiliog *Apium graveolens* L. neu blanhigion rhywogaethau llysieuol, a fwriedir ar gyfer eu plannu, ac eithrio:<br>— bylbiau,<br>— cormau,<br>— planhigion o'r teulu Gramineae,<br>— rhisomau, neu<br>— hadau | *Liriomyza trifolii* (Burgess) |

**Bacteria**

| *(1)* *Eitem* | *(2)* *Disgrifiad o'r deunydd perthnasol* | *(3)* *Pla planhigion* |
|---|---|---|
| 1. | Hadau *Medicago sativa* L. | *Clavibacter michiganensis* ssp. *Insidiosus* (McCulloch) Davis et al. |
| 2. | Planhigion *Solanum lycopersicum* L., a fwriedir ar gyfer eu plannu | *Clavibacter michiganensis* ssp. *michiganensis* (Smith) Davis et al. |
| 3. | Planhigion, ac eithrio hadau, *Amelanchier* Med., *Chaenomeles* Lindl., *Cotoneaster* Ehrh., *Crataegus* L., *Cydonia* Mill., *Eriobotrya* Lindl., *Malus* Mill., *Mespilus* L., *Photinia davidiana* (Dcne.) Cardot, *Pyracantha* Roem., *Pyrus* L. neu *Sorbus* L., a fwriedir ar gyfer eu plannu | *Erwinia amylovora* (Burr.) Winsl. et al. |
| 4. | Planhigion, ac eithrio hadau, *Dianthus* L., a fwriedir ar gyfer eu plannu | *Erwinia chrysanthemi* pv. Dianthicola (Hellmers) Dickey |
| 5. | Planhigion, ac eithrio hadau, *Dianthus* L., a fwriedir ar gyfer eu plannu | *Pseudomonas caryophylli* (Burkholder) Starr a Burkholder |
| 6. | Planhigion, ac eithrio hadau, *Prunus persica* (L.) Batsch neu *Prunus persica* var. *nectarina* (Ait.) Maxim, a fwriedir ar gyfer eu plannu | *Pseudomonas syringae* pv. *Persicae* (Prunier et al.) Young et al. |
| 7. | Hadau *Phaseolus* L. | *Xanthomonas campestris* pv. *Phaseoli* (Smith) Dye |
| 8. | Planhigion, ac eithrio hadau, *Prunus* L., a fwriedir ar gyfer eu plannu | *Xanthomonas arboricola* pv. *pruni* (Smith) Vauterin et al. |
| 9. | Planhigion *Solanum lycopersicum* L. neu *Capsicum* spp., a fwriedir ar gyfer eu plannu | *Xanthomonas campestris* pv. *Vesticatoria* (Doidge) Dye |

| *(1)* <br> *Eitem* | *(2)* <br> *Disgrifiad o'r deunydd perthnasol* | *(3)* <br> *Pla planhigion* |
|---|---|---|
| 10. | Planhigion, ac eithrio hadau, *Fragaria* L., a fwriedir ar gyfer eu plannu | *Xanthomonas fragariae* Kennedy a King |
| 11. | Planhigion, ac eithrio ffrwythau neu hadau, *Vitis* L. | *Xylophilus ampelinus* (Panagopoulos) Willems et al. |

**Ffyngau**

| *(1)* <br> *Eitem* | *(2)* <br> *Disgrifiad o'r deunydd perthnasol* | *(3)* <br> *Pla planhigion* |
|---|---|---|
| 1. | Planhigion, ac eithrio hadau, *Platanus* L., a fwriedir ar gyfer eu plannu | *Ceratocystis platani* (J.M. Walter) Engelbr. a T.C. Harr. |
| 2. | Planhigion *Fraxinus* L., a fwriedir ar gyfer eu plannu | *Chalara fraxinea* T. Kowalski, gan gynnwys ei deleomorff *Hymenoscyphus pseudoalbidus* |
| 3. | Planhigion *Castanea* Mill., a fwriedir ar gyfer eu plannu, neu blanhigion, ac eithrio hadau, *Quercus* L., a fwriedir ar gyfer eu plannu | *Cryphonectria parasitica* (Murrill) Barr |
| 4. | Planhigion, ac eithrio hadau, *Dendranthema* (DC.) Des Moul., a fwriedir ar gyfer eu plannu | *Didymella ligulicola* (Baker, Dimock a Davis) v. Arx |
| 5. | Planhigion, ac eithrio hadau, *Dianthus* L., a fwriedir ar gyfer eu plannu | *Phialophora cinerescens* (Wollenweber) van Beyma |
| 6. | Planhigion, ac eithrio hadau, *Citrus* L., *Fortunella* Swingle neu Poncirus Raf. | *Phoma tracheiphila* (Petri) Kanchaveli a Gikashvili |
| 7. | Planhigion, ac eithrio hadau, *Fragaria* L., a fwriedir ar gyfer eu plannu | *Phytophthora fragariae* Hickman var. Fragariae |
| 8. | Hadau *Helianthus annuus* L. | *Plasmopara halstedii* (Farlow) Berl. a de Toni |
| 9. | Planhigion, ac eithrio hadau, *Dendranthema* (DC.) Des Moul., a fwriedir ar gyfer eu plannu | *Puccinia horiana* Hennings |
| 10. | Planhigion, ac eithrio hadau, *Pinus* L., a fwriedir ar gyfer eu plannu | *Scirrhia pini* Funk a Parker |
| 11. | Planhigion, ac eithrio hadau, *Humulus lupulus* L., a fwriedir ar gyfer eu plannu | *Verticillium albo-atrum* Reinke a Berthold |
| 12. | Planhigion, ac eithrio hadau, *Humulus lupulus* L., a fwriedir ar gyfer eu plannu | *Verticillium dahliae* Klebahn |

**Firysau ac organeddau sy'n debyg i firysau**

| *(1)* *Eitem* | *(2)* *Disgrifiad o'r deunydd perthnasol* | *(3)* *Pla planhigion* |
|---|---|---|
| 1. | Planhigion, ac eithrio hadau, *Fragaria* L. neu *Rubus* L., a fwriedir ar gyfer eu plannu | Firws amryliw Arabis |
| 2. | Planhigion, ac eithrio hadau, *Beta vulgaris* L., a fwriedir ar gyfer eu plannu | Firws deildro betys |
| 3. | Planhigion, ac eithrio hadau, *Ulmus* L., a fwriedir ar gyfer eu plannu | *Candidatus* Phytoplasma ulmi |
| 4. | Planhigion, ac eithrio hadau, *Dendranthema* (DC.) Des Moul., a fwriedir ar gyfer eu plannu | Firoid arafu twf ffarwelau haf |
| 5. | Planhigion, ac eithrio ffrwythau neu hadau, *Citrus* L., *Fortunella* Swingle neu Poncirus Raf. | Firws tristesa sitrws (arunigion Ewropeaidd) |
| 6. | Planhigion, ac eithrio ffrwythau neu hadau, *Vitis* L. | Flavescence dorée MLO gwinwydd |
| 7. | Planhigion, ac eithrio hadau, Prunus L., a fwriedir ar gyfer eu plannu | Firws brech eirin |
| 8. | Planhigion, ac eithrio hadau, Solanaceae, a fwriedir ar gyfer eu plannu | Mycoplasm stolbur tatws |
| 9. | Planhigion *Solanum lycopersicum* L., *Capsicum annuum* L. neu *Capsicum frutescens* L., a fwriedir ar gyfer eu plannu, neu blanhigion *Solanum tuberosum* L | Firoid y gloronen bigfain |
| 10. | Planhigion, ac eithrio hadau, *Fragaria* L. neu *Rubus* L., a fwriedir ar gyfer eu plannu | Firws crwn mafon |
| 11. | Planhigion, ac eithrio hadau, *Citrus* L., *Fortunella* Swingle neu *Poncirus* Raf. | *Spiroplasma citri* Saglio *et al.* |
| 12. | Planhigion, ac eithrio hadau, *Fragaria* L., a fwriedir ar gyfer eu plannu | Firws crych mefus |
| 13. | Planhigion, ac eithrio hadau, *Fragaria* L. neu *Rubus* L., a fwriedir ar gyfer eu plannu | Firws crwn cudd mefus |
| 14. | Planhigion, ac eithrio hadau, *Fragaria* L., a fwriedir ar gyfer eu plannu | Firws minfelyn ysgafn mefus |
| 15. | Planhigion, ac eithrio hadau, *Fragaria* L. neu *Rubus* L., a fwriedir ar gyfer eu plannu | Firws crwn du tomatos |

| *(1)*<br><br>*Eitem* | *(2)*<br><br>*Disgrifiad o'r deunydd perthnasol* | *(3)*<br><br>*Pla planhigion* |
|---|---|---|
| 16. | Planhigion, ac eithrio hadau, *Apium graveolens* L., *Capsicum annuum* L., *Cucumis melo* L., *Dendranthema* (DC.) Des Moul., unrhyw amrywogaeth o hybridau Guinea Newydd o *Impatiens*, *Lactuca sativa* L., *Solanum lycopersicum* L. neu *Nicotiana tabacum* L. a rhaid bod tystiolaeth y'u bwriedir ar gyfer eu gwerthu i gynhyrchwyr tybaco proffesiynol, *Solanum melongena* L. neu *Solanum tuberosum* L., a fwriedir ar gyfer eu plannu | Firws gwywo brith tomatos |
| 17. | Planhigion, ac eithrio hadau, *Solanum lycopersicum* L., a fwriedir ar gyfer eu plannu | Firws deildro melyn tomatos |

## ATODLEN 3

Erthyglau 5(1), 18(1) a 43(3)

### Deunydd perthnasol na chaniateir dod ag ef i Gymru os yw'r deunydd hwnnw'n tarddu o drydydd gwledydd penodol

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I53** Atod. 3 mewn grym ar 2.11.2018, gweler **ergl. 1(2)**

| *(1)*<br><br>*Eitem* | *(2)*<br><br>*Disgrifiad o'r deunydd perthnasol* | *(3)*<br><br>*Gwledydd tarddiad* |
|---|---|---|
| 1. | Planhigion, ac eithrio ffrwythau neu hadau, *Abies* Mill., *Cedrus* Trew, *Chamaecyparis* Spach, *Juniperus* L., *Larix* Mill., *Picae* A. Dietr., *Pinus* L., Pseudotsuga Carr. neu *Tsuga* Carr. | Unrhyw wlad y tu allan i Ewrop |
| 2. | Planhigion deiliog, ac eithrio ffrwythau neu hadau, *Castanea* Mill, neu *Quercus* L. | Unrhyw wlad y tu allan i Ewrop |
| 3. | Planhigion deiliog, ac eithrio ffrwythau neu hadau, *Populus* L. | Unrhyw wlad yng Ngogledd America |
| 4. | Planhigion, ac eithrio planhigion cwsg sydd heb ddail, blodau a ffrwythau, *Chaenomeles* Lindl., *Cydonia* Mill., *Crataegus* L., *Malus* Mill., *Prunus* L., | Unrhyw wlad y tu allan i Ewrop |

| *(1)* *Eitem* | *(2)* *Disgrifiad o'r deunydd perthnasol* | *(3)* *Gwledydd tarddiad* |
|---|---|---|
| | *Pyrus* L. neu *Rosa* L., a fwriedir ar gyfer eu plannu | |
| 5. | Planhigion, ac eithrio planhigion cwsg sydd heb ddail, blodau a ffrwythau, *Photinia* Lindl., a fwriedir ar gyfer eu plannu | UDA, Tsieina, Japan, Gweriniaeth Korea neu Weriniaeth Ddemocrataidd Pobl Korea |
| 6. | Cloron *Solanum tuberosum* L. i'w plannu | Unrhyw drydedd wlad ac eithrio'r Swistir |
| 7. | Planhigion o rywogaethau *Solanum* L., sy'n ffurfio stolon neu gloron a fwriedir ar gyfer eu plannu, ac eithrio cloron *Solanum tuberosum* L. a bennir yn eitem 6 | Unrhyw drydedd wlad |
| 8. | Cloron rhywogaethau *Solanum* L., ac eithrio'r rheini a bennir yn eitemau 6 a 7 | Unrhyw drydedd wlad ac eithrio Algeria, Bosnia a Herzegovina, yr Aifft, Israel, Libya, Moroco, Serbia, y Swistir, Syria, Tunisia neu Dwrci |
| 9. | Planhigion Solanaceae, a fwriedir ar gyfer eu plannu, ac eithrio hadau neu ddeunydd perthnasol a bennir yn eitemau 6 i 8 | Unrhyw drydedd wlad ac eithrio unrhyw wlad yn ardal Ewrop a Môr y Canoldir |
| 10. | Pridd neu gyfrwng tyfu sydd ar ffurf, yn gyfan gwbl neu'n rhannol, pridd neu sylweddau organig solet megis rhannau o blanhigion neu hwmws (gan gynnwys mawn neu risgl), ac eithrio cyfrwng tyfu sydd ar ffurf mawn yn gyfan gwbl | Belarws, Moldofa, Rwsia, Twrci, yr Ukrain ac unrhyw drydedd wlad nad yw ar dir mawr Ewrop, ac eithrio'r Aifft, Israel, Libya, Moroco neu Tunisia |
| 11. | Planhigion, ac eithrio ffrwythau, *Vitis* L. | Unrhyw drydedd wlad ac eithrio'r Swistir |
| 12. | Planhigion, ac eithrio ffrwythau neu hadau, *Citrus* L., *Fortunella* Swingle neu *Poncirus* Raf. | Unrhyw drydedd wlad |
| 13. | Planhigion, ac eithrio ffrwythau neu hadau, *Phoenix* spp. | Algeria neu Moroco |
| 14. | Planhigion, ac eithrio hadau, *Cydonia* Mill., *Malus* Mill., *Prunus* L. neu Pyrus L. neu *Fragaria* L., a fwriedir ar gyfer eu plannu | Unrhyw drydedd wlad, ac eithrio gwlad yn ardal Ewrop a Môr y Canoldir, Awstralia, Seland Newydd, Canada neu daleithiau cyfandirol UDA |
| 15. | Planhigion, ac eithrio hadau, o'r teulu Gramineae, ac eithrio planhigion glaswelltoedd lluosflwydd addurniadol o'r is-deuluoedd Bambusoideae, Panicoideae neu o'r genera *Buchloe*, *Bouteloua* Lag., *Calamagrostis*, *Cortaderia* Stapf., *Glyceria* R. Br., | Unrhyw drydedd wlad, ac eithrio gwlad yn ardal Ewrop a Môr y Canoldir |

| *(1)*<br><br>*Eitem* | *(2)*<br><br>*Disgrifiad o'r deunydd perthnasol* | *(3)*<br><br>*Gwledydd tarddiad* |
|---|---|---|
| | *Hakonechloa* Mak. ex. Honda, *Hystrix*, *Molinia*, *Phalaris* L., *Shibataea*, *Spartina* Schreb., *Stipa* L. neu *Uniola* L., a fwriedir ar gyfer eu plannu | |
| 16. | Planhigion, ac eithrio hadau, *Coffea*, a fwriedir ar gyfer eu plannu | Costa Rica neu Honduras |
| 17. | Planhigion, ac eithrio hadau, *Capsicum* L., *Lagenaria* Ser., *Luffa* Mill., *Momordica* L. neu *Solanum* L., ac eithrio *Solanum* lycopersicum L. | Ghana |

# ATODLEN 4

Erthyglau 3, 5(1), 12(1), 15(2), 18(1), 18(3) ac 20(1)

Cyfyngiadau ar ddod â deunydd perthnasol i Gymru a'i symud o fewn Cymru

## RHAN A

### Deunydd perthnasol, sy'n tarddu o drydydd gwledydd, na chaniateir ei lanio oni chydymffurfir â gofynion arbennig

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I54** Atod. 4 Rhn. A mewn grym ar 2.11.2018, gweler **ergl. 1(2)**

| *(1)*<br><br>*Eitem* | *(2)*<br><br>*Disgrifiad o'r deunydd perthnasol* | *(3)*<br><br>*Gofynion glanio* |
|---|---|---|
| 1. | Planhigion, ac eithrio ffrwythau neu hadau, coed conwydd (Coniferales), sy'n tarddu o unrhyw wlad y tu allan i Ewrop | Rhaid i'r planhigion ddod gyda datganiad swyddogol eu bod wedi eu cynhyrchu mewn meithrinfa, a bod y man cynhyrchu yn rhydd rhag *Pissodes* spp. (heb fod yn rhai Ewropeaidd) |
| 2. | Planhigion, ac eithrio hadau, *Pinus* L., a fwriedir ar gyfer eu plannu, sy'n tarddu o unrhyw drydedd wlad | Rhaid i'r planhigion ddod gyda datganiad swyddogol na welwyd unrhyw symptomau *Scirrhia acicola* (Dearn.) Siggers neu *Scirrhia pini* Funk a Parker yn y man cynhyrchu neu yn ei gyffiniau agos ers dechrau'r cylch llystyfiant cyflawn diweddaraf |
| 3. | Planhigion, ac eithrio hadau, *Abies* Mill., *Larix* Mill., *Picea* A. Dietr., *Pinus* L., *Pseudotsuga* Carr. neu | Rhaid i'r planhigion ddod gyda datganiad swyddogol na welwyd unrhyw symptomau *Melampsora medusae* Thümen yn y man |

| *(1)*<br><br>*Eitem* | *(2)*<br><br>*Disgrifiad o'r deunydd perthnasol* | *(3)*<br><br>*Gofynion glanio* |
|---|---|---|
| | *Tsuga* Carr., a fwriedir ar gyfer eu plannu, sy'n tarddu o unrhyw drydedd wlad | cynhyrchu neu yn ei gyffiniau agos ers dechrau'r cylch llystyfiant cyflawn diweddaraf |
| 4. | Planhigion, ac eithrio ffrwythau neu hadau, *Quercus* L. sy'n tarddu o UDA | Rhaid i'r planhigion ddod gyda datganiad swyddogol eu bod yn tarddu o ardal y gwyddys ei bod yn rhydd rhag *Ceratocystis fagacearum* (Bretz) Hunt. |
| 5. | Planhigion, ac eithrio ffrwythau neu hadau, *Castanea* Mill. neu *Quercus* L., sy'n tarddu o unrhyw wlad y tu allan i Ewrop | Rhaid i'r planhigion ddod gyda datganiad swyddogol na welwyd unrhyw arwyddion *Cronartium* spp. (heb fod yn rhai Ewropeaidd) yn y man cynhyrchu neu yn ei gyffiniau agos ers dechrau'r cylch llystyfiant cyflawn diweddaraf |
| 6. | Planhigion, ac eithrio hadau, *Castanea* Mill, neu *Quercus* L., a fwriedir ar gyfer eu plannu, sy'n tarddu o unrhyw drydedd wlad | Rhaid i'r planhigion ddod gyda datganiad swyddogol:<br>(a) eu bod yn tarddu o ardal y gwyddys ei bod yn rhydd rhag *Cryphonectria parasitica* (Murrill) Barr; neu<br>(b) na welwyd unrhyw symptomau *Cryphonectria parasitica* (Murrill) Barr yn y man cynhyrchu neu yn ei gyffiniau agos ers dechrau'r cylch llystyfiant cyflawn diweddaraf |
| 7. | Planhigion, ac eithrio hadau, *Corylus* L., a fwriedir ar gyfer eu plannu, sy'n tarddu o Ganada neu UDA | Rhaid i'r planhigion ddod gyda datganiad swyddogol eu bod wedi eu tyfu mewn meithrinfa ac:<br>(a) yn tarddu o ardal a sefydlwyd yn y wlad sy'n allforio gan y sefydliad diogelu planhigion cenedlaethol yn y wlad honno yn ardal sy'n rhydd rhag *Anisogramma anomala* (Peck) E. Müller, yn unol ag ISPM Rhif 4, ac a grybwyllir ar y dystysgrif ffytoiechydol, neu'r dystysgrif ffytoiechydol ar gyfer ailallforio o dan y pennawd "Additional declaration"; neu<br>(b) yn tarddu o fan cynhyrchu a sefydlwyd yn y wlad sy'n allforio gan y sefydliad diogelu planhigion cenedlaethol yn y wlad honno yn fan sy'n rhydd rhag *Anisogramma anomala* (Peck) E. Müller o gynnal arolygiadau swyddogol yn y man cynhyrchu neu yn ei gyffiniau agos ers dechrau'r tri chylch llystyfiant cyflawn diweddaraf, yn unol ag ISPM Rhif 10, ac a grybwyllir |

| *(1)*<br><br>*Eitem* | *(2)*<br><br>*Disgrifiad o'r deunydd perthnasol* | *(3)*<br><br>*Gofynion glanio* |
|---|---|---|
| | | ar y dystysgrif ffytoiechydol, neu'r dystysgrif ffytoiechydol ar gyfer ailallforio o dan y pennawd "Additional declaration" a datganiad ei fod yn rhydd rhag *Anisogramma anomala* (Peck) E. Müller |
| 8. | Planhigion, ac eithrio ffrwythau neu hadau, ond gan gynnwys canghennau wedi eu torri, gyda deiliach neu hebddo, *Fraxinus* L., Juglans ailantifolia Carr., *Juglans mandshurica* Maxim., *Ulmus davidiana* Planch. neu *Pterocarya rhoifolia* Siebold a Zucc., sy'n tarddu o Ganada, Tsieina, Gweriniaeth Ddemocrataidd Pobl Korea, Japan, Mongolia, Gweriniaeth Korea, Rwsia, Taiwan neu UDA | Rhaid i'r planhigion ddod gyda datganiad swyddogol eu bod yn tarddu o ardal y cydnabyddir ei bod yn rhydd rhag *Agrilus planipennis* Fairmaire at ddibenion pwynt 11.4 o Adran I o Atodiad IV Rhan A, ac a grybwyllir ar y dystysgrif ffytoiechydol neu'r dystysgrif ffytoiechydol ar gyfer ailallforio |
| 9. | Planhigion *Betula* L., ac eithrio ffrwythau neu hadau, ond gan gynnwys canghennau wedi eu torri *Betula* L., gyda deiliach neu hebddo, sy'n tarddu o unrhyw drydedd wlad | Rhaid i'r planhigion ddod gyda datganiad swyddogol eu bod yn tarddu o wlad y gwyddys ei bod yn rhydd rhag *Agrilus anxius* Gory |
| 10. | Planhigion, ac eithrio hadau, *Platanus* L., a fwriedir ar gyfer eu plannu, sy'n tarddu o Armenia, y Swistir neu UDA | Rhaid i'r planhigion ddod gyda datganiad swyddogol na welwyd unrhyw symptomau *Ceratocystis platani* (J.M. Walter) Engelbr. a T.C. Harr. yn y man cynhyrchu neu yn ei gyffiniau agos ers dechrau'r cylch llystyfiant cyflawn diweddaraf |
| 11. | Planhigion, ac eithrio hadau, *Populus* L., a fwriedir ar gyfer eu plannu, sy'n tarddu o unrhyw drydedd wlad | Rhaid i'r planhigion ddod gyda datganiad swyddogol na welwyd unrhyw symptomau *Melampsora medusae* Thümen yn y man cynhyrchu neu yn ei gyffiniau agos ers dechrau'r cylch llystyfiant cyflawn diweddaraf |
| 12. | Planhigion, ac eithrio ffrwythau neu hadau, *Populus* L., sy'n tarddu o unrhyw wlad ar gyfandir America | Rhaid i'r planhigion ddod gyda datganiad swyddogol na welwyd unrhyw symptomau *Mycosphaerella populorum* G.E. Thompson yn y man cynhyrchu neu yn ei gyffiniau agos ers dechrau'r cylch llystyfiant cyflawn diweddaraf. |
| 13. | Planhigion, ac eithrio hadau, *Ulmus* L., a fwriedir ar gyfer eu plannu, sy'n tarddu o unrhyw wlad yng Ngogledd America | Rhaid i'r planhigion ddod gyda datganiad swyddogol na welwyd unrhyw symptomau *Candidatus* Phytoplasma ulmi yn y man cynhyrchu neu yn ei gyffiniau agos |

| *(1)*<br><br>*Eitem* | *(2)*<br><br>*Disgrifiad o'r deunydd perthnasol* | *(3)*<br><br>*Gofynion glanio* |
|---|---|---|
| | | ers dechrau'r cylch llystyfiant cyflawn diweddaraf |
| 14. | Planhigion, ac eithrio impynnau, toriadau, planhigion mewn meithriniad meinwe, paill neu hadau, *Amelanchier Medik*., *Aronia* Medik., *Cotoneaster* Medik., *Crataegus* L., *Cydonia* Mill., *Malus* Mill., *Prunus* L., *Pyracantha* M. Roem., *Pyrus* L. neu *Sorbus* L., a fwriedir ar gyfer eu plannu, sy'n tarddu o Ganada neu UDA | Rhaid i'r planhigion ddod gyda datganiad swyddogol:<br>(a) eu bod wedi eu tyfu drwy gydol eu bywyd mewn ardal sy'n rhydd rhag *Saperda candida* Fabricius, sef ardal a sefydlwyd gan y sefydliad diogelu planhigion cenedlaethol yn y wlad y mae'r planhigion yn tarddu ohono yn unol ag ISPM Rhif 4, ac a grybwyllir ar y dystysgrif ffytoiechydol, neu'r dystysgrif ffytoiechydol ar gyfer ailallforio o dan y pennawd "Additional declaration"; neu<br>(b) eu bod wedi eu tyfu yn ystod cyfnod o ddwy flynedd o leiaf cyn eu hallforio, neu yn achos planhigion sy'n iau na dwy flynedd, wedi eu tyfu drwy gydol eu bywyd, mewn man cynhyrchu a sefydlwyd yn fan sy'n rhydd rhag *Saperda candida* Fabricius yn unol ag ISPM Rhif 10:<br>(i) sydd wedi ei gofrestru a'i oruchwylio gan y sefydliad diogelu planhigion cenedlaethol yn y wlad y mae'r planhigion yn tarddu ohoni;<br>(ii) a fu'n destun dau arolygiad swyddogol bob blwyddyn ar gyfer unrhyw arwyddion *Saperda candida* Fabricius a gynhaliwyd ar adegau priodol;<br>(iii) lle mae'r planhigion wedi eu tyfu mewn safle sydd wedi ei ddiogelu'n llwyr yn ffisegol rhag cyflwyno *Saperda candida* Fabricius neu drwy gymhwyso triniaethau ataliol priodol ac a amgylchynir gan barth clustogi sydd o leiaf 500 m o led lle y cadarnhawyd nad yw *Saperda candida* Fabricius yn bresennol gan arolygon swyddogol a gynhelir yn flynyddol ar adegau priodol; a |

| *(1)*<br><br>*Eitem* | *(2)*<br><br>*Disgrifiad o'r deunydd perthnasol* | *(3)*<br><br>*Gofynion glanio* |
|---|---|---|
| | | (iv) yn union cyn eu hallforio, bod y planhigion, ac yn enwedig eu coesynnau, wedi bod yn destun arolygiad manwl ar gyfer presenoldeb *Saperda candida* Fabricius, a oedd yn cynnwys samplu dinistriol, pan fo'n briodol |
| 15. | Ffrwythau *Citrus* L., *Fortunella* Swingle neu *Poncirus* Raf., sy'n tarddu o unrhyw drydedd wlad | Rhaid i'r ffrwythau fod yn rhydd rhag pedynclau a dail, a rhaid i'r deunydd pecynnu, unrhyw label a osodir ar y deunydd pecynnu neu unrhyw ddogfen a ddefnyddir fel arfer at ddibenion masnach sy'n dod gyda'r llwyth ddwyn nod tarddiad priodol (caiff y nod hwnnw fod yn gyfeiriad at enw'r wlad y mae'r ffrwythau yn tarddu ohoni) |
| 16. | Ffrwythau *Citrus* L., *Fortunella* Swingle, *Poncirus* Raf., *Microcitrus* Swingle, *Naringi* Adans., neu *Swinglea* Merr., sy'n tarddu o unrhyw drydedd wlad | Rhaid i'r ffrwythau ddod gyda datganiad swyddogol:<br>(a) eu bod yn tarddu o wlad y cydnabyddir ei bod yn rhydd rhag *Xanthomonas citri* pv. *citri* a *Xanthomonas citri* pv. *aurantifolii* yn unol ag ISPM Rhif 4, ac yr hysbyswyd y Comisiwn Ewropeaidd yn ysgrifenedig am hynny yn flaenorol gan y sefydliad diogelu planhigion cenedlaethol perthnasol;<br>(b) eu bod yn tarddu o ardal a sefydlwyd gan y sefydliad diogelu planhigion cenedlaethol yn y wlad y mae'r ffrwythau yn tarddu ohoni yn ardal sy'n rhydd rhag *Xanthomonas citri* pv. *citri* a *Xanthomonas citri* pv. *aurantifolii* yn unol ag ISPM Rhif 4, ac a grybwyllir ar y dystysgrif ffytoiechydol, neu'r dystysgrif ffytoiechydol ar gyfer ailallforio o dan y pennawd "Additional declaration" ac yr hysbyswyd y Comisiwn Ewropeaidd yn ysgrifenedig am hynny yn flaenorol gan y sefydliad diogelu planhigion cenedlaethol perthnasol;<br>(c) eu bod yn tarddu o fan cynhyrchu a sefydlwyd gan y sefydliad diogelu planhigion cenedlaethol yn fan sy'n rhydd rhag *Xanthomonas citri* pv. *citri* a *Xanthomonas citri* pv. |

| *(1)* *Eitem* | *(2)* *Disgrifiad o'r deunydd perthnasol* | *(3)* *Gofynion glanio* |
|---|---|---|
| | | *aurantifolii* yn unol ag ISPM Rhif 10, ac a grybwyllir ar y dystysgrif ffytoiechydol, neu'r dystysgrif ffytoiechydol ar gyfer ailallforio o dan y pennawd "Additional declaration";<br>(d) eu bod:<br>(i) wedi eu trin â sodiwm orthoffenylffenad neu unrhyw driniaeth effeithiol arall yr hysbyswyd y Comisiwn Ewropeaidd yn ysgrifenedig amdani yn flaenorol gan y sefydliad diogelu planhigion cenedlaethol perthnasol;<br>(ii) yn tarddu o safle cynhyrchu sy'n ddarostyngedig, ynghyd â'i gyffiniau agos, i driniaethau ac arferion meithrin priodol i atal *Xanthomonas citri* pv. *citri* a *Xanthomonas citri* pv. *aurantifolii*; a<br>(iii) yn rhydd rhag symptomau *Xanthomonas citri* pv. *citri* a *Xanthomonas citri* pv. *aurantifolli*, fel y dangosir o gynnal arolygiadau swyddogol ar adegau priodol cyn allforio; a<br>(iv) sy'n cynnwys gwybodaeth ynghylch olrheiniadwyedd; neu<br>(e) yn achos ffrwythau sydd i'w hanfon i greu sudd drwy brosesu diwydiannol yn yr Undeb Ewropeaidd:<br>(i) y canfuwyd eu bod yn rhydd rhag symptomau *Xanthomonas citri* pv. *citri* a *Xanthomonas citri* pv. *aurantifolii* yn ystod arolygiadau swyddogol a gynhaliwyd cyn eu hallforio;<br>(ii) eu bod yn tarddu o safle cynhyrchu a oedd yn ddarostyngedig, ynghyd â'i gyffiniau agos, i driniaethau ac arferion meithrin priodol i atal *Xanthomonas citri* pv. |

| *(1)*<br><br>*Eitem* | *(2)*<br><br>*Disgrifiad o'r deunydd perthnasol* | *(3)*<br><br>*Gofynion glanio* |
|---|---|---|
| | | *citri* a *Xanthomonas citri* pv. *aurantifolii*;<br>(iii) eu bod yn ddarostyngedig i drwydded a roddir o dan erthygl 40(1) o'r Gorchymyn hwn sy'n awdurdodi eu symud o fewn Cymru a, phan fo'n gymwys, eu prosesu a'u storio yng Nghymru;<br>(iv) eu bod yn cael eu cludo mewn pecynnau unigol sy'n dwyn label sy'n cynnwys cod olrheiniadwyedd ac sy'n dangos bod y ffrwythau yn cael eu hanfon i'w prosesu'n ddiwydiannol; a<br>(v) sy'n cynnwys gwybodaeth ynghylch olrheiniadwyedd |
| 17. | Ffrwythau *Citrus* L., *Fortunella* Swingle neu *Poncirus* Raf., sy'n tarddu o unrhyw drydedd wlad | Rhaid i'r ffrwythau ddod gyda datganiad swyddogol:<br>(a) eu bod yn tarddu o wlad y cydnabyddir ei bod yn rhydd rhag *Cercospora angolensis* Carv. et Mendes yn unol ag ISPM Rhif 4, ac yr hysbyswyd y Comisiwn Ewropeaidd yn ysgrifenedig am hynny yn flaenorol gan y sefydliad diogelu planhigion cenedlaethol perthnasol;<br>(b) eu bod yn tarddu o ardal y cydnabyddir ei bod yn rhydd rhag *Cercospora angolensis* Carv. et Mendes yn unol ag ISPM Rhif 4, ac a grybwyllir ar y dystysgrif ffytoiechydol, neu'r dystysgrif ffytoiechydol ar gyfer ailallforio o dan y pennawd "Additional declaration" ac yr hysbyswyd y Comisiwn Ewropeaidd yn ysgrifenedig am hynny yn flaenorol gan y sefydliad diogelu planhigion cenedlaethol perthnasol; neu<br>(c) na welwyd unrhyw symptomau *Cercospora angolensis* Carv. et Mendes yn y safle cynhyrchu nac yn ei gyffiniau agos ers dechrau'r cylch llystyfiant diweddaraf ac nad oes unrhyw un o'r ffrwythau a gynaeafwyd yn y safle cynhyrchu |

| *(1)* *Eitem* | *(2)* *Disgrifiad o'r deunydd perthnasol* | *(3)* *Gofynion glanio* |
|---|---|---|
| | | wedi dangos, mewn archwiliad swyddogol priodol, symptomau o'r pla planhigion hwn |
| 18. | Ffrwythau *Citrus* L., *Fortunella* Swingle neu *Poncirus* Raf., ac eithrio ffrwythau *Citrus aurantium* L. neu *Citrus latifolia* Tanaka, sy'n tarddu o unrhyw drydedd wlad, ac eithrio'r Ariannin, Brasil, De Affrica neu Uruguay | Rhaid i'r ffrwythau ddod gyda datganiad swyddogol:<br>(a) eu bod yn tarddu o wlad y cydnabyddir ei bod yn rhydd rhag *Phyllosticta citricarpa* (McAlpine) Van der Aa yn unol ag ISPM Rhif 4, ac yr hysbyswyd y Comisiwn Ewropeaidd yn ysgrifenedig am hynny yn flaenorol gan y sefydliad diogelu planhigion cenedlaethol perthnasol;<br>(b) eu bod yn tarddu o ardal a sefydlwyd gan y sefydliad diogelu planhigion cenedlaethol yn y wlad y mae'r ffrwythau yn tarddu ohoni yn ardal sy'n rhydd rhag *Phyllosticta citricarpa* (McAlpine) Van der Aa yn unol ag ISPM Rhif 4, ac a grybwyllir ar y dystysgrif ffytoiechydol, neu'r dystysgrif ffytoiechydol ar gyfer ailallforio o dan y pennawd "Additional declaration" ac yr hysbyswyd y Comisiwn Ewropeaidd yn ysgrifenedig am hynny yn flaenorol gan y sefydliad diogelu planhigion cenedlaethol perthnasol;<br>(c) eu bod:<br>(i) yn tarddu o fan cynhyrchu a sefydlwyd gan y sefydliad diogelu planhigion cenedlaethol yn y wlad y mae'r ffrwythau yn tarddu ohoni yn fan sy'n rhydd rhag *Phyllosticta citricarpa* (McAlpine) Van der Aa yn unol ag ISPM Rhif 10, ac a grybwyllir ar y dystysgrif ffytoiechydol, neu'r dystysgrif ffytoiechydol ar gyfer ailallforio o dan y pennawd "Additional declaration"; a<br>(ii) y canfuwyd eu bod yn rhydd rhag symptomau *Phyllosticta citricarpa* (McAlpine) Van der Aa gan arolygiad swyddogol |

| *(1)*<br><br>*Eitem* | *(2)*<br><br>*Disgrifiad o'r deunydd perthnasol* | *(3)*<br><br>*Gofynion glanio* |
|---|---|---|
| | | o sampl gynrychioliadol a ddiffiniwyd yn unol ag ISPM Rhif 31;<br>(d) eu bod yn tarddu o safle cynhyrchu fu'n destun:<br>(i) triniaethau a mesurau meithrin priodol i atal *Phyllosticta citricarpa* (McAlpine) Van der Aa; a<br>(ii) cynhaliwyd arolygiadau swyddogol yn y safle cynhyrchu yn ystod y tymor tyfu ers dechrau'r cylch llystyfiant diweddaraf, ac ni chanfuwyd unrhyw symptomau *Phyllosticta citricarpa* (McAlpine) Van der Aa yn y ffrwythau; a<br>(iii) y canfuwyd bod y ffrwythau a gynaeafwyd o'r safle cynhyrchu hwnnw yn rhydd rhag symptomau *Phyllosticta citricarpa* (McAlpine) Van der Aa yn ystod arolygiad swyddogol, cyn allforio, o sampl gynrychioliadol, a ddiffiniwyd yn unol ag ISPM Rhif 31; a<br>(iv) sy'n cynnwys gwybodaeth ynghylch olrheiniadwyedd; neu<br>(e) yn achos ffrwythau sydd i'w hanfon i greu sudd drwy brosesu diwydiannol yn yr Undeb Ewropeaidd:<br>(i) y canfuwyd eu bod yn rhydd rhag symptomau *Phyllosticta citricarpa* (McAlpine) Van der Aa cyn eu hallforio yn ystod arolygiad swyddogol o sampl gynrychioliadol a ddiffiniwyd yn unol ag ISPM Rhif 31;<br>(ii) eu bod yn tarddu o safle cynhyrchu a oedd yn destun triniaethau priodol i atal *Phyllosticta citricarpa* (McAlpine) Van der Aa ar adegau priodol ac a grybwyllwyd ar y dystysgrif ffytoiechydol, neu'r dystysgrif |

| *(1)*<br><br>*Eitem* | *(2)*<br><br>*Disgrifiad o'r deunydd perthnasol* | *(3)*<br><br>*Gofynion glanio* |
|---|---|---|
| | | ffytoiechydol ar gyfer ailallforio o dan y pennawd "Additional declaration";<br>(iii) eu bod yn ddarostyngedig i drwydded a roddir o dan erthygl 40(1) o'r Gorchymyn hwn sy'n awdurdodi eu symud o fewn Cymru a, phan fo'n gymwys, eu prosesu a'u storio yng Nghymru;<br>(iv) eu bod yn cael eu cludo mewn pecynnau unigol sy'n dwyn label sy'n cynnwys cod olrheiniadwyedd ac sy'n dangos bod y ffrwythau i'w hanfon i'w prosesu'n ddiwydiannol; a<br>(v) sy'n cynnwys gwybodaeth ynghylch olrheiniadwyedd |
| 19. | Ffrwythau *Citrus* L., *Fortunella* Swingle neu *Poncirus* Raf., ac eithrio ffrwythau *Citrus aurantium* L. neu *Citrus latifolia* Tanaka, sy'n tarddu o'r Ariannin, Brasil, De Affrica neu Uruguay ac nad ydynt i'w hanfon i greu sudd drwy brosesu diwydiannol yn unig | Rhaid i'r ffrwythau:<br>(a) dod gyda datganiad swyddogol eu bod yn tarddu o ardal a sefydlwyd gan y sefydliad diogelu planhigion cenedlaethol yn y wlad y mae'r ffrwythau yn tarddu ohoni yn ardal sy'n rhydd rhag *Phyllosticta citricarpa* (McAlpine) Van der Aa yn unol ag ISPM Rhif 4, ac a grybwyllir ar y dystysgrif ffytoiechydol, neu'r dystysgrif ffytoiechydol ar gyfer ailallforio, ac yr hysbyswyd y Comisiwn Ewropeaidd yn ysgrifenedig am hynny yn flaenorol gan y sefydliad diogelu planhigion cenedlaethol perthnasol;<br>(b) yn achos ffrwythau sy'n tarddu o Frasil, dod gyda thystysgrif ffytoiechydol sy'n cynnwys datganiad swyddogol o dan y pennawd "Additional Declaration" eu bod yn bodloni'r gofynion a bennir yn Erthyglau 4 a 7 o Benderfyniad (EU) 2016/715;<br>(c) yn achos ffrwythau sy'n tarddu o Dde Affrica neu Uruguay, dod gyda thystysgrif ffytoiechydol sy'n cynnwys datganiad swyddogol o dan y pennawd "Additional |

| *(1)*<br><br>*Eitem* | *(2)*<br><br>*Disgrifiad o'r deunydd perthnasol* | *(3)*<br><br>*Gofynion glanio* |
|---|---|---|
| | | declaration" eu bod yn bodloni'r gofynion a bennir yn Erthyglau 5 a 7 o Benderfyniad (EU) 2016/715;<br>(d) yn achos ffrwythau sy'n tarddu o'r Ariannin, dod gyda thystysgrif ffytoiechydol sy'n cynnwys datganiad swyddogol o dan y pennawd "Additional Declaration" eu bod yn bodloni'r gofynion a bennir yn Erthyglau 5a a 7 o Benderfyniad (EU) 2016/715 |
| 20. | Ffrwythau *Citrus* L., *Fortunella* Swingle neu *Poncirus* Raf., ac eithrio ffrwythau *Citrus aurantium* L. neu *Citrus latifolia* Tanaka, sy'n tarddu o'r Ariannin, Brasil, De Affrica neu Uruguay ac sydd i'w hanfon i greu sudd drwy brosesu diwydiannol yn unig | Rhaid i'r ffrwythau:<br>(a) dod gyda datganiad swyddogol:<br>(i) eu bod yn tarddu o ardal a sefydlwyd gan y sefydliad diogelu planhigion cenedlaethol yn y wlad y mae'r ffrwythau yn tarddu ohoni yn ardal sy'n rhydd rhag *Phyllosticta citricarpa* (McAlpine) Van der Aa yn unol ag ISPM Rhif 4, ac a grybwyllir ar y dystysgrif ffytoiechydol, neu'r dystysgrif ffytoiechydol ar gyfer ailallforio o dan y pennawd "Additional declaration" ac yr hysbyswyd y Comisiwn Ewropeaidd yn ysgrifenedig am hynny yn flaenorol gan y sefydliad diogelu planhigion cenedlaethol perthnasol; neu<br>(ii) eu bod:<br>(aa) yn tarddu o fan cynhyrchu a sefydlwyd gan y sefydliad diogelu planhigion cenedlaethol yn y wlad y mae'r ffrwythau yn tarddu ohoni yn fan sy'n rhydd rhag *Phyllosticta citricarpa* (McAlpine) Van der Aa yn unol ag ISPM Rhif 10, ac a grybwyllir ar y dystysgrif ffytoiechydol, neu'r dystysgrif ffytoiechydol ar gyfer ailallforio o dan y |

| *(1)*<br><br>*Eitem* | *(2)*<br><br>*Disgrifiad o'r deunydd perthnasol* | *(3)*<br><br>*Gofynion glanio* |
|---|---|---|
| | | pennawd "Additional declaration"; a<br>(bb) y canfuwyd eu bod yn rhydd rhag symptomau *Phyllosticta citricarpa* (McAlpine) Van der Aa gan arolygiad swyddogol o sampl gynrychioliadol a ddiffiniwyd yn unol ag ISPM Rhif 31;<br>(b) yn achos ffrwythau a gyflwynir i'r Undeb Ewropeaidd o dan y rhanddirymiad a bennir yn Erthygl 8 o Benderfyniad (EU) 2016/715, rhaid iddynt:<br>(i) dod gyda thystysgrif ffytoiechydol sy'n cynnwys datganiad swyddogol o dan y pennawd "Additional declaration" yn unol ag Erthyglau 9(1) a 10 o Benderfyniad (EU) 2016/715 a'r wybodaeth a bennir yn Erthygl 9(2) o'r Penderfyniad hwnnw;<br>(ii) bod wedi eu pecynnu a'u labelu yn unol ag Erthygl 17 o'r Penderfyniad hwnnw; a<br>(iii) bod yn ddarostyngedig i drwydded a roddir o dan erthygl 40(1) o'r Gorchymyn hwn yn awdurdodi eu symud o fewn Cymru a, phan fo'n gymwys, eu prosesu a'u storio yng Nghymru |
| 21. | Ffrwythau *Citrus* L., *Fortunella* Swingle neu *Poncirus* Raf., sy'n tarddu o unrhyw drydedd wlad lle y gwyddys bod Tephritidae (heb fod yn rhai Ewropeaidd) yn bresennol ar y ffrwythau hynny | Rhaid i'r ffrwythau ddod gyda datganiad swyddogol:<br>(a) eu bod yn tarddu o ardal y gwyddys ei bod yn rhydd rhag Tephritidae (heb fod yn rhai Ewropeaidd);<br>(b) na welwyd unrhyw arwyddion Tephritidae (heb fod yn rhai Ewropeaidd) yn y man cynhyrchu neu yn ei gyffiniau agos ers dechrau'r cylch llystyfiant cyflawn diweddaraf, o gynnal arolygiadau swyddogol yn fisol o leiaf yn ystod y tri mis cyn cynaeafu, ac nad oes unrhyw un o'r ffrwythau a |

| *(1)*<br><br>*Eitem* | *(2)*<br><br>*Disgrifiad o'r deunydd perthnasol* | *(3)*<br><br>*Gofynion glanio* |
|---|---|---|
| | | gynaeafwyd yn y man cynhyrchu wedi dangos, mewn archwiliad swyddogol priodol, arwyddion Tephritidae (heb fod yn rhai Ewropeaidd);<br>(c) y dangoswyd eu bod, mewn archwiliad swyddogol priodol o samplau cynrychioliadol, yn rhydd rhag Tephritidae (heb fod yn rhai Ewropeaidd) ym mhob cam o'u datblygiad; neu<br>(d) y bu'r ffrwythau yn destun triniaeth briodol, unrhyw driniaeth gwres anwedd, triniaeth oer, neu driniaeth rhewi'n gyflym sy'n dderbyniol ac y dangoswyd ei bod yn effeithiol yn erbyn Tephritidae (heb fod yn rhai Ewropeaidd) heb niweidio'r ffrwythau, neu, pan na fo ar gael, triniaeth gemegol i'r graddau y bo'n dderbyniol o dan ddeddfwriaeth yr Undeb Ewropeaidd |
| 22. | Ffrwythau *Capsicum* (L.) Citrus L., ac eithrio *Citrus limon* (L.) Osbeck, neu *Citrus aurantii-folia* (Christm.) Swingle, *Prunus persica* (L.) Batsch neu *Punica granatum* L., sy'n tarddu o unrhyw wlad ar gyfandir Affrica, Cape Verde, Saint Helena, Madagasgar, La Reunion, Mauritius neu Israel | Rhaid i'r ffrwythau ddod gyda datganiad swyddogol:<br>(a) eu bod yn tarddu o wlad y cydnabyddir ei bod yn rhydd rhag *Thaumatotibia leucotreta* (Meyrick) yn unol ag ISPM Rhif 4;<br>(b) eu bod yn tarddu o ardal a sefydlwyd gan y sefydliad diogelu planhigion cenedlaethol yn y wlad y mae'r ffrwythau yn tarddu ohoni yn ardal sy'n rhydd rhag *Thaumatotibia leucotreta* (Meyrick) yn unol ag ISPM Rhif 4, ac a grybwyllir ar y dystysgrif ffytoiechydol, neu'r dystysgrif ffytoiechydol ar gyfer ailallforio o dan y pennawd "Additional declaration";<br>(c) eu bod:<br>(aa) yn tarddu o fan cynhyrchu a sefydlwyd gan y sefydliad diogelu planhigion cenedlaethol yn y wlad y mae'r ffrwythau yn tarddu ohoni yn fan sy'n rhydd rhag *Thaumatotibia leucotreta* (Meyrick) yn unol ag ISPM Rhif 10; a |

| *(1)*<br><br>*Eitem* | *(2)*<br><br>*Disgrifiad o'r deunydd perthnasol* | *(3)*<br><br>*Gofynion glanio* |
|---|---|---|
| | | (bb) yn rhydd rhag y pla planhigion hwnnw fel y dangosir gan arolygiadau swyddogol a gynhelir yn y man cynhyrchu ar adegau priodol yn ystod y tymor tyfu, a oedd yn cynnwys archwiliad gweledol o samplau cynrychioliadol o'r ffrwythau,<br>ac sy'n cynnwys gwybodaeth ynghylch olrheiniadwyedd; neu<br>(d) yn achos ffrwythau fu'n destun triniaeth oer effeithiol neu unrhyw driniaeth effeithiol arall i sicrhau eu bod yn rhydd rhag *Thaumatotibia leucotreta* (Meyrick) yr hysbyswyd y Comisiwn Ewropeaidd yn ysgrifenedig amdani yn flaenorol gan y sefydliad diogelu planhigion cenedlaethol perthnasol, y buont yn destun triniaeth o'r fath, ac sy'n cynnwys data'r driniaeth |
| 23. | Planhigion, ac eithrio hadau, *Amelanchier* Med., *Chaenomeles* Lindl., *Cotoneaster* Ehrh., *Crataegus* L., *Cydonia* Mill., *Eriobotrya* Lindl., *Malus* Mill., *Mespilus* L., *Photinia davidiana* (Dcne.) Cardot, *Pyracantha* Roem., *Pyrus* L. neu Sorbus L., a fwriedir ar gyfer eu plannu, sy'n tarddu o unrhyw drydedd wlad | Rhaid i'r planhigion ddod gyda datganiad swyddogol bod y planhigion yn y cae cynhyrchu neu yn ei gyffiniau agos sydd wedi dangos symptomau *Erwinia amylovora* (Burr.) Winsl. et al. wedi eu symud ymaith |
| 24. | Planhigion, ac eithrio ffrwythau neu hadau, *Citrus* L., *Fortunella* Swingle neu *Poncirus* Raf., neu blanhigion Araceae, Marantaceae, Musaceae, *Persea* spp. neu Strelitziaceae, sydd â gwreiddiau neu sy'n gysylltiedig â chyfrwng tyfu neu yr ymddengys iddynt fod mewn cysylltiad â chyfrwng tyfu, sy'n tarddu o unrhyw drydedd wlad | Rhaid i'r planhigion ddod gyda datganiad swyddogol:<br>(a) eu bod yn tarddu o wlad y gwyddys ei bod yn rhydd rhag Radopholus citrophilus Huettel et al. a *Radopholus similis* (Cobb) Thorne; neu<br>(b) y bu samplau cynrychioliadol o bridd a gwreiddiau o'r man cynhyrchu yn destun, ers dechrau'r cylch llystyfiant cyflawn diweddaraf, brofion nematolegol swyddogol ar gyfer o leiaf *Radopholus citrophilus* Huettel *et al*. a *Radopholus similis* (Cobb) |

| *(1)* <br><br> *Eitem* | *(2)* <br><br> *Disgrifiad o'r deunydd perthnasol* | *(3)* <br><br> *Gofynion glanio* |
|---|---|---|
| | | Thorne ac y canfuwyd eu bod yn rhydd rhag y plâu planhigion hynny |
| 25. | Planhigion, ac eithrio ffrwythau ond gan gynnwys hadau, *Aegle* Corrêa, *Aeglopsis* Swingle, *Afraegle* Engl., *Atalantia* Corrêa, *Balsamocitrus* Stapf, *Burkillanthus* Swingle, *Calodendrum* Thunb., *Choisya* Kunth, *Clausena* Burm. f., *Limonia* L., *Microcitrus* Swingle, *Murraya* J. Koenig ex L., *Pamburus* Swingle, *Severinia* Ten., *Swinglea* Merr., *Triphasia* Lour. neu *Vepris* Comm., sy'n tarddu o unrhyw drydedd wlad; neu hadau *Citrus* L., *Fortunella* Swingle neu *Poncirus* Raf., sy'n tarddu o unrhyw drydedd wlad | Rhaid i'r planhigion ddod gyda datganiad swyddogol eu bod yn tarddu o wlad y cydnabyddir ei bod yn rhydd rhag *Candidatus* Liberibacter spp., sef cyfrwng achosol clefyd Huanglongbing ffrwythau sitrws/ gwyrddu ffrwythau sitrws |
| 26. | Planhigion, ac eithrio ffrwythau neu hadau *Casimiroa* La Llave, *Choisya* Kunth, *Clausena* Burm. f., *Murraya* J. Koenig ex L., *Vepris* Comm, *Zanthoxylum* L., sy'n tarddu o unrhyw drydedd wlad | Rhaid i'r planhigion ddod gyda datganiad swyddogol: <br> (a) eu bod yn tarddu o wlad lle y gwyddys nad yw *Trioza erytreae* Del Guercio yn bresennol; <br> (b) eu bod yn tarddu o ardal sy'n rhydd rhag *Trioza erytreae* Del Guercio, sef ardal a sefydlwyd gan y sefydliad diogelu planhigion cenedlaethol yn unol ag ISPM Rhif 4, ac a grybwyllir ar y dystysgrif ffytoiechydol neu'r dystysgrif ffytoiechydol ar gyfer ailallforio o dan y pennawd "Additional declaration"; neu <br> (c) eu bod wedi eu tyfu mewn man cynhyrchu: <br> (i) sydd wedi ei gofrestru ac sy'n cael ei oruchwylio gan y sefydliad diogelu planhigion cenedlaethol yn y wlad y mae'r planhigion yn tarddu ohoni; <br> (ii) lle gosodwyd y planhigion mewn safle sydd wedi ei ddiogelu yn llwyr yn ffisegol rhag cyflwyno *Trioza erytreae* Del Guercio; a <br> (iii) lle y cynhaliwyd dau arolygiad swyddogol ar adegau priodol yn ystod y cylch llystyfiant cyflawn diweddaraf cyn eu |

| *(1)*<br><br>*Eitem* | *(2)*<br><br>*Disgrifiad o'r deunydd perthnasol* | *(3)*<br><br>*Gofynion glanio* |
|---|---|---|
| | | symud o'r safle, ac na welwyd unrhyw arwyddion o'r pla planhigion hwnnw yn y safle hwnnw neu yn yr ardal oddi amgylch hyd at o leiaf 200m o led |
| 27. | Planhigion, ac eithrio ffrwythau neu hadau, *Aegle* Corrêa, *Aeglopsis* Swingle, *Afraegle* Engl., *Amyris* P. Browne, *Atalantia* Corrêa, *Balsamocitrus* Stapf, *Choisya* Kunth, *Citropsis* Swingle a Kellermen, *Clausena* Burm. f., *Eremocitrus* Swingle, *Esenbeckia* Kunth., *Glycosmis* Corrêa, *Limonia* L., *Merrillia* Swingle, *Microcitrus* Swingle, *Murraya* J. Koenig ex L., *Naringi* Adans., *Pamburus* Swingle, *Severinia* Ten., *Swinglea* Merr., *Tetradium* Lour., *Toddalia* Juss., *Triphasia* Lour, *Vepris* Comm. neu *Zanthoxylum* L., sy'n tarddu o unrhyw drydedd wlad | Rhaid i'r planhigion ddod gyda datganiad swyddogol eu bod yn tarddu o:<br>(a) gwlad lle y gwyddys nad yw *Diaphorina citri* Kuway yn bresennol; neu<br>(b) ardal sy'n rhydd rhag *Diaphorina citri* Kuway, sef ardal a sefydlwyd gan y sefydliad diogelu planhigion cenedlaethol yn unol ag ISPM Rhif 4, a grybwyllir ar y dystysgrif ffytoiechydol neu'r dystysgrif ffytoiechydol ar gyfer ailallforio o dan y pennawd "Additional declaration" |
| 28. | Planhigion, ac eithrio ffrwythau neu hadau, *Microcitrus* Swingle, *Naringi* Adans. neu *Swinglea* Merr., sy'n tarddu o unrhyw drydedd wlad | Rhaid i'r planhigion ddod gyda datganiad swyddogol:<br>(a) eu bod yn tarddu o wlad y cydnabyddir ei bod yn rhydd rhag *Xanthomonas citri* pv. citri a *Xanthomonas citri* pv. aurantifolii yn unol ag ISPM Rhif 4, ac yr hysbyswyd y Comisiwn Ewropeaidd yn ysgrifenedig amdani gan y sefydliad diogelu planhigion cenedlaethol perthnasol; neu<br>(b) eu bod yn tarddu o ardal a sefydlwyd gan y sefydliad diogelu planhigion cenedlaethol yn y wlad y mae'r planhigion yn tarddu ohoni yn ardal sy'n rhydd rhag *Xanthomonas citri* pv. *citri* a *Xanthomonas citri* pv. aurantifolii yn unol ag ISPM Rhif 4, ac a grybwyllir ar y dystysgrif ffytoiechydol neu'r dystysgrif ffytoiechydol ar gyfer ailallforio o dan y pennawd "Additional declaration" ac yr hysbyswyd y Comisiwn Ewropeaidd yn ysgrifenedig amdani gan y |

| *(1)*<br><br>*Eitem* | *(2)*<br><br>*Disgrifiad o'r deunydd perthnasol* | *(3)*<br><br>*Gofynion glanio* |
|---|---|---|
| | | sefydliad diogelu planhigion cenedlaethol |
| 29. | Planhigion, ac eithrio hadau, *Crataegus* L., a fwriedir ar gyfer eu plannu, sy'n tarddu o unrhyw drydedd wlad lle y gwyddys bod *Phyllosticta solitaria* Ell. ac Ev. Yn bresennol | Rhaid i'r planhigion ddod gyda datganiad swyddogol na welwyd unrhyw symptomau *Phyllosticta solitaria* Ell. ac Ev. ar blanhigion yn y man cynhyrchu ers dechrau'r cylch llystyfiant cyflawn diweddaraf |
| 30. | Planhigion, ac eithrio hadau, *Cydonia* Mill., *Fragaria* L., *Malus* Mill., *Prunus* L., *Pyrus* L., *Ribes* L. neu *Rubus* L., a fwriedir ar gyfer eu plannu, sy'n tarddu o unrhyw drydedd wlad lle y gwyddys bod y plâu planhigion a ganlyn yn bresennol ar y genera a ganlyn:<br>— ar *Fragaria* L.:<br>— *Phytophthora fragariae* Hickman, var. fragariae,<br>— Firws amryliw Arabis,<br>— Firws crwn mafon,<br>— Firws crych mefus,<br>— Firws crwn cudd mefus,<br>— Firws minfelyn ysgafn mefus,<br>— Firws crwn du tomatos, neu<br>— *Xanthomonas fragariae* Kennedy a King;<br>— ar *Malus* Mill.:<br>— *Phyllosticta solitaria* Ell. Ac Ev.;<br>— ar Prunus L.:<br>— Mycoplasm crychni'r dail clorotig bricyll, neu<br>— *Xanthomonas arboricola* pv. pruni (Smith) Vauterin *et al*;<br>— ar *Prunus persica* (L.) Batsch:<br>— *Pseudomonas syringae* pv. *persicae* (Prunier et al.) Young et al.;<br>— ar *Pyrus* L.:<br>— *Phyllosticta solitaria* Ell. Ac Ev.;<br>— ar *Rubus* L.:<br>— Firws amryliw berwr,<br>— Firws crwn mafon,<br>— Firws crwn cudd mefus, neu<br>— Firws crwn du tomatos; neu<br>— pob rhywogaeth: | Rhaid i'r planhigion ddod gyda datganiad swyddogol na welwyd unrhyw symptomau clefydau a achosir gan y plâu planhigion a restrir yng ngholofn 2 o'r eitem hon ar y planhigion yn y man cynhyrchu ers dechrau'r cylch llystyfiant cyflawn diweddaraf |

| *(1)*<br><br>*Eitem* | *(2)*<br><br>*Disgrifiad o'r deunydd perthnasol* | *(3)*<br><br>*Gofynion glanio* |
|---|---|---|
| | — firysau heb fod yn rhai Ewropeaidd neu organeddau sy'n debyg i firysau | |
| 31. | Planhigion, ac eithrio hadau, *Cydonia* Mill. neu *Pyrus* L., a fwriedir ar gyfer eu plannu, sy'n tarddu o unrhyw drydedd wlad lle y gwyddys bod Mycolpasma dirywiad gellyg yn bresennol | Rhaid i'r planhigion ddod gyda datganiad swyddogol bod planhigion yn y man cynhyrchu neu yn ei gyffiniau agos sydd wedi dangos symptomau sy'n codi amheuon ynghylch halogi gan Fycoplasma dirywiad gellyg wedi eu clirio o'r man hwnnw o fewn y tri chylch llystyfiant cyflawn diweddaraf |
| 32. | Planhigion, ac eithrio hadau, *Fragaria* L., a fwriedir ar gyfer eu plannu, sy'n tarddu o unrhyw drydedd wlad lle y gwyddys bod y plâu planhigion a ganlyn yn bresennol:<br>— Firws "C" cudd mefus,<br>— Firws bandio gwythiennau mefus, neu<br>— Mycoplasm ysgub y gwrachod mefus | Rhaid i'r planhigion ddod gyda datganiad swyddogol:<br>(a) bod y planhigion, ac eithrio'r rhai a dyfwyd o hadau:<br>(i) wedi eu hardystio yn swyddogol o dan gynllun ardystio sy'n ei gwneud yn ofynnol iddynt ddeillio drwy linach uniongyrchol o ddeunydd a gadwyd o dan amodau priodol ac a fu'n destun profion swyddogol ar gyfer o leiaf y plâu planhigion yng ngholofn 2 o'r eitem hon gan ddefnyddio dangosyddion priodol neu ddulliau cyfatebol ac y canfuwyd ei fod yn rhydd rhag y plâu planhigion hynny; neu<br>(ii) yn deillio drwy linach uniongyrchol o ddeunydd a gadwyd o dan amodau priodol ac a fu, o leiaf unwaith yn ystod y tri chylch llystyfiant cyflawn diweddaraf, yn destun profion swyddogol ar gyfer o leiaf y plâu planhigion yng ngholofn 2 o'r eitem hon gan ddefnyddio dangosyddion priodol neu ddulliau cyfatebol ac y canfuwyd ei fod yn rhydd rhag y plâu planhigion hynny; a<br>(b) na welwyd unrhyw symptomau clefydau a achosir gan y plâu planhigion a restrir yng ngholofn 2 o'r eitem hon ar blanhigion yn y man cynhyrchu, neu ar blanhigion |

| *(1)*<br><br>*Eitem* | *(2)*<br><br>*Disgrifiad o'r deunydd perthnasol* | *(3)*<br><br>*Gofynion glanio* |
|---|---|---|
| | | yn ei gyffiniau agos sy'n dueddol o gael plâu neu glefydau, ers dechrau'r cylch llystyfiant cyflawn diweddaraf |
| 33. | Planhigion, ac eithrio hadau, *Fragaria* L., a fwriedir ar gyfer eu plannu, sy'n tarddu o unrhyw drydedd wlad lle y gwyddys bod *Aphelenchoides besseyi* Christie yn bresennol | Rhaid i'r planhigion ddod gyda datganiad swyddogol:<br>(a) na welwyd unrhyw symptomau *Aphelenchoides besseyi* Christie ar blanhigion yn y man cynhyrchu ers dechrau'r cylch llystyfiant cyflawn diweddaraf; neu<br>(b) yn achos planhigion mewn meithriniad meinwe, bod y planhigion yn deillio o blanhigion a oedd yn cydymffurfio â pharagraff (a) neu fod profion swyddogol wedi eu cynnal arnynt drwy ddulliau nematolegol priodol a chanfuwyd eu bod yn rhydd rhag *Aphelenchoides besseyi* Christie |
| 34. | Planhigion, ac eithrio hadau, *Fragaria* L., a fwriedir ar gyfer eu plannu, sy'n tarddu o unrhyw drydedd wlad | Rhaid i'r planhigion ddod gyda datganiad swyddogol eu bod yn tarddu o ardal y gwyddys ei bod yn rhydd rhag *Anthonomus signatus* Say ac *Anthonomus bisignifer* (Schenkling) |
| 35. | Planhigion, ac eithrio hadau, *Malus* Mill., a fwriedir ar gyfer eu plannu, sy'n tarddu o unrhyw drydedd wlad lle y gwyddys bod y plâu planhigion a ganlyn yn bresennol ar Malus Mill.:<br>— Firws rhathellddail ceirios (Americanaidd), neu<br>— Firws crwn tomatos | Rhaid i'r planhigion ddod gyda datganiad swyddogol:<br>(a) eu bod:<br>(i) wedi eu hardystio yn swyddogol o dan gynllun ardystio sy'n ei gwneud yn ofynnol iddynt ddeillio drwy linach uniongyrchol o ddeunydd a gadwyd o dan amodau priodol ac a fu'n destun profion swyddogol ar gyfer o leiaf y plâu planhigion yng ngholofn 2 o'r eitem hon gan ddefnyddio dangosyddion priodol neu ddulliau cyfatebol ac y canfuwyd ei fod yn rhydd rhag y plâu planhigion hynny; neu<br>(ii) yn deillio drwy linach uniongyrchol o ddeunydd a gadwyd o dan amodau priodol ac a fu, o leiaf unwaith yn ystod y tri chylch llystyfiant |

| *(1)*<br><br>*Eitem* | *(2)*<br><br>*Disgrifiad o'r deunydd perthnasol* | *(3)*<br><br>*Gofynion glanio* |
|---|---|---|
| | | cyflawn diweddaraf, yn destun profion swyddogol ar gyfer o leiaf y plâu planhigion yng ngholofn 2 o'r eitem hon gan ddefnyddio dangosyddion priodol neu ddulliau cyfatebol ac y canfuwyd ei fod yn rhydd rhag y plâu planhigion hynny; neu<br>(b) na welwyd unrhyw symptomau clefydau a achosir gan y plâu planhigion a restrir yng ngholofn 2 o'r eitem hon ar blanhigion yn y man cynhyrchu, neu ar blanhigion yn ei gyffiniau agos sy'n dueddol o gael plâu neu glefydau, ers dechrau'r cylch llystyfiant cyflawn diweddaraf |
| 36. | Planhigion, ac eithrio hadau, *Malus* Mill., a fwriedir ar gyfer eu plannu, sy'n tarddu o unrhyw drydedd wlad lle y gwyddys bod Mycoplasm ymlediad afalau yn bresennol | Rhaid i'r planhigion ddod gyda datganiad swyddogol:<br>(a) eu bod yn tarddu o ardal y gwyddys ei bod yn rhydd rhag Mycoplasm ymlediad afalau; neu<br>(b) ac eithrio planhigion a dyfwyd o hadau, eu bod:<br>(i) wedi eu hardystio yn swyddogol o dan gynllun ardystio sy'n ei gwneud yn ofynnol iddynt ddeillio drwy linach uniongyrchol o ddeunydd a gadwyd o dan amodau priodol ac a fu'n destun profion swyddogol ar gyfer o leiaf Mycoplasm ymlediad afalau gan ddefnyddio dangosyddion priodol neu ddulliau cyfatebol ac y canfuwyd ei fod yn rhydd rhag y pla planhigion hwnnw; neu<br>(ii) yn deillio drwy linach uniongyrchol o ddeunydd a gadwyd o dan amodau priodol ac a fu, o leiaf unwaith yn ystod y chwe chylch llystyfiant cyflawn diweddaraf, yn destun profion swyddogol ar gyfer o leiaf Mycoplasm ymlediad afalau |

| *(1)*<br><br>*Eitem* | *(2)*<br><br>*Disgrifiad o'r deunydd perthnasol* | *(3)*<br><br>*Gofynion glanio* |
|---|---|---|
| | | gan ddefnyddio dangosyddion priodol neu ddulliau cyfatebol ac y canfuwyd, yn y profion hynny, ei fod yn rhydd rhag y pla planhigion hwnnw; a<br>(iii) na welwyd unrhyw symptomau clefydau a achosir gan Fycoplasma ymlediad afalau ar blanhigion yn y man cynhyrchu, neu ar blanhigion yn ei gyffiniau agos sy'n dueddol o gael plâu neu glefydau, ers dechrau'r tri chylch llystyfiant cyflawn diweddaraf |
| 37. | Planhigion, ac eithrio hadau, o'r rhywogaethau *Prunus* L. a ganlyn, a fwriedir ar gyfer eu plannu, sy'n tarddu o unrhyw drydedd wlad lle y gwyddys bod Firws brech eirin yn bresennol:<br>— *Prunus amygdalus* Batsch,<br>— *Prunus armeniaca* L.,<br>— *Prunus blireiana* Andre,<br>— *Prunus brigantina* Vill.,<br>— *Prunus cerasifera* Ehrh.,<br>— *Prunus cistena* Hansen,<br>— *Prunus curdica* Fenzl a Fritsch.,<br>— *Prunus domestica* spp. *domestica* L.,<br>— *Prunus domestica* spp. *Insititia* (L.) C.K. Schneid.,<br>— *Prunus domestica* spp. *Italica* (Borkh.) Hegi.,<br>— *Prunus glandulosa* Thunb.,<br>— *Prunus holosericea* Batal.,<br>— *Prunus hortulana* Bailey,<br>— *Prunus japonica* Thunb.,<br>— *Prunus mandshurica* (Maxim.) Koehne,<br>— *Prunus maritima* Marsh.,<br>— *Prunus mume* Sieb a Zucc.,<br>— *Prunus nigra* Ait.,<br>— *Prunus persica* (L.) Batsch,<br>— *Prunus salicina* L.,<br>— *Prunus sibirica* L.,<br>— *Prunus simonii* Carr.,<br>— *Prunus spinosa* L., | Rhaid i'r planhigion ddod gyda datganiad swyddogol:<br>(a) ac eithrio'r planhigion a dyfwyd o hadau, eu bod:<br>(i) wedi eu hardystio yn swyddogol o dan gynllun ardystio sy'n ei gwneud yn ofynnol iddynt ddeillio drwy linach uniongyrchol o ddeunydd a gadwyd o dan amodau priodol ac a fu'n destun profion swyddogol ar gyfer o leiaf Firws brech eirin gan ddefnyddio dangosyddion priodol neu ddulliau cyfatebol ac y canfuwyd ei fod yn rhydd rhag y pla planhigion hwnnw; neu<br>(ii) yn deillio drwy linach uniongyrchol o ddeunydd a gadwyd o dan amodau priodol ac a fu, o leiaf unwaith yn ystod y tri chylch llystyfiant cyflawn diweddaraf, yn destun profion swyddogol ar gyfer o leiaf Firws brech eirin gan ddefnyddio dangosyddion priodol neu ddulliau cyfatebol ac y canfuwyd ei fod yn rhydd rhag y pla planhigion hwnnw; a<br>(b) na welwyd unrhyw symptomau'r clefydau a achosir gan Firws brech eirin ar blanhigion yn y man |

| *(1)*<br><br>*Eitem* | *(2)*<br><br>*Disgrifiad o'r deunydd perthnasol* | *(3)*<br><br>*Gofynion glanio* |
|---|---|---|
| | — *Prunus tomentosa* Thunb.,<br>— *Prunus triloba* Lindl., neu rhywogaethau eraill *Prunus* L. sy'n dueddol o gael Firws brech eirin | cynhyrchu, neu ar blanhigion yn ei gyffiniau agos sy'n dueddol o gael plâu neu glefydau, ers dechrau'r tri chylch llystyfiant cyflawn diweddaraf; neu<br>(c) bod planhigion yn y man cynhyrchu sydd wedi dangos symptomau clefydau a achosir gan firysau eraill neu bathogenau sy'n debyg i firysau wedi eu clirio |
| 38. | Planhigion *Prunus* L., a fwriedir ar gyfer eu plannu:<br>— sy'n tarddu o unrhyw drydedd wlad lle y gwyddys bod Firws crwn tomatos yn bresennol ar *Prunus* L.;<br>— ac eithrio hadau, sy'n tarddu o<br>— unrhyw drydedd wlad lle y<br>— gwyddys bod y plâu planhigion a ganlyn yn bresennol:<br>— Firws rhathellddail ceirios (Americanaidd),<br>— Firws amryliw eirin gwlanog (Americanaidd),<br>— Rickettsia ffug eirin gwlanog,<br>— Mycoplasm roséd eirin gwlanog,<br>— Mycoplasm melynu eirin gwlanog,<br>— Firws patrwm llinellog eirin (Americanaidd), neu<br>— Mycoplasm clefyd-X eirin gwlanog;<br>— ac eithrio hadau, sy'n tarddu o unrhyw wlad y tu allan i Ewrop lle y gwyddys bod pathogen Ceirios bychan yn bresennol | Rhaid i'r planhigion ddod gyda datganiad swyddogol:<br>(a) eu bod:<br>(i) wedi eu hardystio yn swyddogol o dan gynllun ardystio sy'n ei gwneud yn ofynnol iddynt ddeillio drwy linach uniongyrchol o ddeunydd a gadwyd o dan amodau priodol ac a fu'n destun profion swyddogol ar gyfer o leiaf y plâu planhigion perthnasol yng ngholofn 2 o'r eitem hon gan ddefnyddio dangosyddion priodol neu ddulliau cyfatebol ac y canfuwyd ei fod yn rhydd rhag y plâu planhigion hynny; neu<br>(ii) yn deillio drwy linach uniongyrchol o ddeunydd a gadwyd o dan amodau priodol ac a fu, o leiaf unwaith yn ystod y tri chylch llystyfiant cyflawn diweddaraf, yn destun profion swyddogol ar gyfer o leiaf y plâu planhigion perthnasol a restrir yng ngholofn 2 o'r eitem hon gan ddefnyddio dangosyddion priodol neu ddulliau cyfatebol ac y canfuwyd ei fod yn rhydd rhag y plâu planhigion hynny; a<br>(b) na welwyd unrhyw symptomau clefydau a achosir gan y plâu planhigion perthnasol a restrir yng ngholofn 2 o'r eitem hon ar y planhigion yn y man cynhyrchu, neu ar blanhigion yn ei gyffiniau |

| *(1)*<br><br>*Eitem* | *(2)*<br><br>*Disgrifiad o'r deunydd perthnasol* | *(3)*<br><br>*Gofynion glanio* |
|---|---|---|
| | | agos sy'n dueddol o gael plâu neu glefydau, ers dechrau'r tri chylch llystyfiant cyflawn diweddaraf |
| 39. | Planhigion *Rubus* L., a fwriedir ar gyfer eu plannu:<br>— sy'n tarddu o unrhyw drydedd wlad lle y gwyddys bod y plâu planhigion a ganlyn yn bresennol ar Rubus L.:<br>— Firws crwn tomatos,<br>— Firws cudd mafon duon,<br>— Firws crychni dail ceirios, neu<br>— Firws crwn necrotig eirinwydd<br>— ac eithrio hadau, sy'n tarddu o unrhyw drydedd wlad lle y gwyddys bod y plâu planhigion a ganlyn yn bresennol:<br>— Firws deildro mafon (Americanaidd), neu<br>— Firws rhathellddail ceirios (Americanaidd) | Rhaid i'r planhigion ddod gyda datganiad swyddogol:<br>(a) eu bod wedi eu hardystio yn swyddogol o dan gynllun ardystio sy'n ei gwneud yn ofynnol iddynt ddeillio drwy linach uniongyrchol o ddeunydd a gadwyd o dan amodau priodol ac a fu'n destun profion swyddogol ar gyfer o leiaf y plâu planhigion perthnasol yng ngholofn 2 o'r eitem hon gan ddefnyddio dangosyddion priodol neu ddulliau cyfatebol ac y canfuwyd ei fod yn rhydd rhag y plâu planhigion hynny; neu<br>(b) eu bod yn deillio drwy linach uniongyrchol o ddeunydd a gadwyd o dan amodau priodol ac a fu, o leiaf unwaith yn ystod y tri chylch llystyfiant cyflawn diweddaraf, yn destun profion swyddogol ar gyfer o leiaf y plâu planhigion perthnasol yng ngholofn 2 o'r eitem hon gan ddefnyddio dangosyddion priodol neu ddulliau cyfatebol ac y canfuwyd ei fod yn rhydd rhag y plâu planhigion hynny; ac<br>(c) na welwyd unrhyw symptomau clefydau a achosir gan y plâu planhigion perthnasol yng ngholofn 2 o'r eitem hon ar blanhigion yn y man cynhyrchu, neu ar blanhigion yn ei gyffiniau agos sy'n dueddol o gael plâu neu glefydau, ers dechrau'r tri chylch llystyfiant cyflawn diweddaraf |
| 40. | Cloron *Solanum tuberosum* L. sy'n tarddu o unrhyw drydedd wlad lle y gwyddys bod *Synchytrium endobioticum* (Schilbersky) Percival yn bresennol | Rhaid i'r cloron ddod gyda datganiad swyddogol eu bod yn tarddu o ardal y gwyddys ei bod yn rhydd rhag *Synchytrium endobioticum* (Schilbersky) Percival (pob hil ac eithrio Hil 1, sef yr hil Ewropeaidd gyffredin) ac na welwyd unrhyw symptomau *Synchytrium endobioticum* (Schilbersky) Percival yn y |

| *(1)*<br><br>*Eitem* | *(2)*<br><br>*Disgrifiad o'r deunydd perthnasol* | *(3)*<br><br>*Gofynion glanio* |
|---|---|---|
| | | man cynhyrchu neu yn ei gyffiniau agos ers dechrau cyfnod digonol |
| 41. | Cloron *Solanum tuberosum* L. sy'n tarddu o unrhyw drydedd wlad | Rhaid i'r cloron ddod gyda datganiad swyddogol eu bod yn tarddu o wlad y gwyddys ei bod yn rhydd rhag *Clavibacter michiganensis* spp. sepedonicus (Spieckermann a Kottoff) Davis et al. |
| 42. | Cloron *Solanum tuberosum* L., ac eithrio tatws cynnar, sy'n tarddu o unrhyw drydedd wlad lle y gwyddys bod Firoid y gloronen bigfain yn bresennol | Rhaid i'r gyneddf egino fod wedi ei hatal yn y cloron |
| 43. | Cloron *Solanum tuberosum* L., a fwriedir ar gyfer eu plannu, sy'n tarddu o unrhyw drydedd wlad | Rhaid i'r cloron ddod gyda datganiad swyddogol:<br>(a) eu bod yn tarddu o gae y gwyddys ei fod yn rhydd rhag *Globodera rostochiensis* (Wollenweber) Behrens a *Globodera pallida* (Stone) Behrens;<br>(b) eu bod yn tarddu o ardal lle y gwyddys nad yw *Ralstonia solanacearum* (Smith) Yabuuchi et al. yn bresennol; ac<br>(c) eu bod yn tarddu o ardal lle y gwyddys nad yw *Meloidogyne chitwoodi* Golden et al. (pob poblogaeth) a *Meloidogyne fallax* Karssen yn bresennol; neu<br>(d) mewn ardaloedd lle y gwyddys bod *Meloidogyne chitwoodi* Golden *et al*. (pob poblogaeth) a *Meloidogyne fallax* Karssen yn bresennol:<br>(i) eu bod yn tarddu o fan cynhyrchu y canfuwyd ei fod yn rhydd rhag *Meloidogyne chitwoodi* Golden *et al*. (pob poblogaeth) a *Meloidogyne fallax* Karssen yn seiliedig ar arolwg blynyddol o'r cnydau cynhaliol drwy gynnal arolygiad gweledol o'r planhigion cynhaliol ar adegau priodol a thrwy arolygiad gweledol allanol a thrwy dorri'r cloron ar ôl eu cynaeafu o gnydau tatws a |

| *(1)* <br> *Eitem* | *(2)* <br> *Disgrifiad o'r deunydd perthnasol* | *(3)* <br> *Gofynion glanio* |
|---|---|---|
| | | dyfwyd yn y man cynhyrchu; neu <br> (ii) bod y cloron, ar ôl cynaeafu, wedi eu hapsamplu a, naill ai wedi eu gwirio am bresenoldeb symptomau ar ôl defnyddio dull priodol i achosi symptomau, neu wedi bod yn destun profion labordy, yn ogystal ag arolygiad gweledol allanol a thrwy dorri'r cloron, ar adegau priodol ac ym mhob achos ar adeg selio'r pecynnau neu'r cynwysyddion cyn eu marchnata yn unol â'r darpariaethau ynghylch selio yng Nghyfarwyddeb y Cyngor 2002/56/EC ar farchnata tatws hadyd, ac na chanfuwyd unrhyw symptomau *Meloidogyne chitwoodi* Golden et al. (pob poblogaeth) neu *Meloidogyne fallax* Karssen |
| 44. | Cloron *Solanum tuberosum* L., ac eithrio'r rhai a fwriedir ar gyfer eu plannu, sy'n tarddu o unrhyw drydedd wlad | Rhaid i'r cloron ddod gyda datganiad swyddogol eu bod yn tarddu o ardal lle y gwyddys nad yw *Ralstonia solanacearum* (Smith) Yabuuchi et al. yn bresennol |
| 45. | Cloron *Solanum tuberosum* L. sy'n tarddu o unrhyw drydedd wlad | Rhaid i'r cloron ddod gyda datganiad swyddogol eu bod yn tarddu o: <br> (a) gwlad lle y gwyddys nad yw *Scrobipalpopsis solanivora* Povolny yn bresennol; neu <br> (b) ardal sy'n rhydd rhag *Scrobipalpopsis solanivora* Povolny, sef ardal a sefydlwyd gan y sefydliad diogelu planhigion cenedlaethol yn unol ag ISPM Rhif 4 |
| 46. | Planhigion, ac eithrio hadau, Solanaceae, a fwriedir ar gyfer eu plannu, sy'n tarddu o unrhyw drydedd wlad lle y gwyddys bod Mycoplasm stolbur tatws yn bresennol | Rhaid i'r planhigion ddod gyda datganiad swyddogol na welwyd unrhyw symptomau Mycoplasm stolbur tatws ar y planhigion yn y man cynhyrchu ers dechrau'r cylch llystyfiant cyflawn diweddaraf |
| 47. | Planhigion Solanaceae, a fwriedir ar gyfer eu plannu, ac eithrio cloron *Solanum tuberosum* L. neu | Rhaid i'r planhigion ddod gyda datganiad swyddogol na welwyd unrhyw symptomau Firoid y gloronen bigfain ar blanhigion |

| *(1)*<br><br>*Eitem* | *(2)*<br><br>*Disgrifiad o'r deunydd perthnasol* | *(3)*<br><br>*Gofynion glanio* |
|---|---|---|
| | hadau *Solanum lycopersicum* L., sy'n tarddu o unrhyw drydedd wlad lle y gwyddys bod Firoid y gloronen bigfain yn bresennol | yn y man cynhyrchu ers dechrau'r cylch llystyfiant cyflawn diweddaraf |
| 48. | Planhigion, ac eithrio hadau, *Capsicum annuum* L., *Solanum lycopersicum* L., *Musa* L., *Nicotiana* L. neu *Solanum melongena* L., a fwriedir ar gyfer eu plannu, sy'n tarddu o unrhyw drydedd wlad lle y gwyddys bod *Ralstonia solanacearum* (Smith) Yabuuchi et al. yn bresennol | Rhaid i'r planhigion ddod gyda datganiad swyddogol:<br>(a) eu bod yn tarddu o ardal y canfuwyd ei bod yn rhydd rhag *Ralstonia solanacearum* (Smith) Yabuuchi et al.; neu<br>(b) na welwyd unrhyw symptomau *Ralstonia solanacearum* (Smith) Yabuuchi et al. ar y planhigion yn y man cynhyrchu ers dechrau'r cylch llystyfiant cyflawn diweddaraf |
| 49. | Planhigion, ac eithrio ffrwythau neu hadau, *Solanum lycopersicum* L. neu *Solanum melongena* L., sy'n tarddu o unrhyw drydedd wlad | Rhaid i'r planhigion ddod gyda datganiad swyddogol:<br>(a) eu bod yn tarddu o wlad y cydnabyddir ei bod yn rhydd rhag *Keiferia lycopersicella* (Walsingham) yn unol ag ISPM Rhif 4; neu<br>(b) eu bod yn tarddu o ardal a sefydlwyd gan y sefydliad diogelu planhigion cenedlaethol yn y wlad y mae'r planhigion yn tarddu ohoni yn ardal sy'n rhydd rhag *Keiferia lycopersicella* (Walsingham) yn unol ag ISPM Rhif 4, ac a grybwyllir ar y dystysgrif ffytoiechydol, neu'r dystysgrif ffytoiechydol ar gyfer ailallforio o dan y pennawd "Additional declaration" |
| 50. | Ffrwythau *Solanum lycopersicum* L. neu *Solanum melongena* L., sy'n tarddu o unrhyw drydedd wlad | Rhaid i'r ffrwythau ddod gyda datganiad swyddogol:<br>(a) eu bod yn tarddu o wlad y cydnabyddir ei bod yn rhydd rhag *Keiferia lycopersicella* (Walsingham) yn unol ag ISPM Rhif 4;<br>(b) eu bod yn tarddu o ardal a sefydlwyd gan y sefydliad diogelu planhigion cenedlaethol yn y wlad y mae'r ffrwythau yn tarddu ohoni yn ardal sy'n rhydd rhag *Keiferia lycopersicella* (Walsingham) yn unol ag ISPM Rhif |

| *(1)*<br><br>*Eitem* | *(2)*<br><br>*Disgrifiad o'r deunydd perthnasol* | *(3)*<br><br>*Gofynion glanio* |
|---|---|---|
| | | 4, ac a grybwyllir ar y dystysgrif ffytoiechydol neu'r dystysgrif ffytoiechydol ar gyfer ailallforio o dan y pennawd "Additional declaration"; neu<br>(c) eu bod yn tarddu o fan cynhyrchu a sefydlwyd gan y sefydliad diogelu planhigion cenedlaethol yn y wlad y mae'r ffrwythau yn tarddu ohoni yn fan sy'n rhydd rhag *Keiferia lycopersicella* (Walsingham) ar sail arolygiadau ac arolygon swyddogol a gynhaliwyd yn ystod y tri mis diwethaf cyn eu hallforio, ac a grybwyllir ar y dystysgrif ffytoiechydol neu'r dystysgrif ffytoiechydol ar gyfer ailallforio o dan y pennawd "Additional declaration" |
| 51. | Planhigion, ac eithrio hadau, *Humulus lupulus* L., a fwriedir ar gyfer eu plannu, sy'n tarddu o unrhyw drydedd<br><br>wlad | Rhaid i'r planhigion ddod gyda datganiad swyddogol na welwyd unrhyw symptomau *Verticillium alboatrum* Reinke a Berthold neu *Verticillium dahliae* Klebahn ar hopys yn y man cynhyrchu ers dechrau'r cylch llystyfiant cyflawn diweddaraf |
| 52. | Planhigion, ac eithrio hadau, *Dendranthema* (DC.) Des Moul., *Dianthus* L. neu Pelargonium L'Hérit. ex Ait., sy'n tarddu o unrhyw drydedd wlad | Rhaid i'r planhigion ddod gyda datganiad swyddogol:<br>(a) eu bod yn tarddu o ardal sy'n rhydd rhag *Helicoverpa armigera* (Hübner) a *Spodoptera littoralis* (Boisd.), sef ardal a sefydlwyd gan y sefydliad cenedlaethol diogelu planhigion yn unol ag ISPM Rhif 4;<br>(b) na welwyd unrhyw arwyddion *Helicoverpa armigera* (Hübner) neu *Spodoptera littoralis* (Boisd.) yn y man cynhyrchu ers dechrau'r cylch llystyfiant cyflawn diweddaraf; neu<br>(c) y bu'r planhigion yn destun triniaeth briodol i'w diogelu rhag y plâu planhigion hynny |
| 53. | Planhigion, ac eithrio hadau, *Dendranthema* (DC.) Des Moul., *Dianthus* L. neu *Pelargonium* L'Hérit. ex Ait., sy'n tarddu o unrhyw drydedd wlad | Rhaid i'r planhigion ddod gyda datganiad swyddogol:<br>(a) eu bod yn tarddu o ardal sy'n rhydd rhag *Spodoptera eridania* (Cramer), *Spodoptera frugiperda* Smith a *Spodoptera litura* (Fabricius), sef ardal a sefydlwyd gan y sefydliad |

| *(1)*<br><br>*Eitem* | *(2)*<br><br>*Disgrifiad o'r deunydd perthnasol* | *(3)*<br><br>*Gofynion glanio* |
|---|---|---|
| | | diogelu planhigion cenedlaethol yn unol ag ISPM Rhif 4;<br>(b) na welwyd unrhyw arwyddion *Spodoptera eridania* (Cramer), *Spodoptera frugiperda* Smith neu *Spodoptera litura* (Fabricius) yn y man cynhyrchu ers dechrau'r cylch llystyfiant cyflawn diweddaraf; neu<br>(c) y bu'r planhigion yn destun triniaeth briodol i'w diogelu rhag y plâu planhigion hynny |
| 54. | Planhigion, ac eithrio hadau, *Dendranthema* (DC.) Des Moul., a fwriedir ar gyfer eu plannu, sy'n tarddu o unrhyw drydedd wlad | Rhaid i'r planhigion ddod gyda datganiad swyddogol:<br>(a) eu bod yn stoc o'r drydedd genhedlaeth, neu'n iau, sy'n deillio o ddeunydd y canfuwyd ei fod yn rhydd rhag Firoid arafu twf ffarwelau haf yn ystod profion firolegol, neu eu bod yn deillio yn uniongyrchol o ddeunydd y canfuwyd bod sampl gynrychioliadol o 10% ohono o leiaf yn rhydd rhag Firoid arafu twf ffarwelau haf o gynnal arolygiad swyddogol yn ystod y cyfnod blodeuo;<br>(b) bod y planhigion neu'r toriadau:<br>(i) wedi dod o fangreoedd sydd wedi eu harolygu yn swyddogol yn fisol o leiaf yn ystod y tri mis cyn eu hanfon, ac na welwyd unrhyw symptomau *Puccinia horiana* Hennings yn ystod y cyfnod hwnnw, ac na wyddys fod unrhyw symptomau *Puccinia horiana* Hennings wedi digwydd yn y cyffiniau agos yn ystod y tri mis cyn eu hallforio; neu<br>(ii) y buont yn destun triniaeth briodol i atal *Puccinia horiana* Hennings; ac<br>(c) yn achos toriadau heb wreiddiau, na welwyd unrhyw symptomau *Didymella ligulicola* (Baker, Dimock a Davis) v. Arx naill ai ar y toriadau neu ar y planhigion yr oedd y toriadau yn deillio ohonynt, |

| *(1)*<br><br>*Eitem* | *(2)*<br><br>*Disgrifiad o'r deunydd perthnasol* | *(3)*<br><br>*Gofynion glanio* |
|---|---|---|
| | | neu, yn achos toriadau â gwreiddiau, na welwyd unrhyw symptomau *Didymella ligulicola* (Baker, Dimock a Davis) v. Arx naill ai ar y toriadau neu ar y gwely gwreiddio |
| 55. | Planhigion, ac eithrio hadau, *Dendranthema* (DC.) Des Moul. neu *Solanum lycopersicum* L., a fwriedir ar gyfer eu plannu, sy'n tarddu o unrhyw drydedd wlad | Rhaid i'r planhigion ddod gyda datganiad swyddogol:<br>(a) eu bod wedi eu tyfu drwy gydol eu bywyd mewn gwlad sy'n rhydd rhag Firws necrosis coesynnau ffarwelau haf;<br>(b) eu bod wedi eu tyfu drwy gydol eu bywyd mewn ardal a sefydlwyd gan y sefydliad diogelu planhigion cenedlaethol yn y wlad sy'n allforio yn ardal sy'n rhydd rhag Firws necrosis coesynnau ffarwelau haf yn unol ag ISPM Rhif 4; neu<br>(c) bod y planhigion wedi eu tyfu drwy gydol eu bywyd mewn man cynhyrchu a sefydlwyd yn fan sy'n rhydd rhag Firws necrosis coesynnau ffarwelau haf ac y gwiriwyd hynny drwy arolygiadau swyddogol a, phan fo hynny'n briodol, drwy brofion |
| 56. | Planhigion, ac eithrio hadau, *Dianthus* L., a fwriedir ar gyfer eu plannu, sy'n tarddu o unrhyw drydedd wlad | Rhaid i'r planhigion ddod gyda datganiad swyddogol:<br>(a) eu bod yn deillio drwy linach uniongyrchol o blanhigion tarddiol y canfuwyd eu bod yn rhydd rhag *Erwinia chrysanthemi* pv. dianthicola (Hellmers) Dickey, *Pseudomonas caryophylli* (Burkholder) Starr a Burkholder a *Phialophora cinerescens* (Wollenw.) Van Beyma o ganlyniad i brofion a gymeradwyir yn swyddogol, a gynhaliwyd o leiaf unwaith yn ystod y ddwy flynedd flaenorol; a<br>(b) na welwyd unrhyw symptomau'r plâu planhigion hynny ar y planhigion |
| 57. | Bylbiau *Tulipa* L. neu *Narcissus* L. ac eithrio'r rhai y ceir tystiolaeth ar eu deunydd pecynnu, neu drwy ddulliau eraill, a fwriedir ar gyfer eu gwerthu i ddefnyddwyr terfynol nad ydynt yn | Rhaid i'r bylbiau ddod gyda datganiad swyddogol na welwyd unrhyw symptomau *Ditylenchus dipsaci* (Kühn) Filipjev ar y planhigion ers dechrau'r cylch llystyfiant cyflawn diweddaraf |

| *(1)*<br><br>*Eitem* | *(2)*<br><br>*Disgrifiad o'r deunydd perthnasol* | *(3)*<br><br>*Gofynion glanio* |
|---|---|---|
| | ymwneud â chynhyrchu blodau wedi eu torri yn broffesiynol, sy'n tarddu o unrhyw drydedd wlad | |
| 58. | Planhigion, ac eithrio hadau, *Pelargonium* L'Hérit. ex Ait., a fwriedir ar gyfer eu plannu, sy'n tarddu o unrhyw drydedd wlad:<br>— lle y gwyddys bod Firws crwn tomatos yn bresennol, a<br>— lle y gwyddys nad yw *Xiphinema americanum* Cobb sensu lato (poblogaethau heb fod yn rhai Ewropeaidd) neu fectorau eraill Firws crwn tomatos yn bresennol | Rhaid i'r planhigion ddod gyda datganiad swyddogol:<br>(a) eu bod yn deillio yn uniongyrchol o fan cynhyrchu y gwyddys ei fod yn rhydd rhag Firws crwn tomatos; neu<br>(b) eu bod yn stoc o'r bedwaredd genhedlaeth, neu'n iau, sy'n deillio o blanhigion tarddiol y canfuwyd eu bod yn rhydd rhag Firws crwn tomatos o dan system o brofion firolegol a gymeradwyir yn swyddogol |
| 59. | Planhigion, ac eithrio hadau, *Pelargonium* L'Hérit. ex Ait., a fwriedir ar gyfer eu plannu, sy'n tarddu o unrhyw drydedd wlad:<br>— lle y gwyddys bod Firws crwn tomatos yn bresennol, a<br>— lle y gwyddys nad yw *Xiphinema americanum* Cobb sensu lato (poblogaethau heb fod yn rhai Ewropeaidd) neu fectorau eraill Firws crwn tomatos yn bresennol | Rhaid i'r planhigion ddod gyda datganiad swyddogol:<br>(a) eu bod yn deillio yn uniongyrchol o fan cynhyrchu y gwyddys ei fod yn rhydd rhag Firws crwn tomatos yn y pridd neu'r planhigion; neu<br>(b) eu bod yn stoc o'r ail genhedlaeth, neu'n iau, sy'n deillio o blanhigion tarddiol y canfuwyd eu bod yn rhydd rhag Firws crwn tomatos o dan system o brofion firolegol a gymeradwyir yn swyddogol |
| 60. | Planhigion rhywogaethau llysieuol, ac eithrio:<br>— bylbiau,<br>— cormau,<br>— planhigion o'r teulu Gramineae,<br>— rhisomau,<br>— hadau, neu<br>— cloron,<br><br>a fwriedir ar gyfer eu plannu, sy'n tarddu o unrhyw drydedd wlad lle y gwyddys bod *Liriomyza sativae* (Blanchard) neu Amauromyza maculosa (Malloch) yn bresennol | Rhaid i'r planhigion ddod gyda datganiad swyddogol eu bod wedi eu tyfu mewn meithrinfa a'u bod:<br>(a) yn tarddu o ardal a sefydlwyd yn y wlad sy'n allforio gan y sefydliad diogelu planhigion cenedlaethol yn y wlad honno yn ardal sy'n rhydd rhag *Liriomyza sativae* (Blanchard) ac *Amauromyza maculosa* (Malloch), yn unol ag ISPM Rhif 4, ac a grybwyllir ar y dystysgrif ffytoiechydol, neu'r dystysgrif ffytoiechydol ar gyfer ailallforio o dan y pennawd "Additional declaration";<br>(b) yn tarddu o fan cynhyrchu a sefydlwyd yn y wlad sy'n allforio gan y sefydliad diogelu planhigion cenedlaethol yn y wlad honno yn fan sy'n rhydd rhag *Liriomyza sativae* (Blanchard) ac *Amauromyza* |

| *(1)*<br><br>*Eitem* | *(2)*<br><br>*Disgrifiad o'r deunydd perthnasol* | *(3)*<br><br>*Gofynion glanio* |
|---|---|---|
| | | *maculosa* (Malloch), yn unol ag ISPM Rhif 10, ac a grybwyllir ar y dystysgrif ffytoiechydol, neu'r dystysgrif ffytoiechydol ar gyfer ailallforio o dan y pennawd "Additional declaration" ac y datganwyd eu bod yn rhydd rhag *Liriomyza sativae* (Blanchard) ac *Amauromyza maculosa* (Malloch) o gynnal arolygiadau swyddogol yn fisol o leiaf yn ystod y tri mis cyn allforio;<br>(c) yn union cyn eu hallforio, wedi bod yn destun triniaeth briodol i atal *Liriomyza sativae* (Blanchard) ac *Amauromyza maculosa* (Malloch) ac wedi eu harolygu yn swyddogol ac y canfuwyd eu bod yn rhydd rhag *Liriomyza sativae* (Blanchard) ac *Amauromyza maculosa* (Malloch). Rhaid crybwyll manylion y driniaeth ar y dystysgrif ffytoiechydol, neu'r dystysgrif ffytoiechydol ar gyfer ailallforio; neu<br>(d) yn tarddu o ddeunydd planhigion (allblaniad) sy'n rhydd rhag *Liriomyza sativae* (Blanchard) ac *Amauromyza maculosa* (Malloch), wedi eu tyfu in vitro mewn cyfrwng tyfu sterilaidd o dan amodau sterilaidd sy'n atal y posibilrwydd o heigio â *Liriomyza sativae* (Blanchard) neu *Amauromyza maculosa* (Malloch) ac yn cael eu cludo mewn cynwysyddion tryloyw o dan amodau sterilaidd |
| 61. | Blodau *Dendranthema* wedi eu torri (DC.) Des Moul., *Dianthus* L., *Gypsophila* L., *Solidago* L. neu lysiau deiliog *Apium graveolens* L. neu *Ocimum* L, sy'n tarddu o unrhyw drydedd wlad | Rhaid i'r blodau wedi eu torri a'r llysiau deiliog ddod gyda datganiad swyddogol:<br>(a) eu bod yn tarddu o wlad sy'n rhydd rhag *Liriomyza sativae* (Blanchard) ac *Amauromyza maculosa* (Malloch); neu<br>(b) yn union cyn eu hallforio, eu bod wedi eu harolygu yn swyddogol a chanfuwyd eu bod yn rhydd rhag *Liriomyza sativae* (Blanchard) ac *Amauromyza maculosa* (Malloch) |

| *(1)*<br><br>*Eitem* | *(2)*<br><br>*Disgrifiad o'r deunydd perthnasol* | *(3)*<br><br>*Gofynion glanio* |
|---|---|---|
| 62. | Planhigion rhywogaethau llysieuol, ac eithrio:<br>— bylbiau,<br>— cormau,<br>— planhigion o'r teulu Gramineae,<br>— rhisomau,<br>— hadau, neu<br>— cloron,<br><br>a fwriedir ar gyfer eu plannu, sy'n tarddu o unrhyw drydedd wlad | Rhaid i'r planhigion ddod gyda datganiad swyddogol:<br>(a) eu bod yn tarddu o ardal y gwyddys ei bod yn rhydd rhag *Liriomyza huidobrensis* (Blanchard) a *Liriomyza trifolii* (Burgess);<br>(b) na welwyd unrhyw arwyddion *Liriomyza huidobrensis* (Blanchard) neu *Liriomyza trifolii* (Burgess) yn y man cynhyrchu, o gynnal arolygiadau swyddogol yn fisol o leiaf yn ystod y tri mis cyn cynaeafu;<br>(c) yn union cyn eu hallforio, eu bod wedi eu harolygu yn swyddogol a chanfuwyd eu bod yn rhydd rhag *Liriomyza huidobrensis* (Blanchard) a *Liriomyza trifolii* (Burgess) ac wedi bod yn destun triniaeth briodol i atal *Liriomyza huidobrensis* (Blanchard) a *Liriomyza trifolii* (Burgess); neu<br>(d) eu bod yn tarddu o ddeunydd planhigion (allblaniad) sy'n rhydd rhag *Liriomyza huidobrensis* (Blanchard) a *Liriomyza trifolii* (Burgess), wedi eu tyfu in vitro mewn cyfrwng tyfu sterilaidd o dan amodau sterilaidd sy'n atal y posibilrwydd o heigio â *Liriomyza huidobrensis* (Blanchard) neu *Liriomyza trifolii* (Burgess) ac yn cael eu cludo mewn cynwysyddion tryloyw o dan amodau sterilaidd |
| 63. | Planhigion â gwreiddiau, a blannwyd neu a fwriedir ar gyfer eu plannu, sydd wedi eu tyfu yn yr awyr agored, sy'n tarddu o unrhyw drydedd wlad | Rhaid i'r planhigion ddod gyda datganiad swyddogol:<br>(a) y gwyddys bod y man cynhyrchu yn rhydd rhag *Clavibacter michiganensis* ssp. *sepedonicus* (Spieckermann a Kotthoff) Davis et al. a *Synchytrium endobioticum* (Schilbersky) Percival; a<br>(b) bod y planhigion yn tarddu o gae y gwyddys ei fod yn rhydd rhag *Globodera pallida* (Stone) Behrens a *Globodera rostochiensis* (Wollenweber) Behrens |

| *(1)*<br><br>*Eitem* | *(2)*<br><br>*Disgrifiad o'r deunydd perthnasol* | *(3)*<br><br>*Gofynion glanio* |
|---|---|---|
| 64. | Pridd neu gyfrwng tyfu:<br>— sy'n gysylltiedig â phlanhigion, neu'n mynd gyda phlanhigion at ddibenion cynnal bywiogrwydd y planhigion hynny,<br>— sydd ar ffurf, yn gyfan gwbl neu'n rhannol, pridd neu unrhyw sylwedd organig solet megis rhannau o blanhigion neu hwmws (gan gynnwys mawn neu risgl), neu ar ffurf unrhyw sylwedd anorganig solet yn rhannol, ac<br>— sy'n tarddu o Belarws, Georgia, Moldofa, Rwsia, Twrci, yr Ukrain neu unrhyw wlad y tu allan i Ewrop, ac eithrio Algeria, yr Aifft, Israel, Libya, Moroco neu Tunisia | Rhaid i'r cyfrwng tyfu ddod gyda datganiad swyddogol:<br>(a) ar adeg plannu:<br>(i) ei fod yn rhydd rhag pridd a deunydd organig;<br>(ii) y canfuwyd ei fod yn rhydd rhag pryfed a nematodau niweidiol ac y bu'n destun archwiliad priodol neu driniaeth â gwres neu fygdarthu i sicrhau ei fod yn rhydd rhag plâu planhigion eraill; neu<br>(iii) y bu'n destun triniaeth briodol â gwres neu fygdarthu i sicrhau ei fod yn rhydd rhag plâu planhigion; a<br>(b) ers plannu:<br>(i) y cymerwyd camau priodol i sicrhau bod y cyfrwng tyfu wedi ei gadw'n rhydd rhag plâu planhigion; neu<br>(ii) o fewn dwy wythnos cyn eu hanfon, y cafodd y planhigion eu hysgwyd er mwyn cael gwared ar y deunydd, gan adael y swm lleiaf sy'n angenrheidiol i gynnal bywiogrwydd wrth gludo, ac, os caiff y planhigion eu hailblannu, bod y cyfrwng tyfu a ddefnyddir at y diben hwnnw yn bodloni'r gofynion ym mharagraff (a) |
| 65. | Planhigion, ac eithrio hadau, *Beta vulgaris* L., a fwriedir ar gyfer eu plannu, sy'n tarddu o unrhyw drydedd wlad | Rhaid i'r planhigion ddod gyda datganiad swyddogol na welwyd unrhyw symptomau Firws crych betys (arunigion heb fod yn rhai Ewropeaidd) ers dechrau'r cylch llystyfiant cyflawn diweddaraf |
| 66. | Planhigion, ac eithrio hadau, *Beta vulgaris* L., a fwriedir ar gyfer eu plannu, sy'n tarddu o unrhyw drydedd wlad lle y gwyddys bod Firws deildro betys yn bresennol | Rhaid i'r planhigion ddod gyda datganiad swyddogol:<br>(a) y gwyddys nad yw Firws deildro betys yn bresennol yn yr ardal gynhyrchu; a<br>(b) na welwyd unrhyw symptomau Firws crych betys yn y man cynhyrchu neu yn ei gyffiniau |

| *(1)*<br><br>*Eitem* | *(2)*<br><br>*Disgrifiad o'r deunydd perthnasol* | *(3)*<br><br>*Gofynion glanio* |
|---|---|---|
| | | agos ers dechrau'r cylch llystyfiant cyflawn diweddaraf |
| 67. | Planhigion, ac eithrio:<br>— bylbiau,<br>— cormau,<br>— rhisomau,<br>— hadau, neu<br>— cloron,<br><br>a fwriedir ar gyfer eu plannu, sy'n tarddu o unrhyw drydedd wlad | Rhaid i'r planhigion ddod gyda datganiad swyddogol eu bod wedi eu tyfu mewn meithrinfa ac:<br>(a) eu bod yn tarddu o ardal a sefydlwyd yn y wlad sy'n allforio gan y sefydliad diogelu planhigion cenedlaethol yn y wlad honno yn ardal sy'n rhydd rhag *Thrips palmi* Karny, yn unol ag ISPM Rhif 4, ac a grybwyllir ar y dystysgrif ffytoiechydol, neu'r dystysgrif ffytoiechydol ar gyfer ailallforio o dan y pennawd "Additional declaration";<br>(b) eu bod yn tarddu o fan cynhyrchu a sefydlwyd yn y wlad sy'n allforio gan y sefydliad diogelu planhigion cenedlaethol yn y wlad honno yn fan sy'n rhydd rhag *Thrips palmi* Karny, yn unol ag ISPM Rhif 10, ac a grybwyllir ar y dystysgrif ffytoiechydol, neu'r dystysgrif ffytoiechydol ar gyfer ailallforio o dan y pennawd "Additional declaration", ac y datganwyd ei fod yn rhydd rhag *Thrips palmi* Karny o gynnal arolygiadau swyddogol yn fisol o leiaf yn ystod y tri mis cyn allforio;<br>(c) yn union cyn eu hallforio, y buont yn destun triniaeth briodol i atal *Thrips palmi* Karny, a'u bod wedi eu harolygu yn swyddogol ac y canfuwyd eu bod yn rhydd rhag *Thrips palmi* Karny. Rhaid crybwyll manylion y driniaeth ar y dystysgrif ffytoiechydol neu'r dystysgrif ffytoiechydol ar gyfer ailallforio; neu<br>(d) eu bod yn tarddu o ddeunydd planhigion (allblaniad) sy'n rhydd rhag *Thrips palmi* Karny, eu bod wedi eu tyfu *in vitro* mewn cyfrwng tyfu sterilaidd o dan amodau sterilaidd sy'n atal y posibilrwydd o heigio â *Thrips palmi* Karny a'u bod yn cael eu cludo mewn |

| *(1)*<br><br>*Eitem* | *(2)*<br><br>*Disgrifiad o'r deunydd perthnasol* | *(3)*<br><br>*Gofynion glanio* |
|---|---|---|
| | | cynwysyddion tryloyw o dan amodau sterilaidd |
| 68. | Blodau Orchidaceae wedi eu torri neu ffrwythau *Momordica* L. neu *Solanum melongena* L., sy'n tarddu o unrhyw drydedd wlad | Rhaid i'r blodau wedi eu torri a'r ffrwythau ddod gyda datganiad swyddogol:<br>(a) eu bod yn tarddu o wlad sy'n rhydd rhag *Thrips palmi* Karny; neu<br>(b) yn union cyn eu hallforio, eu bod wedi eu harolygu yn swyddogol a chanfuwyd eu bod yn rhydd rhag *Thrips palmi* Karny |
| 69. | Ffrwythau *Capsicum* L., sy'n tarddu o Belize, Costa Rica, y Weriniaeth Ddomenicaidd, El Salvador, Guatemala, Honduras, Jamaica, Mecsico, Nicaragua, Panama, Puerto Rico, UDA neu Polynesia Ffrengig lle y gwyddys bod *Anthonomus eugenii* Cano yn bresennol | Rhaid i'r ffrwythau ddod gyda datganiad swyddogol:<br>(a) eu bod yn tarddu o ardal sy'n rhydd rhag *Anthonomus eugenii* Cano, sef ardal a sefydlwyd gan y sefydliad diogelu planhigion cenedlaethol yn unol ag ISPM Rhif 4, ac a grybwyllir ar y dystysgrif ffytoiechydol neu'r dystysgrif ffytoiechydol ar gyfer ailallforio o dan y pennawd "Additional declaration"; neu<br>(b) eu bod yn tarddu o fan cynhyrchu a sefydlwyd yn y wlad sy'n allforio gan y sefydliad diogelu planhigion cenedlaethol yn y wlad honno yn fan sy'n rhydd rhag *Anthonomus eugenii* Cano yn unol ag ISPM Rhif 10, ac a grybwyllir ar y dystysgrif ffytoiechydol neu'r dystysgrif ffytoiechydol ar gyfer ailallforio o dan y pennawd "Additional declaration", ac y datganwyd ei fod yn rhydd rhag *Anthonomus eugenii* Cano o gynnal arolygiadau swyddogol yn fisol o leiaf yn ystod y ddau fis cyn eu hallforio yn y man cynhyrchu ac yn ei gyffiniau agos |
| 70. | Planhigion, ac eithrio hadau, Palmae, a fwriedir ar gyfer eu plannu, sy'n tarddu o unrhyw wlad y tu allan i Ewrop | Rhaid i'r planhigion ddod gyda datganiad swyddogol:<br>(a) eu bod yn tarddu o ardal y gwyddys ei bod yn rhydd rhag Mycoplasm melynu marwol palmwydd a Firoid Cadang-Cadang, ac na welwyd unrhyw symptomau yn y man cynhyrchu neu yn ei gyffiniau |

| *(1)*<br><br>*Eitem* | *(2)*<br><br>*Disgrifiad o'r deunydd perthnasol* | *(3)*<br><br>*Gofynion glanio* |
|---|---|---|
| | | agos ers dechrau'r cylch llystyfiant cyflawn diweddaraf;<br>(b) na welwyd unrhyw symptomau Mycoplasm melynu marwol palmwydd neu Firoid Cadang-Cadang ar y planhigion ers dechrau'r cylch llystyfiant cyflawn diweddaraf, a bod unrhyw blanhigion yn y man cynhyrchu sydd wedi dangos symptomau sy'n codi amheuon ynghylch halogi gan y clefydau hynny wedi eu clirio o'r man hwnnw, ac y bu'r planhigion yn destun triniaeth briodol i gael gwared ar *Myndus crudus* Van Duzee; neu<br>(c) yn achos planhigion mewn meithriniad meinwe, bod y planhigion yn deillio o blanhigion sydd wedi bodloni'r gofynion ym mharagraffau (a) neu (b) |
| 71. | Planhigion Palmae, a fwriedir ar gyfer eu plannu, y mae diamedr bôn y coesyn yn fwy na 5 cm ac sy'n perthyn i'r genera a ganlyn:<br>— Brahea Mart,<br>— Butia Becc.,<br>— Chamaerops L.,<br>— Jubaea Kunth,<br>— Livistona R. Br.,<br>— Phoenix L.,<br>— Sabal Adans.,<br>— Syagrus Mart.,<br>— Trachycarpus H. Wendl.,<br>— Trithrinax Mart.,<br>— Washingtonia Raf. | Rhaid i'r planhigion ddod gyda datganiad swyddogol:<br>(a) eu bod wedi eu tyfu drwy gydol eu bywyd mewn gwlad lle y gwyddys nad yw *Paysandisia archon* (Burmeister) yn bresennol;<br>(b) eu bod wedi eu tyfu drwy gydol eu bywyd mewn ardal sy'n rhydd rhag *Paysandisia archon* (Burmeister), sef ardal a sefydlwyd gan y sefydliad diogelu planhigion cenedlaethol yn unol ag ISPM Rhif 4;<br>(c) eu bod wedi eu tyfu, yn ystod cyfnod o ddwy flynedd o leiaf cyn eu hallforio, mewn man cynhyrchu:<br>(i) sydd wedi ei gofrestru ac sy'n cael ei oruchwylio gan sefydliad diogelu planhigion cenedlaethol y wlad y mae'r planhigion yn tarddu ohoni;<br>(ii) lle mae'r planhigion wedi eu gosod mewn safle a oedd wedi ei ddiogelu yn ffisegol yn llwyr rhag cyflwyno *Paysandisia archon* (Burmeister) neu drwy |

| *(1)*<br><br>*Eitem* | *(2)*<br><br>*Disgrifiad o'r deunydd perthnasol* | *(3)*<br><br>*Gofynion glanio* |
|---|---|---|
| | | gymhwyso triniaethau atal priodol; a<br>(iii) lle na welwyd unrhyw arwyddion *Paysandisia archon* (Burmeister) yn ystod tri arolygiad swyddogol y flwyddyn a gynhaliwyd ar adegau priodol, gan gynnwys yn union cyn allforio |
| 72. | Planhigion, ac eithrio hadau, *Fuchsia* L., a fwriedir ar gyfer eu plannu, sy'n tarddu o UDA neu Frasil | Rhaid i'r planhigion ddod gyda datganiad swyddogol na welwyd unrhyw symptomau *Aculops fuchsiae* Keifer yn y man cynhyrchu, a bod y planhigion wedi eu harolygu yn union cyn eu hallforio a chanfuwyd eu bod yn rhydd rhag *Aculops fuchsiae* Keifer |
| 73. | Coed neu lwyni, ac eithrio hadau neu blanhigion mewn meithriniad meinwe, a fwriedir ar gyfer eu plannu, sy'n tarddu o unrhyw drydedd wlad ac eithrio gwlad yn ardal Ewrop a Môr y Canoldir | Rhaid i'r coed a'r llwyni ddod gyda datganiad swyddogol:<br>(a) eu bod wedi eu tyfu mewn meithrinfa;<br>(b) eu bod yn rhydd rhag malurion planhigion, blodau a ffrwythau; ac<br>(c) eu bod wedi eu harolygu ar adegau priodol a chyn eu hallforio, a chanfuwyd eu bod yn rhydd rhag symptomau bacteria niweidiol, firysau, ac organeddau sy'n debyg i firysau, a naill ai y canfuwyd eu bod yn rhydd rhag arwyddion neu symptomau nematodau, pryfed, gwiddon a ffyngau niweidiol, neu y buont yn destun triniaeth briodol i ddileu organeddau o'r fath |
| 74. | Coed neu lwyni collddail, ac eithrio hadau neu blanhigion mewn meithriniad meinwe, a fwriedir ar gyfer eu plannu, sy'n tarddu o unrhyw drydedd wlad ac eithrio gwlad yn ardal Ewrop a Môr y Canoldir | Rhaid i'r coed a'r llwyni ddod gyda datganiad swyddogol eu bod yn blanhigion cwsg ac yn rhydd rhag dail |
| 75. | Planhigion unflwydd neu eilflwydd, ac eithrio planhigion Gramineae neu hadau, a fwriedir ar gyfer eu plannu, sy'n tarddu o unrhyw drydedd wlad ac eithrio gwlad yn ardal Ewrop a Môr y Canoldir | Rhaid i'r planhigion ddod gyda datganiad swyddogol:<br>(a) eu bod wedi eu tyfu mewn meithrinfa;<br>(b) eu bod yn rhydd rhag malurion planhigion, blodau a ffrwythau; ac<br>(c) eu bod wedi eu harolygu ar adegau priodol a chyn eu hallforio; ac |

| *(1)* *Eitem* | *(2)* *Disgrifiad o'r deunydd perthnasol* | *(3)* *Gofynion glanio* |
|---|---|---|
| | | (i) y canfuwyd eu bod yn rhydd rhag symptomau bacteria niweidiol, firysau ac organeddau sy'n debyg i firysau; a (ii) y canfuwyd eu bod yn rhydd rhag arwyddion neu symptomau nematodau, pryfed, gwiddon a ffyngau niweidiol, neu y buont yn destun triniaeth briodol i ddileu organeddau o'r fath |
| 76. | Planhigion, ac eithrio hadau, o'r teulu Gramineae, glaswelltoedd lluosflwydd addurniadol o'r is-deuluoedd Bambusoideae, Panicoideae neu o'r genera *Buchloe*, *Bouteloua* Lag., *Calamagrostis*, *Cortaderia* Stapf., *Glyceria* R. Br., *Hakonechloa* Mak. ex. Honda, *Hystrix*, *Molinia*, *Phalaris* L. *Shibataea*, *Spartina* Schreb., *Stipa* L. neu *Uniola* L., a fwriedir ar gyfer eu plannu, sy'n tarddu o unrhyw drydedd wlad ac eithrio gwlad yn ardal Ewrop a Môr y Canoldir | Rhaid i'r planhigion ddod gyda datganiad swyddogol: (a) eu bod wedi eu tyfu mewn meithrinfa; (b) eu bod yn rhydd rhag malurion planhigion, blodau a ffrwythau; (c) eu bod wedi eu harolygu ar adegau priodol a chyn eu hallforio; ac (i) y canfuwyd eu bod yn rhydd rhag symptomau bacteria niweidiol, firysau ac organeddau sy'n debyg i firysau; a (ii) y canfuwyd eu bod yn rhydd rhag arwyddion neu symptomau nematodau, pryfed, gwiddon a ffyngau niweidiol, neu y buont yn destun triniaeth briodol i ddileu organeddau o'r fath |
| 77. | Planhigion sydd wedi eu corachu yn naturiol neu'n artiffisial, ac eithrio hadau, a fwriedir ar gyfer eu plannu, sy'n tarddu o unrhyw drydedd wlad y tu allan i Ewrop | Rhaid i'r planhigion ddod gyda datganiad swyddogol: (a) bod y planhigion, gan gynnwys y rheini a gasglwyd yn uniongyrchol o gynefinoedd naturiol, wedi eu tyfu, eu cadw a'u hyfforddi am ddwy flynedd yn olynol o leiaf cyn eu hanfon mewn meithrinfa a gofrestrwyd yn swyddogol sy'n ddarostyngedig i gyfundrefn reoli a oruchwylir yn swyddogol; a (b) yn ystod y cyfnod hwnnw bod y planhigion wedi, o leiaf: (i) eu plannu mewn potiau sydd wedi eu gosod ar silffoedd sydd o leiaf 50 cm uwchben lefel y ddaear; |

| *(1)*<br><br>*Eitem* | *(2)*<br><br>*Disgrifiad o'r deunydd perthnasol* | *(3)*<br><br>*Gofynion glanio* |
|---|---|---|
| | | (ii) bod yn destun triniaethau priodol i sicrhau eu bod yn rhydd rhag rhydni heb fod yn Ewropeaidd (a rhaid crybwyll cynhwysyn gweithredol a chrynodiad y triniaethau hyn, a'r dyddiadau y'u defnyddiwyd, ar y dystysgrif ffytoiechydol neu'r dystysgrif ffytoiechydol ar gyfer ailallforio o dan y pennawd "disinfestation and/ or disinfection treatment");<br>(iii) cael eu harolygu yn swyddogol o leiaf chwe gwaith y flwyddyn ar adegau priodol ar gyfer presenoldeb y plâu planhigion a grybwyllir yn yr Atodlenni i'r Gorchymyn hwn, ynghyd â'r planhigion yng nghyffiniau agos y feithrinfa, drwy archwiliad gweledol o bob rhes yn y cae neu'r feithrinfa a phob rhan o'r planhigion uwchben y cyfrwng tyfu, gan ddefnyddio hapsampl o 300 o blanhigion o leiaf o genws penodol lle nad oes mwy na 3,000 o blanhigion o'r genws hwnnw, neu 10% o'r planhigion os oes mwy na 3,000 o blanhigion o'r genws hwnnw;<br>(iv) eu canfod, yn yr arolygiadau y cyfeirir atynt ym mharagraff (iii), yn rhydd rhag y plâu planhigion perthnasol, neu pan fo heigiad, eu bod wedi eu symud ymaith, a bod y planhigion sy'n weddill wedi eu trin yn effeithiol, eu cadw am gyfnod priodol a'u harolygu i sicrhau eu bod yn rhydd rhag plâu planhigion o'r fath;<br>(v) eu plannu mewn cyfrwng tyfu artiffisial sydd heb ei ddefnyddio neu mewn cyfrwng tyfu naturiol sydd |

| *(1)*<br><br>*Eitem* | *(2)*<br><br>*Disgrifiad o'r deunydd perthnasol* | *(3)*<br><br>*Gofynion glanio* |
|---|---|---|
| | | wedi ei drin â mygdarthiad neu wedi ei drin yn briodol â gwres, a bod archwiliad ar ôl hynny wedi canfod eu bod yn rhydd rhag unrhyw blâu planhigion; a<br>(vi) eu cadw o dan amodau sy'n sicrhau bod y cyfrwng tyfu wedi ei gadw'n rhydd rhag plâu planhigion ac o fewn dwy wythnos cyn eu hanfon, eu bod:<br>(aa) wedi eu hysgwyd a'u golchi â dŵr glân i symud ymaith y cyfrwng tyfu gwreiddiol a chadw'r gwreiddiau yn noeth; neu<br>(bb) wedi eu hysgwyd a'u golchi â dŵr glân i symud ymaith y cyfrwng tyfu gwreiddiol ac wedi eu hailblannu mewn cyfrwng tyfu sy'n bodloni'r gofynion ym mharagraff (v); neu<br>(cc) wedi bod yn destun triniaethau priodol i sicrhau bod y cyfrwng tyfu yn rhydd rhag plâu planhigion (a rhaid crybwyll y cynhwysyn gweithredol, y crynodiad a'r dyddiad y cymhwyswyd y triniaethau hyn ar y dystysgrif ffytoiechydol neu'r dystysgrif ffytoiechydol ar gyfer ailallforio o dan y pennawd "disinfestation and/or disinfection treatment"); ac<br>(c) bod y planhigion wedi eu pecynnu mewn cynwysyddion caeedig sydd wedi eu selio yn swyddogol ac sy'n dwyn rhif cofrestru'r feithrinfa gofrestredig, a rhaid nodi'r rhif cofrestru ar y dystysgrif ffytoiechydol neu'r dystysgrif |

| *(1)*<br><br>*Eitem* | *(2)*<br><br>*Disgrifiad o'r deunydd perthnasol* | *(3)*<br><br>*Gofynion glanio* |
|---|---|---|
| | | ffytoiechydol ar gyfer ailallforio o dan y pennawd "Additional declaration" at ddibenion adnabod |
| 78. | Planhigion llysieuol lluosflwydd, ac eithrio hadau, a fwriedir ar gyfer eu plannu, o'r teuluoedd Caryophyllaceae (ac eithrio *Dianthus* L.), Compositae (ac eithrio *Dendranthema* (DC.) Des Moul., Cruciferae, Leguminosae neu Rosaceae (ac eithrio *Fragaria* L.), sy'n tarddu o unrhyw drydedd wlad ac eithrio unrhyw wlad yn ardal Ewrop a Môr y Canoldir | Rhaid i'r planhigion ddod gyda datganiad swyddogol:<br>(a) eu bod wedi eu tyfu mewn meithrinfa;<br>(b) eu bod yn rhydd rhag malurion planhigion, blodau a ffrwythau; ac<br>(c) eu bod wedi eu harolygu ar adegau priodol a chyn eu hallforio, a chanfuwyd eu bod yn rhydd rhag:<br>(i) symptomau bacteria niweidiol, firysau ac organeddau sy'n debyg i firysau; a<br>(ii) arwyddion neu symptomau nematodau, pryfed, gwiddon a ffyngau niweidiol, neu eu bod wedi bod yn destun triniaeth briodol i ddileu organeddau o'r fath |
| 79. | Planhigion, ac eithrio bylbiau, cormau, rhisomau, hadau neu gloron, rhywogaethau llysieuol neu blanhigion *Ficus* L. neu *Hibiscus* L., a fwriedir ar gyfer eu plannu, sy'n tarddu o unrhyw wlad y tu allan i Ewrop | Rhaid i'r planhigion ddod gyda datganiad swyddogol:<br>(a) eu bod yn tarddu o ardal a sefydlwyd yn y wlad sy'n allforio gan y sefydliad diogelu planhigion cenedlaethol yn wlad honno yn ardal sy'n rhydd rhag *Bemisia tabaci* Genn. (poblogaethau heb fod yn rhai Ewropeaidd), yn unol ag ISPM Rhif 4, ac a grybwyllir ar y dystysgrif ffytoiechydol neu'r dystysgrif ffytoiechydol ar gyfer ailallforio o dan y pennawd "Additional declaration";<br>(b) eu bod yn tarddu o fan cynhyrchu a sefydlwyd yn y wlad sy'n allforio gan y sefydliad diogelu planhigion cenedlaethol yn y wlad honno yn ardal sy'n rhydd rhag *Bemisia tabaci* Genn. (poblogaethau heb fod yn rhai Ewropeaidd), yn unol ag ISPM Rhif 10, ac a grybwyllir ar y dystysgrif ffytoiechydol neu'r dystysgrif ffytoiechydol ar gyfer ailallforio o dan y pennawd "Additional declaration" ac y datganwyd eu bod yn rhydd rhag *Bemisia tabaci* Genn. (poblogaethau |

| *(1)* <br> *Eitem* | *(2)* <br> *Disgrifiad o'r deunydd perthnasol* | *(3)* <br> *Gofynion glanio* |
|---|---|---|
| | | heb fod yn rhai Ewropeaidd) o gynnal arolygiadau swyddogol o leiaf unwaith bob tair wythnos yn ystod y naw wythnos cyn allforio; <br> (c) mewn achosion pan fo *Bemisia tabaci* Genn. (poblogaethau heb fod yn rhai Ewropeaidd) wedi ei ganfod yn y man cynhyrchu, eu bod yn cael eu cadw neu eu cynhyrchu yn y man cynhyrchu hwnnw ac wedi bod yn destun triniaeth briodol i sicrhau eu bod yn rhydd rhag Bemisia tabaci Genn. (poblogaethau heb fod yn rhai Ewropeaidd) ac wedi hynny canfuwyd bod y man cynhyrchu hwnnw yn rhydd rhag *Bemisia tabaci* Genn. (poblogaethau heb fod yn rhai Ewropeaidd) o ganlyniad i roi gweithdrefnau priodol ar waith gyda'r nod o ddileu *Bemisia tabaci* Genn. (poblogaethau heb fod yn rhai Ewropeaidd) mewn arolygiadau swyddogol a gynhaliwyd yn wythnosol yn ystod y naw wythnos cyn allforio ac yn y gweithdrefnau monitro drwy gydol y cyfnod. Rhaid crybwyll manylion y driniaeth ar y dystysgrif ffytoiechydol neu'r dystysgrif ffytoiechydol ar gyfer ailallforio; neu <br> (d) eu bod y tarddu o ddeunydd planhigion (allblaniad) sy'n rhydd rhag *Bemisia tabaci* Genn. (poblogaethau heb fod yn rhai Ewropeaidd), yn cael eu tyfu in vitro mewn cyfrwng tyfu sterilaidd o dan amodau sterilaidd sy'n atal y posibilrwydd o heigio â *Bemisia tabaci* Genn. (poblogaethau heb fod yn rhai Ewropeaidd) ac yn cael eu cludo mewn cynwysyddion tryloyw o dan amodau sterilaidd |
| 80. | Blodau wedi eu torri *Aster* spp., *Eryngium* L., *Gypsophila* L., *Hypericum* L., *Lisianthus* L., *Rosa* L., *Solidago* L. neu *Trachelium* L. neu lysiau deiliog *Ocimum* L., sy'n tarddu o unrhyw wlad y tu allan i Ewrop | Rhaid i'r blodau wedi eu torri a'r blodau deiliog ddod gyda datganiad swyddogol: <br> (a) eu bod yn tarddu o wlad sy'n rhydd rhag *Bemisia tabaci* Genn. (poblogaethau heb fod yn rhai Ewropeaidd); neu |

| *(1)*<br><br>*Eitem* | *(2)*<br><br>*Disgrifiad o'r deunydd perthnasol* | *(3)*<br><br>*Gofynion glanio* |
|---|---|---|
| | | (b) yn union cyn eu hallforio, eu bod wedi eu harolygu yn swyddogol ac y canfuwyd eu bod yn rhydd rhag *Bemisia tabaci* Genn. (poblogaethau heb fod yn rhai Ewropeaidd) |
| 81. | Planhigion, ac eithrio hadau, Solanum lycopersicum L., a fwriedir ar gyfer eu plannu, sy'n tarddu o unrhyw drydedd wlad lle y gwyddys bod Firws deildro melyn tomatos yn bresennol ac y gwyddys nad yw Bemisia tabaci Genn. yn bresennol | Rhaid i'r planhigion ddod gyda datganiad swyddogol na welwyd unrhyw symptomau Firws deildro melyn tomatos ar y planhigion |
| 82. | Planhigion, ac eithrio hadau, *Solanum lycopersicum* L., a fwriedir ar gyfer eu plannu, sy'n tarddu o unrhyw drydedd wlad lle y gwyddys bod Firws deildro melyn tomatos a *Bemisia tabaci* Genn. yn bresennol | Rhaid i'r planhigion ddod gyda datganiad swyddogol:<br>(a) na welwyd unrhyw symptomau Firws deildro melyn tomatos ar y planhigion; a<br>(i) bod y planhigion yn tarddu o ardal y gwyddys ei bod yn rhydd rhag *Bemisia tabaci* Genn.; neu<br>(ii) y canfuwyd bod y man cynhyrchu yn rhydd rhag *Bemisia tabaci* Genn. o gynnal arolygiadau swyddogol yn fisol o leiaf yn ystod y tri mis cyn allforio; neu<br>(b) na welwyd unrhyw symptomau Firws deildro melyn tomatos yn y man cynhyrchu, ac y bu'r man cynhyrchu yn destun triniaeth a chyfundrefn fonitro briodol i sicrhau ei fod yn rhydd rhag *Bemisia tabaci* Genn. |
| 83. | Planhigion, ac eithrio hadau, bylbiau, cloron, cormau neu risomau, a fwriedir ar gyfer eu plannu, sy'n tarddu o unrhyw drydedd wlad lle y gwyddys bod y plâu planhigion a ganlyn yn bresennol:<br>— Firws amryliw euraidd ffa,<br>— Firws brychni ysgafn pys y fuwch,<br>— Firws heintus melyn letys,<br>— Firws tigré ysgafn pupurau,<br>— Firws deildro sgwosh, neu | Rhaid i'r planhigion ddod gyda datganiad swyddogol na welwyd unrhyw symptomau'r plâu planhigion perthnasol yng ngholofn 2 o'r eitem hon ar y planhigion yn ystod eu cylch llystyfiant cyflawn |

| *(1)*<br><br>*Eitem* | *(2)*<br><br>*Disgrifiad o'r deunydd perthnasol* | *(3)*<br><br>*Gofynion glanio* |
|---|---|---|
| | — firysau eraill a drosglwyddir gan<br><br>*Bemisia tabaci* Genn., a lle y gwyddys nad yw *Bemisia tabaci* Genn. (poblogaethau heb fod yn rhai Ewropeaidd) neu fectorau eraill y plâu planhigion perthnasol yn bresennol | |
| 84. | Planhigion, ac eithrio hadau, bylbiau, cloron, cormau neu risomau, a fwriedir ar gyfer eu plannu, sy'n tarddu o unrhyw drydedd wlad lle y gwyddys bod y plâu planhigion a ganlyn yn bresennol:<br>— Firws amryliw euraidd ffa,<br>— Firws brychni ysgafn pys y fuwch,<br>— Firws heintus melyn letys,<br>— Firws tigré ysgafn pupurau,<br>— Firws deildro sgwosh, neu<br>— firysau eraill a drosglwyddir gan *Bemisia tabaci* Genn., a lle y gwyddys bod *Bemisia tabaci* Genn. (poblogaethau heb fod yn rhai Ewropeaidd) neu fectorau eraill y plâu planhigion perthnasol yn bresennol | Rhaid i'r planhigion ddod gyda datganiad swyddogol na welwyd unrhyw symptomau'r plâu planhigion perthnasol yng ngholofn 2 o'r eitem hon ar y planhigion yn ystod cyfnod digonol, ac:<br>(a) bod y planhigion yn tarddu o ardal y gwyddys ei bod yn rhydd rhag *Bemisia tabaci* Genn. a fectorau eraill y plâu planhigion;<br>(b) y canfuwyd bod y man cynhyrchu yn rhydd rhag *Bemisia tabaci* Genn. a fectorau eraill y plâu planhigion o gynnal arolygiadau swyddogol ar adegau priodol;<br>(c) bod y planhigion wedi bod yn destun triniaeth briodol gyda'r nod o ddileu *Bemisia tabaci* Genn.; neu<br>(d) bod y planhigion yn deillio o ddeunydd planhigion (allblaniad) sy'n rhydd rhag *Bemisia tabaci* Genn. (poblogaethau heb fod yn rhai Ewropeaidd) ac nad oeddent yn dangos unrhyw symptomau *Bemisia tabaci* Genn. (poblogaethau heb fod yn rhai Ewropeaidd), eu bod yn cael eu tyfu in vitro mewn cyfrwng tyfu sterilaidd o dan amodau sterilaidd sy'n atal y posibilrwydd o heigio â *Bemisia tabaci* Genn. (poblogaethau heb fod yn rhai Ewropeaidd) a'u bod yn cael eu cludo mewn cynwysyddion tryloyw o dan amodau sterilaidd |
| 85. | Hadau *Helianthus annuus* L., sy'n tarddu o unrhyw drydedd wlad | Rhaid i'r hadau ddod gyda datganiad swyddogol:<br>(a) eu bod yn tarddu o ardal y gwyddys ei bod yn rhydd rhag Plasmopara halstedii (Farlow) Berl. a de Toni; neu |

| *(1)*<br><br>*Eitem* | *(2)*<br><br>*Disgrifiad o'r deunydd perthnasol* | *(3)*<br><br>*Gofynion glanio* |
|---|---|---|
| | | (b) ac eithrio'r rheini a gynhyrchwyd ar amrywogaethau sydd ag ymwrthedd i bob hil *Plasmopara halstedii* (Farlow) Berl. a de Toni sy'n bresennol yn yr ardal gynhyrchu, y buont yn destun triniaeth briodol i atal *Plasmopara halstedii* (Farlow) Berl. a de Toni |
| 86. | Hadau *Solanum lycopersicum* L., sy'n tarddu o unrhyw drydedd wlad | Rhaid i'r hadau ddod gyda datganiad swyddogol eu bod wedi eu cael drwy ddull echdynnu ag asid priodol ac:<br>(a) eu bod yn tarddu o ardal lle y gwyddys nad yw *Clavibacter michiganensis* ssp. *michiganesnsis* (Smith) Davis et al., *Xanthomonas campestris* pv. *vesicatoria* (Doidge) Dye neu Firoid y gloronen bigfain yn bresennol;<br>(b) na welwyd unrhyw symptomau'r clefydau a achosir gan y plâu planhigion hynny ar y planhigion yn y man cynhyrchu yn ystod eu cylch llystyfiant cyflawn; neu<br>(c) y bu'r hadau yn destun profion swyddogol ar gyfer y plâu planhigion hynny o leiaf, sef profion ar sampl gynrychioliadol a chan ddefnyddio dulliau priodol, ac y canfuwyd eu bod yn rhydd rhag y plâu planhigion hynny |
| 87. | Hadau *Medicago sativa* L., sy'n tarddu o unrhyw drydedd wlad | Rhaid i'r hadau ddod gyda datganiad swyddogol:<br>(a) na welwyd unrhyw symptomau *Ditylenchus dipsaci* (Kühn) Filipjev yn y man cynhyrchu ers dechrau'r cylch llystyfiant cyflawn diweddaraf, ac na amlygwyd *Ditylenchus dipsaci* (Kühn) Filipjev gan brofion labordy ar sampl gynrychioliadol;<br>(b) bod yr hadau wedi eu mygdarthu cyn eu hallforio; neu<br>(c) y bu'r hadau yn destun triniaeth ffisegol briodol i atal *Ditylenchus dipsaci* (Kühn) Filipjev ac y canfuwyd eu bod yn rhydd rhag *Ditylenchus dipsaci* (Kühn) Filipjev |

| *(1)*<br><br>*Eitem* | *(2)*<br><br>*Disgrifiad o'r deunydd perthnasol* | *(3)*<br><br>*Gofynion glanio* |
|---|---|---|
| | | ar ôl cynnal profion labordy ar sampl gynrychioliadol |
| 88. | Hadau *Medicago sativa* L., sy'n tarddu o unrhyw drydedd wlad lle y gwyddys bod *Clavibacter michiganensis* ssp. *insidiosus* Davis et al. yn bresennol | Rhaid i'r hadau ddod gyda datganiad swyddogol:<br>(a) y gwyddys na fu *Clavibacter michiganensis* ssp. insidiosus Davis et al. yn bresennol ar y fferm neu yn ei chyffiniau agos ers dechrau'r 10 mlynedd ddiwethaf;<br>(b) naill ai:<br>(i) bod y cnwd yn perthyn i amrywogaeth y cydnabyddir ei bod ag ymwrthedd uchel i *Clavibacter michiganensis* ssp. *insidiosus* Davis *et al.;*<br>(ii) nad oedd wedi dechrau ei bedwerydd cylch llystyfiant cyflawn ers hau pan gafodd yr hadau eu cynaeafu, ac na fu mwy nag un cynhaeaf hadau blaenorol o'r cnwd; neu<br>(iii) nad yw cynnwys y deunydd anadweithiol a bennwyd yn unol â'r rheolau sy'n gymwys ar gyfer ardystio hadau a farchnetir yn yr Undeb Ewropeaidd yn fwy na 0.1% o ran pwysau;<br>(c) na welwyd unrhyw symptomau *Clavibacter michiganensis* ssp. insidiosus Davis et al. yn y man cynhyrchu, neu ar unrhyw gnwd Medicago sativa L. cyfagos, yn ystod y cylch llystyfiant cyflawn diweddaraf neu, pan fo'n briodol, yn ystod y ddau gylch llystyfiant diweddaraf; a<br>(d) y tyfwyd y cnwd ar dir lle na fu unrhyw gnwd *Medicago sativa* L. blaenorol yn bresennol yn ystod y tair blynedd ddiwethaf cyn hau |
| 89. | Hadau *Oryza sativa* L., sy'n tarddu o unrhyw drydedd wlad | Rhaid i'r hadau ddod gyda datganiad swyddogol:<br>(a) eu bod wedi eu profi yn swyddogol gan brofion nematolegol priodol a chanfuwyd eu bod yn rhydd rhag *Aphelenchoides besseyi* Christie; neu |

| *(1)* *Eitem* | *(2)* *Disgrifiad o'r deunydd perthnasol* | *(3)* *Gofynion glanio* |
|---|---|---|
| | | (b) y buont yn destun triniaeth briodol â dŵr poeth neu driniaeth briodol arall i atal *Aphelenchoides besseyi* Christie |
| 90. | Hadau *Phaseolus* L., sy'n tarddu o unrhyw drydedd wlad | Rhaid i'r hadau ddod gyda datganiad swyddogol:<br>(a) eu bod yn tarddu o ardal y gwyddys ei bod yn rhydd rhag *Xanthomonas campestris* pv. phaseoli (Smith) Dye; neu<br>(b) y profwyd sampl gynrychioliadol o'r hadau a chanfuwyd eu bod yn rhydd rhag *Xanthomonas campestris* pv. *phaseoli* (Smith) Dye |
| 91. | Hadau *Zea mays* L., sy'n tarddu o unrhyw drydedd wlad | Rhaid i'r hadau ddod gyda datganiad swyddogol:<br>(a) eu bod yn tarddu o ardal y gwyddys ei bod yn rhydd rhag *Erwinia stewartii* (Smith) Dye; neu<br>(b) y profwyd sampl gynrychioliadol o'r hadau a chanfuwyd eu bod yn rhydd rhag *Erwinia stewartii* (Smith) Dye |
| 92. | Hadau o'r genera *Triticum*, *Secale* neu *X Triticosecale* o Affganistan, India, Irac, Mecsico, Nepal, Pacistan, De Affrica neu UDA lle y gwyddys bod *Tilletia indica* Mitra yn bresennol | Rhaid i'r hadau ddod gyda datganiad swyddogol eu bod yn tarddu o ardal lle y gwyddys nad yw *Tilletia indica* Mitra yn bresennol, a rhaid crybwyll enw'r ardal ar y dystysgrif ffytoiechydol neu'r dystysgrif ffytoiechydol ar gyfer ailallforio |
| 93. | Grawn o'r genera *Triticum*, *Secale* neu *X Triticosecale* o Affganistan, India, Irac, Mecsico, Nepal, Pacistan, De Affrica neu UDA lle y gwyddys bod *Tilletia indica* Mitra yn bresennol | Rhaid i'r grawn ddod gyda datganiad swyddogol:<br>(a) ei fod yn tarddu o ardal lle y gwyddys nad yw *Tilletia indica* Mitra yn bresennol, a rhaid crybwyll enw'r ardal ar y dystysgrif ffytoiechydol neu'r dystysgrif ffytoiechydol ar gyfer ailallforio o dan y pennawd "place of origin"; neu<br>(b) na welwyd unrhyw symptomau *Tilletia indica* Mitra ar y planhigion yn y man cynhyrchu yn ystod eu cylch llystyfiant cyflawn diweddaraf ac y cymerwyd samplau cynrychioliadol o'r grawn ar adeg cynaeafu a chyn eu hanfon, a chynhaliwyd profion ar y samplau hynny a chanfuwyd eu bod yn rhydd |

| *(1)*<br><br>*Eitem* | *(2)*<br><br>*Disgrifiad o'r deunydd perthnasol* | *(3)*<br><br>*Gofynion glanio* |
|---|---|---|
| | | rhag *Tilletia indica* Mitra, a rhaid dangos tystiolaeth o hynny drwy nodi'r datganiad "tested and found free from Tilletia indica Mitra" ar y dystysgrif ffytoiechydol neu'r dystysgrif ffytoiechydol ar gyfer ailallforio o dan y pennawd "name of produce" |
| 94. | Planhigion sy'n dueddol o gael plâu neu glefydau o fewn ystyr Erthygl 1(2) o Benderfyniad 2002/757/EC sy'n tarddu o UDA | Rhaid i'r planhigion ddod gyda thystysgrif ffytoiechydol neu dystysgrif ffytoiechydol ar gyfer ailallforio sy'n cynnwys:<br>(a) datganiad swyddogol o dan y pennawd "Additional declaration":<br>(i) eu bod yn bodloni'r gofynion ym mhwynt 1a(a) neu 1a(b) o Atodiad I i Benderfyniad 2002/757/EC; a<br>(ii) y canfuwyd eu bod yn rhydd rhag arunigion heb fod yn rhai Ewropeaidd o *Phytophthora ramorum* Werres, De Cock a Man in't Veld sp. nov.; a<br>(b) pan fo pwynt 1a(a) o'r Atodiad hwnnw yn gymwys, enw'r ardal y maent yn tarddu ohoni o dan y pennawd "place of origin" |
| 95. | Planhigion sy'n dueddol o gael plâu neu glefydau o fewn ystyr Erthygl 1(b) o Benderfyniad 2007/365/EC sy'n tarddu o unrhyw drydedd wlad | Rhaid i'r planhigion ddod gyda thystysgrif ffytoiechydol neu dystysgrif ffytoiechydol ar gyfer ailallforio sy'n cynnwys datganiad swyddogol o dan y pennawd "Additional declaration" fod y planhigion, gan gynnwys y rheini a gasglwyd o gynefinoedd naturiol, yn bodloni'r gofynion a bennir ym mhwynt 1(a), (b) neu (c) o Atodiad I i Benderfyniad 2007/365/EC |
| 96. | Planhigion penodedig o fewn yr ystyr a roddir yn Erthygl 1(2) o Benderfyniad 2007/433/EC sy'n tarddu o unrhyw drydedd wlad | Rhaid i'r planhigion ddod gyda thystysgrif ffytoiechydol neu dystysgrif ffytoiechydol ar gyfer ailallforio sy'n cynnwys datganiad swyddogol o dan y pennawd "Additional declaration":<br>(a) eu bod yn tarddu o fan cynhyrchu sydd wedi ei gofrestru ac sy'n cael ei oruchwylio gan y sefydliad diogelu planhigion cenedlaethol yn y wlad y mae'r planhigion yn tarddu ohoni; a |

| *(1)*<br><br>*Eitem* | *(2)*<br><br>*Disgrifiad o'r deunydd perthnasol* | *(3)*<br><br>*Gofynion glanio* |
|---|---|---|
| | | (b) eu bod yn bodloni'r gofynion a bennir ym mhwynt 1(a), (b) neu (c) o Atodiad I i Benderfyniad 2007/433/EC |
| 97. | Planhigion penodedig o fewn ystyr Erthygl 1(a) o Benderfyniad 2012/138/EU sy'n tarddu o Tsieina | Rhaid i'r planhigion ddod gyda thystysgrif ffytoiechydol neu dystysgrif ffytoiechydol ar gyfer ailallforio sy'n cynnwys:<br>(a) datganiad swyddogol o dan y pennawd "Additional declaration" yn unol â phwynt 1 o Adran 1(B) o Atodiad I i Benderfyniad 2012/138/EU; a<br>(b) pan fo pwynt 1(b) o'r Adran honno yn gymwys, rhaid i fan cynhyrchu'r planhigion fodloni'r gofynion a bennir yn Erthygl 1(c) o Benderfyniad 2012/138/EU |
| 98. | Planhigion penodedig o fewn ystyr Erthygl 1(a) o Benderfyniad 2012/138/EU sy'n tarddu o unrhyw drydedd wlad lle y gwyddys bod *Anoplophora chinensis* (Forster) yn bresennol, ac eithrio Tsieina | Rhaid i'r planhigion ddod gyda thystysgrif ffytoiechydol neu dystysgrif ffytoiechydol ar gyfer ailallforio sy'n cynnwys:<br>(a) datganiad swyddogol o dan y pennawd "Additional declaration" yn unol â phwynt 1 o Adran 1(A) o Atodiad I i Benderfyniad 2012/138/EU; a<br>(b) pan fo pwynt 1(a) o'r Adran honno yn gymwys, enw'r ardal berthnasol sy'n rhydd rhag plâu o dan y pennawd "place of origin" |
| 99. | Cloron *Solanum tuberosum* L., a fwriedir ar gyfer eu plannu, sy'n tarddu o unrhyw drydedd wlad lle y gwyddys bod *Epitrix cucumeris* (Harris), *Epitrix papa* sp.n, *Epitrix subcrinita* (Lec.) neu *Epitrix tuberis* (Gentner) yn bresennol | Rhaid i'r cloron ddod gyda thystysgrif ffytoiechydol sy'n cynnwys datganiad swyddogol o dan y pennawd "Additional declaration" yn unol ag Adran 1 o Atodiad I i Benderfyniad 2012/270/EU |
| 100. | Planhigion, ac eithrio hadau, a fwriedir ar gyfer eu plannu, na allant ond tyfu mewn dŵr neu bridd sydd wedi ei drwytho â dŵr yn barhaol, ac sy'n tarddu o unrhyw drydedd wlad | Rhaid i'r planhigion ddod gyda thystysgrif ffytoiechydol sy'n cynnwys datganiad swyddogol o dan y pennawd "Additional declaration" yn unol ag Adran I o Atodiad I i Benderfyniad 2012/697/EU |
| 101. | Paill byw *Actinidia* Lindl. neu blanhigion, ac eithrio hadau, *Actinidia* Lindl, a fwriedir ar gyfer | Rhaid i'r paill byw neu'r planhigion ddod gyda thystysgrif ffytoiechydol sy'n cynnwys datganiad swyddogol o dan y pennawd "Additional declaration" yn unol |

| *(1)*<br><br>*Eitem* | *(2)*<br><br>*Disgrifiad o'r deunydd perthnasol* | *(3)*<br><br>*Gofynion glanio* |
|---|---|---|
| | eu plannu, sy'n tarddu o unrhyw drydedd wlad | ag Adran I o Atodiad I i Benderfyniad (EU) 2017/198 |
| 102. | Planhigion penodedig o fewn ystyr Erthygl 1(c) o Benderfyniad (EU) 2015/789 sy'n tarddu o unrhyw drydedd wlad, ac eithrio trydedd wlad lle y gwyddys bod Xylella fastidiosa (Wells et al.) yn bresennol | Rhaid i'r planhigion:<br>(a) tarddu o drydedd wlad yr hysbyswyd y Comisiwn Ewropeaidd amdani gan y sefydliad diogelu planhigion cenedlaethol perthnasol yn unol ag Erthygl 16(a) o Benderfyniad (EU) 2015/789; a<br>(b) dod gyda thystysgrif ffytoiechydol sy'n cynnwys datganiad swyddogol o dan y pennawd "Additional declaration";<br>(i) yn unol ag Erthygl 16(b) o'r Penderfyniad hwnnw; neu<br>(ii) yn achos planhigion, ac eithrio hadau, a fwriedir ar gyfer eu plannu, *Coffea*, *Lavandula dentata* L., *Nerium oleander* L., *Olea europaea* L., *Polygala myrtifolia* L. neu *Prunus dulcis* (Mill.) D.A. Webb, yn unol ag Erthygl 16(b) a'r ail is-baragraff o Erthygl 16 o'r Penderfyniad hwnnw |
| 103. | Planhigion penodedig o fewn ystyr Erthygl 1(c) o Benderfyniad (EU) 2015/789 sy'n tarddu o unrhyw drydedd wlad lle y gwyddys bod Xylella fastidiosa (Wells et al.) yn bresennol | Rhaid i'r planhigion ddod gyda thystysgrif ffytoiechydol sy'n cynnwys:<br>(a) yn achos planhigion sy'n tarddu o ardal a sefydlwyd fel ardal sy'n rhydd rhag *Xylella fastidiosa* (Wells et al.) yn unol ag ISPM Rhif 4 ac yr hysbyswyd y Comisiwn Ewropeaidd amdani gan y sefydliad diogelu planhigion cenedlaethol perthnasol yn unol ag Erthygl 17(2)(a) o Benderfyniad (EU) 2015/789, enw'r ardal o dan y pennawd "place of origin";<br>(b) yn achos planhigion sy'n tarddu o ardal lle y gwyddys bod *Xylella fastidiosa* (Wells et al.) yn bresennol a phan na fo'r planhigion wedi eu tyfu in vitro am eu cylch cynhyrchu cyfan:<br>(i) datganiad swyddogol o dan y pennawd "Additional declaration" yn unol ag |

| *(1)*<br><br>*Eitem* | *(2)*<br><br>*Disgrifiad o'r deunydd perthnasol* | *(3)*<br><br>*Gofynion glanio* |
|---|---|---|
| | | Erthygl 17(3) o'r Penderfyniad hwnnw; a<br>(ii) enw'r safle y mae'r planhigion yn tarddu ohono o dan y pennawd "place of origin";<br>(c) yn achos planhigion sy'n tarddu o ardal lle y gwyddys bod Xylella fastidiosa (Wells et al.) yn bresennol a'u bod wedi eu tyfu in vitro am eu cylch cynhyrchu cyfan:<br>(i) datganiad swyddogol o dan y pennawd "Additional declaration" yn unol ag Erthygl 17(3a) o'r Penderfyniad hwnnw; a<br>(ii) enw'r safle y mae'r planhigion yn tarddu ohono o dan y pennawd "place of origin" |
| 104. | Planhigion, ac eithrio hadau, *Mangifera* L. sy'n tarddu o India | Rhaid i'r planhigion ddod gyda thystysgrif ffytoiechydol sy'n cynnwys datganiad swyddogol o dan y pennawd "Additional declaration" sy'n disgrifio'r mesurau priodol a gymerwyd i sicrhau eu bod yn rhydd rhag organeddau niweidiol |
| 105. | Planhigion penodedig o fewn ystyr Erthygl 1(a) o Benderfyniad (EU) 2015/893 sy'n tarddu o unrhyw drydedd wlad lle y gwyddys bod *Anoplophora glabripennis* (Motschulsky) yn bresennol | Rhaid i'r planhigion ddod gyda thystysgrif ffytoiechydol neu dystysgrif ffytoiechydol ar gyfer ailallforio sy'n cynnwys—<br>(a) datganiad swyddogol o dan y pennawd "Additional declaration" eu bod yn bodloni'r gofynion a bennir ym mhwynt (1)(a), (b) neu (c) o Adran 1(A) o Atodiad II i Benderfyniad (EU) 2015/893; a<br>(b) pan fo pwynt (1)(a) o'r Adran honno yn gymwys, enw'r ardal berthnasol sy'n rhydd rhag plâu o dan y pennawd "place of origin" |
| 106. | Planhigion Fraxinus L., a fwriedir ar gyfer eu plannu sy'n tarddu o unrhyw drydedd wlad | Rhaid i'r planhigion ddod gyda thystysgrif ffytoiechydol a ddyroddwyd gan y sefydliad diogelu planhigion cenedlaethol yn y wlad y mae'r planhigion yn tarddu ohoni ac sy'n cynnwys datganiad swyddogol, o dan y pennawd "Additional declaration", bod y planhigion wedi eu tyfu drwy gydol eu bywyd mewn ardal a sefydlwyd yn ardal sy'n rhydd, ac y cedwir yn rhydd, rhag *Chalara fraxinea* |

| *(1)*<br><br>*Eitem* | *(2)*<br><br>*Disgrifiad o'r deunydd perthnasol* | *(3)*<br><br>*Gofynion glanio* |
|---|---|---|
| | | T. Kowalski (gan gynnwys ei deleomorff *Hymenoscyphus pseudoalbidus*) yn unol ag ISPM Rhif 4 |

# RHAN B

## Deunydd perthnasol, o'r Undeb Ewropeaidd, na chaniateir dod ag ef i Gymru na'i symud o fewn Cymru oni chydymffurfir â gofynion arbennig

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I55** Atod. 4 Rhn. B mewn grym ar 2.11.2018, gweler **ergl. 1(2)**

| *(1)*<br><br>*Eitem* | *(2)*<br><br>*Disgrifiad o'r deunydd perthnasol* | *(3)*<br><br>*Gofynion o ran cyflwyno* |
|---|---|---|
| 1. | Planhigion, ac eithrio hadau, *Pinus* L., a fwriedir ar gyfer eu plannu | Rhaid i'r planhigion ddod gyda datganiad swyddogol na welwyd unrhyw symptomau *Scirrhia pini* Funk a Parker yn y man cynhyrchu neu yn ei gyffiniau agos ers dechrau'r cylch llystyfiant cyflawn diweddaraf |
| 2. | Planhigion, ac eithrio hadau, *Abies* Mill., *Larix* Mill., *Picea* A. Dietr., *Pinus* L., *Pseudotsuga* Carr. neu *Tsuga* Carr., a fwriedir ar gyfer eu plannu | Rhaid i'r planhigion ddod gyda datganiad swyddogol na welwyd unrhyw symptomau *Melampsora medusae* Thümen yn y man cynhyrchu neu yn ei gyffiniau agos ers dechrau'r cylch llystyfiant cyflawn diweddaraf |
| 3. | Planhigion, ac eithrio hadau, *Populus* L., a fwriedir ar gyfer eu plannu | Rhaid i'r planhigion ddod gyda datganiad swyddogol na welwyd unrhyw symptomau *Melampsora medusae* Thümen yn y man cynhyrchu neu yn ei gyffiniau agos ers dechrau'r cylch llystyfiant cyflawn diweddaraf |
| 4. | Planhigion, ac eithrio hadau, *Castanea* Mill, neu *Quercus* L., a fwriedir ar gyfer eu plannu | Rhaid i'r planhigion ddod gyda datganiad swyddogol:<br>(a) eu bod yn tarddu o ardal y gwyddys ei bod yn rhydd rhag *Cryphonectria parasitica* (Murrill) Barr; neu<br>(b) na welwyd unrhyw symptomau *Cryphonectria parasitica* (Murrill) Barr yn y man cynhyrchu neu yn ei gyffiniau agos ers dechrau'r cylch llystyfiant cyflawn diweddaraf |

| *(1)*<br><br>*Eitem* | *(2)*<br><br>*Disgrifiad o'r deunydd perthnasol* | *(3)*<br><br>*Gofynion o ran cyflwyno* |
|---|---|---|
| 5. | Planhigion, ac eithrio hadau, *Platanus* L., a fwriedir ar gyfer eu plannu | Rhaid i'r planhigion ddod gyda datganiad swyddogol:<br>(a) eu bod yn tarddu o ardal y gwyddys ei bod yn rhydd rhag *Ceratocystis platani* (J.M. Walter) Engelbr. a T.C. Harr.; neu<br>(b) na welwyd unrhyw symptomau *Ceratocystis platani* (J.M. Walter) Engelbr. a T.C. Harr. yn y man cynhyrchu neu yn ei gyffiniau agos ers dechrau'r cylch llystyfiant cyflawn diweddaraf |
| 6. | Planhigion, ac eithrio hadau, *Ulmus* L., a fwriedir ar gyfer eu plannu | Rhaid i'r planhigion ddod gyda datganiad swyddogol na welwyd unrhyw symptomau *Candidatus* Phytoplasma ulmi yn y man cynhyrchu neu yn ei gyffiniau agos ers dechrau'r cylch llystyfiant cyflawn diweddaraf |
| 7. | Planhigion, ac eithrio hadau, *Amelanchier* Med., *Chaenonmeles* Lindl., *Cotoneaster* Ehrh., *Crataegus* L., *Cydonia* Mill., *Eriobotrya* Lindl., *Malus* Mill., *Mespilus* L., *Photinia davidiana* (Dcne.) Cardot, *Pyracantha* Roem., *Pyrus* L. neu *Sorbus* L., a fwriedir ar gyfer eu plannu | Rhaid i'r planhigion ddod gyda datganiad swyddogol:<br>(a) eu bod yn tarddu o barth y cydnabyddir ei fod yn rhydd rhag *Erwinia amylovora* (Burr.) Winsl. *et al.*; neu<br>(b) bod y planhigion yn y cae cynhyrchu neu yn ei gyffiniau agos sydd wedi dangos symptomau *Erwinia amylovora* (Burr.) Winsl. *et al.* wedi eu clirio |
| 8. | Planhigion, ac eithrio ffrwythau neu hadau, *Citrus* L., *Fortunella* Swingle neu *Poncirus* Raf. | Rhaid i'r planhigion ddod gyda datganiad swyddogol:<br>(a) eu bod yn tarddu o ardal y gwyddys ei bod yn rhydd rhag *Spiroplasma citri* Saglio *et al.*, *Phoma tracheiphila* (Petri) Kanchaveli a Gikashvili a Firws *Citrus tristeza* (mathau Ewropeaidd);<br>(b) bod y planhigion yn deillio o gynllun ardystio sy'n ei gwneud yn ofynnol iddynt ddeillio drwy linach uniongyrchol o ddeunydd sydd wedi ei gadw o dan amodau priodol ac a fu'n destun profion unigol swyddogol ar gyfer, o leiaf, Firws *Citrus tristeza* (mathau Ewropeaidd), gan ddefnyddio profion neu ddulliau priodol yn |

| *(1)* <br> *Eitem* | *(2)* <br> *Disgrifiad o'r deunydd perthnasol* | *(3)* <br> *Gofynion o ran cyflwyno* |
|---|---|---|
| | | unol â safonau rhyngwladol, a'u bod wedi bod yn tyfu yn barhaol mewn tŷ gwydr neu gaets arunig sy'n ddiogel rhag pryfed lle na welwyd unrhyw symptomau *Spiroplasma citri* Saglio *et al*., *Phoma tracheiphila* (Petri) Kanchaveli a Gikashvili neu Firws *Citrus tristeza* (mathau Ewropeaidd); neu <br> (c) eu bod: <br> (i) wedi deillio o gynllun ardystio sy'n ei gwneud yn ofynnol iddynt ddeilio drwy linach uniongyrchol o ddeunydd sydd wedi ei gadw o dan amodau priodol ac a fu'n destun profion unigol swyddogol ar gyfer, o leiaf, Firws *Citrus tristeza* (mathau Ewropeaidd), gan ddefnyddio profion neu ddulliau priodol yn unol â safonau rhyngwladol, ac y canfuwyd eu bod yn rhydd rhag Firws *Citrus tristeza* (mathau Ewropeaidd) ac ardystiwyd eu bod yn rhydd rhag o leiaf Firws *Citrus tristeza* (mathau Ewropeaidd) mewn profion unigol swyddogol a gynhaliwyd yn unol â'r dulliau a grybwyllir yn y paragraff hwn; a <br> (ii) wedi eu harolygu ac na welwyd unrhyw symptomau *Spiroplasma citri* Saglio *et al*., *Phoma tracheiphila* (Petri) Kanchaveli a Gikashvili neu Firws *Citrus tristeza* (mathau Ewropeaidd) ers dechrau'r cylch llystyfiant cyflawn diweddaraf |
| 9. | Planhigion, ac eithrio ffrwythau neu hadau, *Citrus* L., *Choisya* Kunth, *Fortunella* Swingle, *Poncirus* Raf., *Casimiroa* La Llave, *Clausena* Burm. f., *Murraya* J. Koenig ex L., *Vepris* Comm., neu *Zanthoxylum* L. | Rhaid i'r planhigion ddod gyda datganiad swyddogol: <br> (a) eu bod yn tarddu o ardal sy'n rhydd rhag *Trioza erytreae* Del Guercio, sef ardal a sefydlwyd gan y sefydliad diogelu planhigion |

| *(1)*<br>*Eitem* | *(2)*<br>*Disgrifiad o'r deunydd perthnasol* | *(3)*<br>*Gofynion o ran cyflwyno* |
|---|---|---|
| | | cenedlaethol yn unol ag ISPM Rhif 4;<br>(b) eu bod wedi eu tyfu mewn man cynhyrchu:<br>(i) sydd wedi ei gofrestru a'i oruchwylio gan yr awdurdod cymwys perthnasol yn yr Aelod-wladwriaeth y mae'r planhigion yn tarddu ohoni;<br>(ii) lle gosodwyd y planhigion mewn safle sydd wedi ei ddiogelu yn llwyr yn ffisegol rhag cyflwyno *Trioza erytreae* Del Guercio; a<br>(iii) lle y cynhaliwyd dau arolygiad swyddogol ar adegau priodol yn ystod y cylch llystyfiant cyflawn diweddaraf cyn eu symud o'r safle, ac na welwyd unrhyw arwyddion o'r pla planhigion hwnnw yn y safle hwnnw neu yn yr ardal oddi amgylch hyd at o leiaf 200m o led |
| 10. | Planhigion Araceae, Marantaceae, Musaceae, *Persea* spp. neu Strelitziaceae, sydd â gwreiddiau neu sy'n gysylltiedig â chyfrwng tyfu neu yr ymddengys iddynt fod mewn cysylltiad â chyfrwng tyfu | Rhaid i'r planhigion ddod gyda datganiad swyddogol:<br>(a) na welwyd unrhyw halogi gan *Radopholus similis* (Cobb) Thorne yn y man cynhyrchu ers dechrau'r cylch llystyfiant cyflawn diweddaraf; neu<br>(b) y bu pridd a gwreiddiau o'r planhigion a amheuir yn destun, ers dechrau'r cylch llystyfiant cyflawn diweddaraf, i brofion nematolegol swyddogol ar gyfer o leiaf *Radopholus similis* (Cobb) Thorne ac y canfuwyd eu bod yn rhydd rhag y pla planhigion hwnnw |
| 11. | Planhigion, ac eithrio hadau, *Fragaria* L., *Prunus* L. neu *Rubus* L., a fwriedir ar gyfer eu plannu | Rhaid i'r planhigion ddod gyda datganiad swyddogol:<br>(c) eu bod yn tarddu o ardal y gwyddys ei bod yn rhydd rhag y plâu planhigion a ganlyn:<br>(i) yn achos *Fragaria* L.:<br>— Phytophthora fragariae Hickman var. fragariae,<br>— Firws amryliw Arabis,<br>— Firws crwn mafon, |

| *(1)*<br><br>*Eitem* | *(2)*<br><br>*Disgrifiad o'r deunydd perthnasol* | *(3)*<br><br>*Gofynion o ran cyflwyno* |
|---|---|---|
| | | — Firws crych mefus,<br>— Firws crwn cudd mefus,<br>— Firws minfelyn ysgafn mefus,<br>— Firws crwn du tomatos,<br>— Xanthomonas fragariae Kennedy a King;<br>(ii) yn achos *Prunus* L.:<br>— Mycoplasm crychni dail clorotig bricyll,<br>— Xanthomonas arboricola pv. pruni (Smith) Vauterin et al;<br>(iii) yn achos *Prunus persica* (L.) Batsch:<br>— Pseudomonas syringae pv. persicae (Prunier et al.) Young et al.; a<br>(iv) yn achos *Rubus* L.:<br>— Firws amryliw Arabis,<br>— Firws crwn mafon,<br>— Firws crwn cudd mefus,<br>— Firws crwn du tomatos; neu<br>(d) na welwyd unrhyw symptomau clefydau a achosir gan y plâu planhigion ym mharagraff (a) ar blanhigion yn y man cynhyrchu ers dechrau'r cylch llystyfiant cyflawn diweddaraf |
| 12. | Planhigion, ac eithrio hadau, *Cydonia* Mill. neu *Pyrus* L., a fwriedir ar gyfer eu plannu | Rhaid i'r planhigion ddod gyda datganiad swyddogol:<br>(a) eu bod yn tarddu o ardal y gwyddys ei bod yn rhydd rhag Mycoplasm dirywiad gellyg; neu<br>(b) bod planhigion yn y man cynhyrchu neu yn ei gyffiniau agos sydd wedi dangos symptomau sy'n codi amheuon o halogi gan Fycoplasma dirywiad gellyg wedi eu clirio o'r man hwnnw o fewn y tri chylch llystyfiant cyflawn diweddaraf |
| 13. | Planhigion, ac eithrio hadau, *Fragaria* L., a fwriedir ar gyfer eu plannu | Rhaid i'r planhigion ddod gyda datganiad swyddogol:<br>(a) eu bod yn tarddu o ardal y gwyddys ei bod yn rhydd rhag *Aphelenchoides besseyi* Christie; |

| *(1)* Eitem | *(2)* Disgrifiad o'r deunydd perthnasol | *(3)* Gofynion o ran cyflwyno |
|---|---|---|
| | | (b) na welwyd unrhyw symptomau *Aphelenchoides besseyi* Christie ar blanhigion yn y man cynhyrchu ers dechrau'r cylch llystyfiant cyflawn diweddaraf; neu<br>(c) yn achos planhigion mewn meithriniad meinwe, bod y planhigion yn deillio o blanhigion sy'n cydymffurfio â pharagraff (b) neu wedi eu profi yn swyddogol drwy ddulliau nematolegol priodol ac y canfuwyd eu bod yn rhydd rhag *Aphelenchoides besseyi* Christie |
| 14. | Planhigion, ac eithrio hadau, *Malus* Mill., a fwriedir ar gyfer eu plannu | Rhaid i'r planhigion ddod gyda datganiad swyddogol:<br>(a) eu bod yn tarddu o ardal y gwyddys ei bod yn rhydd rhag Mycoplasm ymlediad afalau; neu<br>(b) ac eithrio'r planhigion a dyfwyd o hadau, eu bod:<br>(i) wedi eu hardystio yn swyddogol o dan gynllun ardystio sy'n ei gwneud yn ofynnol iddynt ddeillio drwy linach uniongyrchol o ddeunydd a gadwyd o dan amodau priodol ac a fu'n destun profion swyddogol ar gyfer o leiaf Mycoplasm ymlediad afalau gan ddefnyddio dangosyddion priodol neu ddulliau cyfatebol ac y canfuwyd ei fod yn rhydd rhag y pla planhigion hwnnw; neu<br>(ii) yn deillio drwy linach uniongyrchol o ddeunydd a gadwyd o dan amodau priodol ac a fu, o leiaf unwaith yn ystod y chwe chylch llystyfiant cyflawn diweddaraf, yn destun profion swyddogol ar gyfer o leiaf Mycoplasm ymlediad afalau gan ddefnyddio dangosyddion priodol neu ddulliau cyfatebol ac y |

| *(1)* *Eitem* | *(2)* *Disgrifiad o'r deunydd perthnasol* | *(3)* *Gofynion o ran cyflwyno* |
|---|---|---|
| | | canfuwyd ei fod yn rhydd rhag y pla planhigion hwnnw; ac<br>(c) na welwyd unrhyw symptomau clefydau a achosir gan Fycoplasma ymlediad afalau ar blanhigion yn y man cynhyrchu, neu yn ei gyffiniau agos ar blanhigion sy'n dueddol o gael plâu neu glefydau, ers dechrau'r tri chylch llystyfiant cyflawn diweddaraf |
| 15. | Planhigion, ac eithrio hadau, y rhywogaethau *Prunus* L. a ganlyn a fwriedir ar gyfer eu plannu:<br>— *Prunus amygdalus* Batsch,<br>— *Prunus armeniaca* L.,<br>— *Prunus blireiana* Andre,<br>— *Prunus brigantina* Vill.,<br>— *Prunus cerasifera* Ehrh.,<br>— *Prunus cistena* Hansen,<br>— *Prunus curdica* Fenzl a Fritsch.,<br>— *Prunus domestica* spp.*domestica* L.,<br>— *Prunus domestica* spp. *insititia* (L.) C.K. Schneid.,<br>— *Prunus domestica* spp. *italica* (Borkh.) Hegi.,<br>— *Prunus glandulosa* Thunb.,<br>— *Prunus holosericea* Batal.,<br>— *Prunus hortulana* Bailey,<br>— *Prunus japonica* Thunb.,<br>— *Prunus mandshurica* (Maxim.) Koehne,<br>— *Prunus maritima* Marsh.,<br>— *Prunus mume* Sieb. a Zucc.,<br>— *Prunus nigra* Ait.,<br>— *Prunus persica* (L.) Batsch.,<br>— *Prunus salicina* L.,<br>— *Prunus sibirica* L.,<br>— *Prunus simonii* Carr.,<br>— Prunus spinosa L.,<br>— Prunus tomentosa Thunb.,<br>— *Prunus triloba* Lindl., neu<br>— rhywogaethau eraill *Prunus* L. sy'n dueddol o gael Firws brech eirin | Rhaid i'r planhigion ddod gyda datganiad swyddogol:<br>(a) eu bod yn tarddu o ardal y gwyddys ei bod yn rhydd rhag Firws brech eirin;<br>(b) ac eithrio'r planhigion a dyfwyd o hadau, eu bod:<br>(i) wedi eu hardystio yn swyddogol o dan gynllun ardystio sy'n ei gwneud yn ofynnol iddynt ddeillio drwy linach uniongyrchol o ddeunydd a gadwyd o dan amodau priodol ac a fu'n destun profion swyddogol ar gyfer o leiaf Firws brech eirin gan ddefnyddio dangosyddion priodol neu ddulliau cyfatebol ac y canfuwyd ei fod yn rhydd rhag y pla planhigion hwnnw; neu<br>(ii) yn deillio drwy linach uniongyrchol o ddeunydd a gadwyd o dan amodau priodol ac a fu, o leiaf unwaith yn ystod y tri chylch llystyfiant cyflawn diweddaraf, yn destun profion swyddogol ar gyfer o leiaf Firws brech eirin gan ddefnyddio dangosyddion priodol neu ddulliau cyfatebol ac y canfuwyd ei fod yn rhydd rhag y pla planhigion hwnnw; ac<br>(c) na welwyd unrhyw symptomau'r clefyd a achosir gan Firws brech |

| *(1)* <br> *Eitem* | *(2)* <br> *Disgrifiad o'r deunydd perthnasol* | *(3)* <br> *Gofynion o ran cyflwyno* |
|---|---|---|
| | | eirin ar blanhigion yn y man cynhyrchu, neu ar blanhigion yn ei gyffiniau agos sy'n dueddol o gael plâu neu glefydau, ers dechrau'r tri chylch llystyfiant cyflawn diweddaraf; a <br> (d) bod planhigion yn y man cynhyrchu sydd wedi dangos symptomau clefydau a achosir gan firysau eraill neu bathogenau sy'n debyg i firysau wedi eu clirio |
| 16. | Planhigion, ac eithrio ffrwythau neu hadau, *Vitis* L. | Rhaid i'r planhigion ddod gyda datganiad swyddogol na welwyd unrhyw symptomau *Flavescence dorée* MLO gwinwydd neu *Xylophilus ampelinus* (Panagopoulos) Willems *et al.* ar y planhigion tarddiol yn y man cynhyrchu ers dechrau'r ddau gylch llystyfiant cyflawn diweddaraf |
| 17. | Cloron *Solanum tuberosum* L., a fwriedir ar gyfer eu plannu | Rhaid i'r cloron ddod gyda datganiad swyddogol: <br> (a) y cydymffurfiwyd â darpariaethau'r Undeb Ewropeaidd i atal *Synchytrium endobioticum* (Schilbersky) Percival; <br> (b) eu bod yn tarddu o ardal y gwyddys ei bod yn rhydd rhag *Clavibacter michiganensis* spp. *sepedonicus* (Spieckermann a Kottoff) Davis *et al.* neu y cydymffurfiwyd â darpariaethau'r Undeb Ewropeaidd i atal *Clavibacter michiganensis spp. sepedonicus*(Spieckermann a Kottoff) Davis *et al.*; <br> (c) eu bod yn tarddu o ardal: <br> (i) lle y gwyddys nad yw *Ralstonia solanacearum* (Smith) Yabuuchi *et al.* yn bresennol; neu <br> (ii) lle y gwyddys bod *Ralstonia solanacearum* (Smith) Yabuuchi *et al.* yn bresennol, a bod y cloron yn tarddu o fan cynhyrchu y canfuwyd ei fod yn rhydd rhag *Ralstonia solanacearum* (Smith) Yabuuchi *et al.*, neu yr ystyrir ei fod yn rhydd rhag |

| *(1)* Eitem | *(2)* Disgrifiad o'r deunydd perthnasol | *(3)* Gofynion o ran cyflwyno |
|---|---|---|
| | | *Ralstonia solanacearum* (Smith) Yabuuchi *et al*. o ganlyniad i roi gweithdrefn briodol ar waith gyda'r nod o ddileu *Ralstonia solanacearum* (Smith) Yabuuchi *et al*.; a<br>(d) eu bod yn tarddu o ardal lle y gwyddys nad yw *Meloidogyne chitwoodi* Golden *et al.* (pob poblogaeth) na *Meloidogyne fallax* Karssen yn bresennol neu ardal lle y gwyddys bod *Meloidogyne chitwoodi* Golden *et al*. (pob poblogaeth) neu *Meloidogyne fallax* Karssen yn bresennol a:<br>(i) eu bod yn tarddu o fan cynhyrchu y canfuwyd ei fod yn rhydd rhag *Meloidogyne chitwoodi* Golden *et al.* (pob poblogaeth) a *Meloidogyne fallax* Karssen yn seiliedig ar arolwg blynyddol o'r cnydau cynhaliol drwy gynnal arolygiad gweledol o'r planhigion cynhaliol ar adegau priodol a thrwy arolygiad gweledol allanol a thrwy dorri'r cloron ar ôl eu cynaeafu o gnydau tatws a dyfwyd yn y man cynhyrchu; neu<br>(ii) bod y cloron, ar ôl cynaeafu, wedi eu hapsamplu a'u gwirio am bresenoldeb symptomau ar ôl defnyddio dull priodol i achosi symptomau, neu wedi bod yn destun profion labordy, yn ogystal ag arolygiad gweledol allanol a thrwy dorri'r cloron, ar adegau priodol ac ym mhob achos ar adeg selio'r pecynnau neu'r cynwysyddion cyn eu marchnata yn unol â'r darpariaethau ynghylch selio yng Nghyfarwyddeb y Cyngor 2002/56/EC ar |

| *(1)* *Eitem* | *(2)* *Disgrifiad o'r deunydd perthnasol* | *(3)* *Gofynion o ran cyflwyno* |
|---|---|---|
| | | farchnata tatws hadyd(**33**), ac na chanfuwyd unrhyw symptomau *Meloidogyne chitwoodi* Golden *et al.* (pob poblogaeth) neu *Meloidogyne fallax* Karssen |
| 18. | Cloron *Solanum tuberosum* L., a fwriedir ar gyfer eu plannu, ac eithrio'r rheini sydd i'w plannu yn unol ag Erthygl 4(4)(b) o Gyfarwyddeb 2007/33/EC | Rhaid i'r cloron ddod gyda datganiad swyddogol y cydymffurfir â darpariaethau'r Undeb Ewropeaidd i atal *Globodera pallida* (Stone) Behrens a *Globodera rostochiensis* (Wollenweber) Behrens |
| 19. | Cloron *Solanum tuberosum* L., a fwriedir ar gyfer eu plannu, ac eithrio cloron y rhywogaethau hynny a dderbynnir mewn un neu ragor o Aelod-wladwriaethau yn unol â Chyfarwyddeb y Cyngor 2002/53/EC ar y catalog cyffredin o amrywogaethau rhywogaethau planhigion amaethyddol(**34**) | Rhaid i'r cloron ddod gyda datganiad swyddogol eu bod:<br>(a) yn perthyn i ddetholiadau datblygedig, gyda datganiad o'r fath wedi ei nodi mewn ffordd briodol ar y ddogfen sy'n mynd gyda'r cloron;<br>(b) wedi eu cynhyrchu yn yr Undeb Ewropeaidd;<br>(c) wedi deillio drwy linach uniongyrchol o ddeunydd a gadwyd o dan amodau priodol ac a fu'n destun profion cwarantin swyddogol yn yr Undeb Ewropeaidd yn unol â dulliau priodol ac y canfuwyd eu bod yn rhydd rhag plâu planhigion |
| 20. | Planhigion o rywogaethau *Solanum* L., sy'n ffurfio stolon neu gloron, a fwriedir ar gyfer eu plannu, ac eithrio'r cloron *Solanum tuberosum* L. hynny a bennir yng ngholofn 2 o eitemau 17 i 19, gyda deunydd cynnal meithriniad yn cael ei gadw mewn cronfeydd genynnau neu gasgliadau o stoc genetig neu hadau *Solanum tuberosum* L., a bennir yng ngholofn 2 o eitem 21 | Rhaid i'r planhigion fod wedi eu cadw o dan amodau cwarantin a:<br>(a) rhaid eu bod wedi eu canfod yn rhydd rhag unrhyw blâu planhigion mewn profion cwarantin a oedd:<br>(i) wedi eu goruchwylio gan gorff swyddogol cyfrifol yr Aelod-wladwriaeth dan sylw ac wedi eu cynnal gan staff y sefydliad hwnnw sydd wedi cael hyfforddiant gwyddonol, neu gan staff unrhyw gorff a gymeradwyir yn swyddogol sydd wedi cael hyfforddiant o'r fath; |

(**33**) OJ Rhif L 193, 20.7.2002, t. 60, y mae iddo ddiwygiadau nad ydynt yn berthnasol i'r Gorchymyn hwn.
(**34**) OJ Rhif L 193, 20.7.2002, t. l, fel y'i diwygiwyd gan Reoliad (EC) Rhif 1829/2003 Senedd Ewrop a'r Cyngor (OJ Rhif L 268, 18.10.2003, t. 1).

| *(1)* *Eitem* | *(2)* *Disgrifiad o'r deunydd perthnasol* | *(3)* *Gofynion o ran cyflwyno* |
|---|---|---|
| | | (ii) wedi eu cynnal ar safle sydd â chyfleusterau priodol sy'n ddigonol i atal plâu planhigion a chadw'r deunydd, gan gynnwys planhigion dangosol, mewn modd sy'n atal unrhyw risg o ledaenu plâu planhigion;<br>(iii) wedi eu cynnal ar bob uned o'r deunydd:<br>(aa) drwy gynnal archwiliadau gweledol ar adegau rheolaidd yn ystod hyd cyfan o leiaf un cylch llystyfiant, gan roi sylw i'r math o ddeunydd a'i gam datblygu yn ystod y rhaglen brofi, ar gyfer symptomau a achosir gan blâu planhigion; a<br>(bb) drwy gynnal profion:<br>— yn achos pob deunydd tatws ar gyfer o leiaf:<br>— Firws cudd tatws Andeaidd,<br>— Firws Arracacha B. math oca,<br>— Firws crwn du tatws,<br>— Firoid y gloronen bigfain,<br>— Firws tatws T,<br>— Firws brychni tatws Andeaidd<br>— firysau cyffredin tatws A, M, S, V, X ac Y (gan gynnwys Y°, Yn ac Yc) a Firws crychni dail tatws,<br>— Clavibacter michiganensis spp. sepedonicus (Spieckermann a Kottoff) Davis et al.<br>— Ralstonia solanacearum |

| *(1)* Eitem | *(2)* Disgrifiad o'r deunydd perthnasol | *(3)* Gofynion o ran cyflwyno |
|---|---|---|
| | | (Smith) Yabuuchi et al.;<br>— yn achos hadau *Solanum tuberosum* L., ac eithrio'r rheini a bennir yng ngholofn 2 o eitem 21, ar gyfer y firysau a'r firoid a restrir uchod o leiaf; a<br>(iv) wedi cynnwys profion priodol ar unrhyw symptom arall a welwyd yn yr archwiliad gweledol er mwyn adnabod y plâu planhigion sydd wedi achosi symptomau o'r fath;<br>(b) rhaid i unrhyw ddeunydd y canfuwyd nad oedd yn rhydd, o dan y profion y cyfeirir atynt ym mharagraff (a), rhag plâu planhigion a bennir yn y paragraff hwnnw fod wedi ei ddifa ar unwaith neu fod yn destun gweithdrefnau sy'n dileu'r plâu planhigion; ac<br>(c) rhaid i bob sefydliad neu gorff ymchwil sy'n cadw'r deunydd hwn hysbysu Sefydliad Diogelu Planhigion swyddogol ei Aelod-wladwriaeth ynghylch y deunydd a gedwir |
| 21. | Hadau *Solanum tuberosum* L, ac eithrio'r rheini a bennir yng ngholofn 2 o eitem 22 | Rhaid i'r hadau ddod gyda datganiad swyddogol:<br>(a) eu bod:<br>(i) yn deillio o blanhigion sy'n cydymffurfio â'r gofynion a bennir yng ngholofn 3 o eitemau 17 i 20; a<br>(ii) yn tarddu o ardaloedd y gwyddys eu bod yn rhydd rhag *Synchytrium endobioticum* (Schilbersky) Percival, *Clavibacter michiganensis* ssp. *sepedonicus* (Spieckermann a Kotthoff) Davis *et al*., |

| *(1)* Eitem | *(2)* Disgrifiad o'r deunydd perthnasol | *(3)* Gofynion o ran cyflwyno |
|---|---|---|
| | | *Ralstonia solanancearum* (Smith) Yabuuchi *et al*. a Firoid y gloronen bigfain; neu<br>(b) eu bod wedi eu cynhyrchu mewn safle lle na welwyd unrhyw symptomau o'r clefyd a achosir gan y plâu planhigion hynny ers dechrau'r cylch llystyfiant diweddaraf a phan fo'r camau a ganlyn wedi eu cymryd:<br>(i) bod y safle wedi ei wahanu oddi wrth blanhigion mochlysaidd eraill a phlanhigion eraill sy'n cynnal Firoid y gloronen bigfain;<br>(ii) bod staff ac eitemau eraill, megis offer, peiriannau, cerbydau, llestri a deunydd pecynnu, o safleoedd eraill sy'n cynhyrchu planhigion mochlysaidd a phlanhigion eraill sy'n cynnal Firoid y gloronen bigfain, wedi eu hatal rhag dod i gysylltiad â'r safle neu y cymerwyd mesurau hylendid priodol eraill i atal heintio gan staff sy'n gweithio, neu eitemau a ddefnyddiwyd, ar safleoedd eraill sy'n cynhyrchu planhigion mochlysaidd a phlanhigion eraill sy'n cynnal Firoid y gloronen bigfain;<br>(iii) mai dim ond dŵr sy'n rhydd rhag y plâu planhigion hynny a ddefnyddiwyd |
| 22. | Planhigion o rywogaethau *Solanum* L., sy'n ffurfio stolon neu gloron a fwriedir ar gyfer eu plannu, sy'n cael eu storio mewn cronfeydd genynnau neu gasgliadau stoc genetig | Rhaid i bob sefydliad neu gorff ymchwil sy'n cadw deunydd o'r fath hysbysu Sefydliad Diogelu Planhigion swyddogol ei Aelod-wladwriaeth am y deunydd a gedwir |
| 23. | Cloron *Solanum tuberosum* L., ac eithrio'r rheini a grybwyllir yng ngholofn 2 o eitemau 18 i 22 | Rhaid bod tystiolaeth ar ffurf rhif cofrestru a roddir ar y deunydd pecynnu, neu yn achos tatws rhydd a gludir mewn swmp, ar y cerbyd sy'n cludo'r tatws, bod y tatws wedi eu tyfu gan gynhyrchwr sydd wedi ei gofrestru yn swyddogol, neu'n tarddu o ganolfannau storio neu anfon ar y cyd sydd wedi eu |

| *(1)*<br>*Eitem* | *(2)*<br>*Disgrifiad o'r deunydd perthnasol* | *(3)*<br>*Gofynion o ran cyflwyno* |
|---|---|---|
| | | cofrestru yn swyddogol sydd wedi eu lleoli yn yr ardal gynhyrchu, yn nodi bod y cloron yn rhydd rhag *Ralstonia solanacearum* (Smith) Yabuuchi *et al.* ac y cydymffurfiwyd â'r darpariaethau a ganlyn:<br>(a) darpariaethau'r Undeb Ewropeaidd i atal *Synchytrium endobioticum* (Schilbersky) Percival;<br>(b) pan fo'n briodol, darpariaethau'r Undeb Ewropeaidd i atal *Clavibacter michiganensis* ssp. s*epedonicus* (Spieckermann a Kotthoff) Davis *et al*.; ac<br>(c) darpariaethau'r Undeb Ewropeaidd i atal *Globodera pallida* (Stone) Behrens a *Globodera rostochiensis* (Wollenweber) Behrens |
| 24. | Planhigion, ac eithrio hadau, Solanaceae, a fwriedir ar gyfer eu plannu, ac eithrio planhigion a grybwyllir yng ngholofn 2 o eitemau 22 a 23 | Rhaid i'r planhigion ddod gyda datganiad swyddogol:<br>(a) eu bod yn tarddu o ardal y gwyddys ei bod yn rhydd rhag Mycoplasm stolbur tatws; neu<br>(b) na welwyd unrhyw symptomau Mycoplasm stolbur tatws ar y planhigion yn y man cynhyrchu ers dechrau'r cylch llystyfiant cyflawn diweddaraf |
| 25. | Planhigion gyda gwreiddiau *Capsicum spp*., *Solanum lycopersicum* L. neu *Solanum melongena* L., a fwriedir ar gyfer eu plannu, ac eithrio'r rheini sydd i'w plannu yn unol ag Erthygl 4(4)(a) o Gyfarwyddeb 2007/33/EC | Rhaid i'r planhigion ddod gyda datganiad swyddogol y cydymffurfiwyd â darpariaethau'r Undeb Ewropeaidd i atal *Globodera pallida* (Stone) Behrens a *Globodera rostochiensis* (Wollenweber) Behrens |
| 26. | Planhigion gyda gwreiddiau *Capsicum* spp., *Solanum lycopersicum* L., Musa L. neu *Solanum melongena* L., a fwriedir ar gyfer eu plannu | Rhaid i'r planhigion ddod gyda datganiad swyddogol:<br>(a) eu bod yn tarddu o ardal y gwyddys ei bod yn rhydd rhag *Ralstonia solanacearum* (Smith) Yabuuchi *et al*. neu<br>(b) na welwyd unrhyw symptomau *Ralstonia solanacearum* (Smith) Yabuuchi *et al*. ar y planhigion yn y man cynhyrchu ers dechrau'r cylch llystyfiant cyflawn diweddaraf |
| 27. | Planhigion, ac eithrio hadau, *Humulus lupulus* L., a fwriedir ar gyfer eu plannu | Rhaid i'r planhigion ddod gyda datganiad swyddogol na welwyd unrhyw symptomau *Verticillium albo-atrum* |

| *(1)*<br><br>*Eitem* | *(2)*<br><br>*Disgrifiad o'r deunydd perthnasol* | *(3)*<br><br>*Gofynion o ran cyflwyno* |
|---|---|---|
| | | Reinke a Berthold neu *Verticillium dahliae* Klebahn ar hopys yn y man cynhyrchu ers dechrau'r cylch llystyfiant cyflawn diweddaraf |
| 28. | Planhigion Palmae, a fwriedir ar gyfer eu plannu, y mae diamedr bôn y coesyn yn fwy na 5 cm ac sy'n perthyn i'r genera a ganlyn:<br>— *Brahea* Mart.,<br>— *Butia* Becc.,<br>— *Chamaerops* L.,<br>— *Jubaea* Kunth,<br>— *Livistona* R. Br.,<br>— *Phoenix* L.,<br>— *Sabal* Adans.,<br>— *Syagrus* Mart.,<br>— *Trachycarpus* H. Wendl.,<br>— *Trithrinax* Mart.,<br>— *Washingtonia* Raf. | Rhaid i'r planhigion ddod gyda datganiad swyddogol:<br>(a) eu bod wedi eu tyfu drwy gydol eu bywyd mewn ardal sy'n rhydd rhag *Paysandisia archon* (Burmeister), sef ardal a sefydlwyd gan y sefydliad diogelu planhigion cenedlaethol yn unol ag ISPM Rhif 4;<br>(b) eu bod wedi eu tyfu, yn ystod cyfnod o ddwy flynedd o leiaf cyn eu hallforio, mewn man cynhyrchu:<br>(i) sydd wedi ei gofrestru a'i oruchwylio gan y sefydliad diogelu planhigion cenedlaethol yn y wlad y mae'r planhigion yn tarddu ohoni;<br>(ii) lle yr oedd y planhigion wedi eu gosod mewn safle a oedd wedi ei ddiogelu yn ffisegol yn llwyr rhag cyflwyno *Paysandisia archon* (Burmeister) neu drwy gymhwyso triniaethau ataliol priodol; a<br>(iii) lle na welwyd, yn ystod tri arolygiad swyddogol y flwyddyn a gynhaliwyd ar adegau priodol, unrhyw arwyddion *Paysandisia archon* (Burmeister) |
| 29. | Planhigion, ac eithrio hadau, *Dendranthema* (DC.) Des Moul., *Dianthus* L. neu *Pelargonium* L'Hérit. ex Ait., a fwriedir ar gyfer eu plannu | Rhaid i'r planhigion ddod gyda datganiad swyddogol:<br>(a) eu bod yn tarddu o ardal sy'n rhydd rhag *Helicoverpa armigera* (Hübner) a *Spodoptera littoralis* (Boisd.), sef ardal a sefydlwyd gan y sefydliad cenedlaethol diogelu planhigion yn unol ag ISPM Rhif 4;<br>(b) na welwyd unrhyw arwyddion *Helicoverpa armigera* (Hübner) neu *Spodoptera littoralis* (Boisd.) yn y man cynhyrchu ers |

| *(1)*<br><br>*Eitem* | *(2)*<br><br>*Disgrifiad o'r deunydd perthnasol* | *(3)*<br><br>*Gofynion o ran cyflwyno* |
|---|---|---|
| | | dechrau'r cylch llystyfiant cyflawn diweddaraf; neu<br>(c) y bu'r planhigion yn destun triniaeth briodol i'w diogelu rhag y plâu planhigion hynny |
| 30. | Planhigion, ac eithrio hadau, *Dendranthema* (DC.) Des Moul., a fwriedir ar gyfer eu plannu | Rhaid i'r planhigion ddod gyda datganiad swyddogol:<br>(a) eu bod yn stoc o'r drydedd genhedlaeth, neu'n iau, sy'n deillio o ddeunydd y canfuwyd ei fod yn rhydd rhag Firoid arafu twf ffarwelau haf yn ystod profion firolegol, neu eu bod yn deillio yn uniongyrchol o ddeunydd y canfuwyd bod sampl gynrychioliadol o 10% ohono o leiaf yn rhydd rhag Firoid arafu twf ffarwelau haf yn ystod arolygiad swyddogol a gynhaliwyd yn ystod y cyfnod blodeuo;<br>(b) bod y planhigion neu'r toriadau:<br>(i) wedi dod o fangre sydd wedi ei harolygu yn swyddogol yn fisol o leiaf yn ystod y tri mis cyn eu hanfon, ac na welwyd unrhyw symptomau *Puccinia horiana* Hennings yno yn ystod y cyfnod hwnnw, a gwyddys nad oes unrhyw symptomau *Puccinia horiana* Hennings wedi bod yn bresennol yn y cyffiniau agos yn ystod y tri mis cyn eu marchnata; neu<br>(ii) y buont yn destun triniaeth briodol i atal *Puccinia horiana* Hennings; ac<br>(c) yn achos toriadau heb wreiddiau, na welwyd unrhyw symptomau *Didymella ligulicola* (Baker, Dimock a Davis) v. Arx ar y toriadau neu'r planhigion yr oedd y toriadau yn deillio ohonynt neu, yn achos toriadau â gwreiddiau, na welwyd unrhyw symptomau *Didymella ligulicola* (Baker, Dimock a Davis) v. Arx naill ai ar y toriadau neu ar y gwely gwreiddio |

| *(1)*<br><br>*Eitem* | *(2)*<br><br>*Disgrifiad o'r deunydd perthnasol* | *(3)*<br><br>*Gofynion o ran cyflwyno* |
|---|---|---|
| 31. | Planhigion, ac eithrio hadau, *Dianthus* L., a fwriedir ar gyfer eu plannu | Rhaid i'r planhigion ddod gyda datganiad swyddogol:<br>(a) eu bod yn deillio drwy linach uniongyrchol o blanhigion tarddiol y canfuwyd eu bod yn rhydd rhag *Erwinia chrysanthemi* pv. *Dianthicola* (Hellmers) Dickey, *Pseudomonas caryophylli* (Burkholder) Starr a Burkholder a *Phialophora cinerescens* (Wollenw.) Van Beyma drwy brofion a gymeradwyir yn swyddogol, a gynhaliwyd o leiaf unwaith yn ystod y ddwy flynedd flaenorol; a<br>(b) na welwyd unrhyw symptomau'r plâu planhigion hyn ar y planhigion |
| 32. | Bylbiau *Tulipa* L. neu *Narcissus* L. ac eithrio'r rheini y mae tystiolaeth ar eu deunydd pecynnu, neu drwy ddulliau eraill, a fwriedir ar gyfer eu gwerthu i ddefnyddwyr terfynol nad ydynt yn ymwneud â chynhyrchu blodau wedi eu torri yn broffesiynol | Rhaid i'r bylbiau ddod gyda datganiad swyddogol na welwyd unrhyw symptomau *Ditylenchus dipsaci* (Kühn) Fililjev ar y bylbiau ers dechrau'r cylch llystyfiant cyflawn diweddaraf |
| 33. | Planhigion rhywogaethau llysieuol, ac eithrio:<br>— bylbiau,<br>— cormau,<br>— planhigion o'r teulu<br><br>Gramineae,<br>— rhisomau,<br>— hadau, neu<br>— cloron,<br><br>a fwriedir ar gyfer eu plannu | Rhaid i'r planhigion ddod gyda datganiad swyddogol:<br>(a) eu bod yn tarddu o ardal y gwyddys ei bod yn rhydd rhag *Liriomyza huidobrensis* (Blanchard) a *Liriomyza trifolii* (Burgess);<br>(b) na welwyd unrhyw arwyddion *Liriomyza huidobrensis* (Blanchard) neu *Liriomyza trifolii* (Burgess) yn y man cynhyrchu o gynnal arolygiadau swyddogol yn fisol o leiaf yn ystod y tri mis cyn cynaeafu;<br>(c) yn union cyn eu marchnata, bod y planhigion wedi eu harolygu yn swyddogol a chanfuwyd eu bod yn rhydd rhag *Liriomyza huidobrensis* (Blanchard) a *Liriomyza trifolii* (Burgess) ac y buont yn destun triniaeth briodol i atal *Liriomyza huidobrensis* (Blanchard) a *Liriomyza trifolii* (Burgess); neu |

| *(1)*<br><br>*Eitem* | *(2)*<br><br>*Disgrifiad o'r deunydd perthnasol* | *(3)*<br><br>*Gofynion o ran cyflwyno* |
|---|---|---|
| | | (d) eu bod yn tarddu o ddeunydd planhigion (allblaniad) sy'n rhydd rhag *Liriomyza huidobrensis* (Blanchard) a *Liriomyza trifolii* (Burgess), eu bod wedi eu tyfu *in vitro* mewn cyfrwng tyfu sterilaidd o dan amodau sterilaidd sy'n atal y posibilrwydd o heigio â *Liriomyza huidobrensis* (Blanchard) a *Liriomyza trifolii* (Burgess)<br>a'u bod yn cael eu cludo mewn cynwysyddion tryloyw o dan amodau sterilaidd |
| 34. | Planhigion â gwreiddiau, a blannwyd neu a fwriedir ar gyfer eu plannu, a dyfir yn yr awyr agored | Rhaid bod tystiolaeth y gwyddys bod y man cynhyrchu yn rhydd rhag *Clavibacter michiganensis* ssp. *sepedonicus* (Spieckermann a Kotthoff) Davis *et al*. a *Synchytrium endobioticum* (Schilbersky) Percival |
| 35. | Y planhigion â gwreiddiau a ganlyn a dyfir yn yr awyr agored, *Allium porrum* L., *Asparagus officinalis* L., *Beta vulgaris* L., *Brassica* spp. neu *Fragaria* L., a fwriedir ar gyfer eu plannu, ac eithrio'r planhigion hynny sydd i'w plannu yn unol ag Erthygl 4.4(a) neu (c) o Gyfarwyddeb 2007/33/EC | Rhaid bod tystiolaeth y cydymffurfir â darpariaethau'r Undeb Ewropeaidd i atal *Globodera pallida* (Stone) Behrens a *Globodera rostochiensis* (Wollenweber) Behrens |
| 36. | Bylbiau, cloron neu risomau, a dyfir yn yr awyr agored, *Allium ascalonicum* L., *Allium cepa* L., *Dahlia* spp., *Gladiolus* Tourn. ex L., *Hyacinthus* spp., *Iris* spp., *Lilium* spp., *Narcissus* L. neu *Tulipa* L., ac eithrio'r bylbiau, y cloron neu'r rhisomau hynny sydd i'w plannu yn unol ag Erthygl 4.4(a) neu (c) o Gyfarwyddeb 2007/33/EC | Rhaid bod tystiolaeth y cydymffurfir â darpariaethau'r Undeb Ewropeaidd i atal *Globodera pallida* (Stone) Behrens a *Globodera rostochiensis* (Wollenweber) Behrens |
| 37. | Planhigion, ac eithrio hadau, *Beta vulgaris* L., a fwriedir ar gyfer eu plannu | Rhaid i'r planhigion ddod gyda datganiad swyddogol:<br>(a) eu bod yn tarddu o ardal y gwyddys ei bod yn rhydd rhag Firws deildro betys; neu<br>(b) y gwyddys nad yw Firws deildro betys yn bresennol yn yr ardal gynhyrchu, ac na welwyd unrhyw symptomau Firws crych betys yn y man cynhyrchu neu yn ei gyffiniau agos ers dechrau'r cylch llystyfiant cyflawn diweddaraf |

| *(1)*<br><br>*Eitem* | *(2)*<br><br>*Disgrifiad o'r deunydd perthnasol* | *(3)*<br><br>*Gofynion o ran cyflwyno* |
|---|---|---|
| 38. | Hadau *Helianthus annuus* L. | Rhaid i'r hadau ddod gyda datganiad swyddogol:<br>(a) eu bod yn tarddu o ardal y gwyddys ei bod yn rhydd rhag *Plasmopara halstedii* (Farlow) Berl. a de Toni; neu<br>(b) ac eithrio'r rheini a gynhyrchwyd ar amrywogaethau sydd ag ymwrthedd i bob hil *Plasmopara halstedii* (Farlow) Berl. a de Toni sy'n bresennol yn yr ardal gynhyrchu, y buont yn destun triniaeth briodol i atal *Plasmopara halstedii* (Farlow) Berl. a de Toni |
| 39. | Planhigion, ac eithrio hadau, *Solanum lycopersicum* L., a fwriedir ar gyfer eu plannu | Rhaid i'r planhigion ddod gyda datganiad swyddogol:<br>(a) eu bod yn tarddu o ardal y gwyddys ei bod yn rhydd rhag Firws deildro melyn tomatos;<br>(b) na welwyd unrhyw symptomau Firws deildro melyn tomatos ar y planhigion; a<br>(i) bod y planhigion yn tarddu o ardal y gwyddys ei bod yn rhydd rhag *Bemisia tabaci* Genn.; neu<br>(ii) y canfuwyd bod y man cynhyrchu yn rhydd rhag *Bemisia tabaci* Genn. o gynnal arolygiadau swyddogol yn fisol o leiaf yn ystod y tri mis cyn allforio; neu<br>(c) na welwyd unrhyw symptomau Firws deildro melyn tomatos yn y man cynhyrchu, ac y bu'r man cynhyrchu yn destun triniaeth a chyfundrefn fonitro briodol i sicrhau ei fod yn rhydd rhag *Bemisia tabaci* Genn. |
| 40. | Hadau *Solanum lycopersicum* L. | Rhaid i'r hadau ddod gyda datganiad swyddogol eu bod wedi eu cael drwy ddull echdynnu ag asid priodol ac:<br>(a) eu bod yn tarddu o ardal lle y gwyddys nad yw *Clavibacter michiganensis* ssp. *michiganesnsis* (Smith) Davis *et al*., neu *Xanthomonas campestris* pv. |

| *(1)* *Eitem* | *(2)* *Disgrifiad o'r deunydd perthnasol* | *(3)* *Gofynion o ran cyflwyno* |
|---|---|---|
| | | *vesicatoria* (Doidge) Dye yn bresennol;<br>(b) na welwyd unrhyw symptomau'r clefydau a achosir gan y plâu planhigion hynny ar y planhigion yn y man cynhyrchu yn ystod eu cylch llystyfiant cyflawn; neu<br>(c) y bu'r hadau yn destun profion swyddogol ar gyfer y plâu planhigion hynny o leiaf, ar sampl gynrychioliadol a chan ddefnyddio dulliau priodol, ac y canfuwyd eu bod yn rhydd rhag y plâu planhigion hynny |
| 41. | Hadau *Medicago* sativa L. | Rhaid i'r hadau ddod gyda datganiad swyddogol:<br>(a) na welwyd unrhyw symptomau *Ditylenchus dipsaci* (Kühn) Filipjev yn y man cynhyrchu ers dechrau'r cylch llystyfiant cyflawn diweddaraf, ac na amlygwyd *Ditylenchus dipsaci* (Kühn) Filipjev gan brofion labordy ar sampl gynrychioliadol;<br>(b) bod mygdarthu wedi digwydd cyn eu marchnata; neu<br>(c) y bu'r hadau yn destun triniaeth ffisegol briodol i atal *Ditylenchus dipsaci* (Kühn) Filipjev a chanfuwyd eu bod yn rhydd rhag *Ditylenchus dipsaci* (Kühn) Filipjev ar ôl cynnal profion labordy ar sampl gynrychioliadol |
| 42. | Hadau *Medicago sativa* L. | Rhaid i'r hadau ddod gyda datganiad swyddogol:<br>(a) eu bod yn tarddu o ardal y gwyddys ei bod yn rhydd rhag *Clavibacter michiganensis* ssp. *insidiosus* Davis *et al.*; neu<br>(b) y gwyddys nad oedd *Clavibacter michiganensis* ssp. *insidiosus* Davis *et al.* yn bresennol ar y fferm neu yn ei chyffiniau agos ers dechrau'r 10 mlynedd diweddaraf; a<br>(i) bod y cnwd yn perthyn i amrywogaeth y cydnabyddir ei bod ag ymwrthedd uchel i *Clavibacter michiganensis* ssp. *insidiosus* Davis *et al.*; |

| *(1)* Eitem | *(2)* Disgrifiad o'r deunydd perthnasol | *(3)* Gofynion o ran cyflwyno |
|---|---|---|
| | | (ii) nad oedd wedi dechrau ei bedwerydd cylch llystyfiant cyflawn ers hau pan gafodd yr hadau eu cynaeafu, ac na fu mwy nag un cynhaeaf hadau blaenorol o'r cnwd; neu<br>(iii) nad yw cynnwys y deunydd anadweithiol a bennwyd yn unol â'r rheolau sy'n gymwys ar gyfer ardystio hadau a farchnetir yn yr Undeb Ewropeaidd yn fwy na 0.1% o ran pwysau;<br>(c) na welwyd unrhyw symptomau *Clavibacter michiganensis* ssp. *insidiosus* Davis et al. yn y man cynhyrchu, neu ar unrhyw gnwd *Medicago sativa* L. cyfagos, yn ystod y cylch llystyfiant cyflawn diweddaraf neu, pan fo'n briodol, yn ystod y ddau gylch llystyfiant diweddaraf; a<br>(d) bod y cnwd wedi ei dyfu ar dir lle nad oes unrhyw gnwd *Medicago sativa* L. blaenorol wedi bod yn bresennol yn ystod y tair blynedd ddiwethaf cyn hau |
| 43. | Hadau *Phaseolus* L. | Rhaid i'r hadau ddod gyda datganiad swyddogol:<br>(a) eu bod yn tarddu o ardal y gwyddys ei bod yn rhydd rhag *Xanthomonas campestris* pv. *phaseoli* (Smith) Dye; neu<br>(b) y profwyd sampl gynrychioliadol o'r hadau a chanfuwyd ei bod yn rhydd rhag *Xanthomonas campestris* pv. *phaseoli* (Smith) Dye |
| 44. | Ffrwythau *Citrus* L., *Fortunella* Swingle neu *Poncirus* Raf. | Rhaid i'r deunydd pecynnu, unrhyw label sydd ynghlwm wrth y deunydd pecynnu neu unrhyw ddogfen a ddefnyddir fel arfer at ddibenion masnach sy'n dod gyda'r llwyth ddwyn nod tarddiad priodol (caiff y nod hwnnw fod yn gyfeiriad at enw'r wlad y mae'r ffrwythau yn tarddu ohoni) |
| 45. | Planhigion, ac eithrio hadau, *Viburnum* spp. L., *Camellia* spp. neu *Rhododendron* spp. | Rhaid i'r planhigion ddod gyda datganiad swyddogol eu bod yn bodloni'r gofynion |

| *(1)* Eitem | *(2)* Disgrifiad o'r deunydd perthnasol | *(3)* Gofynion o ran cyflwyno |
|---|---|---|
| | L., ac eithrio *Rhododendron simsii* Planch, a fwriedir ar gyfer eu plannu | a bennir ym mhwynt 3 o Atodiad I i Benderfyniad 2002/757/EC |
| 46. | Planhigion sy'n dueddol o gael plâu neu glefydau o fewn ystyr Erthygl 1(b) o Benderfyniad 2007/365/EC | Rhaid i'r planhigion ddod gyda datganiad swyddogol eu bod wedi eu tyfu yn unol â'r gofynion a bennir ym mhwynt 2(a), (b), (c) neu (d) o Atodiad I i Benderfyniad 2007/365/EC |
| 47. | Planhigion penodedig o fewn ystyr Erthygl 1(2) o Benderfyniad 2007/433/EC | Rhaid i'r planhigion ddod gyda datganiad swyddogol eu bod yn bodloni'r gofynion a bennir yn Adran II o Atodiad I i Benderfyniad 2007/433/EC |
| 48. | Planhigion penodedig o fewn ystyr Erthygl 1(a) o Benderfyniad 2012/138/EU sy'n tarddu o ardal a sefydlwyd yn unol ag Erthygl 6 o'r Penderfyniad hwnnw | Rhaid i'r planhigion ddod gyda datganiad swyddogol eu bod yn bodloni'r gofynion a bennir ym mhwynt 1 o Adran 2 o Atodiad I i Benderfyniad 2012/138/EU |
| 49. | Planhigion penodedig o fewn ystyr Erthygl 1(a) o Benderfyniad 2012/138/EU nad ydynt yn tarddu o fan cynhyrchu sydd mewn ardal a sefydlwyd yn unol ag Erthygl 6 o'r Penderfyniad hwnnw ond a gyflwynwyd i fan cynhyrchu o'r fath | Rhaid i'r planhigion ddod gyda datganiad swyddogol bod y man cynhyrchu y cyflwynwyd y planhigion iddo yn bodloni'r gofynion a bennir ym mhwynt 1(iii) o Adran 2 o Atodiad I i Benderfyniad 2012/138/EU |
| 50. | Cloron *Solanum tuberosum* L., gan gynnwys y rheini a fwriedir ar gyfer eu plannu, sy'n tarddu o ardal a sefydlwyd yn unol ag Erthygl 5 o Benderfyniad 2012/270/EU, ac eithrio'r rheini sy'n tarddu o Gymru ac sydd ond yn cael eu symud o fewn ardal o'r fath | Rhaid i'r cloron ddod gyda datganiad swyddogol eu bod yn bodloni'r gofynion a bennir ym mhwynt (1)(a) i (c) o Adran 2 o Atodiad I i Benderfyniad 2012/270/EU |
| 51. | Paill byw *Actinidia* Lindl. neu blanhigion, ac eithrio hadau, *Actinidia* Lindl. a fwriedir ar gyfer eu plannu | Rhaid i'r paill a'r planhigion ddod gyda datganiad swyddogol eu bod yn bodloni'r un o'r gofynion a bennir ym mhwynt (2) a, phan fo'n briodol, un o'r gofynion ym mhwynt (3) o Atodiad II i Benderfyniad 2017/198/EU |
| 52. | Planhigion cynhaliol o fewn ystyr Erthygl 1(b) o Benderfyniad (EU) 2015/789 nad ydynt erioed wedi eu tyfu mewn ardal a sefydlwyd yn unol ag Erthygl 4 o'r Penderfyniad hwnnw | Rhaid i'r planhigion ddod gyda datganiad swyddogol:<br>(a) eu bod yn bodloni'r gofynion a bennir yn Erthygl 9(8)(a) o Benderfyniad (EU) 2015/789; neu<br>(b) yn achos planhigion, ac eithrio hadau, a fwriedir ar gyfer eu plannu, *Coffea*, *Lavandula dentata* L., *Nerium oleander* L., *Olea europaea* L., *Polygala myrtifolia* L. neu *Prunus dulcis* (Mill.) D.A. Webb, eu bod yn |

| *(1)* *Eitem* | *(2)* *Disgrifiad o'r deunydd perthnasol* | *(3)* *Gofynion o ran cyflwyno* |
|---|---|---|
| | | bodloni'r gofynion a bennir yn ail is-baragraff Erthygl 9(8) o'r Penderfyniad hwnnw |
| 53. | Planhigion tarddiol cyn-sylfaenol fel y'u diffinnir yn Erthygl 1(3) o Gyfarwyddeb Gweithredu'r Comisiwn 2014/98/EU neu ddeunydd cyn-sylfaenol fel y'i diffinnir yn Erthygl 2(5) o Gyfarwyddeb y Cyngor 2008/90EC:<br>— sy'n perthyn i'r rhywogaethau *Juglans* regia L., *Olea europaea* L., *Prunus amygdalus* Batsch, *P. amygdalus* x *P. persica*, *P armeniaca* L., *P avium* (L.) L., *P. cerasus* L., *P. domestica* L., *P. domestica x P. salicina*, *P. dulcis* (Mill.) D.A. Webb, *P. persica* (L.) Batsch, neu *P. salicina* Lindley,<br>— sydd wedi eu tyfu y tu allan i ardal a sefydlwyd yn unol ag Erthygl 4 o Benderfyniad (EU) 2015/789, ac<br>— sydd wedi treulio o leiaf ran o'u bywyd y tu allan i gyfleusterau sy'n ddiogel rhag pryfed | Rhaid i'r planhigion ddod gyda datganiad swyddogol eu bod yn bodloni'r gofynion a bennir yn Erthygl 9(9)(a) a (b) o Benderfyniad (EU) 2015/789 |
| 54. | Planhigion penodedig o fewn ystyr Erthygl 1(c) o Benderfyniad (EU) 2015/789, ac eithrio'r rheini sy'n perthyn i'r amrywogaethau a bennir yn Atodiad III i'r Penderfyniad hwnnw, sydd wedi eu tyfu am o leiaf ran o'u bywyd mewn ardal a sefydlwyd yn unol ag Erthygl 4 o'r Penderfyniad hwnnw | Rhaid i'r planhigion:<br>(a) yn achos planhigion nad ydynt wedi eu tyfu *in vitro* am eu cylch cynhyrchu cyflawn:<br>(i) dod gyda datganiad swyddogol eu bod yn bodloni'r gofynion a bennir yn Erthygl 9(2) i (4) a (5) o Benderfyniad (EU) 2015/789; neu<br>(ii) yn achos planhigion cwsg, ac eithrio hadau, *Vitis* a fwriedir ar gyfer eu plannu, ddod gyda datganiad swyddogol eu bod yn bodloni'r gofynion a bennir yn Erthygl 9(4a) a (5) o'r Penderfyniad hwnnw;<br>(b) yn achos planhigion sydd wedi eu tyfu *in vitro* am eu cylch cynhyrchu cyflawn, ddod gyda datganiad swyddogol eu bod yn bodloni'r gofynion a bennir yn Erthygl 9a(2) a (3) o'r Penderfyniad hwnnw, a chael eu cludo yn y dull a bennir |

| *(1)*<br>*Eitem* | *(2)*<br>*Disgrifiad o'r deunydd perthnasol* | *(3)*<br>*Gofynion o ran cyflwyno* |
|---|---|---|
| | | yn Erthygl 9a(4) o'r Penderfyniad hwnnw |
| 55. | Planhigion penodedig o fewn ystyr Erthygl 1(a) o Benderfyniad (EU) 2015/893 sy'n tarddu o ardal a sefydlwyd yn unol ag Erthygl 7 o'r Penderfyniad hwnnw, neu a gyflwynwyd i fan cynhyrchu mewn ardal o'r fath | Rhaid i'r planhigion ddod gyda datganiad swyddogol:<br>(a) yn achos planhigion sy'n tarddu o ardal a sefydlwyd yn unol ag Erthygl 7 o Benderfyniad (EU) 2015/893, eu bod wedi eu tyfu yn ystod cyfnod o ddwy flynedd o leiaf cyn eu symud, neu yn achos planhigion sy'n iau na dwy flynedd, drwy gydol eu bywyd, mewn man cynhyrchu sy'n bodloni'r gofynion a bennir ym mhwynt (1)(a) a (b) o Adran 2(A) o Atodiad II i'r Penderfyniad hwnnw; a<br>(b) eu bod yn bodloni'r gofynion a bennir ym mhwynt (1)(c) o'r Adran honno |
| 56. | Ffrwythau Citrus L., *Fortunella* Swingle neu *Poncirus* Raf., ac eithrio ffrwythau *Citrus aurantium* L. neu *Citrus latifolia* Tanaka sydd:<br>— yn tarddu o Frasil, De Affrica neu Uruguay;<br>— yn cael eu hanfon i greu sudd drwy brosesu diwydiannol yn unig; ac<br>— wedi eu cyflwyno i ran arall o'r Undeb Ewropeaidd yn unol ag Erthyglau 9 i 13 o Benderfyniad (EU) 2016/715 | Rhaid i'r ffrwythau fod:<br>(a) wedi eu pecynnu a'u labelu yn unol ag Erthygl 17 o'r Penderfyniad hwnnw; a<br>(b) yn ddarostyngedig i drwydded a roddir o dan erthygl 40(1) o'r Gorchymyn hwn sy'n awdurdodi eu cyflwyno i Gymru, eu symud o fewn Cymru a, phan fo'n gymwys, eu prosesu a'u storio yng Nghymru. |
| 57. | Ffrwythau *Citrus* L., *Fortunella* Swingle, *Poncirus* Raf., *Microcitrus* Swingle, *Naringi* Adans. neu *Swinglea* Merr. sydd:<br>— yn tarddu o unrhyw drydedd wlad;<br>— i'w hanfon i greu sudd drwy brosesu diwydiannol; ac<br>— wedi eu cyflwyno i ran arall o'r Undeb Ewropeaidd yn unol ag Erthygl 3 o Benderfyniad Gweithredu'r Comisiwn (EU) 2017/2374 | Rhaid i'r ffrwythau fod yn ddarostyngedig i drwydded a roddir o dan erthygl 40(1) o'r Gorchymyn hwn sy'n awdurdodi eu cyflwyno i Gymru, eu symud o fewn Cymru a, phan fo'n gymwys, eu prosesu a'u storio yng Nghymru |
| 58. | Planhigion *Fraxinus* L. a fwriedir ar gyfer eu plannu | Rhaid i'r planhigion ddod gyda datganiad swyddogol eu bod wedi eu tyfu drwy gydol eu bywyd mewn ardal a sefydlwyd yn ardal sy'n rhydd, ac a gedwir yn rhydd, rhag Chalara fraxinea T. Kowalski (gan |

| *(1)*<br><br>*Eitem* | *(2)*<br><br>*Disgrifiad o'r deunydd perthnasol* | *(3)*<br><br>*Gofynion o ran cyflwyno* |
|---|---|---|
| | | gynnwys ei deleomorff Hymenoscyphus pseudoalbidus) yn unol ag ISPM Rhif 4 |
| 59. | Cloron *Solanum tuberosum* L., ac eithrio'r rheini a grybwyllir yng ngholofn 2 o eitemau 19 i 22, sy'n tarddu o Wlad Pwyl | Rhaid i'r cloron ddod gyda thystysgrif a ddyroddir gan gorff cyfrifol swyddogol Gwlad Pwyl yn cadarnhau y canfuwyd eu bod yn rhydd rhag Clavibacter michiganensis ssp. sepedonicus (Spieckermann a Kotthoff) Davis et al. mewn profion labordy swyddogol |
| 60. | Cloron *Solanum tuberosum* L., gan gynnwys y rheini a fwriedir ar gyfer eu plannu, sy'n tarddu o unrhyw ardal o Sbaen sydd o fewn yr Undeb Ewropeaidd, ac eithrio'r rheini sy'n tarddu o ardal a sefydlwyd yn unol ag Erthygl 5 o Benderfyniad 2012/270/EU neu Ynysoedd Baleares | Rhaid i'r cloron fod wedi eu golchi fel nad oes mwy na 0.1% o bridd yn weddill |

# RHAN C

## Deunydd perthnasol na chaniateir ei lanio yng Nghymru na'i symud o fewn Cymru (fel parth gwarchod) oni chydymffurfir â gofynion arbennig

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I56** Atod. 4 Rhn. C mewn grym ar 2.11.2018, gweler **ergl. 1(2)**

| *(1)*<br><br>*Eitem* | *(2)*<br><br>*Disgrifiad o'r deunydd perthnasol* | *(3)*<br><br>*Gofynion glanio* |
|---|---|---|
| 1. | Planhigion, ac eithrio hadau, Platanus L. a fwriedir ar gyfer eu plannu, sy'n tarddu o'r Undeb Ewropeaidd neu Armenia, y Swistir neu UDA | Rhaid i'r planhigion ddod gyda datganiad swyddogol eu bod wedi eu tyfu drwy gydol eu bywyd:<br>(a) mewn ardal sy'n rhydd rhag *Ceratocystis platani* (J.M. Walter) Engelbr. a T.C. Harr., a sefydlwyd yn unol ag ISPM Rhif 4; neu<br>(b) mewn parth gwarchod a gydnabyddir yn barth gwarchod ar gyfer *Ceratocystis platani* (J.M. Walter) Engelbr. a T.C. Harr. |
| 2. | Planhigion, ac eithrio ffrwythau neu hadau, *Pinus* L., a fwriedir ar gyfer eu plannu | Rhaid i'r planhigion ddod gyda datganiad swyddogol: |

| *(1)* <br><br> *Eitem* | *(2)* <br><br> *Disgrifiad o'r deunydd perthnasol* | *(3)* <br><br> *Gofynion glanio* |
|---|---|---|
| | | (a) eu bod wedi eu tyfu drwy gydol eu bywyd mewn mannau cynhyrchu mewn gwledydd lle na wyddys bod *Thaumetopoea pityocampa* Denis a Schiffermüller yn bresennol; <br> (b) eu bod wedi eu tyfu drwy gydol eu bywyd mewn ardal sy'n rhydd rhag *Thaumetopoea pityocampa* Denis a Schiffermüller, sef ardal a sefydlwyd gan y sefydliad diogelu planhigion cenedlaethol yn unol ag ISPM Rhif 4; <br> (c) eu bod wedi eu cynhyrchu mewn meithrinfeydd y canfuwyd eu bod, ynghyd â'u cyffiniau, yn rhydd rhag *Thaumetopoea pityocampa* Denis a Schiffermüller ar sail arolygiadau swyddogol ac arolygon swyddogol a gynhaliwyd ar adegau priodol; neu <br> (d) eu bod wedi eu tyfu drwy gydol eu bywyd mewn safle sydd wedi ei ddiogelu yn ffisegol yn llwyr rhag cyflwyno *Thaumetopoea pityocampa* Denis a Schiffermüller ac a arolygwyd ar adegau priodol ac y canfuwyd ei fod yn rhydd rhag *Thaumetopoea pityocampa* Denis a Schiffermüller |
| 3. | Planhigion *Castanea Mill*. a fwriedir ar gyfer eu plannu | Rhaid i'r planhigion ddod gyda datganiad swyddogol eu bod wedi eu tyfu drwy gydol eu bywyd: <br> (a) mewn man cynhyrchu mewn gwlad lle y gwyddys nad yw *Cryphonectria parasitica* (Murrill) Barr yn bresennol; <br> (b) mewn ardal sy'n rhydd rhag *Cryphonectria parasitica* (Murrill) Barr, sef ardal a sefydlwyd gan y sefydliad diogelu planhigion cenedlaethol yn unol ag ISPM Rhif 4; neu <br> (c) mewn parth gwarchod a gydnabyddir yn barth gwarchod ar gyfer *Cryphonectria parasitica* (Murrill) Barr |
| 4. | Planhigion, ac eithrio hadau, *Prunus* L., a fwriedir ar gyfer eu plannu | Rhaid i'r planhigion ddod gyda datganiad swyddogol: |

| *(1)* *Eitem* | *(2)* *Disgrifiad o'r deunydd perthnasol* | *(3)* *Gofynion glanio* |
|---|---|---|
| | | (a) eu bod wedi eu tyfu drwy gydol eu bywyd mewn mannau cynhyrchu mewn gwledydd lle y gwyddys nad yw *Xanthomonas arboricola* pv. *pruni* (Smith) Vauterin *et al*. yn bresennol;<br>(b) eu bod wedi eu tyfu drwy gydol eu bywyd mewn ardal sy'n rhydd rhag *Xanthomonas arboricola* pv. *pruni* (Smith) Vauterin *et al.*, sef ardal a sefydlwyd gan y sefydliad diogelu planhigion cenedlaethol yn unol ag ISPM Rhif 4;<br>(c) eu bod yn deillio drwy linach uniongyrchol o blanhigion tarddiol nad ydynt wedi dangos unrhyw symptomau *Xanthomonas arboricola* pv. *pruni* (Smith) Vauterin *et al*. yn ystod eu cylch llystyfiant cyflawn diweddaraf ac na welwyd unrhyw symptomau'r pla planhigion hwnnw ar y planhigion yn y man cynhyrchu ers dechrau'r cylch llystyfiant cyflawn diweddaraf; neu<br>(d) yn achos planhigion *Prunus laurocerasus* L. neu *Prunus lusitanica* L. y ceir tystiolaeth amdanynt o'u deunydd pecynnu neu drwy ddulliau eraill eu bod wedi eu bwriadu ar gyfer eu gwerthu i ddefnyddwyr terfynol nad ydynt yn ymwneud â chynhyrchu planhigion yn broffesiynol, na welwyd unrhyw symptomau *Xanthomonas arboricola* pv. *pruni* (Smith) Vauterin *et al*. ar blanhigion yn y man cynhyrchu ers dechrau'r tymor tyfu cyflawn diweddaraf |
| 5. | Planhigion *Palmae*, a fwriedir ar gyfer eu plannu, y mae diamedr bôn y coesyn yn fwy na 5 cm ac sy'n perthyn i'r genera a ganlyn: *Brahea* Mart., *Butia* Becc., *Chamaerops* L., *Jubaea* Kunth, *Livistona* R. Br., *Phoenix* L., *Sabal* Adans., *Syagrus* Mart., *Trachycarpus* H. Wendl., *Trithrinax* Mart., neu *Washingtonia* Raf. | Rhaid i'r planhigion ddod gyda datganiad swyddogol:<br>(a) eu bod wedi eu tyfu drwy gydol eu bywyd mewn mannau cynhyrchu mewn gwledydd lle y gwyddys nad yw *Paysandisia archon* (Burmeister) yn bresennol;<br>(b) eu bod wedi eu tyfu drwy gydol eu bywyd mewn ardal sy'n |

| *(1)*<br><br>*Eitem* | *(2)*<br><br>*Disgrifiad o'r deunydd perthnasol* | *(3)*<br><br>*Gofynion glanio* |
|---|---|---|
| | | rhydd rhag *Paysandisia archon* (Burmeister), sef ardal a sefydlwyd gan y sefydliad diogelu planhigion cenedlaethol yn unol ag ISPM Rhif 4; neu<br>(c) eu bod wedi eu tyfu, yn ystod cyfnod o ddwy flynedd o leiaf cyn eu hallforio neu eu symud, mewn man cynhyrchu:<br>(i) sydd wedi ei gofrestru ac sy'n cael ei oruchwylio gan y sefydliad diogelu planhigion cenedlaethol yn y wlad y mae'r planhigion yn tarddu ohoni;<br>(ii) lle gosodwyd y planhigion mewn safle sydd wedi ei ddiogelu yn llwyr yn ffisegol rhag cyflwyno *Paysandisia archon* (Burmeister); a<br>(iii) lle na welwyd unrhyw arwyddion *Paysandisia archon* (Burmeister) yn ystod tri arolygiad swyddogol y flwyddyn a gynhaliwyd ar adegau priodol, gan gynnwys yn union cyn eu symud o'r man cynhyrchu |
| 6. | Planhigion *Palmae*, a fwriedir ar gyfer eu plannu, y mae diamedr bôn y coesyn yn fwy na 5cm ac sy'n perthyn i'r tacsonau a ganlyn: *Areca catechu* L., *Arenga pinnata* (Wurmb) Merr., *Bismarckia* Hildebr. a H. Wendle., *Borassus flabellifer* L., *Brahea armata* S. Watson, *Brahea edulis* H. Wendl., *Butia capitata* (Mart.) Becc., *Calamus merrillii* Becc., *Caryota maxima* Blume, *Caryota cumingii* Lodd. ex Mart., *Chamaerops* humilis L., *Cocos nucifera* L., *Copernicia* Mart., *Corypha utan* Lam., *Elaeis guineenis* Jacq., *Howea forsteriana* Becc., *Jubae chilensis* (Molina) Baill., *Livistona australis* C. Martius, *Livistona decora* (W. Bull) Dowe, *Livistona rotundifolia* (Lam.) Mart., *Metroxylon sagu* Rottb., *Phoenix canariensis* Chabaud, *Phoenix dactylifera* L., *Phoenix reclinata* Jacq., *Phoenix roebelenii* O'Brien, *Phoenix sylvestris* (L.) Roxb., *Phoenix theophrasti* | Rhaid i'r planhigion ddod gyda datganiad swyddogol:<br>(a) eu bod wedi eu tyfu drwy gydol eu bywyd mewn mannau cynhyrchu mewn gwledydd lle y gwyddys nad yw *Rhynchophorus ferrugineus* (Olivier) yn bresennol;<br>(b) eu bod wedi eu tyfu drwy gydol eu bywyd mewn ardal sy'n rhydd rhag *Rhynchophorus ferrugineus* (Olivier), sef ardal a sefydlwyd gan y sefydliad diogelu planhigion cenedlaethol yn unol ag ISPM Rhif 4; neu<br>(c) eu bod wedi eu tyfu, yn ystod cyfnod o ddwy flynedd o leiaf cyn eu hallforio neu eu symud, mewn man cynhyrchu:<br>(i) sydd wedi ei gofrestru ac sy'n cael ei oruchwylio gan y sefydliad diogelu planhigion |

| *(1)*<br><br>*Eitem* | *(2)*<br><br>*Disgrifiad o'r deunydd perthnasol* | *(3)*<br><br>*Gofynion glanio* |
|---|---|---|
| | Greuter, *Pritchardia* Seem. a H. Wendl., *Ravenea rivularis* Jum. a H. Perrier, *Roystonea regia* (Kunth) O.F. Cook, *Sabal palmetto* (Walter) Lodd. ex Schult. a Schult. F., *Syagrus roman-zoffiana* (Cham.) Glassman, *Trachycarpus fortunei* (Hook.) H. Wendl. neu *Washingtonia* Raf. | cenedlaethol yn y wlad y mae'r planhigion yn tarddu ohoni;<br>(ii) lle gosodwyd y planhigion mewn safle sydd wedi ei ddiogelu yn llwyr yn ffisegol rhag cyflwyno *Rhynchophorus ferrugineus* (Olivier); a<br>(iii) lle na welwyd unrhyw arwyddion *Rhynchophorus ferrugineus* (Olivier) yn ystod tri arolygiad swyddogol y flwyddyn a gynhaliwyd ar adegau priodol, gan gynnwys yn union cyn eu symud o'r man cynhyrchu |
| 7. | Toriadau *Euphorbia pulcherrima* Willd. a ddiwreiddiwyd, a fwriedir ar gyfer eu plannu | Rhaid i'r planhigion ddod gyda datganiad swyddogol:<br>(a) eu bod yn tarddu o ardal y gwyddys ei bod yn rhydd rhag *Bemisia tabaci* Genn. (poblogaethau Ewropeaidd);<br>(b) na welwyd unrhyw arwyddion *Bemisia tabaci* Genn. (poblogaethau Ewropeaidd) ar y toriadau nac ar y planhigion y mae'r toriadau yn deillio ohonynt ac a gedwir neu a gynhyrchir yn y man cynhyrchu o gynnal arolygiadau swyddogol o leiaf unwaith bob tair wythnos yn ystod cyfnod cynhyrchu cyfan y planhigion hyn yn y man cynhyrchu; neu<br>(c) mewn achosion pan fo *Bemisia tabaci* Genn. (poblogaethau Ewropeaidd) wedi ei ganfod yn y man cynhyrchu, bod y toriadau a'r planhigion y mae'r toriadau yn deillio ohonynt ac a gedwir neu a gynhyrchir yn y man cynhyrchu wedi bod yn destun triniaeth briodol i sicrhau eu bod yn rhydd rhag *Bemisia tabaci* Genn. (poblogaethau Ewropeaidd) ac y canfuwyd wedi hynny bod y man cynhyrchu hwn yn rhydd rhag *Bemisia tabaci* |

| *(1)* Eitem | *(2)* Disgrifiad o'r deunydd perthnasol | *(3)* Gofynion glanio |
|---|---|---|
| | | Genn. (poblogaethau Ewropeaidd) o ganlyniad i roi gweithdrefnau priodol ar waith gyda'r nod o ddileu *Bemisia tabaci* Genn. (poblogaethau Ewropeaidd), mewn arolygiadau swyddogol a gynhaliwyd yn wythnosol yn ystod y tair wythnos cyn eu symud o'r man cynhyrchu hwn, ac mewn gweithdrefnau monitro drwy gydol y cyfnod. Rhaid i'r arolygiad olaf o'r arolygiadau wythnosol fod wedi ei gynnal yn union cyn eu symud |
| 8. | Planhigion *Euphorbia pulcherrima* Willd., a fwriedir ar gyfer eu plannu, ac eithrio:<br>— hadau,<br>— y planhigion hynny y ceir tystiolaeth o'u deunydd pecynnu neu o ddatblygiad eu blodau (neu eu bractau) neu drwy ddulliau eraill eu bod wedi eu bwriadu ar gyfer eu gwerthu i gwsmeriaid terfynol nad ydynt yn ymwneud â chynhyrchu planhigion yn broffesiynol, neu<br>— y rheini a bennir yn eitem 7 | Rhaid i'r planhigion ddod gyda datganiad swyddogol:<br>(a) eu bod yn tarddu o ardal y gwyddys ei bod yn rhydd rhag *Bemisia tabaci* Genn. (poblogaethau Ewropeaidd);<br>(b) na welwyd unrhyw arwyddion *Bemisia tabaci* Genn. (poblogaethau Ewropeaidd) ar blanhigion yn y man cynhyrchu o gynnal arolygiadau swyddogol o leiaf unwaith bob tair wythnos yn ystod y naw wythnos cyn marchnata; neu<br>(c) mewn achosion pan fo *Bemisia tabaci* Genn. (poblogaethau Ewropeaidd) wedi ei ganfod yn y man cynhyrchu, bod y planhigion a gedwir neu a gynhyrchir yn y man cynhyrchu wedi bod yn destun triniaeth briodol i sicrhau eu bod yn rhydd rhag *Bemisia tabaci* Genn. (poblogaethau Ewropeaidd) ac y canfuwyd wedi hynny bod y man cynhyrchu hwn yn rhydd rhag *Bemisia tabaci* Genn. (poblogaethau Ewropeaidd) o ganlyniad i roi gweithdrefnau priodol ar waith gyda'r nod o ddileu *Bemisia tabaci* Genn. (poblogaethau Ewropeaidd), mewn arolygiadau swyddogol a gynhaliwyd yn wythnosol yn ystod y tair wythnos cyn eu symud o'r man cynhyrchu hwn, ac mewn gweithdrefnau monitro drwy gydol |

| *(1)* *Eitem* | *(2)* *Disgrifiad o'r deunydd perthnasol* | *(3)* *Gofynion glanio* |
|---|---|---|
| | | y cyfnod. Rhaid i'r arolygiad olaf o'r arolygiadau wythnosol fod wedi ei gynnal yn union cyn eu symud; a<br>(d) bod tystiolaeth ar gael eu bod wedi eu cynhyrchu o doriadau sydd:<br>(i) yn tarddu o ardal y gwyddys ei bod yn rhydd rhag *Bemisia tabaci* Genn. (poblogaethau Ewropeaidd);<br>(ii) wedi eu tyfu mewn man cynhyrchu lle na welwyd unrhyw arwyddion *Bemisia tabaci* Genn. (poblogaethau Ewropeaidd) o gynnal arolygiadau swyddogol o leiaf unwaith bob tair wythnos yn ystod cyfnod cynhyrchu cyfan y planhigion hyn; neu<br>(iii) mewn achosion pan fo *Bemisia tabaci* Genn. (poblogaethau Ewropeaidd) wedi ei ganfod yn y man cynhyrchu, wedi eu tyfu ar blanhigion a gedwir neu a gynhyrchir yn y man cynhyrchu sydd wedi bod yn destun triniaeth briodol i sicrhau eu bod yn rhydd rhag *Bemisia tabaci* Genn. (poblogaethau Ewropeaidd) ac y canfuwyd wedi hynny bod y man cynhyrchu hwnnw yn rhydd rhag *Bemisia tabaci* Genn. (poblogaethau Ewropeaidd) o ganlyniad i roi gweithdrefnau priodol ar waith gyda'r nod o ddileu *Bemisia tabaci* Genn. (poblogaethau Ewropeaidd), mewn arolygiadau swyddogol a gynhaliwyd yn wythnosol yn ystod y tair wythnos cyn eu symud o'r man cynhyrchu, ac mewn gweithdrefnau monitro drwy gydol y cyfnod. Rhaid i'r arolygiad olaf o'r arolygiadau wythnosol fod |

| *(1)* Eitem | *(2)* Disgrifiad o'r deunydd perthnasol | *(3)* Gofynion glanio |
|---|---|---|
| | | wedi ei gynnal yn union cyn eu symud |
| 9. | Planhigion, ac eithrio hadau, cloron neu gormau, *Begonia* L., a fwriedir ar gyfer eu plannu; neu blanhigion, ac eithrio hadau, *Dipladenia* A.DC., *Ficus* L., *Hibiscus* L., *Mandevilla* Lindl. neu *Nerium oleander* L., a fwriedir ar gyfer eu plannu | Rhaid i'r planhigion ddod gyda datganiad swyddogol:<br>(a) eu bod yn tarddu o ardal y gwyddys ei bod yn rhydd rhag *Bemisia tabaci* Genn. (poblogaethau Ewropeaidd);<br>(b) na welwyd unrhyw arwyddion *Bemisia tabaci* Genn. (poblogaethau Ewropeaidd) ar blanhigion yn y man cynhyrchu o gynnal arolygiadau swyddogol o leiaf unwaith bob tair wythnos yn ystod y naw wythnos cyn marchnata;<br>(c) pan fo *Bemisia tabaci* Genn. (poblogaethau Ewropeaidd) wedi ei ganfod yn y man cynhyrchu, bod y planhigion a gedwir neu a gynhyrchir yn y man cynhyrchu wedi bod yn destun triniaeth briodol i sicrhau eu bod yn rhydd rhag *Bemisia tabaci* Genn. (poblogaethau Ewropeaidd) ac y canfuwyd wedi hynny bod y man cynhyrchu yn rhydd rhag *Bemisia tabaci* Genn. (poblogaethau Ewropeaidd) o ganlyniad i roi gweithdrefnau priodol ar waith gyda'r nod o ddileu *Bemisia tabaci* Genn. (poblogaethau Ewropeaidd), mewn arolygiadau swyddogol a gynhaliwyd yn wythnosol yn ystod y tair wythnos cyn eu symud o'r man cynhyrchu, ac mewn gweithdrefnau monitro drwy gydol y cyfnod dan sylw; neu<br>(d) yn achos planhigion y ceir tystiolaeth o'u deunydd pecynnu neu o ddatblygiad eu blodau neu drwy ddulliau eraill eu bod wedi eu bwriadu ar gyfer eu gwerthu yn uniongyrchol i gwsmeriaid terfynol nad ydynt yn ymwneud â chynhyrchu planhigion yn broffesiynol, eu bod wedi eu harolygu yn swyddogol a chanfuwyd eu bod yn rhydd |

| *(1)*<br><br>*Eitem* | *(2)*<br><br>*Disgrifiad o'r deunydd perthnasol* | *(3)*<br><br>*Gofynion glanio* |
|---|---|---|
| | | rhag *Bemisia tabaci* Genn. (poblogaethau Ewropeaidd) yn union cyn eu symud |
| 10. | Planhigion *Castanea Mill*., ac eithrio planhigion mewn meithriniad meinwe, ffrwythau neu hadau | Rhaid i'r planhigion ddod gyda datganiad swyddogol bod y planhigion wedi eu tyfu drwy gydol eu bywyd:<br><br>mewn man cynhyrchu mewn gwlad lle y gwyddys nad yw *Dryocosmus kuriphilus* Yasumatsu yn bresennol;<br>(a) mewn ardal sy'n rhydd rhag *Dryocosmus kuriphilus* Yasumatsu, sef ardal a sefydlwyd gan y sefydliad diogelu planhigion cenedlaethol yn unol ag ISPM Rhif 4; neu<br>(b) mewn parth gwarchod a gydnabyddir yn barth gwarchod ar gyfer *Dryocosmus kuriphilus* Yasumatsu |

## ATODLEN 5

Erthygl 3

Deunydd perthnasol o drydedd wlad y gallai tystysgrif ffytoiechydol fod yn ofynnol ar ei gyfer

# RHAN A

## Deunydd perthnasol na chaniateir iddo gael ei lanio onid yw tystysgrif ffytoiechydol yn mynd gydag ef

**1.** Planhigion, ac eithrio hadau, a fwriedir ar gyfer eu plannu.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I57** Atod. 5 para. 1 mewn grym ar 2.11.2018, gweler **ergl. 1(2)**

**2.** Hadau—

(a) Cruciferae, Gramineae neu *Trifolium* spp., sy'n tarddu o'r Ariannin, Awstralia, Bolivia, Chile, Seland Newydd neu Uruguay;

(b) y genera *Triticum, Secale* neu *X Triticosecale* o Affganistan, India, Iran, Iraq, Mecsico, Nepal, Pacistan, De Affrica neu UDA; neu

(c) Solanaceae, Citrus L., Fortunella Swingle, Poncirus Raf., Capsicum spp., Helianthus annuus L., Solanum lycopersicum L., Medicago sativa L., Prunus L., Rubus L., Oryza spp., Zea mays L., Allium ascalonicum L., Allium cepa L., Allium porrum L., Allium schoenoprasum L. neu Phaseolus L.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I58** Atod. 5 para. 2 mewn grym ar 2.11.2018, gweler **ergl. 1(2)**

**3.** Rhannau o blanhigion, ac eithrio ffrwythau neu hadau—

(a) *Castanea* Mill., *Dendranthema* (DC.) Des Moul., *Dianthus* L., *Gypsophilia* L., *Pelargonium* L'Hérit. ex Ait., *Phoenix* spp., *Populus* L., *Quercus* L., *Solidago* L. neu flodau Orchidaceae wedi eu torri;

(b) coed conwydd (Coniferales);

(c) *Acer saccharum* Marsh, sy'n tarddu o UDA neu Ganada;

(d) *Prunus* L., sy'n tarddu o unrhyw wlad y tu allan i Ewrop;

(e) blodau *Aster* spp. wedi eu torri, *Eryngium* L., *Hypericum* L., *Lisianthus* L., *Rosa* L. neu *Trachelium* L., sy'n tarddu o unrhyw wlad y tu allan i Ewrop;

(f) llysiau deiliog Apium graveolens L., Ocimum L., Limnophila L. neu Eryngium L.;

(g) dail Manihot esculenta Crantz;

(h) canghennau *Betula* L. wedi eu torri, gyda deiliant neu heb ddeiliant;

(i) canghennau wedi eu torri *Fraxinus* L., *Juglans ailantifolia* Carr., *Juglans mandshurica* Maxim., *Ulmus davidiana* Planch. neu *Pterocarya rhoifolia* Siebold a Zucc., gyda deiliant neu heb ddeiliant, sy'n tarddu o Ganada, Tsieina, Gweriniaeth Ddemocrataidd Pobl Korea, Japan, Mongolia, Gweriniaeth Korea, Rwsia, Taiwan neu UDA; neu

(j) *Amyris* P. Browne, *Casimiroa* La Llave, *Citropsis* Swingle a Kellerman, *Eremocitrus* Swingle, *Esenbeckia* Kunth., *Glycosmis* Corrêa, *Merrillia* Swingle, *Naringi* Adans., *Tetradium* Lour., *Toddalia* Juss. neu *Zanthoxylum* L.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I59** Atod. 5 para. 3 mewn grym ar 2.11.2018, gweler **ergl. 1(2)**

**4.** Rhannau o blanhigion, ac eithrio ffrwythau ond gan gynnwys hadau, *Aegle* Corrêa, *Aeglopsis* Swingle, *Afraegle* Engl., *Atalantia* Corrêa, *Balsamocitrus* Stapf, *Burkillanthus* Swingle, *Calodendrum* Thunb., *Choisya* Kunth, *Clausena* Burm. f., *Limonia* L., *Microcitrus* Swingle, *Murraya* J. Koenig ex L., *Pamburus* Swingle, *Severinia* Ten., *Swinglea* Merr., *Triphasia* Lour neu *Vepris* Comm.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I60** Atod. 5 para. 4 mewn grym ar 2.11.2018, gweler **ergl. 1(2)**

**5.** Ffrwythau—

(a) Citrus L., Fortunella Swingle, Poncirus Raf., Microcitrus Swingle, Naringi Adans., Swinglea Merr., Momordica L., Solanum lycopersicum L. neu Solanum melongena L.;

(b) *Annona* L., *Cydonia* Mill., *Diospyros* L., *Malus* Mill., *Mangifera* L., *Passiflora* L., *Prunus* L., *Psidium* L., *Pyrus* L., *Ribes* L., *Syzygium* Gaertn. neu *Vaccinium* L., sy'n tarddu o unrhyw wlad y tu allan i Ewrop;

(c) Capsicum L.;

(d) *Punica granatum* L., sy'n tarddu o unrhyw wlad ar gyfandir Affrica, Cape Verde, Saint Helena, Madagasgar, La Reunion, Mauritius neu Israel.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I61** Atod. 5 para. 5 mewn grym ar 2.11.2018, gweler **ergl. 1(2)**

**6.** Cloron Solanum tuberosum L.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I62** Atod. 5 para. 6 mewn grym ar 2.11.2018, gweler **ergl. 1(2)**

**7.** Pridd neu gyfrwng tyfu sydd ar ffurf, yn gyfan gwbl neu'n rhannol, pridd neu sylweddau organig solet megis rhannau o blanhigion neu hwmws, gan gynnwys mawn neu risgl, ac eithrio cyfrwng tyfu sydd ar ffurf mawn yn gyfan gwbl.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I63** Atod. 5 para. 7 mewn grym ar 2.11.2018, gweler **ergl. 1(2)**

**8.** Pridd neu gyfrwng tyfu sy'n gysylltiedig â phlanhigion, neu yr ymddengys iddo fod mewn cysylltiad â phlanhigion, sydd ar ffurf, yn gyfan gwbl neu'n rhannol, deunydd a bennir ym mharagraff 7 neu sydd ar ffurf, yn rhannol, unrhyw sylweddau anorganig solet, a fwriedir i gynnal bywiogrwydd planhigion, sy'n tarddu o—

(a) Belarws, Georgia, Moldofa, Rwsia, Twrci neu'r Ukrain; neu

(b) unrhyw wlad y tu allan i Ewrop, ac eithrio Algeria, yr Aifft, Israel, Libya, Moroco neu Tunisia.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I64** Atod. 5 para. 8 mewn grym ar 2.11.2018, gweler **ergl. 1(2)**

**9.** Grawn o'r genera *Triticum*, *Secale* neu *X Triticosecale* sy'n tarddu o Affganistan, India, Iran, Irac, Mecsico, Nepal, Pacistan, De Affrica neu UDA.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I65** Atod. 5 para. 9 mewn grym ar 2.11.2018, gweler **ergl. 1(2)**

**10.** Planhigion sy'n dueddol o gael plâu neu glefydau o fewn ystyr Erthygl 1(2) o Benderfyniad 2002/757/EC sy'n tarddu o UDA.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I66** Atod. 5 para. 10 mewn grym ar 2.11.2018, gweler **ergl. 1(2)**

**11.** Planhigion sy'n dueddol o gael plâu neu glefydau o fewn ystyr Erthygl 1(b) o Benderfyniad 2007/365/EC.

**Gwybodaeth Cychwyn**
**I67** Atod. 5 para. 11 mewn grym ar 2.11.2018, gweler **ergl. 1(2)**

**12.** Hadau neu gonau, y bwriedir eu defnyddio ar gyfer lluosogi, o'r genera neu rywogaethau y cyfeirir atynt yn Erthygl 1(2) o Benderfyniad 2007/433/EC.

**Gwybodaeth Cychwyn**
**I68** Atod. 5 para. 12 mewn grym ar 2.11.2018, gweler **ergl. 1(2)**

**13.** Paill byw *Actinidia* Lindl.

**Gwybodaeth Cychwyn**
**I69** Atod. 5 para. 13 mewn grym ar 2.11.2018, gweler **ergl. 1(2)**

**14.** Planhigion, ac eithrio hadau, *Mangifera* L. sy'n tarddu o India.

**Gwybodaeth Cychwyn**
**I70** Atod. 5 para. 14 mewn grym ar 2.11.2018, gweler **ergl. 1(2)**

**15.** Rhannau o blanhigion, gan gynnwys hadau, *Fraxinus* L.

**Gwybodaeth Cychwyn**
**I71** Atod. 5 para. 15 mewn grym ar 2.11.2018, gweler **ergl. 1(2)**

## RHAN B

### Deunydd perthnasol, os bwriedir iddo fynd i barthau gwarchod penodol, na chaniateir iddo gael ei lanio onid yw tystysgrif ffytoiechydol yn mynd gydag ef

**16.** Planhigion *Beta vulgaris* L. y bwriedir eu defnyddio ar gyfer prosesu diwydiannol.

**Gwybodaeth Cychwyn**
**I72** Atod. 5 para. 16 mewn grym ar 2.11.2018, gweler **ergl. 1(2)**

**17.** Pridd o fetys neu wastraff heb ei sterileiddio o fetys (*Beta vulgaris* L.).

**Gwybodaeth Cychwyn**
**I73** Atod. 5 para. 17 mewn grym ar 2.11.2018, gweler **ergl. 1(2)**

**18.** Paill byw ar gyfer peillio *Amelanchier* Med., *Chaenomeles* Lindl., *Cotoneaster* Ehrh., *Crataegus* L., *Cydonia* Mill., *Eriobotrya* Lindl., *Malus* Mill., *Mespilus* L., *Photinia davidiana* (Dcne.) Cardot, *Pyracantha* Roem., *Pyrus* L. neu *Sorbus* L.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I74** Atod. 5 para. 18 mewn grym ar 2.11.2018, gweler **ergl. 1(2)**

**19.** Rhannau o blanhigion, ac eithrio ffrwythau neu hadau, *Amelanchier* Med., *Chaenomeles* Lindl., *Cotoneaster* Ehrh., *Crataegus* L., *Cydonia* Mill., *Eriobotrya* Lindl., *Malus* Mill., *Mespilus* L., *Photinia davidiana* (Dcne.) Cardot, *Pyracantha* Roem., *Pyrus* L. neu *Sorbus* L.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I75** Atod. 5 para. 19 mewn grym ar 2.11.2018, gweler **ergl. 1(2)**

**20.** Hadau Castanea Mill., Dolichos Jacq., Magnifera spp., Beta vulgaris L. neu Phaseolus vulgaris L.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I76** Atod. 5 para. 20 mewn grym ar 2.11.2018, gweler **ergl. 1(2)**

**21.** Hadau neu ffrwythau (hadlestri) *Gossypium* spp. neu gotwm heb ei heislanu.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I77** Atod. 5 para. 21 mewn grym ar 2.11.2018, gweler **ergl. 1(2)**

**22.** Ffrwythau *Vitis* L.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I78** Atod. 5 para. 22 mewn grym ar 2.11.2018, gweler **ergl. 1(2)**

**23.** Rhannau o blanhigion *Eucalyptus* L'Hérit.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I79** Atod. 5 para. 23 mewn grym ar 2.11.2018, gweler **ergl. 1(2)**

## ATODLEN 6

Erthyglau 21(1) i (4) a 23(1)

Gwaharddiadau ar gyflwyno deunydd perthnasol i Gymru neu ei symud o fewn Cymru heb basbort planhigion

## RHAN A

### Deunydd perthnasol na chaniateir iddo gael ei lanio yng Nghymru na'i symud o fewn Cymru onid yw pasbort planhigion yn mynd gydag ef

**1.** Planhigion, ac eithrio hadau, *Amelanchier* Med., *Chaenomeles* Lindl., *Cotoneaster* Ehrh., *Crataegus* L., *Cydonia* Mill., *Eriobotrya* Lindl., *Malus* Mill., *Mespilus* L., *Photinia davidiana* (Dcne.) Cardot, *Prunus* L., ac eithrio *Prunus laurocerasus* L. neu *Prunus lusitanica* L., *Pyracantha* Roem., *Pyrus* L. neu *Sorbus* L., a fwriedir ar gyfer eu plannu.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I80** Atod. 6 para. 1 mewn grym ar 2.11.2018, gweler **ergl. 1(2)**

**2.** Planhigion, ac eithrio hadau, *Beta vulgaris* L. neu *Humulus lupulus* L., a fwriedir ar gyfer eu plannu.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I81** Atod. 6 para. 2 mewn grym ar 2.11.2018, gweler **ergl. 1(2)**

**3.** Planhigion o rywogaethau *Solanum* L., sy'n ffurfio stolon neu gloron, a fwriedir ar gyfer eu plannu.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I82** Atod. 6 para. 3 mewn grym ar 2.11.2018, gweler **ergl. 1(2)**

**4.** Planhigion, ac eithrio ffrwythau neu hadau, *Choisya* Kunth, *Fortunella* Swingle, *Poncirus* Raf., *Casimiroa* La Llave, *Clausena* Burm. f., *Murraya* J. Koenig ex L., *Vepris* Comm., *Zanthoxylum* L. neu *Vitis* L.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I83** Atod. 6 para. 4 mewn grym ar 2.11.2018, gweler **ergl. 1(2)**

**5.** Planhigion, ac eithrio ffrwythau neu hadau, *Citrus* L.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I84** Atod. 6 para. 5 mewn grym ar 2.11.2018, gweler **ergl. 1(2)**

**6.** Ffrwythau *Citrus* L., *Fortunella* Swingle neu *Poncirus* Raf., gyda dail a phedynclau.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I85** Atod. 6 para. 6 mewn grym ar 2.11.2018, gweler **ergl. 1(2)**

**7.** Y planhigion a ganlyn a gynhyrchwyd gan gynhyrchwyr y mae cynhyrchu a gwerthu'r planhigion hynny wedi eu hawdurdodi i bersonau sy'n ymwneud â chynhyrchu planhigion wrth fasnachu neu gynnal busnes, ac eithrio planhigion a baratowyd ac sy'n barod i'w gwerthu i'r defnyddiwr terfynol, ac a gynhyrchwyd ar wahân i gynhyrchion eraill o dan oruchwyliaeth corff cyfrifol swyddogol y wlad sy'n traddodi—

(a) planhigion, ac eithrio hadau, a fwriedir ar gyfer eu plannu, o'r genera *Abies* Mill., *Apium graveolens* L. *Argyranthemum* spp., *Asparagus officinalis* L., *Aster* spp., *Brassica* spp., *Castanea* Mill., *Cucumis* spp., *Dendranthema* (DC.) Des Moul., *Dianthus* L., *Exacum* spp., *Fragaria* L., *Gerbera* Cass., *Gypsophilia* L, pob rhywogaeth o hybridau Guinea Newydd o *Impatiens* L., *Lactuca* spp., *Larix* Mill., *Leucanthemum* L., *Lupinus* L., *Pelargonium* L'Hérit. ex Ait., *Picea* A. Dietr., *Pinus* L., *Platanus* L., *Populus* L., *Prunus laurocerasus* L., *Prunus lusitanica* L., *Pseudotsuga* Carr., *Quercus* L., *Rubus* L., *Spinacia* L., *Tanacetum* L., *Tsuga* Carr., *Ulmus* L., *Verbena* L. neu blanhigion eraill rhywogaethau llysieuol, ac eithrio planhigion o'r teulu Gramineae, a fwriedir ar gyfer eu plannu, neu fylbiau, cormau, rhisomau, hadau neu gloron;

(b) planhigion Solanaceae, ac eithrio hadau neu'r rheini a bennir ym mharagraff 3, a fwriedir ar gyfer eu plannu;

(c) planhigion Araceae, Marantaceae, Musaceae, *Persea* spp. neu Strelitziaceae, sydd â gwreiddiau neu sy'n gysylltiedig â chyfrwng tyfu neu yr ymddengys iddynt fod mewn cysylltiad â chyfrwng tyfu;

(d) planhigion Palmae, a fwriedir ar gyfer eu plannu, y mae diamedr bôn y coesyn yn fwy na 5cm ac sy'n perthyn i'r genera a ganlyn: *Brahea* Mart, *Butia* Becc., *Chamaerops* L., *Jubaea* Kunth, *Livistona* R. Br., *Phoenix* L., *Sabal* Adans., *Syragrus* Mart., *Trachycarpus* H. Wendl., *Trithrinax* Mart. neu *Washingtonia* Raf.;

(e) hadau neu fylbiau *Allium ascalonicum* L., *Allium cepa* L. neu *Allium schoenoprasum* L., a fwriedir ar gyfer eu plannu; planhigion *Allium porrum* L. a fwriedir ar gyfer eu plannu; neu hadau *Medicago sativa* L., *Helianthus annuus* L, *Solanum lycopersicum* L. neu *Phaseolus* L.;

(f) bylbiau, cormau, cloron neu risomau, a fwriedir ar gyfer eu plannu, *Camassia* Lindl., *Chionodoxa* Boiss., *Crocus flavus* Weston "Golden Yellow", *Dahlia* spp., *Galanthus* L., *Galtonia candicans* (Baker) Decne., cyltifarau bychain y genws *Gladiolus* Tourn. ex. L. (megis *Gladiolus callianthus* Marais, *Gladiolus colvillei* Sweet, *Gladiolus nanus* hort., *Gladiolus ramosus* hort. neu *Gladiolus tubergenii* hort.), *Hyacinthus* L., *Iris* L., *Ismene* Herbert, *Lilium* spp., *Muscari* Miller, *Narcissus* L., *Ornithogalum* L., *Puschkinia* Adams, *Scilla* L., *Tigridia* Juss. neu *Tulipa* L.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I86** Atod. 6 para. 7 mewn grym ar 2.11.2018, gweler **ergl. 1(2)**

**8.** Planhigion sy'n dueddol o gael plâu neu glefydau o fewn ystyr Erthygl 1(2) o Benderfyniad 2002/757/EC sy'n tarddu o UDA.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I87** Atod. 6 para. 8 mewn grym ar 2.11.2018, gweler **ergl. 1(2)**

**9.** Planhigion, ac eithrio hadau, a fwriedir ar gyfer eu plannu, *Viburnum* spp., *Camellia* spp., *Rhododendron* spp., ac eithrio *Rhododendron simsii* Planch, sy'n tarddu o unrhyw drydedd wlad ac eithrio UDA, neu o'r Undeb Ewropeaidd.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I88** Atod. 6 para. 9 mewn grym ar 2.11.2018, gweler **ergl. 1(2)**

**10.** Planhigion sy'n dueddol o gael plâu neu glefydau o fewn ystyr Erthygl 1(b) o Benderfyniad 2007/365/EC.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I89** Atod. 6 para. 10 mewn grym ar 2.11.2018, gweler **ergl. 1(2)**

**11.** Planhigion penodedig o fewn ystyr Erthygl 1(2) o Benderfyniad 2007/433/EC.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I90** Atod. 6 para. 11 mewn grym ar 2.11.2018, gweler **ergl. 1(2)**

**12.** Planhigion penodedig o fewn ystyr Erthygl 1(a) o Benderfyniad 2012/138/EU sy'n tarddu o drydedd wlad lle y gwyddys bod *Anoplophora chinensis* (Forster) yn bresennol neu sy'n tarddu o ardal a sefydlwyd yn unol ag Erthygl 6 o'r Penderfyniad hwnnw, neu a gyflwynwyd i ardal o'r fath.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I91** Atod. 6 para. 12 mewn grym ar 2.11.2018, gweler **ergl. 1(2)**

**13.** Cloron *Solanum tuberosum* L., gan gynnwys y rheini a fwriedir ar gyfer eu plannu, sy'n tarddu o drydedd wlad lle y gwyddys bod *Epitrix cucumeris* (Harris), *Epitrix similaris* (Gentner), *Epitrix subcrinita* (Lec.) neu *Epitrix tuberis* (Gentner) yn bresennol neu o ardal a sefydlwyd yn unol ag Erthygl 5 o Benderfyniad 2012/270/EU.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I92** Atod. 6 para. 13 mewn grym ar 2.11.2018, gweler **ergl. 1(2)**

**14.** Planhigion, ac eithrio hadau, a fwriedir ar gyfer eu plannu, na allant ond tyfu mewn dŵr neu bridd sydd wedi ei drwytho â dŵr yn barhaol ac sy'n tarddu o ardal a sefydlwyd yn unol ag Erthygl 5 o Benderfyniad 2012/697/EU.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I93** Atod. 6 para. 14 mewn grym ar 2.11.2018, gweler **ergl. 1(2)**

**15.** Paill byw neu blanhigion a fwriedir ar gyfer eu plannu, ac eithrio hadau, *Actinidia* Lindl.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I94** Atod. 6 para. 15 mewn grym ar 2.11.2018, gweler **ergl. 1(2)**

**16.** Planhigion tarddiol cyn-sylfaenol fel y'u diffinnir yn Erthygl 1(3) o Gyfarwyddeb Gweithredu'r Comisiwn 2014/98/EU neu ddeunydd cyn-sylfaenol fel y'i diffinnir yn Erthygl 2(5) o Gyfarwyddeb y Cyngor 200/90EC—

(a) sy'n perthyn i'r rhywogaethau Juglans regia L., Olea europaea L., Prunus amygdalus Batsch, P. amygdalus x P. persica, P. armeniaca L., P. avium (L.) L., P. cerasus L., P. domestica L., P. domestica x P. salicina, P. dulcis (Mill.) D.A. Webb, P. persica (L.) Batsch, neu P. salicina Lindley:

(b) a dyfwyd y tu allan i ardal a sefydlwyd yn unol ag Erthygl 4 o Benderfyniad (EU) 2015/789; ac

(c) sydd wedi treulio o leiaf ran o'u bywyd y tu allan i gyfleusterau sy'n ddiogel rhag pryfed.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I95** Atod. 6 para. 16 mewn grym ar 2.11.2018, gweler **ergl. 1(2)**

**17.** Planhigion penodedig o fewn ystyr Erthygl 1(c) o Benderfyniad (EU) 2015/789 sydd wedi eu tyfu am o leiaf ran o'u bywyd mewn ardal a sefydlwyd yn unol ag Erthygl 4 o'r Penderfyniad hwnnw neu blanhigion cynhaliol *Xylella* o fewn ystyr Erthygl 1(b) o'r Penderfyniad hwnnw nad ydynt erioed wedi cael eu tyfu mewn ardal o'r fath.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I96** Atod. 6 para. 17 mewn grym ar 2.11.2018, gweler **ergl. 1(2)**

**18.** Planhigion penodedig o fewn ystyr Erthygl 1(a) o Benderfyniad (EU) 2015/893 sy'n tarddu o drydedd wlad lle y gwyddys bod *Anoplophora glabripennis* (Motschulsky) yn bresennol neu sy'n tarddu o fan cynhyrchu a sefydlwyd yn unol ag Erthygl 7 o'r Penderfyniad hwnnw, neu a gyflwynwyd i fan cynhyrchu o'r fath.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I97** Atod. 6 para. 18 mewn grym ar 2.11.2018, gweler **ergl. 1(2)**

**19.** Planhigion *Fraxinus* L., a fwriedir ar gyfer eu plannu.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I98** Atod. 6 para. 19 mewn grym ar 2.11.2018, gweler **ergl. 1(2)**

# RHAN B

## Deunydd perthnasol na chaniateir ei lanio yng Nghymru na'i symud o fewn Cymru onid yw pasbort planhigion yn mynd gydag ef sy'n ddilys i Gymru fel parth gwarchod

**20.** Planhigion, ac eithrio hadau, *Platanus* L., *Prunus* L., *Quercus* spp., ac eithrio *Quercus suber*, neu *Ulmus* L., a fwriedir ar gyfer eu plannu.

**Gwybodaeth Cychwyn**
**I99** Atod. 6 para. 20 mewn grym ar 2.11.2018, gweler **ergl. 1(2)**

**21.** Planhigion, ac eithrio ffrwythau, *Castanea* Mill.

**Gwybodaeth Cychwyn**
**I100** Atod. 6 para. 21 mewn grym ar 2.11.2018, gweler **ergl. 1(2)**

**22.** Planhigion Palmae, a fwriedir ar gyfer eu plannu, y mae diamedr bôn y coesyn yn fwy na 5 cm ac sy'n perthyn i'r tacsonau a ganlyn: *Areca catechu* L., *Arenga pinnata* (Wurmb) Merr., *Bismarckia* Hildebr. a H. Wendl., *Borassus flabellifer* L., *Brahea* Mart., *Butia* Becc., *Calamus merrillii* Becc., *Caryota maxima* Blume, *Caryota cumingii* Lodd. *ex* Mart., *Chamaerops* L., *Cocos nucifera* L., *Copernicia* Mart., *Corypha utan* Lam., *Elaeis guineenis* Jacq., *Howea forsteriana* Becc., *Jubae* Kunth, *Livistona* R. Br., *Metroxylon sagu* Rottb., *Phoenix* L., *Pritchardia* Seem. a H. Wendl., *Ravenea rivularis* Jum. a H. Perrier, *Roystonea regia* (Kunth) O.F. Cook, *Sabal* Adans., *Syagrus* Mart., *Trachycarpus* H. Wendl., *Trithrinax* Mart. neu *Washingtonia* Raf.

**Gwybodaeth Cychwyn**
**I101** Atod. 6 para. 22 mewn grym ar 2.11.2018, gweler **ergl. 1(2)**

**23.** Planhigion *Pinus* L.

**Gwybodaeth Cychwyn**
**I102** Atod. 6 para. 23 mewn grym ar 2.11.2018, gweler **ergl. 1(2)**

**24.** Hadau *Castanea* Mill.

**Gwybodaeth Cychwyn**
**I103** Atod. 6 para. 24 mewn grym ar 2.11.2018, gweler **ergl. 1(2)**

**25.** Y planhigion a ganlyn a gynhyrchwyd gan gynhyrchwyr y mae cynhyrchu a gwerthu'r planhigion hynny wedi eu hawdurdodi i bersonau sy'n ymwneud â chynhyrchu planhigion wrth fasnachu neu gynnal busnes, ac eithrio planhigion a baratowyd ac sy'n barod i'w gwerthu i'r defnyddiwr terfynol, ac a gynhyrchwyd ar wahân i gynhyrchion eraill o dan oruchwyliaeth corff cyfrifol swyddogol y wlad sy'n traddodi—

(a) planhigion, ac eithrio cormau, hadau neu gloron, *Begonia* L., a fwriedir ar gyfer eu plannu; neu

(b) planhigion, ac eithrio hadau, *Dipladenia* A.DC., *Euphorbia pulcherrima* Willd., *Ficus* L., *Hibiscus* L., *Mandevilla* Lindl. neu *Nerium* oleander L., a fwriedir ar gyfer eu plannu.

**Gwybodaeth Cychwyn**
**I104** Atod. 6 para. 25 mewn grym ar 2.11.2018, gweler **ergl. 1(2)**

ATODLEN 7

Erthygl 21(5) a (6)

Gwaharddiadau ar draddodi deunydd perthnasol i ran arall o'r Undeb Ewropeaidd heb basbort planhigion

# RHAN A

## Deunydd perthnasol na chaniateir iddo gael ei draddodi i ran arall o'r Undeb Ewropeaidd onid yw pasbort planhigion yn mynd gydag ef

**1.** Planhigion, ac eithrio hadau, *Amelanchier* Med., *Chaenomeles* Lindl., *Cotoneaster* Ehrh., *Crataegus* L., *Cydonia* Mill., *Eriobotrya* Lindl., *Malus* Mill., *Mespilus* L., *Photinia davidiana* (Dcne.) Cardot, *Prunus* L., ac eithrio *Prunus laurocerasus* L. neu *Prunus lusitanica* L., *Pyracantha* Roem., *Pyrus* L. neu *Sorbus* L., a fwriedir ar gyfer eu plannu.

**Gwybodaeth Cychwyn**
**I105** Atod. 7 para. 1 mewn grym ar 2.11.2018, gweler **ergl. 1(2)**

**2.** Planhigion, ac eithrio hadau, *Beta vulgaris* L. neu *Humulus lupulus* L., a fwriedir ar gyfer eu plannu.

**Gwybodaeth Cychwyn**
**I106** Atod. 7 para. 2 mewn grym ar 2.11.2018, gweler **ergl. 1(2)**

**3.** Planhigion o rywogaethau *Solanum* L., sy'n ffurfio stolon neu gloron, a fwriedir ar gyfer eu plannu.

**Gwybodaeth Cychwyn**
**I107** Atod. 7 para. 3 mewn grym ar 2.11.2018, gweler **ergl. 1(2)**

**4.** Planhigion, ac eithrio ffrwythau neu hadau, *Choisya* Kunth, *Fortunella* Swingle, *Poncirus* Raf., *Casimiroa* La Llave, *Clausena* Burm. f., *Murraya* J. Koenig ex L., *Vepris* Comm., *Zanthoxylum* L. neu *Vitis* L.

**Gwybodaeth Cychwyn**
**I108** Atod. 7 para. 4 mewn grym ar 2.11.2018, gweler **ergl. 1(2)**

**5.** Planhigion, ac eithrio ffrwythau neu hadau, *Citrus* L.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I109** Atod. 7 para. 5 mewn grym ar 2.11.2018, gweler **ergl. 1(2)**

**6.** Ffrwythau *Citrus* L., *Fortunella* Swingle, *Poncirus* Raf., gyda dail a phedynclau.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I110** Atod. 7 para. 6 mewn grym ar 2.11.2018, gweler **ergl. 1(2)**

**7.** Y planhigion a ganlyn a gynhyrchwyd gan gynhyrchwyr y mae cynhyrchu a gwerthu'r planhigion hynny wedi eu hawdurdodi i bersonau sy'n ymwneud â chynhyrchu planhigion wrth fasnachu neu gynnal busnes, ac eithrio planhigion a baratowyd ac sy'n barod i'w gwerthu i'r defnyddiwr terfynol, ac a gynhyrchwyd ar wahân i gynhyrchion eraill o dan oruchwyliaeth corff cyfrifol swyddogol y wlad sy'n traddodi—

(a) planhigion, ac eithrio hadau, a fwriedir ar gyfer eu plannu, o'r genera *Abies* Mill., *Apium graveolens* L. *Argyranthemum* spp., *Asparagus officinalis* L., *Aster* spp., *Brassica* spp., *Castanea* Mill., *Cucumis* spp., *Dendranthema* (DC.) Des Moul., *Dianthus* L., *Exacum* spp., *Fragaria* L., *Gerbera* Cass., *Gypsophilia* L, pob rhywogaeth o hybridau Guinea Newydd *Impatiens* L., *Lactuca* spp., *Larix* Mill., *Leucanthemum* L., *Lupinus* L., *Pelargonium* L'Hérit. ex Ait., *Picea* A. Dietr., *Pinus* L., *Platanus* L., *Populus* L., *Prunus laurocerasus* L., *Prunus lusitanica* L., *Pseudotsuga* Carr., *Quercus* L., *Rubus* L., *Spinacia* L., *Tanacetum* L., *Tsuga* Carr., *Ulmus* L., *Verbena* L. neu blanhigion eraill rhywogaethau llysieuol, ac eithrio planhigion o'r teulu Gramineae, a fwriedir ar gyfer eu plannu, neu fylbiau, cormau, rhisomau, hadau neu gloron;

(b) planhigion Solanaceae, ac eithrio hadau neu'r rheini a bennir ym mharagraff 3, a fwriedir ar gyfer eu plannu;

(c) planhigion Araceae, Marantaceae, Musaceae, *Persea* spp. neu Strelitziaceae, sydd â gwreiddiau neu sy'n gysylltiedig â chyfrwng tyfu neu yr ymddengys iddynt fod mewn cysylltiad â chyfrwng tyfu;

(d) planhigion Palmae, a fwriedir ar gyfer eu plannu, y mae diamedr bôn y coesyn yn fwy na 5 cm ac sy'n perthyn i'r genera a ganlyn: *Brahea* Mart, *Butia* Becc., *Chamaerops* L., *Jubaea* Kunth, *Livistona* R. Br., *Phoenix* L., *Sabal* Adans., *Syragrus* Mart., *Trachycarpus* H. Wendl., *Trithrinax* Mart. neu *Washingtonia* Raf.;

(e) hadau neu fylbiau *Allium ascalonicum* L., *Allium cepa* L. neu *Allium schoenoprasum* L., a fwriedir ar gyfer eu plannu; planhigion *Allium porrum* L. a fwriedir ar gyfer eu plannu; neu hadau *Medicago sativa* L., *Helianthus annuus* L, *Solanum lycopersicum* L. neu *Phaseolus* L.; neu

(f) bylbiau, cormau, cloron neu risomau, a fwriedir ar gyfer eu plannu, *Camassia* Lindl., *Chionodoxa* Boiss., *Crocus flavus* Weston "Golden Yellow", *Dahlia* spp., *Galanthus* L., *Galtonia candicans* (Baker) Decne., cyltifarau bychain y genws *Gladiolus* Tourn. ex. L. (megis *Gladiolus callianthus* Marais, *Gladiolus colvillei* Sweet, *Gladiolus nanus* hort., *Gladiolus ramosus* hort. neu *Gladiolus tubergenii* hort.), *Hyacinthus* L., *Iris* L., *Ismene* Herbert, *Lilium* spp., *Muscari* Miller, *Narcissus* L., *Ornithogalum* L., *Puschkinia* Adams, *Scilla* L., *Tigridia* Juss. neu *Tulipa* L.

**Gwybodaeth Cychwyn**
**I111** Atod. 7 para. 7 mewn grym ar 2.11.2018, gweler **ergl. 1(2)**

**8.** Planhigion sy'n dueddol o gael plâu neu glefydau o fewn ystyr Erthygl 1(2) o Benderfyniad 2002/757/EC sy'n tarddu o UDA.

**Gwybodaeth Cychwyn**
**I112** Atod. 7 para. 8 mewn grym ar 2.11.2018, gweler **ergl. 1(2)**

**9.** Planhigion, ac eithrio hadau, a fwriedir ar gyfer eu plannu, *Viburnum* spp., *Camellia* spp., *Rhododendron* spp., ac eithrio *Rhododendron simsii* Planch, sy'n tarddu o unrhyw drydedd wlad ac eithrio UDA, neu o'r Undeb Ewropeaidd.

**Gwybodaeth Cychwyn**
**I113** Atod. 7 para. 9 mewn grym ar 2.11.2018, gweler **ergl. 1(2)**

**10.** Planhigion sy'n dueddol o gael plâu neu glefydau o fewn ystyr Erthygl 1(b) o Benderfyniad 2007/365/EC.

**Gwybodaeth Cychwyn**
**I114** Atod. 7 para. 10 mewn grym ar 2.11.2018, gweler **ergl. 1(2)**

**11.** Planhigion penodedig o fewn ystyr Erthygl 1(2) o Benderfyniad 2007/433/EC.

**Gwybodaeth Cychwyn**
**I115** Atod. 7 para. 11 mewn grym ar 2.11.2018, gweler **ergl. 1(2)**

**12.** Planhigion penodedig o fewn ystyr Erthygl 1(a) o Benderfyniad 2012/138/EU sy'n tarddu o drydedd wlad lle y gwyddys bod *Anoplophora chinensis* (Forster) yn bresennol neu sy'n tarddu o ardal a sefydlwyd yn unol ag Erthygl 6 o'r Penderfyniad hwnnw, neu a gyflwynwyd i ardal o'r fath.

**Gwybodaeth Cychwyn**
**I116** Atod. 7 para. 12 mewn grym ar 2.11.2018, gweler **ergl. 1(2)**

**13.** Cloron *Solanum tuberosum* L., gan gynnwys y rheini a fwriedir ar gyfer eu plannu, sy'n tarddu o drydedd wlad lle y gwyddys bod *Epitrix cucumeris* (Harris), *Epitrix similaris* (Gentner), *Epitrix subcrinita* (Lec.) neu *Epitrix tuberis* (Gentner) yn bresennol neu mewn ardal a sefydlwyd yn unol ag Erthygl 5 o Benderfyniad 2012/270/EU.

**Gwybodaeth Cychwyn**
**I117** Atod. 7 para. 13 mewn grym ar 2.11.2018, gweler **ergl. 1(2)**

**14.** Planhigion, ac eithrio hadau, a fwriedir ar gyfer eu plannu, na allant ond tyfu mewn dŵr neu bridd sydd wedi ei drwytho â dŵr yn barhaol, ac sy'n tarddu o ardal a sefydlwyd yn unol ag Erthygl 5 o Benderfyniad 2012/697/EU.

**Gwybodaeth Cychwyn**
**I118** Atod. 7 para. 14 mewn grym ar 2.11.2018, gweler **ergl. 1(2)**

**15.** Paill byw neu blanhigion a fwriedir ar gyfer eu plannu, ac eithrio hadau, *Actinidia* Lindl.

**Gwybodaeth Cychwyn**
**I119** Atod. 7 para. 15 mewn grym ar 2.11.2018, gweler **ergl. 1(2)**

**16.** Planhigion tarddiol cyn-sylfaenol fel y'u diffinnir yn Erthygl 1(3) o Gyfarwyddeb Gweithredu'r Comisiwn 2014/98/EU neu ddeunydd cyn-sylfaenol fel y'i diffinnir yn Erthygl 2(5) o Gyfarwyddeb y Cyngor 2008/90/EC—

(a) sy'n perthyn i'r rhywogaethau Juglans regia L., Olea europaea L., Prunus amygdalus Batsch, P. amygdalus x P. persica, P. armeniaca L., P. avium (L.) L., P. cerasus L., P. domestica L., P. domestica x P. salicina, P. dulcis (Mill.) D.A. Webb, P. persica (L.) Batsch, neu P. salicina Lindley:

(b) a dyfwyd y tu allan i ardal a sefydlwyd yn unol ag Erthygl 4 o Benderfyniad (EU) 2015/789; ac

(c) sydd wedi treulio o leiaf ran o'u bywyd y tu allan i gyfleusterau sy'n ddiogel rhag pryfed.

**Gwybodaeth Cychwyn**
**I120** Atod. 7 para. 16 mewn grym ar 2.11.2018, gweler **ergl. 1(2)**

**17.** Planhigion penodedig o fewn ystyr Erthygl 1(c) o Benderfyniad (EU) 2015/789 sydd wedi eu tyfu am o leiaf ran o'u bywyd mewn ardal a sefydlwyd yn unol ag Erthygl 4 o'r Penderfyniad hwnnw neu blanhigion cynhaliol *Xylella* o fewn ystyr Erthygl 1(b) o'r Penderfyniad hwnnw nad ydynt erioed wedi cael eu tyfu mewn ardal o'r fath.

**Gwybodaeth Cychwyn**
**I121** Atod. 7 para. 17 mewn grym ar 2.11.2018, gweler **ergl. 1(2)**

**18.** Planhigion penodedig o fewn ystyr Erthygl 1(a) o Benderfyniad (EU) 2015/893 sy'n tarddu o drydedd wlad lle y gwyddys bod *Anoplophora glabripennis* (Motschulsky) yn bresennol neu sy'n tarddu o ardal a sefydlwyd yn unol ag Erthygl 7 o'r Penderfyniad hwnnw, neu a gyflwynwyd i ardal o'r fath.

**Gwybodaeth Cychwyn**
**I122** Atod. 7 para. 18 mewn grym ar 2.11.2018, gweler **ergl. 1(2)**

**19.** Planhigion *Fraxinus* L., a fwriedir ar gyfer eu plannu.

**Gwybodaeth Cychwyn**
**I123** Atod. 7 para. 19 mewn grym ar 2.11.2018, gweler **ergl. 1(2)**

## RHAN B

### Deunydd perthnasol na chaniateir iddo gael ei draddodi i barth gwarchod mewn rhan arall o'r Undeb Ewropeaidd ond gan basbort planhigion sy'n ddilys ar gyfer y parth gwarchod hwnnw

**20.** Planhigion *Abies* Mill., *Larix* Mill., *Picea* A. Dietr., *Pinus* L. neu *Pseudotsuga* Carr.

**Gwybodaeth Cychwyn**
**I124** Atod. 7 para. 20 mewn grym ar 2.11.2018, gweler **ergl. 1(2)**

**21.** Planhigion, ac eithrio hadau, *Beta vulgaris* L., *Platanus* L., *Populus* L., *Prunus* L., *Quercus* spp., ac eithrio *Quercus suber*, neu *Ulmus* L., a fwriedir ar gyfer eu plannu.

**Gwybodaeth Cychwyn**
**I125** Atod. 7 para. 21 mewn grym ar 2.11.2018, gweler **ergl. 1(2)**

**22.** Planhigion, ac eithrio ffrwythau neu hadau, *Amelanchier* Med., *Castanea* Mill., *Chaenomeles* Lindl., *Cotoneaster* Ehrh., *Crataegus* L., *Cydonia* Mill., *Eriobotrya* Lindl., *Eucalyptus* L'Hérit, *Malus* Mill., *Mespilus* L., *Photinia davidiana* (Dcne.) Cardot, *Pyracantha Roem*., *Pyrus* L., *Sorbus* L. neu *Vitis* L.

**Gwybodaeth Cychwyn**
**I126** Atod. 7 para. 22 mewn grym ar 2.11.2018, gweler **ergl. 1(2)**

**23.** Planhigion Palmae, a fwriedir ar gyfer eu plannu, y mae diamedr bôn y coesyn yn fwy na 5 cm ac sy'n perthyn i'r tacsonau a ganlyn: *Areca catechu* L., *Arenga pinnata* (Wurmb) Merr., *Bismarckia* Hildebr. a H. Wendl., *Borassus flabellifer* L., *Brahea* Mart., *Butia* Becc., *Calamus merrillii* Becc., *Caryota maxima* Blume, *Caryota cumingii* Lodd. ex Mart., *Chamaerops* L., *Cocos nucifera* L., *Copernicia* Mart., *Corypha utan* Lam., *Elaeis guineenis* Jacq., *Howea forsteriana* Becc., *Jubae* Kunth, *Livistona* R. Br., *Metroxylon sagu* Rottb., *Phoenix* L., *Pritchardia* Seem. a H. Wendl., *Ravenea rivularis* Jum. a H. Perrier, *Roystonea regia* (Kunth) O.F. Cook, *Sabal* Adans., *Syagrus* Mart., *Trachycarpus* H. Wendl., *Trithrinax* Mart. neu *Washingtonia* Raf.

**Gwybodaeth Cychwyn**
**I127** Atod. 7 para. 23 mewn grym ar 2.11.2018, gweler **ergl. 1(2)**

**24.** Paill byw ar gyfer peillio *Amelanchier* Med., *Chaenomeles* Lindl., *Cotoneaster* Ehrh., *Crataegus* L., *Cydonia* Mill., *Eriobotrya* Lindl., *Malus* Mill., *Mespilus* L., *Photinia davidiana* (Dcne.) Cardot, *Pyracantha* Roem., *Pyrus* L. neu *Sorbus* L.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I128** Atod. 7 para. 24 mewn grym ar 2.11.2018, gweler **ergl. 1(2)**

**25.** Cloron *Solanum tuberosum* L. a fwriedir ar gyfer eu plannu.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I129** Atod. 7 para. 25 mewn grym ar 2.11.2018, gweler **ergl. 1(2)**

**26.** Planhigion *Beta vulgaris* L. y bwriedir eu defnyddio ar gyfer prosesu diwydiannol.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I130** Atod. 7 para. 26 mewn grym ar 2.11.2018, gweler **ergl. 1(2)**

**27.** Pridd o fetys neu wastraff heb ei sterileiddio o fetys (*Beta vulgaris* L.).

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I131** Atod. 7 para. 27 mewn grym ar 2.11.2018, gweler **ergl. 1(2)**

**28.** Hadau Beta vulgaris L., Castanea Mill., Dolichos Jacq., Gossypium spp. neu Phaseolus vulgaris L.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I132** Atod. 7 para. 28 mewn grym ar 2.11.2018, gweler **ergl. 1(2)**

**29.** Ffrwythau (hadlestri) *Gossypium* spp. neu gotwm heb ei heislanu neu ffrwythau *Vitis* L.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I133** Atod. 7 para. 29 mewn grym ar 2.11.2018, gweler **ergl. 1(2)**

**30.** Y planhigion a ganlyn a gynhyrchwyd gan gynhyrchwyr y mae cynhyrchu a gwerthu'r planhigion hynny wedi eu hawdurdodi i bersonau sy'n ymwneud â chynhyrchu planhigion wrth fasnachu neu gynnal busnes, ac eithrio planhigion a baratowyd ac sy'n barod i'w gwerthu i'r defnyddiwr terfynol, ac a gynhyrchwyd ar wahân i gynhyrchion eraill dan oruchwyliaeth corff cyfrifol swyddogol y wlad sy'n traddodi—

(a) planhigion, ac eithrio cormau, hadau neu gloron, *Begonia* L., a fwriedir ar gyfer eu plannu; neu

(b) planhigion, ac eithrio hadau, *Dipladenia* A.DC., *Euphorbia pulcherrima* Willd., *Ficus* L., *Hibiscus* L., *Mandevilla* Lindl. neu *Nerium* oleander L., a fwriedir ar gyfer eu plannu.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I134** Atod. 7 para. 30 mewn grym ar 2.11.2018, gweler **ergl. 1(2)**

ATODLEN 8

Erthyglau 2(1) a 30

Pasbortau planhigion y Swistir

# RHAN A

## Deunydd perthnasol sy'n tarddu o'r Swistir y caniateir ei lanio yng Nghymru neu ei symud o fewn Cymru os yw pasbort planhigion y Swistir yn mynd gydag ef

**1.** Planhigion, ac eithrio hadau, Amelanchier Med., Beta vulgaris L., Chaenomeles Lindl., Crataegus L., Cydonia Mill., Eriobotrya Lindl., Humulus lupulus L., Malus Mill., Mespilus L., Prunus L., ac eithrio Prunus laurocerasus L. neu Prunus lusitanica L., Pyracantha Roem., Pyrus L. neu Sorbus L., a fwriedir ar gyfer eu plannu.

**Gwybodaeth Cychwyn**
**I135** Atod. 8 para. 1 mewn grym ar 2.11.2018, gweler **ergl. 1(2)**

**2.** Planhigion o rywogaethau stolonog neu glorog *Solanum* L. a fwriedir ar gyfer eu plannu.

**Gwybodaeth Cychwyn**
**I136** Atod. 8 para. 2 mewn grym ar 2.11.2018, gweler **ergl. 1(2)**

**3.** Planhigion, ac eithrio ffrwythau neu hadau, *Citrus* L., *Fortunella* Swingle, *Poncirus* Raf., *Casimiroa* La Llave, *Clausena* Burm.f., *Vepris* Comm., *Zanthoxylum* L. neu *Vitis* L.

**Gwybodaeth Cychwyn**
**I137** Atod. 8 para. 3 mewn grym ar 2.11.2018, gweler **ergl. 1(2)**

**4.** Ffrwythau *Citrus* L., *Fortunella* Swingle, *Poncirus* Raf., gyda dail a phedynclau.

**Gwybodaeth Cychwyn**
**I138** Atod. 8 para. 4 mewn grym ar 2.11.2018, gweler **ergl. 1(2)**

**5.** Y planhigion a ganlyn a gynhyrchwyd gan gynhyrchwyr y mae cynhyrchu a gwerthu'r planhigion hynny wedi eu hawdurdodi i bersonau sy'n ymwneud â chynhyrchu planhigion wrth fasnachu neu gynnal busnes, ac eithrio planhigion a baratowyd ac sy'n barod i'w gwerthu i'r defnyddiwr terfynol, ac y mae'n amlwg eu bod wedi eu cynhyrchu ar wahân i gynhyrchion eraill, fel a warentir gan berson a awdurdodir gan ddeddfwriaeth y Swistir i roi gwarant o'r fath—

(a) planhigion, ac eithrio hadau, a fwriedir ar gyfer eu plannu, o'r genera *Abies* Mill., *Apium graveolens* L., *Argyanthemum* spp., *Asparagus officinalis* L., *Aster* spp., *Brassica* spp., *Castanea* Mill., *Cucumis* spp., *Dendranthema* (DC.) Des Moul., *Dianthus* L., *Exacum* spp., *Fragaria* L., *Gerbera* Cass., *Gypsophilia* L, pob rhywogaeth o hybridau Guinea Newydd *Impatiens* L., *Lactuca* spp., *Larix* Mill., *Leucanthemum* L., *Lupinus* L., *Pelargonium* L'Hérit. ex Ait., *Picea* A. Dietr., *Pinus* L., *Platanus* L., *Populus* L., *Prunus laurocerasus* L., *Prunus lusitanica* L., *Pseudotsuga* Carr., *Quercus* L., *Rubus* L., *Spinacia*

L., *Tanacetum* L., *Tsuga* Carr., *Verbena* L. neu blanhigion eraill rhywogaethau llysieuol, ac eithrio planhigion o'r teulu Gramineae neu fylbiau, cormau, rhisomau, neu gloron;

(b) planhigion, ac eithrio hadau, Solanaceae, ac eithrio'r planhigion hynny y cyfeirir atynt ym mharagraff 2, a fwriedir ar gyfer eu plannu;

(c) planhigion Araceae, Marantaceae, Musaceae, *Persea* spp. neu Strelitziaceae, sydd â gwreiddiau neu sy'n gysylltiedig â chyfrwng tyfu neu yr ymddengys iddynt fod mewn cysylltiad â chyfrwng tyfu;

(d) planhigion Palmae, a fwriedir ar gyfer eu plannu, y mae diamedr bôn y coesyn yn fwy na 5 cm ac sy'n perthyn i'r genera neu'r rhywogaethau a ganlyn: *Brahea* Mart., *Butia* Becc., *Chamaerops* L., *Jubaea* Kunth., *Livistona* R.Br., *Phoenix* L., *Sabal* Adans., *Syragrus* Mart., *Trachycarpus* H. Wendl., *Trithrinax* Mart. neu *Washingtonia* Raf.;

(e) hadau neu fylbiau, a fwriedir ar gyfer eu plannu, Allium ascalonicum L., Allium cepa L., Allium schoenoprasum L., Helianthus annuus L., Medicago sativa L., Solanum lycopersicum L. neu Phaseolus L.;

(f) planhigion *Allium porrum* L. a fwriedir ar gyfer eu plannu; neu

(g) bylbiau, cormau, cloron neu risomau a fwriedir ar gyfer eu plannu, *Camassia* Lindl., *Chionodoxa* Boiss., *Crocus flavus* Weston "Golden Yellow", *Dahlia* spp., *Galanthus* L., *Galtonia candicans* (Baker) Decne., cyltifarau bychain y genws *Gladiolus* Tourn. ex. L. (megis *Gladiolus callianthus* Marais, *Gladiolus colvillei* Sweet, *Gladiolus nanus* hort., *Gladiolus ramosus* hort. neu *Gladiolus tubergenii* hort.), *Hyacinthus* L., *Iris* L., *Ismene* Herbert, *Lilium* spp., *Muscari* Miller, *Narcissus* L., *Ornithogalum* L., *Puschkinia* Adams, *Scilla* L., *Tigridia* Juss. neu *Tulipa* L.

**Gwybodaeth Cychwyn**
**I139** Atod. 8 para. 5 mewn grym ar 2.11.2018, gweler **ergl. 1(2)**

# RHAN B

## Deunydd perthnasol a gafodd ei fewnforio i'r Swistir o drydedd wlad arall, pe bai caniatâd i'w lanio yng Nghymru fel arfer pe bai tystysgrif ffytoiechydol yn mynd gydag ef, y caniateir i basbort planhigion y Swistir fynd gydag ef neu y caniateir ei lanio heb ddogfennaeth ffytoiechydol

**6.** Planhigion, ac eithrio hadau, a fwriedir ar gyfer eu plannu.

**Gwybodaeth Cychwyn**
**I140** Atod. 8 para. 6 mewn grym ar 2.11.2018, gweler **ergl. 1(2)**

**7.** Hadau Cruciferae, Gramineae neu *Trifolium* spp. sy'n tarddu o'r Ariannin, Awstralia, Bolivia, Chile, Seland Newydd neu Uruguay.

**Gwybodaeth Cychwyn**
**I141** Atod. 8 para. 7 mewn grym ar 2.11.2018, gweler **ergl. 1(2)**

**8.** Hadau Allium ascalonicum L., Allium cepa L., Allium porrum L., Allium schoenoprasum L., Capsicum spp., Helianthus annuus L., Solanum lycopersicum L., Medicago sativa L., Phaseolus L., Prunus L., Rubus L., Oryza spp. neu Zea mays L.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I142** Atod. 8 para. 8 mewn grym ar 2.11.2018, gweler **ergl. 1(2)**

**9.** Hadau *Citrus* L., *Fortunella* Swingle neu *Poncirus* Raf.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I143** Atod. 8 para. 9 mewn grym ar 2.11.2018, gweler **ergl. 1(2)**

**10.** Hadau *Triticum, Secale* neu *X Triticosecale,* sy'n tarddu o Affganistan, India, Iran, Irac, Mecsico, Nepal, Pacistan, De Affrica neu UDA.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I144** Atod. 8 para. 10 mewn grym ar 2.11.2018, gweler **ergl. 1(2)**

**11.** Rhannau o blanhigion, ac eithrio ffrwythau neu hadau—

(a) llysiau deiliog Apium graveolens L., Eryngium L., Limnophila L. neu Ocimum L.;

(b) blodau *Aster* spp. wedi eu torri, *Eryngium* L., *Hypericum* L., *Lisianthus* L., *Rosa* L. neu *Trachelium* L., sy'n tarddu o unrhyw wlad y tu allan i Ewrop, neu flodau Orchidaceae wedi eu torri;

(c) *Acer saccharum* Marsh, sy'n tarddu o Ganada neu UDA;

(d) *Castanea* Mill., coed conwydd (Coniferales), *Dendranthema* (DC.) Des Moul., *Dianthus* L., *Gypsophila* L., *Pelargonium* L'Hérit. ex Ait., *Phoenix* spp., *Populus* L., *Quercus* L. neu *Solidago* L.

(e) *Prunus* L. sy'n tarddu o unrhyw wlad y tu allan i Ewrop;

(f) dail Manihot esculenta Crantz;

(g) canghennau *Betula* L. wedi eu torri, gyda deiliant neu heb ddeiliant;

(h) canghennau *Fraxinus* L. wedi eu torri, *Juglans ailantifolia* Carr., *Juglans mandshurica* Maxim., *Ulmus davidiana* Planch. neu *Pterocarya rhoifolia* Siebold a Zucc., gyda deiliant neu heb ddeiliant, sy'n tarddu o Ganada, Tsieina, Gweriniaeth Ddemocrataidd Pobl Korea, Japan, Mongolia, Gweriniaeth Korea, Rwsia, Taiwan neu UDA;

(i) *Amiris* P. Browne, *Casimiroa* La Llave, *Citropsis* Swingle a Kellerman, *Eremocitrus* Swingle, *Esenbeckia* Kunth., *Glycosmis* Corrêa, *Merrillia* Swingle, *Naringi* Adans., *Tetradium* Lour., *Toddalia* Juss. neu *Zanthoxylum* L.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I145** Atod. 8 para. 11 mewn grym ar 2.11.2018, gweler **ergl. 1(2)**

**12.** Rhannau o blanhigion, ac eithrio ffrwythau ond gan gynnwys hadau, *Aegle* Corrêa, *Aeglopsis* Swingle, *Afraegle* Engl., *Atalantia* Corrêa, *Balsamocitrus* Stapf, *Burkillanthus* Swingle, *Calodendrum* Thunb., *Choisya* Kunth, *Clausena* Burm. f., *Limonia* L., *Microcitrus* Swingle,

*Murraya* J. Koenig ex L., *Pamburus* Swingle, *Severinia* Ten., *Swinglea* Merr., *Triphasia* Lour. neu *Vepris* Comm.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I146** Atod. 8 para. 12 mewn grym ar 2.11.2018, gweler **ergl. 1(2)**

**13.** Ffrwythau—

(a) Citrus L., Fortunella Swingle, Poncirus Raf., Momordica L. neu Solanum melongena L.;

(b) *Annona* L., *Cydonia* Mill., *Diospyros* L., *Malus* Mill., *Mangifera* L., *Passiflora* L., *Prunus* L., *Psidium* L., *Pyrus* L., *Ribes* L., *Syzygium* Gaertn., neu *Vaccinium* L., sy'n tarddu o unrhyw drydedd wlad y tu allan i Ewrop;

(c) Capsicum L.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I147** Atod. 8 para. 13 mewn grym ar 2.11.2018, gweler **ergl. 1(2)**

**14.** Cloron Solanum tuberosum L.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I148** Atod. 8 para. 14 mewn grym ar 2.11.2018, gweler **ergl. 1(2)**

**15.** Pridd neu gyfrwng tyfu sydd ar ffurf, yn gyfan gwbl neu'n rhannol, pridd neu sylweddau organig solet megis rhannau o blanhigion neu hwmws, gan gynnwys mawn neu risgl, ac eithrio cyfrwng tyfu sydd ar ffurf mawn yn gyfan gwbl.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I149** Atod. 8 para. 15 mewn grym ar 2.11.2018, gweler **ergl. 1(2)**

**16.** Pridd neu gyfrwng tyfu sy'n gysylltiedig â phlanhigion, neu yr ymddengys iddo fod mewn cysylltiad â phlanhigion, sydd ar ffurf, yn gyfan gwbl neu'n rhannol, deunydd a bennir ym mharagraff 15 neu sydd ar ffurf, yn rhannol, unrhyw sylweddau anorganig solet, a fwriedir i gynnal bywiogrwydd planhigion, sy'n tarddu o—

(a) Belarws, Georgia, Moldofa, Rwsia, Twrci neu'r Ukrain; neu

(b) unrhyw wlad y tu allan i Ewrop, ac eithrio Algeria, yr Aifft, Israel, Libya, Moroco neu Tunisia.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I150** Atod. 8 para. 16 mewn grym ar 2.11.2018, gweler **ergl. 1(2)**

**17.** Grawn o'r genera *Triticum, Secale* neu *X Triticosecale,* sy'n tarddu o Affganistan, India, Iran, Irac, Mecsico, Nepal, Pacistan, De Affrica neu UDA.

**Gwybodaeth Cychwyn**
**I151** Atod. 8 para. 17 mewn grym ar 2.11.2018, gweler **ergl. 1(2)**

ATODLEN 9 — Erthygl 2(1)

Y gofynion o ran pasbortau planhigion

# RHAN A

## Y gofynion o ran pasbortau planhigion ar gyfer unrhyw ddeunydd perthnasol yn Atodlen 6 neu 7

**1.** Caniateir ond dyrannu pasbort planhigion mewn cysylltiad â deunydd perthnasol a fu'n destun arolygiad boddhaol yn y man y'i cynhyrchwyd.

**Gwybodaeth Cychwyn**
**I152** Atod. 9 para. 1 mewn grym ar 2.11.2018, gweler **ergl. 1(2)**

**2.** Rhaid i basbort planhigion fod ar ffurf—

(a) label swyddogol sy'n cynnwys o leiaf fanylion y pasbort planhigion a bennir ym mharagraff 4(a) i (e); a

(b) dogfen o fath a ddefnyddir fel arfer at ddibenion masnach sy'n cynnwys holl fanylion y pasbort planhigion a bennir ym mharagraff 4.

**Gwybodaeth Cychwyn**
**I153** Atod. 9 para. 2 mewn grym ar 2.11.2018, gweler **ergl. 1(2)**

**3.** Ond pan fo'r pasbort planhigion yn ymwneud ag unrhyw ddeunydd perthnasol y cyfeirir ato yn Rhan B, caiff y pasbort planhigion fod ar ffurf label swyddogol sy'n cynnwys manylion y pasbort planhigion a bennir ym mharagraff 4 ac unrhyw wybodaeth arall sy'n ofynnol o dan Ran B.

**Gwybodaeth Cychwyn**
**I154** Atod. 9 para. 3 mewn grym ar 2.11.2018, gweler **ergl. 1(2)**

**4.** Mae manylion y pasbort planhigion fel a ganlyn—

(a) y teitl "EU-plant passport";

(b) y cod ar gyfer yr Aelod-wladwriaeth lle y dyroddwyd y pasbort planhigion;

(c) enw neu god corff swyddogol cyfrifol yr Aelod-wladwriaeth lle y dyroddwyd y pasbort planhigion;

(d) rhif cofrestru'r cynhyrchydd, y mewnforiwr neu berson arall sydd wedi ei awdurdodi i ddyroddi'r pasbort planhigion neu'r sawl y dyroddwyd y pasbort planhigion iddynt;

(e) rhif wythnos y dyddiad yr atodwyd y pasbort planhigion i'r deunydd perthnasol, neu rif cyfresol neu rif swp sy'n fodd o adnabod y deunydd hwnnw;

(f) enw botanegol Lladin y deunydd perthnasol y mae'r pasbort planhigion yn ymwneud ag ef;

(g) nifer y deunydd perthnasol y mae'r pasbort planhigion yn ymwneud â hwy (nifer y planhigion, y cynhyrchion planhigion, cyfaint neu bwysau);

(h) pan fo'r deunydd perthnasol yn bodloni'r gofynion ar gyfer parth gwarchod, y nod "ZP" a'r cod ar gyfer y parth gwarchod;

(i) yn achos pasbort planhigion amnewid, y nod "RP" a, phan fo'n briodol, god ar gyfer y cynhyrchydd neu'r mewnforiwr a awdurdodwyd i ddyroddi'r pasbort planhigion gwreiddiol neu'r sawl y dyroddwyd y pasbort planhigion iddynt;

(j) yn achos deunydd perthnasol sy'n tarddu o drydedd wlad, enw'r wlad y mae'r deunydd yn tarddu ohoni neu (os yw'n briodol), y wlad y traddodwyd y deunydd ohoni i Gymru.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I155** Atod. 9 para. 4 mewn grym ar 2.11.2018, gweler **ergl. 1(2)**

**5.** O ran label swyddogol—

(a) ni chaiff fod wedi ei ddefnyddio'n flaenorol;

(b) rhaid iddo fod wedi ei wneud o ddeunydd sy'n addas at ei ddiben; ac

(c) yn achos label gludiog, rhaid iddo fod ar ffurf a gymeradwyir at ddefnydd fel label swyddogol gan—

(i) yn achos pasbortau planhigion a ddyroddir yng Nghymru, Gweinidogion Cymru;

(ii) yn achos pasbortau planhigion a ddyroddir mewn mannau eraill yn yr Undeb Ewropeaidd, y corff swyddogol cyfrifol sydd â chyfrifoldeb mewn perthynas â dyroddi pasbortau planhigion yn y rhan berthnasol o'r Undeb Ewropeaidd.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I156** Atod. 9 para. 5 mewn grym ar 2.11.2018, gweler **ergl. 1(2)**

**6.**—(1) Rhaid i'r wybodaeth sydd wedi ei chynnwys mewn pasbort planhigion—

(a) bod mewn o leiaf un o ieithoedd swyddogol yr Undeb Ewropeaidd;

(b) bod wedi ei hargraffu, ac eithrio pan na fo'n rhesymol ymarferol gwneud hynny.

(2) Pan fo'r wybodaeth wedi ei hargraffu, rhaid iddi fod wedi ei hargraffu mewn priflythrennau.

(3) Pan na fo'r wybodaeth wedi ei hargraffu, rhaid iddi fod wedi ei nodi mewn teipysgrif neu ei hysgrifennu mewn priflythrennau.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I157** Atod. 9 para. 6 mewn grym ar 2.11.2018, gweler **ergl. 1(2)**

**7.** Caiff dogfen ychwanegol o fath y cyfeirir ato ym mharagraff 2(b) gynnwys yr wybodaeth ychwanegol a bennir ym mharagraff 8 ar yr amod ei fod yn amlwg ar wahân i fanylion y pasbort planhigion sydd wedi eu cynnwys yn y ddogfen.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I158** Atod. 9 para. 7 mewn grym ar 2.11.2018, gweler **ergl. 1(2)**

**8.** Yr wybodaeth ychwanegol yw unrhyw wybodaeth sy'n berthnasol at ddiben labelu'r deunydd perthnasol y mae'n ymwneud ag ef ac a nodir yn—

(a) Erthygl 2(1) o Gyfarwyddeb y Comisiwn 1999/66/EC sy'n nodi'r gofynion o ran y label neu ddogfen arall a gaiff ei llunio gan y cyflenwr yn unol â Chyfarwyddeb y Cyngor 98/56/EC(**35**);

[F3(b) Erthygl 5(2) Gyfarwyddeb Weithredu'r Comisiwn 2014/96/EU ar y gofynion ar gyfer labelu, selio a phecynnu deunydd lluosogi ffrwythau a phlanhigion ffrwythau a fwriedir ar gyfer cynhyrchu ffrwythau sydd o fewn cwmpas Cyfarwyddeb y Cyngor 2008/90/EC;**]**

(c) Erthygl 6(1) o Gyfarwyddeb y Comisiwn 93/61/EEC sy'n nodi'r atodlenni sy'n nodi'r amodau sydd i'w bodloni gan ddeunydd lluosogi a phlannu llysiau, ac eithrio hadau, yn unol â Chyfarwyddeb y Cyngor 92/33/EEC(**36**).

**Diwygiadau Testunol**

**F3** Atod. 9 Rhn. A para. 8(b) wedi eu hamnewid (28.3.2019) gan Rheoliadau Materion Gwledig, yr Amgylchedd, Pysgodfeydd a Bwyd (Diwygiadau a Dirymiadau Amrywiol) (Cymru) 2019 (O.S. 2019/463), rhlau. 1(3), **27**

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I159** Atod. 9 para. 8 mewn grym ar 2.11.2018, gweler **ergl. 1(2)**

# RHAN B

## Y gofynion o ran pasbortau planhigion a ganiateir ar gyfer deunydd perthnasol penodol yn Atodlen 6 neu 7

**9.** Rhaid i label swyddogol sy'n basbort planhigion neu'n rhan o basbort planhigion ac sy'n ymwneud ag unrhyw ddeunydd perthnasol a bennir yn y Rhan hon gydymffurfio â'r gofynion a ganlyn mewn perthynas â'r deunydd hwnnw.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I160** Atod. 9 para. 9 mewn grym ar 2.11.2018, gweler **ergl. 1(2)**

**10.** Rhaid i label swyddogol mewn cysylltiad â chloron *Solanum tuberosum* L. a fwriedir ar gyfer eu plannu—

(a) cydymffurfio â gofynion Erthygl 13(1)(a) o Gyfarwyddeb y Cyngor 2002/56/EC ar farchnata tatws hadyd(**37**);

(b) cynnwys y teitl "EU-plant passport"; ac

(**35**) OJ Rhif L 164, 30.6.1999, t. 76.
(**36**) OJ Rhif L 250, 7.10.1993, t. 19.
(**37**) OJ Rhif L 193, 20.7.2002, t. 60, y mae iddo ddiwygiadau nad ydynt yn berthnasol i'r Gorchymyn hwn.

(c) pan fwriedir y cloron ar gyfer eu traddodi i ran arall o'r Undeb Ewropeaidd, ddarparu tystiolaeth eu bod wedi eu harchwilio yn swyddogol i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r gofynion yn eitem 18.1 o Adran II o Atodiad IV Rhan A.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I161** Atod. 9 para. 10 mewn grym ar 2.11.2018, gweler **ergl. 1(2)**

**11.** Rhaid i label swyddogol mewn cysylltiad â hadau *Helianthus annuus* L.—

(a) cydymffurfio â gofynion Erthygl 12(1)(a) o Gyfarwyddeb y Cyngor 2002/57/EC ar farchnata hadau planhigion olew a ffibr(**38**);

(b) cynnwys y teitl "EU-plant passport"; a

(c) pan fwriedir yr hadau ar gyfer eu traddodi i ran arall o'r Undeb Ewropeaidd, ddarparu tystiolaeth eu bod wedi eu harchwilio yn swyddogol i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r gofynion yn eitem 26 o Adran II o Atodiad IV Rhan A.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I162** Atod. 9 para. 11 mewn grym ar 2.11.2018, gweler **ergl. 1(2)**

**12.** Rhaid i label swyddogol mewn cysylltiad â hadau *Solanum lycopersicum* L.—

(a) cydymffurfio â gofynion Erthygl 28(1)(a) o Gyfarwyddeb y Cyngor 2002/55/EC ar farchnata hadau llysiau(**39**);

(b) cynnwys y teitl "EU-plant passport"; ac

(c) pan fwriedir yr hadau ar gyfer eu traddodi i ran arall o'r Undeb Ewropeaidd, ddarparu tystiolaeth eu bod wedi eu harchwilio yn swyddogol i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r gofynion yn eitem 27 neu 29 o Adran II o Atodiad IV Rhan A.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I163** Atod. 9 para. 12 mewn grym ar 2.11.2018, gweler **ergl. 1(2)**

**13.** Rhaid i label swyddogol mewn cysylltiad â hadau *Medicago sativa* L.—

(a) cydymffurfio â gofynion Erthygl 10(1)(a) o Gyfarwyddeb y Cyngor 66/401/EEC ar farchnata hadau planhigion porthiant(**40**);

(b) cynnwys y teitl "EU-plant passport"; ac

(c) pan fwriedir yr hadau ar gyfer eu traddodi i ran arall o'r Undeb Ewropeaidd, ddarparu tystiolaeth eu bod wedi eu harchwilio yn swyddogol i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r gofynion yn eitemau 28.1 a 28.2 o Adran II o Atodiad IV Rhan A.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I164** Atod. 9 para. 13 mewn grym ar 2.11.2018, gweler **ergl. 1(2)**

(**38**) OJ Rhif L 193, 20.7.2002, t. 74, fel y'i diwygiwyd gan Gyfarwyddeb y Cyngor 2002/68/EU (OJ Rhif L 195, 24.7.2002, t. 32); mae offerynnau diwygio eraill ond nid yw yr un ohonynt yn berthnasol.

(**39**) OJ Rhif L 193, 20.7.2002, t. 33, y mae iddo ddiwygiadau nad ydynt yn berthnasol i'r Gorchymyn hwn.

(**40**) OJ Rhif L 125, 11.7.1966, t. 2298, fel y'i diwygiwyd gan Gyfarwyddeb y Cyngor 96/72/EC (OJ Rhif L 304, 27.11.1996, t. 10); mae offerynnau diwygio eraill ond nid yw yr un ohonynt yn berthnasol.

## ATODLEN 10

Erthygl 2(1)

### Ffurf tystysgrif ffytoiechydol a ffurf tystysgrif ffytoiechydol ar gyfer ailallforio

## RHAN A

### Ffurf tystysgrif ffytoiechydol

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I165** Atod. 10 Rhn. A mewn grym ar 2.11.2018, gweler **ergl. 1(2)**

PHYTOSANITARY CERTIFICATE

**No ………..**

**Plant protection organisation of:……………………………………………………………………**
**To plant protection organisation(s) of: …………………………………………………………**

**I. Description of consignment**

**Name and address of exporter: ………………………………………………………………….**
**Declared name and address of consignee: ………………………………………………………**
**Number and description of packages: …………………………………………………………..**
**Distinguishing marks: ……………………………………………………………………………**
**Place of origin: ……………………………………………………………………………………**
**Declared means of conveyance: …………………………………………………………………..**
**Declared point of entry:………………………………………………………………………….**
**Name of produce and quantity declared: …………………………………………………………**
**Botanical name of plants: ………………………………………………………………………...**

**This is to certify that the plants, plant products or other regulated articles described herein have been inspected and/or tested according to appropriate official procedures and are considered to be free from the quarantine pests specified by the importing contracting party and to conform with the current phytosanitary requirements of the importing contracting party, including those for regulated non-quarantine pests.**

**They are deemed to be practically free from other pests(*).**

**II. Additional declaration**

**III. Disinfestation and/or disinfection treatment**

**Date: …………Treatment: ……………………. Chemical (active ingredient): …………………………**
**Duration and temperature: ……………………………………………………………………………**
**Concentration: ………………………………………………………………………………………**
**Additional information: ……………………………………………………………………………**

**Place of issue: ………………………………………**
**Name of authorised officer: ……………………**
**(Stamp of organisation)** **Date ………………. ……………………..**
**(signature)**

**No financial liability with respect to this certificate attaches to…………………………………………**
**(name of plant protection organisation) or to any of its officers or representatives(*).** (*)
**Optional clause**

# RHAN B

## Ffurf tystysgrif ffytoiechydol ar gyfer ailallforio

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I166** Atod. 10 Rhn. B mewn grym ar 2.11.2018, gweler **ergl. 1(2)**

## PHYTOSANITARY CERTIFICATE FOR RE-EXPORT

**No....................**

**Plant protection organisation of: ............................................(contracting party of re-export)**
**To plant protection organisation(s) of: ............................... (contracting party(ies) of import)**

### I. Description of consignment

**Name and address of exporter: ………………………………………………………………..**
**Declared name and address of consignee:………………………………………………………..**
**Number and description of packages: ………………………………………………………………**
**Distinguishing marks: ……………………………………………………………………………..**
**Place of origin: ……………………………………………………………………………………..**
**Declared means of conveyance: …………………………………………………………………..**
**Declared point of entry:……………………………………………………………………………**
**Name of produce and quantity declared: ………………………………………………………..**
**Botanical name of plants: …………………………………………………………………………**

**This is to certify that the plants, plant products or other regulated articles described above…… were imported into (contracting party of re-export) ............................. from ………………… (contracting party of origin) covered by phytosanitary certificate No ................. . (*) original □ certified true copy □ of which is attached to this certificate; that they are packed □ repacked □ in original □ (*) new □ containers, that based on the original phytosanitary certificate □ and additional inspection □, they are considered to conform with the current phytosanitary requirements of the importing contracting party, and that during storage in ..........(contracting party of re-export), the consignment has not been subjected to the risk of infestation or infection.**

### II. Additional declaration

### III. Disinfestation and/or disinfection treatment

**Date: ..........Treatment: ............................. Chemical (active ingredient):……………………..**
**Duration and temperature: ………………………………………………………………………..**
**Concentration: ……………………………………………………………………………………..**
**Additional information: …………………………………………………………………………..**

**Place of issue: ……………………………………..**
**Name of authorised officer: ……………………..**
**(Stamp of organisation)** **Date: ………………….** **……………………….**
**(signature)**

**No financial liability with respect to this certificate attaches to………………………….. (name of plant protection organisation) or to any of its officers or representatives(**).**
**(*) Insert tick in appropriate □ boxes. (**) Optional clause.**

## ATODLEN 11

Erthygl 6(2)

### Hysbysiad glanio

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I167** Atod. 11 mewn grym ar 2.11.2018, gweler **ergl. 1(2)**

Notice of landing of notifiable relevant material required by article 6(1) of the Plant Health (Wales) Order 2018

1. Details of relevant material ……………………………………………………………………

2. Quantity of relevant material …………………………………………………………………

3. Consignor country ………………………………………………………………………………

4. Country where consigned ………………………………………………………………………

5. Consignor …………………………………………………………………………………………

6. Importer ……………………………………………………………………………………………..

7. Country of destination …………………………………………………………………………..

8. Intended point of entry in Wales ……………………………………………………………..

9. Air: Flight No. ……………………………………………………………………………………..

10. Land: Vehicle registration number ……………………………………………………………..

11. Sea: Vessel name and container number or numbers ……………………………………………

12. Expected date and time of arrival ……………………………………………………………..

13. Additional information (where required) ……………………………………………………..

**Signature of importer or airport or harbour authority**

**Date…………………..**

**(The information contained in the notice must be completed in English and in typescript or block capitals)**

ATODLEN 12

Erthygl 2(1)

Dogfen symud iechyd planhigion

# RHAN A

**1.** Rhaid i'r ddogfen symud iechyd planhigion sy'n ofynnol o dan erthygl 17(6) fod ar y ffurf a nodir yn Rhan B.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I168** Atod. 12 para. 1 mewn grym ar 2.11.2018, gweler **ergl. 1(2)**

**2.** Rhaid i'r wybodaeth a gynhwysir mewn dogfen symud iechyd planhigion fod wedi ei nodi yn o leiaf un o ieithoedd swyddogol yr Undeb Ewropeaidd a rhaid iddi gael ei llenwi—

(a) mewn teipysgrif neu drwy ysgrifennu mewn priflythrennau; neu

(b) gyda chytundeb Gweinidogion Cymru a chorff swyddogol y gyrchfan neu fan cyrraedd, drwy ddulliau electronig.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I169** Atod. 12 para. 2 mewn grym ar 2.11.2018, gweler **ergl. 1(2)**

**3.** Yn Rhan B, mae i “approved place of inspection” yr un ystyr ag a roddir yng Nghyfarwyddeb y Comisiwn 2004/103/EC ar wiriadau adnabod planhigion ac iechyd planhigion, cynnyrch planhigion neu wrthrychau eraill, a restrir yn Rhan B o Atodiad V i Gyfarwyddeb y Cyngor 2000/29/EC, y caniateir eu cyflawni mewn man ac eithrio man cyrraedd y Gymuned neu mewn man gerllaw, ac yn pennu’r amodau sy’n ymwneud â’r gwiriadau hynny(**41**).

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I170** Atod. 12 para. 3 mewn grym ar 2.11.2018, gweler **ergl. 1(2)**

# RHAN B

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I171** Atod. 12 Rhn. B mewn grym ar 2.11.2018, gweler **ergl. 1(2)**

(**41**) OJ Rhif L 313, 12.10.2004, t. 16.

<table>
<tr><td colspan="2">1. Plant health movement document as referred to in Article 1(3)(c) of Commission Directive 2004/103/EC</td><td>**2. PLANT HEALTH MOVEMENT DOCUMENT**<br>**No EU/…/…(1)**</td></tr>
<tr><td colspan="3">3. Identification of consignment(2) — *This consignment contains produce of phytosanitary relevance —*<br>Plant, plant product or other object (Taric code): ………………………………………………………….<br>Reference number(s) of required phytosanitary documentation ………………………………………...<br>Country of issue: ……………………………………………………………………………………….<br>Date of issue: ……………………………………………………………………………………………<br>Distinguishing mark(s), numbers, number of packages, amount (weight/units): ……………………….<br>…………………………………………………………………………………………………………..<br>Reference number(s) of required customs documentation: …………………………………………….</td></tr>
<tr><td colspan="3">4. Official registration number of importer: ………………………………………………………………<br>I, the undersigned importer, hereby request the responsible official body to carry out the official identity checks and plant health checks of the abovementioned plants, plant products or other objects at the approved place of inspection listed below and I undertake to respect the rules and procedures set out by the responsible official body.<br>Date, name and signature of importer: ………………………………………………………………</td></tr>
<tr><td>5.1 Point of entry</td><td colspan="2">5.2 Countersigning by official body of point of entry (date, name, service stamp and signature):<br>…………………………………………………………………<br>…………………………………………………………………</td></tr>
<tr><td colspan="3">6. Place(s) of inspection(3)</td></tr>
<tr><td colspan="2">A- ……………………………...…………………..<br>…………………………………………………..</td><td>B- (replaces A)……………………………………<br>…………………………………………………...</td></tr>
<tr><td colspan="3">The plants, plant products or other objects are moved to the abovementioned place(s) of inspection in accordance with the agreement concluded between(4)<br>…………………………………………………………………………………………………………....</td></tr>
<tr><td colspan="3">**The consignment may not be moved to places other than those listed above unless this has been officially approved.**</td></tr>
<tr><td>7. Documentary check □</td><td>8. Identity check □</td><td>9. Plant health check □</td></tr>
<tr><td>Place/date: ……………………<br>Name: ………………………...</td><td>Place/date: …………………...<br>Name: ……………………….</td><td>Place/date: …………………...<br>Name: ………………………..</td></tr>
<tr><td colspan="3">10. Decision:<br>□ Release Place/date: ……………………………………………………………………………….<br>Name:<br>…………………………………………………………………………………………………………..<br>Service stamp/signature: ……………………………………………………………………………<br>Indicate EU Plant Passport (serial or week or batch) number where appropriate: ………………………<br>□ Official measure<br>□ Refusal of entry □ Destruction</td></tr>
</table>

| |
|---|
| □ Movement outside the Union □ Quarantine period<br>□ Removal of infected/infested produce □ Appropriate treatment<br>Remark: .......................................................................................................... |

(1) Make reference to country code/number.

(2) Fill in box or make reference to information of phytosanitary certificate which must be attached.

(3) Make reference to "C" (Article 13c(2)(d) of Directive 2000/29/EC) or "D" (Article 13c(2)(d) of Directive 2000/29/EC.

(4) When appropriate, give details on agreement between the Member States' official services, either on a case-by-case agreement or on the basis of a longer-term agreement.

## ATODLEN 13

Erthygl 39(3)

### Mesurau arbennig ar gyfer rheoli Clefyd y ddafaden tatws

**1.** Mae llain i'w hystyried yn halogedig at ddibenion yr Atodlen hon os cadarnheir bod Clefyd y ddafaden tatws yn bresennol ar o leiaf un planhigyn o'r llain o ganlyniad i brawf swyddogol.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I172** Atod. 13 para. 1 mewn grym ar 2.11.2018, gweler **ergl. 1(2)**

**2.** Rhaid i arolygydd ddarnodi llain halogedig a pharth diogelwch o amgylch y llain honno sy'n ddigon mawr i sicrhau diogelwch yr ardaloedd oddi amgylch.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I173** Atod. 13 para. 2 mewn grym ar 2.11.2018, gweler **ergl. 1(2)**

**3.** **[**F4Rhaid i arolygydd gyflwyno hysbysiad o dan erthygl 32 sy'n ei gwneud yn ofynnol**]** i unrhyw gloron neu wlydd sy'n bresennol ar lain halogedig neu sydd wedi dod o lain o'r fath gael eu trin mewn modd sy'n sicrhau bod Clefyd y ddafaden tatws sy'n bresennol arnynt yn cael ei ddinistrio.

**Diwygiadau Testunol**

**F4** Geiriau yn Atod. 13 para. 3 wedi eu hamnewid (20.3.2019) gan Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019 (O.S. 2019/674), rhlau. 1(2)(a), **3**

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I174** Atod. 13 para. 3 mewn grym ar 2.11.2018, gweler **ergl. 1(2)**

**4.** Pan fo arolygydd wedi ei fodloni bod unrhyw gloron neu wlydd wedi eu halogi â Chlefyd y ddafaden tatws ac na all yr arolygydd ganfod pa un a fu'r cloron neu'r gwlydd hynny yn bresennol ar lain halogedig, caiff yr arolygydd gyflwyno hysbysiad o dan erthygl 32 sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r swp cyfan sy'n cynnwys y cloron neu'r gwlydd a effeithiwyd gael ei drin mewn modd sy'n sicrhau nad oes unrhyw risg o ledaenu Clefyd y ddafaden tatws.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I175** Atod. 13 para. 4 mewn grym ar 2.11.2018, gweler **ergl. 1(2)**

**5.** Pan fo llain halogedig wedi ei darnodi o dan baragraff 2—

(a) ni chaniateir tyfu unrhyw datws arni; a

(b) ni chaniateir tyfu na storio unrhyw blanhigion y bwriedir eu trawsblannu ar y llain honno, na symud planhigion o'r fath ar y llain honno.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I176** Atod. 13 para. 5 mewn grym ar 2.11.2018, gweler **ergl. 1(2)**

**6.** Ni chaniateir tyfu unrhyw datws mewn parth diogelwch a ddarnodwyd o dan baragraff 2 oni bai bod arolygydd wedi ei fodloni eu bod o rywogaeth sydd ag ymwrthedd i hiliau o Glefyd y ddafaden tatws sy'n bresennol ar y llain halogedig y mae'r parth diogelwch yn ymwneud â hi.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I177** Atod. 13 para. 6 mewn grym ar 2.11.2018, gweler **ergl. 1(2)**

**7.** Mae amrywogaeth datws i'w hystyried yn un sydd ag ymwrthedd i hil benodol o Glefyd y ddafaden tatws at ddibenion paragraff 6 pan fo'r amrywogaeth honno yn ymateb i halogi gan asiant pathogenig o'r hil honno mewn modd sy'n sicrhau nad oes unrhyw berygl o sgil-heintio.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I178** Atod. 13 para. 7 mewn grym ar 2.11.2018, gweler **ergl. 1(2)**

**8.** Pan fo arolygydd wedi ei fodloni nad yw Clefyd y ddafaden tatws yn bresennol mwyach ar lain a ddarnodwyd o dan baragraff 2 neu ar ei pharth diogelwch cysylltiedig, rhaid i'r arolygydd ddirymu'r darnodiad hwnnw.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I179** Atod. 13 para. 8 mewn grym ar 2.11.2018, gweler **ergl. 1(2)**

## ATODLEN 14

Erthygl 39(3)

Mesurau arbennig ar gyfer rheoli poblogaethau Ewropeaidd o Lyngyr tatws

### Dehongli a chymhwyso Atodlen 14

[F5]**1.** . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . .

**Diwygiadau Testunol**

**F5** Atod. 14 para. 1 wedi ei hepgor (20.3.2019) yn rhinwedd Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019 (O.S. 2019/674), rhlau. 1(2)(a), **4(a)**

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I180** Atod. 14 para. 1 mewn grym ar 2.11.2018, gweler **ergl. 1(2)**

[F6**2.** Yn yr Atodlen hon—

ystyr "bylbiau sy'n dueddol o gael plâu neu glefydau" ("*susceptible bulbs*") yw bylbiau, cloron neu risomau, a dyfir mewn pridd ac a fwriedir ar gyfer eu plannu, ac eithrio'r rhai y mae tystiolaeth ar eu deunydd pecynnu, neu drwy ddulliau eraill, eu bod wedi eu bwriadu ar gyfer eu gwerthu i ddefnyddwyr terfynol nad ydynt yn ymwneud â chynhyrchu blodau wedi eu torri yn broffesiynol, *Allium ascalonicum* L., *Allium cepa* L., *Dahlia* spp., *Gladiolus* Tourn. Ex L., *Hyacinthus* spp., *Iris* spp., *Lilium* spp., *Narcissus* L. neu *Tulipa* L.;

ystyr "cae" ("*field*") yw ardal sydd wedi ei ddarnodi yn gae at ddibenion Erthygl 3 o Gyfarwyddeb 2007/33/EC;

ystyr "cae wedi ei heigio" ("*infested field*") yw cae sydd wedi ei gofnodi yn gae wedi ei heigio yn unol â pharagraff 2B;

ystyr "deunydd sy'n dueddol o gael plâu neu glefydau" ("*susceptible material*") yw planhigion cynhaliol, bylbiau sy'n dueddol o gael plâu neu glefydau, neu blanhigion sy'n dueddol o gael plâu neu glefydau;

ystyr "hysbysiad" ("*notice*") yw hysbysiad o dan erthygl 32;

ystyr "planhigion cynhaliol" ("*host plants*") yw planhigion gyda gwreiddiau *Capsicum* spp., *Solanum lycopersicum* L. neu *Solanum melongena* L.;

ystyr "planhigion sy'n dueddol o gael plâu neu glefydau" ("*susceptible plants*") yw planhigion gyda gwreiddiau *Allium porrum* L., *Asparagus officinalis* L., *Beta vulgaris* L., *Brassica* spp. neu *Fragaria* L.;]

**Diwygiadau Testunol**

**F6** Atod. 14 para. 2 wedi eu amnewid (20.3.2019) gan Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019 (O.S. 2019/674), rhlau. 1(2)(a), **4(b)**

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I181** Atod. 14 para. 2 mewn grym ar 2.11.2018, gweler **ergl. 1(2)**

**Diwygiadau Testunol**

**F5** Atod. 14 para. 1 wedi ei hepgor (20.3.2019) yn rhinwedd Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019 (O.S. 2019/674), rhlau. 1(2)(a), **4(a)**

**F6** Atod. 14 para. 2 wedi eu amnewid (20.3.2019) gan Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019 (O.S. 2019/674), rhlau. 1(2)(a), **4(b)**

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I180** Atod. 14 para. 1 mewn grym ar 2.11.2018, gweler **ergl. 1(2)**

**I181** Atod. 14 para. 2 mewn grym ar 2.11.2018, gweler **ergl. 1(2)**

**[F7 Ymchwiliadau swyddogol ac arolygon swyddogol**

**2A.** Rhaid i Weinidogion Cymru sicrhau—

(a) bod ymchwiliadau swyddogol yn cael eu cynnal yn unol ag Erthyglau 4 a 5 o Gyfarwyddeb 2007/33/EC am bresenoldeb Llyngyr tatws mewn caeau lle y mae tatws hadyd neu ddeunydd sy'n dueddol o gael plâu neu glefydau, a fwriedir ar gyfer cynhyrchu planhigion ar gyfer eu plannu, i'w plannu neu eu storio;

(b) bod arolygon swyddogol yn cael eu cynnal yn unol ag Erthygl 6 o Gyfarwyddeb 2007/33/EC am bresenoldeb Llyngyr tatws mewn caeau a ddefnyddir i gynhyrchu tatws, ac eithrio'r rhai a fwriedir ar gyfer cynhyrchu tatws hadyd.

**Diwygiadau Testunol**

**F7** Atod. 14 parau. 2A-2C wedi ei fewnosod (20.3.2019) gan Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019 (O.S. 2019/674), rhlau. 1(2)(a), **4(c)**

**Cofnodion swyddogol**

**2B.** Rhaid i Weinidogion Cymru sicrhau bod canlyniadau pob ymchwiliad swyddogol neu arolwg swyddogol a gynhelir yn unol â pharagraff 2A yn cael eu cofnodi i nodi pa un a ganfuwyd Llyngyr tatws yn y cae yn ystod yr ymchwiliad neu'r arolwg.

**Diwygiadau Testunol**

**F7** Atod. 14 parau. 2A-2C wedi ei fewnosod (20.3.2019) gan Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019 (O.S. 2019/674), rhlau. 1(2)(a), **4(c)**

**2C.** Pan fo'r mesurau a gymeradwywyd yn swyddogol a nodir yn adran 3(C) o Atodiad 3 i Gyfarwyddeb 2007/33/EC wedi eu gweithredu mewn cae a gofnodwyd yn gae sydd wedi ei heigio yn unol â pharagraff 2B ac, yn dilyn cwblhau gweithredu'r mesurau hynny, nad yw presenoldeb Llyngyr tatws yn cael ei gadarnhau, rhaid i Weinidogion Cymru sicrhau bod y cofnod yn cael ei ddiweddaru yn unol â hynny.**]**

**Diwygiadau Testunol**

**F7** Atod. 14 parau. 2A-2C wedi ei fewnosod (20.3.2019) gan Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019 (O.S. 2019/674), rhlau. 1(2)(a), **4(c)**

**Diwygiadau Testunol**

**F7** Atod. 14 parau. 2A-2C wedi ei fewnosod (20.3.2019) gan Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019 (O.S. 2019/674), rhlau. 1(2)(a), **4(c)**

F8 **...**

**3.** Rhaid i arolygydd gyflwyno hysbysiad ysgrifenedig i'r meddiannydd neu berson arall â gofal am **[**F9 gae wedi ei heigio sy'n pennu terfynau'r cae **]**

**Diwygiadau Testunol**

**F9** Geiriau yn Atod. 14 para. 3 wedi eu hamnewid (20.3.2019) gan Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019 (O.S. 2019/674), rhlau. 1(2)(a), **4(d)(ii)**

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I182** Atod. 14 para. 3 mewn grym ar 2.11.2018, gweler **ergl. 1(2)**

**4.** Ni chaniateir tynnu'r hysbysiad yn ôl hyd nes caiff ei gadarnhau, **[**[F10]yn unol â pharagraff 2C**]** nad yw Llyngyr tatws yn bresennol yn y cae mwyach.

**Diwygiadau Testunol**

**F10** Geiriau yn Atod. 14 para. 4 wedi eu amnewid (20.3.2019) gan Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019 (O.S. 2019/674), rhlau. 1(2)(a), **4(e)**

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I183** Atod. 14 para. 4 mewn grym ar 2.11.2018, gweler **ergl. 1(2)**

**Diwygiadau Testunol**

**F8** Atod. 14 para. 3 pennawd wedi ei hepgor (20.3.2019) yn rhinwedd Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019 (O.S. 2019/674), rhlau. 1(2)(a), **4(d)(i)**

**F9** Geiriau yn Atod. 14 para. 3 wedi eu hamnewid (20.3.2019) gan Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019 (O.S. 2019/674), rhlau. 1(2)(a), **4(d)(ii)**

**F10** Geiriau yn Atod. 14 para. 4 wedi eu amnewid (20.3.2019) gan Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019 (O.S. 2019/674), rhlau. 1(2)(a), **4(e)**

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I182** Atod. 14 para. 3 mewn grym ar 2.11.2018, gweler **ergl. 1(2)**

**I183** Atod. 14 para. 4 mewn grym ar 2.11.2018, gweler **ergl. 1(2)**

### [[F11]Dynodiad swyddogol

**4A.** Rhaid i arolygydd, drwy hysbysiad, ddynodi yn halogedig unrhyw datws neu ddeunydd sy'n dueddol o gael plâu neu glefydau sy'n dod o gae sydd wedi ei gofnodi yn swyddogol yn gae sydd wedi ei heigio o dan baragraff 2B neu unrhyw ddeunydd sy'n dueddol o gael plâu neu glefydau sydd wedi bod mewn cyffyrddiad â phridd y canfuwyd Llyngyr tatws ynddo.**]**

**Diwygiadau Testunol**

**F11** Atod. 14 para. 4A wedi ei fewnosod (20.3.2019) gan Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019 (O.S. 2019/674), rhlau. 1(2)(a), **4(f)**

### Gwaharddiad ar blannu tatws

**5.** Oni chaiff ei awdurdodi i wneud hynny gan arolygydd, ni chaiff unrhyw berson—

(a) plannu [F12]... unrhyw datws y bwriedir eu defnyddio i gynhyrchu tatws hadyd **[**[F13]mewn cae wedi ei heigio**]** ; neu

(b) plannu neu storio **[**[F14]unrhyw ddeunydd sy'n dueddol o gael plâu neu glefydau a fwriedir ar gyfer ei blannu mewn cae wedi ei heigio**]** .

**Diwygiadau Testunol**

**F12** Geiriau yn Atod. 14 para. 5(a) wedi eu hepgor (20.3.2019) yn rhinwedd Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019 (O.S. 2019/674), rhlau. 1(2)(a), **4(g)(i)(aa)**

**F13** Geiriau yn Atod. 14 para. 5(a) wedi eu mewnosod (20.3.2019) gan Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019 (O.S. 2019/674), rhlau. 1(2)(a), **4(g)(i)(bb)**

**F14** Geiriau yn Atod. 14 para. 5(b) wedi eu hamnewid (20.3.2019) gan Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019 (O.S. 2019/674), rhlau. 1(2)(a), **4(g)(ii)**

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I184** Atod. 14 para. 5 mewn grym ar 2.11.2018, gweler **ergl. 1(2)**

**6.** Caiff arolygydd awdurdodi plannu **[**[F15]bylbiau sy'n dueddol o gael plâu neu glefydau neu blanhigion sy'n dueddol o gael plâu neu glefydau mewn cae wedi ei heigio**]**.

**Diwygiadau Testunol**

**F15** Geiriau yn Atod. 14 para. 6 wedi eu amnewid (20.3.2019) gan Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019 (O.S. 2019/674), rhlau. 1(2)(a), **4(h)**

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I185** Atod. 14 para. 6 mewn grym ar 2.11.2018, gweler **ergl. 1(2)**

**7.** Rhaid i awdurdodiad o dan baragraff 6 fod drwy hysbysiad a rhaid iddo gynnwys y mesurau a nodir yn Adran III(A) o Atodiad III i Gyfarwyddeb 2007/33/EC.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I186** Atod. 14 para. 7 mewn grym ar 2.11.2018, gweler **ergl. 1(2)**

**Diwygiadau Testunol**

**F12** Geiriau yn Atod. 14 para. 5(a) wedi eu hepgor (20.3.2019) yn rhinwedd Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019 (O.S. 2019/674), rhlau. 1(2)(a), **4(g)(i)(aa)**

**F13** Geiriau yn Atod. 14 para. 5(a) wedi eu mewnosod (20.3.2019) gan Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019 (O.S. 2019/674), rhlau. 1(2)(a), **4(g)(i)(bb)**

**F14** Geiriau yn Atod. 14 para. 5(b) wedi eu hamnewid (20.3.2019) gan Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019 (O.S. 2019/674), rhlau. 1(2)(a), **4(g)(ii)**

**F15** Geiriau yn Atod. 14 para. 6 wedi eu amnewid (20.3.2019) gan Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019 (O.S. 2019/674), rhlau. 1(2)(a), **4(h)**

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I184** Atod. 14 para. 5 mewn grym ar 2.11.2018, gweler **ergl. 1(2)**

**I185** Atod. 14 para. 6 mewn grym ar 2.11.2018, gweler **ergl. 1(2)**

**I186** Atod. 14 para. 7 mewn grym ar 2.11.2018, gweler **ergl. 1(2)**

### Atal Llyngyr tatws

**8.** Ni chaiff unrhyw berson blannu [F16]...unrhyw datws nad ydynt wedi eu bwriadu ar gyfer cynhyrchu tatws hadyd **[**[F17]mewn cae wedi ei heigio oni bai ei fod wedi ei awdurdodi i wneud hynny gan arolygydd**]** .

**Diwygiadau Testunol**

**F16** Geiriau yn Atod. 14 para. 8 wedi eu hepgor (20.3.2019) yn rhinwedd Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019 (O.S. 2019/674), rhlau. 1(2)(a), **4(i)**

**F17** Geiriau yn Atod. 14 para. 8 wedi eu hamnewid (20.3.2019) gan Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019 (O.S. 2019/674), rhlau. 1(2)(a), **4(i)**(ii)

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I187** Atod. 14 para. 8 mewn grym ar 2.11.2018, gweler **ergl. 1(2)**

**[**[F18]**8A.** Rhaid i awdurdodiad o dan baragraff 8 fod drwy hysbysiad ac ni chaniateir ei roi oni bai bod yr arolygydd wedi ei fodloni bod yr holl gamau rhesymol i atal Llyngyr tatws yn y cae hwnnw wedi eu cymryd yn unol â'r rhaglen reolaeth swyddogol a fabwysiadwyd ar gyfer atal Llyngyr tatws.**]**

**Diwygiadau Testunol**

**F18** Atod. 14 para. 8A wedi ei fewnosod (20.3.2019) gan Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019 (O.S. 2019/674), rhlau. 1(2)(a), **4(j)**

**Diwygiadau Testunol**

